



This is a digital copy of a book that was preserved for generations on library shelves before it was carefully scanned by Google as part of a project to make the world's books discoverable online.

It has survived long enough for the copyright to expire and the book to enter the public domain. A public domain book is one that was never subject to copyright or whose legal copyright term has expired. Whether a book is in the public domain may vary country to country. Public domain books are our gateways to the past, representing a wealth of history, culture and knowledge that's often difficult to discover.

Marks, notations and other marginalia present in the original volume will appear in this file - a reminder of this book's long journey from the publisher to a library and finally to you.

Usage guidelines

Google is proud to partner with libraries to digitize public domain materials and make them widely accessible. Public domain books belong to the public and we are merely their custodians. Nevertheless, this work is expensive, so in order to keep providing this resource, we have taken steps to prevent abuse by commercial parties, including placing technical restrictions on automated querying.

We also ask that you:

- + *Make non-commercial use of the files* We designed Google Book Search for use by individuals, and we request that you use these files for personal, non-commercial purposes.
- + *Refrain from automated querying* Do not send automated queries of any sort to Google's system: If you are conducting research on machine translation, optical character recognition or other areas where access to a large amount of text is helpful, please contact us. We encourage the use of public domain materials for these purposes and may be able to help.
- + *Maintain attribution* The Google "watermark" you see on each file is essential for informing people about this project and helping them find additional materials through Google Book Search. Please do not remove it.
- + *Keep it legal* Whatever your use, remember that you are responsible for ensuring that what you are doing is legal. Do not assume that just because we believe a book is in the public domain for users in the United States, that the work is also in the public domain for users in other countries. Whether a book is still in copyright varies from country to country, and we can't offer guidance on whether any specific use of any specific book is allowed. Please do not assume that a book's appearance in Google Book Search means it can be used in any manner anywhere in the world. Copyright infringement liability can be quite severe.


About Google Book Search


Google's mission is to organize the world's information and to make it universally accessible and useful. Google Book Search helps readers discover the world's books while helping authors and publishers reach new audiences. You can search through the full text of this book on the web at <http://books.google.com/>





600077271U





GWINLLAN Y BARDD;

SEF

PRYDYDDWAITH

AR

AMRYWIOL DESTUNAU A GWAHANOL
FESURAU.

GAN Y DIWEDDAR

BARCH. DANIEL EVANS, B.D.

AELOD O GYMDEITHAS COLEG IESU, RHYDYCHAIN,
(DANIEL DDU O GEREDIGION.)



Argraffiad, gydag Ychwanegiad.

LLANBEDR:
ARGRAFFEDIG A CHYHOEDDEDIG GAN J. DAVIS.

—
MDCCCLXXII.

[The Right of Translation and Reproduction is reserved.]

280. j. 340.



I'R

Parch. Thomas Beynon, M.A.

ARCH-DIACON CEREDIGION,

COLOFN SEFYDLOG YR EGLWYS,

PRIF-NODDWR YR AWEN,

A

HAEL GYNNORTHWYWR POB PETH AG SYDD

YN TUEDDU AT ANRHYDEDD

Hen Wlad y Cymro,

A GWELLHAD TYMHOROL AC YSPRYDOL

EI GYD-GENEDL,

Y CYFLWYNIR

Y GWAITH HWN,

FEL ARWYDD O BARCH DIFFUANT,

GAN EI UFUDDAF

WASANAETHYDD,

YR AWDWR.



RHAGY MADRODD.

HYGAR GYDWLADWYR,

WRTH gynnyg fy llafurwaith prydyddol i'ch sylw, deisyfaf eich hynawsedd am bob amherffeithrwydd ag sydd ynddo. Ystyried yr oedranus i mi gyfansoddi rhannau o hono pan yn llangc; a chan fy mod wedi cael fy annog gan fy nghyfeillion i wneuthur Llyfryn cryno o'm holl brydyddwaith, nid oedd modd gwych i adael llawer allan. Nid dichonadwy boddio pawb. Rhai ond odid a'm beiant am ysgrifenu ar destunau digrif; ond gan i'r dwysfyfyrgar a chrefyddol Brydydd Seisnig, Mr. Cowper, ysgrifenu y gerdd lawen honno, John Gilpin, &c.; a chan fod yn arferol gan lawer o brydyddion Seisnig eraill, y rhai a arferant fynychaf ymdrin â thestunau dwysion, adael i'r Awen weithiau ymddifyrru ar destunau digrif, pa fodd y gellir beio ar brydydd Cymreig wrth ddilyn eu hol, hyd ag yr ymgadwo rhag troseddu rheolau gweddeidd-dra? Mae rhai o'm cydgenedl a

alwant ym mron bob cerdd, os na fydd ar destun crefyddol, yn *faswaidd*; wrth yr hwn air y deallir anfoesol. Gwahanol i hyn yw syniadau cenhedloedd gwareiddiedig eraill, y rhai a ymhyfyrdant mewn cerdd ar unrhyw destun diammhur, hyd ag y byddo ynddi syniadau prydyddol ac iaith weddaidd. Y mae gwahaniaeth rhwng cân ddifyrrus a chân faswaidd ac anllad.

O'r blaen nid oedd fy nghyfansoddiadau cyhoeddedig ond ar wasgar yma ac accw; a thalaf ddiolch gwresog i'm cyfeillion am foddio fy Awen mor belled a'i galluogi i weled ei ffrwythau, nid yn wasgaredig ar ganghennau planhigion anhygyrch, ond yn un *Winllan*.

Mewn hwyl dda, llonna, ddarllenydd;—caswaith

Yw ceisio cnoi prydydd:

I Awen deg wnaï 'n ei dydd

Ei goreu na ro gerydd.

Ni elwais y beirddion hoywlan—yn fil

I foli 'm gwaith egwan:

Yn rhyw lun drosto 'i hunan

Llefaru gaiff fy Llyfr gwan.

D. E.

Ebrill 4, 1831.



Y CYNNWYSIAD.

	TUDAL.
Awdl ar Sefydliad Coleg Dewi Sant	1
Agoriad Coleg Dewi Sant	26
Awdl ar Fuddugoliaethau y Groegiaid ar y Tyrciaid	29
Brwydr Navarino	44
Englynion er Cofiant Ifor Hael	47
Cerdd Arwraidd ar y Gauaf	49
Erfyniad am Wlaw	63
Haelioni	64
Molawd Iesu	68
Dwys Fyfyrdod	76
Annerch y Duwdod	79
Dydd y Farn	83
Englynion y Galon	87
Boddlonrwydd	89
Cywydd y Wenynen	91
Trachwant	94
Gobaith	96
Englynion i'r Celwydd	98
Awdl y Gwanwyn	101
Awdl i Anrhydeddus Gymdeithas Cymreigyddion Caerludd	108
Awdl Ymddiffyniad y Beirdd	112
Cywydd y Fesen	116
Cywydd y Claf o Gariad	120
Cais y Dyn Dall	123
Cywydd y Prudd-der	126
Oriau fy Ieuengftid	129

Galar Merch, &c.	131
Cestyll Cymru	134
Y Blaidd a'r Defaid	136
Y Lleuad	140
Atteb i Sillydd ab Gomer	142
Creulonder at Greaduriaid Mudion	144
Tosturi	152
Torriad y Dydd	154
Englynion i Hen Wr, ar Drangcedigaeth ei Wraig	156
Y Fam i'w Maban, yn ol claddu ei Dad	158
Ymddiddan rhwng Ieuan ac Iwan	161
Englynion ar Farwolaeth Iwan	164
Marwnad y Parch. Eliezer Williams, M.A.	165
Englynion ar Farwolaeth Iolo Morganwg	173
Awdl ar Farwolaeth y Parch. John Jenkins, Ceri	176
Golwg ar Gyfwr yr Iuddewon	180
Enllib	190
Mawl i Dduw am ei Drugareddau	192
Bro Marwolaeth	193
Cyfieithad	195
Cristionogaeth	196
Iawn Olwg ar Ddysgeidiaeth	201
Bedd-Argraffiadau	203
Englynion i Ioan Tegyd	207
Englynion i'r Parch. Rice Rees, M.A. o Goleg Dewi Sant	209
Englynion ar achos Priodas D. Jones, Ysw., Caerfyrddin	210
Annerch i'r unrhyw ar Farwolaeth ei Wraig	211
Englyn Iselfrydedd	212
Englyn i'r Cybydd	—
Englyn i Fiwsg	—
Englynion i Bont Llanfihangel	213
Englyn i'r Diwrnod Garw	—
Dau Englyn i Ddydd Sul y Blodau	—
Englyn wrth gyfarfod a Menyw yn cludo Wyau ...	214
Englynion Cyfarchiad y Beirdd	—
Cyfieithad o "Highland Mary"	215
Yr Eneth Ffyddlon	217

Annerch Ymadawol Carwr	219
Na âd fi'n anghof	221
William a Mary	222
Cân y Mab Maeth a elwir Cariad ...	228
Yr achos fod Menyw yn lanach na Gwrryw	232
Falentin	233
Menyw	235
Gwlad fy Ngenedigaeth	237
My Native Land	242
Atteb Tegyd i "Wlad fy Ngenedigaeth"	246
Mis Mai ...	250
Cyfarfod Cyfeillion	252
Clod i Aberystwyth ...	254
Morganwg	255
Englynion i Bont ar Fynach ...	257
Bedd Gelart	259
Y Ddafad ...	262
Pennillion i Siôn y Pannwr	265
Ymddiddangerdd Dewi ac Idwal	266
Cân i'r Cybydd	274
Cywydd y Gloch Ofnadwy, neu'r Wraig Gecrus.....	276
Cân y Gwahoddwr	278
Annerch yr Awdwr i'w Gi	281
Englynion i Hen Wrach Dafodog ...	284
Dyddiau Pysgota ...	285
Englynion i'r Llyfr a elwir 'Rhifyddiaeth yn Rhwyddach'	287
Cwlwm Priodas	290
Clod i Bont Abercerdinen...	291
Pennillion i Filgi o'r enw "Topper"	292
Araeth ac Englynion a draddodwyd ger bron Eisteddfod Aberhonddu, 1822 ...	293
Awdl ar Etholiad yr Awdwr i fod yn Fardd i Anrhydeddus Gymdeithas y Gwyneddigion, Llundain...	300
Englynion a draddodwyd wrth dderbyn Cwppan Arian...	303
Golwg ar yr Yspryd Awenyddol yng Ngheredigion, 1822	305
Y Ferch Syrthiedig ...	308
Hunan-Ymddiddan ar ben Clochdy St. Paul ...	313

Yr Aderyn bach yn gwneyd ei Nyth	314
Annerch i Lygad y Dydd	317
Dyn	319
Cwyn y Caethwas	321
Marwnad Sior y Pedwerydd.....	327
Breintiau'n Gwlad	337
Englynon Bont Newydd Llanbedr	340
Annerch a bendith olaf tad i'w blant	342
Hymn i'w chanu ar ddydd Nadolig Crist	343
Hymn i'w chanu ar ddydd Gwener y Croglith	344
Hymn i'w chanu ar Sul y Pasg	345
Hymn i'w chanu ar y Sulgwyn	346
Hymn Nadolig	347
Hymn i'w chanu ar ol y Cymmunn	348
Hymn ar Gariad Cristionogol	349
Hymn ar Gariad Brawdol	350
Hymn, Anrhydedd Crist	—
Hymn, Cymmysg alar a gorfoledd Pererinion Sion	351
Hymn i'w chanu ar ol Pregeth	352
Hymn, Myfyrdod ar y Nefoedd	353
Hymn ar 2 Tim. iv. 7.	—
Hymn, cyfieithad o "Olney Hymns"	354
Hymn, etto etto	355
Hymn, Dychweliad yr Afradlon	356
Hymn, Erfyniad am gynnorthwy yr Yspryd Glân ...	358
Hymn ar Mat. vi.	359
Hymn, Anniolchgarwch dyn, &c.	361
Hymn ar Salm xc. 12	362
Hymn ar Marc x. 14.	363
Hymn ar Mat. xviii. 3. ...	365
Hymn ar Preg. xii 1.	366
Hymn ar Salm xxxiv. 18.	368
Hymn ar 2 Cor. v. 1.	369
Hymn ar Mat. xxiv. 44. ...	370
Hymn ar y dôn a elwir Waterloo	371
Hymn ar Dat. v. 12.	373
Hymn ar Luc xxiii. 45.	374

Y CYNNWYSIAD.

xi

Hymn ar Ioan vi. 67, 68.	375
Hymn ar 2 Tim. iv. 8.	376
Hymn ar 1 Cor. ii. 9.	377
Hymn ar Salm cxliv. 15.	378
Hymn ar Salm viii. 4. ...	379
Hymn ar Exod. xx. 7.	380
Hymn ar Heb. vi. 9.	382
Hymn, Claddedigaeth y marw	383

ENGLISH PIECES.

Lines in memory of the late Rev. Eliezer Williams	385
Verses on the departure of the Rev. J. Williams.....	387
The Return	389

YCHWANEGIAD.

I'r Haul	393
Llinellau ar Farwolaeth mab Mr. David Owen, (Brutus)	395
Galargerdd ar Farwolaeth y diweddaf Barchedigcaf William Bruce Knight	397
Englynion Cyffes ac Erfyniad y Bardd	402
Englynion i Mr. Jones, Rhydybont, Llangollen	403
Llinellau ar Briodas y Parch. Robert M. P. Williams, M.A.	405
Llinellau i William Griffiths, Tyhen, Llansiliogogo	406
Amynedd, Heb. x. 36.	408
Bedd fy Mhlentyn	412
Rhyfel	414
Er dy Fwyn	416
Bore 'r Briodas	417
Bore Haf	419
Dwy Chwaer ddedwyddaf oeddynt	422
Gorfoledd am gael y cynhauaf adref	424
Annerch i Mr. J. M. Jones, (Ioan Cunllo)	427
Englynion, Coffadwriaeth am Mr. Thomas Green	428
Englynion o ddiolchgarwch i Feirdd Gwynedd	430
Atteb Gwallter Mechain i'r unrhyw... ..	—
Cywydd y Cymmod	431

Atteb Tegid i'r unrhyw	432
Cywydd i Gywyddau y Cymmod	434
Englynion o ddiolchgarwch am Saith o Ffyn	436
Englynion i Lewis Herbert, Rhydyfuddai, Llanarth ...	437
Taith Nick	438
Englynion ar Farwolaeth Reuben Davies	442
Llinellau ar ymadawiad Elizabeth Williams, i America	443
Englynion at Gyfaill wrth ymadael a Chymru	445
Llinellau i Gwenffrwd, yn Eisteddfod Caerdydd	446
Englyn i'r Bardd Cadeiriol, yn Eisteddfod Caerdydd ...	448
Englynion Gair o Gynghor	—
Englynion o glod i Hwsmonaeth y Parch. Rees Davies	449
Cywydd a anfonodd yr Awdwr at Gyfaill	450
Annerch i'r Parch. D. Silvan Evans	—
I Delyn Dewi	451
I Flodau Dyfed	—
Englynion, Cofiant y Parch. D. Davis, Castell-Hywel, &c.	453
Tosturi	—
I'r Gwanwyn	454
Emyn, Salm xviii. 2.	—

BEDD-ARGRAFFIADAU.

I Rieni yr Awdwr	455
Ar gofadail y Parch. Archdiacon Beynon	456
Ar Goronwy Owen	—
I'r Parch. J. Davies Jones, Plas-bach, Ciliau Aeron	—
I John Thomas, Penlôn, gerllaw y Cribin	457
I Evan Jones, Nantygwynfan, ynghyd a dau o'i blant	—
I Samson a Mary Thomas, Beili-cadarn	—
Ar fedd hen Glochydd Llanybyther.	—
Eraill, ar amrywiol achosion	458

ENGLISH AND LATIN PIECES.

Translations from the Welsh	462
Lines	464
Latin	465
Latine Redditum, (Cywydd y Fesen)	466



GWINLLAN Y BARDD.

A W D L

AR SEFYDLIAD COLEG DEWI SANT,

YN AGOS I LANBEDR, CEREDIGION.

Yr hon a ennillodd y Gadair yn Eisteddfod Dyfed, 1823.

CYNNWYSIAD.

GOLWG ar ddyddiau gogoneddus CYMRU, pan y blodeuai y Colegau hyglod—Bangor, Caerlleon, Mynyw, &c., a phan y gallasai hi ymffrostio yn ei Dyfiig, Illtyd, Dewi, Asser, Sulien, Rhyddmarch, &c.—Ystyriaeth ar ei gothrynderau canlynol—Ail fore disglair yn codi—COLEG DEWI yn codi ei ben hyfrydwedd—CYMRU yn cael ei hannerch ar yr achos gogoneddus—Ail Asser, ail Ddewi, ail Sulien, &c., ar ymddangos—Y Celfyddydau a'r Gwybodau yn ymlawenhau—Yr AWEN yn gorfoleddu yn ei nerth adnewyddedig—Ail ORONWY OWEN i'w ddisgwyl—Ieuenctyd Cymru ddim yn hwy dan yr angenheidrwydd o gyrchu tua gwledydd estronol am addysg—Annerch i WYBODAETH, gydag ymgais i ddarlunio ei gweithfawrogrwydd—Yr amgylchiadau perthynol i'r dydd y gosodwyd sylfaen COLEG

DEWI yn cael eu darlunio—Cenhedaethau i ddyfod, yn debygol o hwylio y gân gyda mwy o wresogrwydd i'r Adeilad pan y bo ei effeithiau yn cael eu teimlo—Y Brenin, Esgob Ty-Ddewi, ac ereill, a fuont fwyaf offerynol i ddwyn y'mlaen y Coleg hwn, yn cael eu coffâu yn barchus, fel carwyr ac amgeleddwyr y Cymry—Erfyniad ar Reolwr mawr holl anian i fendithio'r Adeilad, a'i wneuthur yn foddion dedwyddwch presennol a thragywyddol i Genedl y Cymry.

AN OUTLINE OF THE POEM.

CAMBRIA's glorious days reviewed, when the celebrated Colleges of Caerleon, Bangor, Menevia, &c., flourished, and when she could boast of her Dyfrig, Iltyd, Saint David, Asser, Sulien, &c.—Her subsequent disasters briefly noticed—A second bright morn dawning and the clouds dispersing—SAINT DAVID'S COLLEGE rearing its lovely head.—CAMBRIA congratulated on the mighty occasion—Other Assers, other Suliens, about to arise—The Arts and Sciences rejoicing—The humble AWEN exulting in her renovated strength—The Youth of the principality no longer under the necessity of repairing to distant soils for mental improvement—An Address to KNOWLEDGE, with an attempt to describe her advantages—The circumstances attending the memorable day on which the first stone of ST. DAVID'S COLLEGE was laid, recorded—Posterity likely to awake the song in praise of this noble Institution, in higher and loftier strains, when its advantages are felt—The King, the Bishop of St. David's, and others that were most instrumental in the erection of ST. DAVID'S COLLEGE, gratefully acknowledged as the benefactors and friends of Cambria—An invocation to the great Ruler of all things, to bless this Edifice, and to render it the means of present and future happiness to the nation of the Cymry.



A W D L .

AWEN wrawl Aneurin,
Ferch hwylus, felus dy fin,
O dere'n nawdd,—dyro nerth
A doniau i un dinerth,
A annerchai, iawn orchwyl,
Gymru dëg mewn hardd-deg hwyl.

Oriau a dyddiau diddig,
Hefyd troion duon dig,—
Cymmysgedd o hedd a hyll
Oerchwith derfysgoedd erchyll ;
Dyna, hen Walia wiwlwys,
Fu'th ran, fy ngwlad ddifrad ddwys.

O llwydwyd gan drallodion,
A llawer du hell arw dòn
Dy wyneb—oeddid unwaith
Hardd dy wedd mewn mawredd maith.

Y Sylw-nodau a welir yn Saesneg wrth yr Awdl hon, a osodwyd yn Gymraeg ar ddiwedd yr Awdl, er boddhau y Cymro uniath ; a hawdd fydd iddo gyfeirio at yr un ofynol trwy graffu ar y ffiguren o flaen y sylw-nodau Saesneg, canys, ymddengys yr un ffiguren o flaen y rhai Cymraeg, er gwneyd y ffordd yn rhwydd.

Gwelaist it' gynt Ysgolion
 Mirain, syw, mawr iawn eu sôn,
 A dynion heirdd eu doniau,
 Dy glod yn hynod fawrhau.

Gwelaist hardd-ddrych a llewych Caerlleon,¹
 Bangor,² Menefia,³ lân Athrofäon,
 I'r holl fyd, er iawn wynfyd, yn anfon
 Hybarch a thrwyadl burwych Athrawon,
 Yn eu hoes fu i'r Seison—yn addas,
 Wiw hygar urddas, ac i'r Iwerddon.

Dere'n nes i'r fynwes fau,
 Anwylaf Awen olau,

¹ *Caerlleon-on-the-Usk*, where, about the beginning of the fifth century, a famous College was founded, which, under the presidency of Dyfrig, mightily flourished. Hither the sons of the Princes of Cambria resorted to receive instruction in the Arts and Sciences. It is said, that this College, at one time contained no less than a thousand of the youth of Gwent, and other parts of Wales.

² *Bangor*.—Not the Bangor which now exists, but *Bangor is-y-coed*, in Flintshire, about twelve miles from Chester, on the river Dee,—once a very large and renowned Monastery and place of learning. It had 2400 students. *Caerlleon-on-the-Usl* and *Bangor-is-y-coed* were, at one time, by far the most celebrated places of education in this Island.

³ *Menevia*—in Welsh, *Mynyw*, or, as it is now commonly called, *Ty-Ddewi*, was, for several hundred years, as a place of religious and useful instruction, the glory and boast of Cambria.

A dinam enwa'r dynion
Fu i'n gwlad yn llad mor llon.

Illtyd⁴ i'r byd gwybodawl
Fu'n seren geinwen ei gwawl ;
Hwn â'i ddawn roes yn ei ddydd
I Forganwg fawr gynnydd :
Dyfrig⁵ ac ef fel deufrawd,
I hoff Went fu'n orhoyw ffawd ;
Cannoedd ar gannoedd wnai'r gwyr
O ddwys gedyrn ddysgawdwyr.

Dwfn ieithyddion,
Sywedyddion,
Duwinyddion dien oeddynt,—
Dysgedigion
Amrywiolion,
Hyddoeth ddynion, ddaeth o honynt.

⁴ *Illtyd* was the Preceptor of Gildas and St. David. He was appointed a Teacher of Divinity and Philosophy by Garmon. See the following note.

⁵ *Dyfrig*.—About the year 430, Garmon and Lupus, two Bishops, were sent over to Britain, by the Gallican Church, to suppress the Pelagian Heresy, which was raging in this Island. They laboured incessantly in the great work to which they were commissioned, and previously to their quitting this country, they erected many Colleges and Schools, to instruct the British Youth in the Christian Religion, Philosophy, and the Arts and Sciences. Such as possessed the most eminent qualifications for the task were, of course, appointed to superintend these Seminaries,—and *Dyfrig*, as a man of great talent and learning, was entrusted with the management of the College at Caerlleon.

Pur a mwyn y pery mawl
 Dunod,⁶ y gwron doniawl,
 Yn g'oeedd a wrthsefai'n gain
 Rhyfyg Awstin a Rhufain.

A adawaf, O Dewi,⁷
 Yn ol dy enw dethol di?
 Addurn i Gymru oeddyd,
 Saif dy go' tra byddo, byd.

Pa wr gwych fu'n llewylch llon,
 Ac urddas tég y Werddon?
 Padrig⁸ Fendigedig oedd,
 Wr odiaeth, CYMRO ydoedd.

⁶ *Dunawd* was Abbot of Bangor-is-y-coed, and is famous for the opposition which he made to Augustine the Monk, when he first attempted to subvert the independency of the British Church, and to make it subservient to the Pope of Rome, his master,—in the seventh century.

⁷ *Dewi*.—The name of Dewi, or St. David's, is too well known to need any comment.

⁸ *Patrick*, the celebrated Saint of the Irish, was a member of the College of Illtyd, before he was carried away captive to Ireland. It is believed that he returned from his captivity in the Sister Island, and that he afterwards voluntarily went over to instruct the inhabitants of that country in the principles of the Christian Faith.

Hir oesoedd cofir Asser,⁹
 Sulien, Rhyddmarch,¹⁰ mewn parch pêr,—
 Tri a wyddent wir addysg,
 Holl feithder a dyfnder dysg :
 Y byd i gyd (pw y na'i gŵyr ?)
 A soniai am eu synwyr.

E ballodd, Gymru, bellach,
 Cynnes wên ac einioes iach,—
 Darfu ynot bob dirfawr
 Allu a nerth, a llon wawr !
 Dy Ysgolion, gwychion gynt,
 Nodedig,—mwy nid ydynt !
 Llid a brad yn lledu'u broch.
 Ac udgyrn gâlon gwaedgoch,

⁹ *Asser*,—a Monk of St. David's, a man that, in his day, astonished the world with his learning. It is a fact—and every Welshman will with pride remember the fact, that, great and extensive as is the fame of Oxford, at present, for its learning, it was a Welshman that first guided the studies of the youth that resorted to it for instruction. King Alfred, when, founding the first College at Oxford, sent for Asser, and was so highly delighted with his society, that he pressingly invited him to live at the Royal Palace. The King made him Bishop of Sherborne; and, had Asser been inclined to relinquish his situation in Wales, he might have obtained any dignity or preferment he pleased. Our countryman, however, preferred enjoying the society of his friends in Wales, and could only be prevailed upon to visit the King, and to superintend the College at Oxford, one half of the year.

¹⁰ *Sulien, Rhyddmarch*.—Sulien the Wise was consecrated Bishop of St. David's about the year 1070. He twice or thrice,

A rwygent dy dir hoywgu,
 Mor gain—mor firain a fu.
 Dinasoedd a lleoedd llon
 Dinystriwyd gan dân estron :—
 Gwelwyd d' Ysgoldai gwiwlan
 Yn walau meirch, neu'n ulw mân ;
 A'th lyfrau (miloedd oeddynt)
 Yn fflamiau yn gwau'n y gwynt !

Hen Gymru "a fu, a fydd"—fy nghysur,
 Fy nghais gan Dduw beunydd
 Yw gwiwnerth a llon gynnydd
 I ti, fy ngwlad rwyddfad rydd.

D'wediad hynod, ydwyd hanner—fy mod,
 Fy madien Fam dyner ;
 Gwn na fynnwn gan Fyw-Ner
 Hebot ti, o'm bywyd têr.

Iachuswaith im', ar bob da achosion,
 Yw dy annerch, fy ngoreuwlad union,—

from a love of retirement, resigned the care of the See of St. David's, and as often undertook it again at the pressing solicitation of those who saw that no one but he could be found to fill the Episcopal Chair, with sufficient authority and dignity.

Rhyddmarch, was son of *Sulien the Wise*. He and his father were highly distinguished for their wisdom and learning. An eminent writer says of Rhyddmarch, that "after him there was an end of instruction for disciples at St. David's." He was Bishop of St. David's, and died in the year 1093.

Gweled dy faesydd heb ol traed gâlon
 Mwyach arnynt,—ond mewn helynt hylon
 Gweled dy lân drigolion—yn mwynhâu
 Hedd ar dy fryniau golau a gwiwlon.

Dios mae achos uchel—yr awron
 Am beroriaeth angel
 I frwd wau it', fro dawel,
 Odlau ac emynau mêl.

O'r llwch a'r tristwch trwstan,—dy olwg
 Cwyd, Walia fach, weithian,
 A gwel GOLEG, rwydd-deg rà'n,
 Hynod, i ti dy hunan.

Gwalia lân, gwel ail einioes,—ail urddas,
 Ac ail harddwch eirioes,—
 Gwiwlwydd, yn ol dig waywloes,
 Oriau o lid, a hir loes.

Haul addysg, er hoyw lwyddiant,—a gododd
 Gyda mawr ogoniant:
 Cymmylau 'n ugeiniau gânt
 O'r golwg draw a giliant.

O'r newydd dy ddolydd a hardd ddeiliant,
 Dy rewlyd fryniau, diau blodeuant,—
 Y manau oedd anial mwyndda wenant
 Mewn gwenwrig firain o gain ogoniant,—

Y llwyni hoff llawenhânt,—mêl peraidd
Ar dwf iraidd y ddaear diferant.

Gwybodaeth yn eirian ymlydanu
Yn ddiattal a welir o ddeutu,—
Doniau addas yn glân adnewyddu,—
Yn lle archoll, ein gwlad yn llewyrchu,—
Lles dyn beunydd yn cynnyddu—'n nerthol,
A mawl ethol ei Dduw'n ymhelaethu.

Mewn pwyll, yn ddidwyll, y celfyddydau
Yng Nghymru chwilir—gelwir i'r golau
A fu yn y byd o fwyn wybodau :—
Ceir hanesion cywir o hen oesau :—
Yr ieithoedd olrheinir hwythau—o'r bron,
Trwy'u manylion a thynion wythenau.

Cyfyd mawrion ddynion, yn ddywenydd
I'n gwlad groywfwyn, ac yn glod i grefydd :
Daw ail Ddewi â g'leuni i'n glennydd,
A llifeiriant o ddawn a lleferydd,—
Ail Asser ddwysber, ryw ddydd,—ail Sulien,
I'n bost di-orphen, yn byst y wirffydd.

Dyrchafa dithau o gaerau'r gweryd
Dy ben, glaf AWEN, a gwel ail fywyd :—
Darfu'r gauaf,—wele haf a hoywfyd
A da wych haulwen etto'n dychwelyd :
Yn ddiâu yma'n ddiwyd,—beirddion gânt
A iawn alwant ar yr hen Anwylyd.

A dywed, O wiwfad Awen—gulon,
 B'le gweli, is wybren,
 Well lle i fyw yn llawen
 Na glàn Teifi wisgi wèn ?

Maesydd a dolydd pâr deiliog,—cannaid,
 Cei yno'n ardderchog ;
 Creigiau uwch ben, carregog,
 Ac Anian mewn glwyslan glôg.

Llais yr adar gwâr o'r gwŷdd,—a llafar
 Llif yr afon wiwrydd,
 Yn dy fron dirion, bob dydd,
 A gynneua gân newydd.

Pwy yw'r bachgenyn tlws, croenwyn, cryno,
 Draw'n y goedwig lasfrig, uwch y lwysfro,
 Weithiau'n glaf a welaf, fel yn wylo,
 Ac weithiau'n hoenus a nwydus neidio ?
 Wiw fab, rhyw Oronwy¹¹ yw fo,—a'i ben,
 Gan wres yr awen bridwen yn brydio.

Ar fyr i'r golau daw perlau purlan
 Iaith ein tadau, a'i thrysorau seirian :—
 Wrth ein drysau y mae'r dyddiau diddan,—
 Llawenyched, hardd dywyned Anian !

¹¹ Here the Poet fancies that he sees a second Goronwy Owen ranging among the woods on the banks of the Tivy, enraptured with the sweets of the heavenly Awen.

O! oriau hyfryd eirian,—cawn ganfod
Yr iaith hynod yn ei nerth ei hunan.

Ni raid mwyach gydag afiach gofion,
Wên Walia, i'th dirionblant anwylion
Am wiwdda oleu i eu meddylion
Droi'n ofidus i rwystrus dir estron,
A hiraeth yn eu hcerion—ddwyfronau,
Draw o fryniau eu tadau'n alltudion.

Yn eu bro gynnenid, bêr gain annedd,
Wiwfad orhynaws breswylfod Rhinwedd,
Cânt brofi ffrwythau têt lysiau glwyswedd
GWYBODAETH wiwlon hyd eu digonedd,
A'i hoywrin puri'w harwedd—mewniawnhwyl
I dêr gaerau anwyl Duw'r gwirionedd.

Gwybodaeth! bywfaeth y byd,
Geinferch, ti ffynnon gwynfyd,
O! laned, decced dy wedd,
Dra hynaws Fun dirionwedd:
Hebot nid oes neb hybarch,—
Tydi sydd yn peri parch,—
Rhwyddwydych a mwyn y rhoddi
Wawr y nef i'n daear ni:
I'r enaid, O! mor anwyl
Wyt ti, lle y cadwot ŵyl;—
Lle deui try llwyd uaaf
Newynllyd yn hyfryd haf.

Em wych, yr wyt ti 'mhob man,
 Gyfeilles guaf¹² allan,—
 Ac yn y tŷ gweini tes
 O fewn a wnai i'r fynwes.
 Nid oes trallod na thlodi,
 Na gwae tost lle trigot ti,—
 A thi gennyf ffraeth ganwn
 Dan dristyd y byd a'i bwn.
 Anialwch a'i ddu niwlen,
 Euraidd waith, droi di'n ardd wên,—
 Gu wawl, a phan ymgili,
 Try'n ddiffirwyth ei hardd-ffrwyth hi.
 Pa beth yw dâ (culdra caeth)
 Y bydoedd heb Wybodaeth?
 Gwinoedd a mêl sydd gennyd
 Yn ffrydiau'n amlhâu o hyd:
 Aur India, oreu randir,
 Gemmau cain y Dwyrain dir—
 Salwedd ynt oll i'w sylwi
 Yn dy harddflwch degwch di.

Os mynni gael, was mwynwych,—gwir olud
 Goreulan a harddwyth,
 Cu iesin waith, cais yn wych
 Oleuni Addysg lonwych.

Er gwaetha'r byd gwammal a'i ofalon,
 Ac erchyll ruthrau'i donnau cyndynion,

¹² Cicero says that "Learning is a solace *abroad* and a delight at *home*."

Dyma'r hoff anwyl dwym oreu ffynnon
 A rŷ'n olynol sirïol gysuron :—
 Gwin i'w yfed gei'n afon—lifeiriawl
 Yma fythawl, a phob dinam foethion.

Wybodaeth ! er mwynfaeth myrdd,
 Gwna dy drigfan wiwlan werdd
 Yn ein COLĒG hoywdeg hardd,—
 Na ffo, tra bo byd, i ffwrdd.

Clod anwyldeg,
 Ar bob adeg,
 I'r iawn GOĒG rho'wn o galon,—
 Mae'n uchelfri,
 A mawrhydi,
 A goleuni Gwalia union.

Diwael o hyd y blodeuo—'n lanwych
 Lawenydd i'r Cymro ;
 Pur hoywedd y parhäo
 Tra mynydd, bronnydd, a bro.

GOĒG odiaeth, gŵyl¹³ a gadwn
 It', a byddwn ynot boddïol ;
 Am ein gwiwfaeth mwyn ni gofiwn,—
 Naf a garwn yn fwy gwrol ;—

¹³ An allusion is here made to the Anniversary of St. David's College.

Ei fawl canwn
 A dadseiniwn,—
 Iddo dygwn haeddedigol
 Glod,—a rhodiwn,
 Milwriaethwn,
 Uniawn deithiwn i'n Iôn dethol.

Cofiaf y dydd, mwynddydd mād,
 Sywdeg, y bu gosodiad
 Dy faen-sylfaen—maen glwys mawr,
 Têr iesin a llawn trysawr.
 Deuai, mewn gynau duon,
 At y garreg hardd-deg hon,
 Yn lân o offeiriaid lu,—
 Tonnawg fôr fyddai'n tynnu
 Ar eu hol o wyr hoywlon,
 A lliw pob wyneb yn llon.

Yr Esgob yn wir wisgi
 Y garreg (hoffdeg oedd hi)
 Curai â morthwyl cywrain
 A siriol y swynol sain,—
 Llonwych wedd, pob llaw yn chwai
 Y da lanwaith dilynai.
 Ar Dduw bu taer weddio
 Am ei gymmorth eorth o,—
 Am ei rad ar yr Adail,
 Ei serch ar yr hyfryd sail.

Yn addas un a waeddodd
 Mewn diddanus felus fodd,
 "Y garreg hon nes gwawrio
 Diw¹⁴ barn heb syflyn y bo."

Tair bonllef hyd y nefoedd—
 (Aneirif lu a wnai'r floedd)
 A roddwyd, yn arwyddion
 O wiraf wres pob rhyw fron

Dydd hyfrydwch
 Oedd, ac elwch,
 A diddanwch—dydd o wênau,
 Ddaeth â llewylch
 Haul goleuwylch
 Yn fireinwylch i'n hen fryniau.

Tôr allan mewn cân dêg gynnes,—Llanbedr,
 Yn llawenbur eres,—
 Ti wyt hylwydd Arglywyddes
 Trefi'n gwlad, eu llad a'u lles.

Rhyw Angel purwyn ar dyn adenydd
 Hedded i'r nefol ragorol gaerydd,
 Ac yno myneged mor llwyr ddedwydd
 Yn ei bri yw hen Lanbedr a'i bröydd,—
 Un galon dirion derydd—o leia'
 A gynnar lonna gan wir lawenydd.

¹⁴ Dydd.

ELIEZER WILLIAMS Iwyswedd—lenwir
 O lanaf orfoledd,
 Wrth glywed geined yw gwedd,
 Hoen iawnwych, ei hen annedd.

Canu yr ŷm ni acenion—gwaelaidd
 It', GOLEG, yr awrhon,—
 Cei gân well, ddi-dywell dôn,
 Yn wiwrwydd gan ein ŵyrion.

Canant pan welant yn wiwlwys—eu gwlad
 Yn glydwen Baradwys,
 A gwawl addysg oleuddwys
 Yn lledu o ddeutu'n ddwys:—

Canant bereiddfawl cynnes,—anwylwiw,
 Pan welant, er mawrles,
 Eu bro wâr mewn bri eres,—
 Yr hen dud yn eirian dês.

Pwy bïau o'n genau'r gân
 Dêg am ein COLLEG gwiwlan?
 Pa ryw Ynad dwysfad da,
 Droes ei olwg dros Walia,
 Ac a welodd mai caled
 Ei chyflwr? pwy'r gwr roi'i gêd,
 I iach wellhâu archoll hon,
 A diwallu ei deillion

Blant? Y da Sant, dewis yw,
 Burgess¹⁵ ein hyles hael-lyw.
 Tŵr yw i'n mād dirfwlad dêr,—
 Haul a gem i hil Gomer:
 Un hoywffur yw sy'n hoffi
 Geiriau ein iaith gywrain ni;—
 Ein addurn yw a'n noddwr,—
 CYMRO'n ei *galon* yw'r gwr.

Bywiogwych lân Ben-bugail,
 A gâr ddedwyddwch ei gail,
 Ydyw ef,—a cha'i ddefaid
 Yn rhwydd bob porthiant i'w rhaid.

I'n mysg, er ein dysg, pan daeth,
 Gwiwbur wr, i'w Esgobaeth,
 Yn ddiöed o'i fawr ddeall
 Canfuodd,—gwelodd ein gwall;—
 Gwelodd fod holl Ysgolion
 Y fro syw fu fawr eu sôn,
 Wedi cyfan ddiflannu
 O ŵydd ein gwlad geinfad gu.

Oreu Pôr, yn uniongyrch darparodd
 Eli i'n holl wyniau 'n hael iawn,—lluniodd
 Gymdeithas¹⁶ lew addas,—(un a lwyddodd
 Yn arbenig trwy'r nawdd a dderbyniodd)

¹⁵ Dr. T. Burgess, the late learned and worthy Bishop of St. David's.

¹⁶ The Society for promoting Christian Knowledge and

I ddwyn y'mla'n, fwynlan fodd,—heb oerni
Na seguri yr achos a garodd.

COLEG i'r Cymry culion !—y geiriau
Rhagorol yn union
A ddaeth i glyw ein Llyw¹⁷ llon,
Hygaraf a fedd goron.

Anfonai rodd yn fwyn rad—i gynnal
Y tēg iawnwaith mwynfad ;
Nôd goreu, neud¹⁸ o'i gariad
Union glew i ni a'n gwlad.

Ar Harford¹⁹ yr hir orphwys
Tra Cymru'n bod wiw glod glwys ;—
I'r tŷ mad, o'i gariad gwir,
Rasol-dad, *fē* roes seildir,—
Ac o arian cu yrrodd
Yn fuan oreulan rodd.

Church Union, was instituted by the late Bishop of St. David's soon after his Lordship came to that Diocess.

¹⁷ Our late Most Gracious Sovereign King George the Fourth, with that liberality for which the whole tenor of his life was distinguished, granted the sum of 1000*l.* towards the erection of St. David's College, out of his own private Purse.

¹⁸ Diau.

¹⁹ J. S. Harford, Esq., of Blaise Castle, near Bristol.

Beynon,²⁰ i tithau beunydd
 Yn ddidawl gwir fawl a fydd,—
 Rhywiogwych fu'th anrhegion,
 Da frawd, a thwym fu dy fron.

Wiwdda wr, Jones²¹ o'r Dderi,
 Mae'n barod dewrglod i ti,—
 Rhoest, mewn haelder, mwynder maith,
 Dy galon i'r digwlwaith.

Heb genfigen
 Rhoes Rhydychen,
 A'i chwaer²² addien wych wareiddiaf,
 At achosion
 Cymru dirion,
 Hael anrhegion—rhoddion rhwyddaf.²³

Lluniwr y ddaear hygar a'r eigion,
 Y llu wybrenawl, gwawl, a thrigolion
 Bydoedd gannoedd—gwrandäwr cri'rgweinion,
 Yn dyner fwyn clyw di ein erfynion,—

²⁰ The Rev. Thomas Beynon, the venerable and respected Archdeacon of Cardigan.

²¹ John Jones, Esq., of Derry Ormond, near Lampeter.

²² Cambridge.

²³ The two Universities, with a liberality worthy of their noble fame for learning, contributed 200*l.* each towards the erection of St. David's College.

I lawr ar yr Adail hon—gwlawia, Naf
Haelionusaf, doethaf, dy fendithion.

Diles yw pob adeilad—fs haulwen,
Di-sylwedd pob bwriad,
Gwiw-Ner, fo heb dy gennad
Di, ein mwynlon dirion Dad.

Ar y COLEG hwn llawer calon,
O un gais a ddymuna'n gysson,
Dy rad a'th gariad—fel bo'n goron
I gu Walia, a'i glân drigolion,—
Yn feddyg—ac yn foddion—i arwedd
Myrdd i annedd y Mawr-Dduw union.

Diolch it', Dduw y duwiau,
Am dy fwynder pêr i'n pau;—
Tan oedfa tonnau adfyd
Ein porth diwael hael o hyd,—
Ein Tŵr a'n hynod Darian,
Fuost ti, ein Rhi, a'n rhan :
Dy rad, er pob direidi,
Mwyn Naf, a brofasom ni;—
Ein diolwch yn daliad
O! cymmer, mewn mwynder mâd,
A bydd etto, tra bo byd,
Ein noddfa, er ein hawddfyd,—
Dedwydd, o dan dy aden
Fyg lwys, a fo Gwalia wèn :

Boed y COLĒG hoffdeg hwn
 Yn fael i amryw filiwn
 O'r Cymry—yn dŷ o dân
 Ofal Ior, i'w fawl eirian.
 Trwyddo ymdanned rhwyddwych
 Lên a gwiw oleuni gwych;
 Er budd tra mawr, O! bydded
 Trwyddo'n dylifo ar led
 Y wiwddwys adnabyddiaeth
 O'r Tad a'i gariad di gaeth—
 O groes yr hygar Iesu,
 Ei ing dwfn, a'i angeu du—
 O'r Yspryd Glân Ddiddanydd,
 O fywiol effeithiol ffydd.
 Ofni Duw a fynno dyn,
 A'i addoli—gan ddilyn
 Ei lwybrau'n fanwl ebrwydd,
 Benna' waith, a byw'n ei ŵydd.

Felly bydd dydd dedwyddaf,
 I'n gwlad lon a hinon haf,—
 Caiff y Cymry'u lletty'n llawn
 Digonedd, yn dêg uniawn—
 Eu Dofydd bob dydd yn dŵr
 Ac anwylaf gynnaliwr,
 A mwynhâu, dros fyth mewn hedd,
 Ne' dawel yn y diwedd.

SYLW-NODAU AR YR AWDL FLAENOROL.

¹ *Caerlleon-ar-Wysg*—ym mha le, o ddeutu dechreu y bum-med ganrif, y sylfaenwyd Coleg hyglod, yr hwn, dan lywyddiaeth Dyfrig, a flodeuodd yn rhagorol. Yma y cyrchai meibion Tywysogion Cymru i dderbyn addysg yn y celfyddydau. Dywedir fod y Coleg hwn, unwaith, yn cynnwys nid llai na mil o ieuenctyd Gwent a rhannau ereill o Gymru.

² *Bangor*—nid y dref o'r enw ag sydd heddyw yn adnabyddus, ond *Bangor-is-y-coed*, yn swydd Fflint, o ddeutu deuddeg mildir o Gaerlleon-gawr, ar lan yr afon Dyfrdwy, yr hwn fan a fu unwaith yn Fynachlog o faintioli a chlod mawr, ac yn lle i gyfrannu dysgeidiaeth. Yr oedd yno 2400 o ysgolheigion. Caerlleon-ar-Wysg a Bangor-is-y-coed oeddynt un amser y mwyaf o lawer eu clod, fel llëoedd dysgeidiaeth, o fewn Ynys Brydain.

³ *Menefia*—yn Gymraeg Mynyw, neu, fel ei gelwir yn awr Ty Ddewi, a fu, dros lawer o flynyddau, fel lle i gyfrannu gwybodaeth grefyddol a defnyddiol, yn glod ac urddas holl Gymru.

⁴ *Illtyd*—oedd athraw Gildas a Dewi Sant. Efe a gafodd ei osod yn athraw duwinyddiaeth a philosophyddiaeth gan Garmon. Gwel y sylw-nod a ganlyn.

⁵ *Dyfrig*—o ddeutu y flwyddyn 430, Garmon a Lupus, dau Esgob, a anfonwyd drosoedd i Brydain gan Eglwys Ffraingc, i ddarostwng yr heresi Forganaid ag oedd yn ymhelaethu yn yr ynys hon. Hwylafuriant yn ddibaid yn yr achos at ba un eu hawdurdodwyd, a chyn ymadael a'r ynys hwylafuriant amryw Golegau ac Ysgoldai, i ddysgu ieuenctyd Brydain, yn y Grefydd Gristionogol, philosophyddiaeth, a'r celfyddydau. Y rhai a gefid yn meddiannu y galluoedd a'r talentau mwyaf at y gorchwyl a osodid yn bennaethiaid ar yr ysgolion hyn; a

Dyfrig, fel gwr o wybodaeth hyglod, a gafodd ofal Coleg Caerlleon-ar-Wysg.

⁶ *Dunod*—oedd Abad Bangor-is-y-coed, ac mae ei enw yn glodforus mewn hanes am y gwrthwynebiad a wnaeth i Awstin Fynach, pan yr ymdrechodd gyntaf ddymchwelyd anymddibyniaeth Eglwys Brydain, a'i gosod dan iau y Pab, ei feistr,—yn y seithfed ganrif.

⁷ *Dewi*—mae enw Dewi Sant yn rhy adnabyddus i ofyn traethu yn ei gylch.

⁸ *Patrick*.—(Padrig) Saint hyglod y Gwerddoniaid, Cymro oedd, ac aelod o Goleg Illtyd, cyn ei ddwyn yn garcharor i'r Iwerddon. Meddylir yn gyffredin iddo ddychwelyd o'i gaethiwed, ac iddo fyned eilwaith drosodd i'r Chwaer-Ynys yn wirfoddol i ddysgu ei thrigolion yn egwyddorion y Grefydd Gristionogol.

⁹ *Asser*—Mynach o Dy Ddewi, oedd wr a berai yn ei ddydd i'r byd synnu o herwydd ei wybodaeth. Y mae'n wirionedd—a dylai pob Cymro gofio hyn gyda balchder, mai Cymro a fu ar y cyntaf yn dysgu'r ieuencyd a gyrchent i Rhydychen am wybodaeth, er maint clod y lle hwnnw am wybodaeth y dydd heddyw. Y Brenin Alfred, pan sylfaenai y Colleg cyntaf yn y lle hwnnw, a anfonodd am Asser o Dy Ddewi, ac a gafodd ei foddloni gymmaint ynddo, fel y rhoddodd daer wahoddiad iddo ddyfod i fyw atto ef i'r Llys Breninol. Y Brenin a'i gwnaeth yn Esgob Sherbourne; a phe buasai Asser yn dewis gadael ei sefyllfa yng Nghymru, gallasai gael unrhyw ddyrchafiaeth a ewyllysiai: ein gwladwr, beth bynnag, a hoffai yn well gymdeithas ei gyfeillion yng Nghymru, ac ni chaed ganddo ymweled â'r Brenin, a'r Coleg yn Rhydychen, ond dros un hanner o'r flwyddyn.

¹⁰ *Sulien, Rhyddmarch*.—Sulien Ddoeth a gyssegrwyd yn Esgob Ty Ddewi o ddeutu'r flwyddyn 1070. O gariad at lonyddyd ac ymneillduaeth oddiwth y byd, efe a roddodd i fynu ddwy waith neu dair, ofal Esgobaeth Ty Ddewi, a chymmerodd y swydd arno gynnifer o weithiau drachefn, ar daer

gais y rhai hynny a welent nad oedd neb i'w gael ond efe a allasai lanw y Gadair Esgobawl gyda digonol awdurdod ac anrhydedd.

Rhyddmarch oedd fab i Sulien. Efe a'i dad oeddynt glodfawr hynod am eu dysgeidiaeth. Ysgrifenwr enwog a ddywed am Rhyddmarch, "ar ei ôl ef daeth diwedd ar ddysg yn Nhy Ddewi." Bu yn Esgob Ty Ddewi, a bu farw yn y flwyddyn 1093.

¹¹ Yma y Prydydd a ddychymmyga ei fod yn gweled ail Oronwy Owen yn rhodio ym mysg y coed ar lannau Teifi, a'i ben yn llawn o fwynderau'r Awen nefolaidd.

¹² Cicero a ddywed fod dysg yn hyfrydwch oddi cartref, ac yn wynfyd gartref.

¹³ Yma cyfeirir at wledd flynyddol y Coleg, sef y 12 o Awst.

¹⁴ Dr. T. Burgess, diweddar ddysgedig Esgob Ty Ddewi.

¹⁵ Y Gymdeithas er hyrwyddo Gwybodaeth Gristionogol ac Undeb Eglwysig a sefydlwyd gan Esgob Ty Ddewi yn glau ar ôl ei ddyfodiad i'r Esgobaeth.

¹⁶ Ein diweddar rasmusaf Frenin George y Pedwerydd, gyda'r haelioni hwnnw ag sydd wedi nodi holl ystod ei fywyd, sydd wedi rhoddi 1000*l.* at gyfodi Coleg Dewi o'i gôd ei hun.

¹⁷ J. S. Harford, Yswain.

¹⁸ Y Parch. T. Beynon, teilwng a hybarch Archdiacon Ceredigion.

¹⁹ John Jones, Yswain, o'r Dderi-ormond, gerllaw Llanbedr.

²⁰ Caergrawnt.

²¹ Y ddwy Ysgol freiniol—Rhydychen a Chaergrawnt, gyda haelioni teilwng o'u clod am ddysgeidiaeth a gyfrannasant bob un 200*l.* at gyfodi Coleg Dewi.

PENNILLION

AR AGORIAD COLEG DEWI SANT,

MAWRTH 1, 1827.

I'R COLEG, fy awen, moes etto fwyn gân,
 Y testun a driniaist i'm mawrglod o'r bla'n ;
 Mewn "Caethion Fesurau" 'r pryd hynny'n lled
 brudd,
 Yr awrhon am ennyd cei'th aden yn rhydd.

Os melus oedd canu ei glod, pan nad oedd
 Dim dwylath o'r muriau i'w gweled yn g'oedd,
 Hyfryttach ei foli, ar ben pan mae 'nawr,
 Yn goron i Gymru—mor hardd-deg â'r wawr.

Y Coleg, dros flwyddau yn agos dri naw
 Y soniwyd am dano rhwng gobaith a braw,
 Sydd heddyw'n agored i blant Cymru wên,
 A Chymro diledryw, glân, gwir arno'n bèn.

Rai blwyddau cyn heddyw, Llywelyn,¹ â thi,
 Mae'n lled adnabyddus dy ffrynd Daniel Ddu ;
 Ac iddo mae'n hysbys d'wybodaeth ddi nam,
 O'r burlan Frythonaeg—o fwyn iaith dy fam.

¹ Dr. Ll. Lewellin, Pennaeth y Coleg.

weli ryw irlangc mewn cariad â hi.

efnwyd bydd studio a harddu ein hiaith
Ngholeg St. Dewi, a gweddus y gwaith,—
w newydd llawn gobaith i'n heniaith yw hwn,
iennau'i gelynion a dorrwyd yn grwn.

n iechyd, Llywelyn, boed iti barhâd
io'r hoff Goleg, gogoniant ein gwlad ;
l enw'r un cyntaf yn ben arno fu
annoedd yn gyntaf mewn teilwng wir fri.

l hyfryd i filiwn yw hwn—dydd o hyd
l lawen ei gofio drwy Gymru wên glyd,—
l agor hoff ddrysau gwybodaeth i'n plith,—
lefw'n na weler mo'u caead byth, byth.

l dewi, a'th annedd ym mannau'r mwynhâd,
l h olwg am ennyd i lawr ar dy wlad,

Ai anghof i ninnau, sy'n llawen yn awr,
 Yw Burgess, a'i drafferth a'i lafur gwir fawr?
 Tra dwr yn y moroedd—tra haul yn y nèn,
 Bydd bendith hil Gomer dros byth ar ei ben.

I'r Cymry bu Burgess² yn dyner fwyn dad,
 A Jenkinson³ etto sy'n noddi'n hen wlad;
 Wrth dderbyn bendithion fel hyn yn ddi baid
 Mae prawf fod y nefoedd ei hunan o'n plaid.

Ble'n sefyll mae'r Coleg—yr adail hardd hon,
 Ag arni dri Athraw yn llawn o ddysg llon?
 Yn hen Geredigion (pwy gynt goel'sai'r gân?)
 Yn nhêg ddyffryn Teifi,—wrth Lanbedr lân.

Tra Teifi diriondeg yn rhedeg yn rhydd,
 A'r adar o'i ddeutu'n llon ganu'n y gwŷdd,
 Byth, byth, o ogoniant a llwyddiant yn llawn,
 Bo Coleg St. Dewi'n blodeuo mewn dawn.

² Dr. T. Burgess, Esgob diweddar Ty Ddewi.

³ Dr. Jenkinson, Esgob presennol Ty Ddewi.



A W D L

AR

FUDDUGOLIAETHAU DIWEDDAR Y GROEGIAID AR Y TYRCIAID :

Yr hon a ennillodd yr Ariandlws yn Eisteddfod Dyfed, 1823.

DA eres fam y dewrion,—ROEG wenwych,
Fro gynnes hyfrydlon,
Cynnydd i'th holl amcanion
Fo ar dir ac ar ferw dôn.

Gwlad milwyr, arwyr eirioes,—gwlad doniau,
Gwlad dynion gwareiddfoes,
Boed iti rwydd lwydd, heb loes
Du ragfarn nac un drygfoes.

Dywed wrth dy blant mād fath fu'u tadau
Yn eu parodrwydd yn wyneb brwydrau,—
Fath dros eu gwlad fu eu hymdrechiadau,
Wiwbur anian, i gynnal eu breiniau ;
A tân trwy eu gwythenau—melltened
A gwyllt reded ar led eu haelodau.

Wlad anwyl, mawr hwyl i'th hynt,
A hylwydd fo dy helynt :
A dwrn hyf ymgadarnhâu
Wnelot, bob dydd, yn olau.

Gwêl RYDDID, gwawl ireiddwych,
 Yn yr wybren wên, yn wych,
 A'i hadenydd ar danniad,
 Fel Angyles, fynwes fâd,—
 Gwêl ei llun, erglyw ei llais,
 Ac amgen fo'th dêg ymgais.
 Drosti, er pob rhyw drawsder,
 Er pob dial, dâl yn dêr:
 Galw dy helynt gynt i gof,
 Yna ing a â'n angof.

A ddarfu synnu a sôn
 Am wyr ethol Marathon?¹
 Dolydd ymdrech y dulid,
 Codwch a llefwch mewn llid,—
 Dywedwch am hen dadau
 GROEG seirian, wiw burlan bau:
 Gwelasoch, ddolydd glwyswawr,
 O'r Persiaid lu'n llethu'ch llawr,
 A gwyr hen ROEGIA gywrain
 Yn medi rhestri y rhai'n.
 Galwch eu plant rhy gulion
 I gofio'r oes, harddoes hon;
 Yna Mahometaniaid,
 Resyn ac anhydyn haid

¹ Ym Marathon y darfu i Miltiades, gyda deng mil o Athen-
 laid, ennill y fuddugoliaeth ar gân mil, neu, fel y dywed rhai
 Awdwyr, fwy nâ theirgwaith y rhifedi hynny, o'r Persiaid dau
 lywodraeth Datis ac Artaphernes.

Annuwiolaf, ni welir
 Mwy'n gormesu, 'n tasgu³ 'ch tir.
 ATHENA! fam ffraeth ddyinion,
 Dewis wyr, hynod eu sôn,
 Lle'n wâr y ffrydiai araith
 Yn ddidor, fel y môr maith,—
 Allor y dawn oll a'r dysg,
 Lle anneddai llon addysg,
 B'le, Athen³ groyw-wèn, mae gwres
 A than dy Ddemosthenes?⁴

Helicon a'i ffinnon⁵ ffaeth
 Dra hoywfwyn a'i dwr hyfaeth,
 Ac Hymettus,⁶ felus fan,
 A'i loyw araul fêl eirian,

³ Censeo—to tax, gwêl Dr. Davies.

³ Athen,—Prifddinas y rhan honno o Roeg a elwid yn yr amser gynt Attica, eithr yn awr Livadia, oedd hynod am ei gwyr gwybodus. Oddi yma y tarddodd allan y fath ffrydiau o wybodaeth ag sydd wedi peri syndod i'r byd dros ragor nâ dwy fil o flynyddau. Yma yr olrheiniid i feithder nas gall yr anneallus amgyffred, bob math o wybodaeth, sef Rhifydddeg, Daearfesuriaeth, Rhesymegyddiaeth, Areithyddiaeth, Llythyr-aeg, a Cherddoiaeth,—heblaw y Celfyddydau, a Philosophyddiaeth Foesol a Naturiol.

⁴ Demosthenes oedd Areithiwr nodedig ym mhlith y Groegiaid, pan oedd Athen yn ei gwychder goreu.

⁵ Y ffinnon Hyppocrēne—un gyssegregedig i'r Awenyddau (Muses) a lifai o fynydd Helicon.

⁶ Hymettus—mynydd yn Attica, mawr ei glod am ei fêl rhagorol.

A mynydd Awenyddion,
 Parnassus,⁷ lliwus a llon—
 Fannau gynt ofynai gerdd,
 A melusgraingc aml lwysgerdd,
 Nef wên! a raid i'r rhai'n fod
 A'u holl werth yn llaw arthod?

Eneidiau gwyr LEONIDAS⁸—codwch
 Mewn cadarn wres eirias
 I yrru o'r fro wiw fras
 Gelynion llawn galanas.

Fintai fach, o faint y fu,—gwroled
 Goreulew eich gallu!
 Trichant dros dridiau'n trechu
 Aerfa lân, aneirif lu!

Yn aethus llu Sercses⁹ a ymwithient
 I Thermopiwlæ—eithr yma pylent!
 Ail mor-ryd mawr i'r man cul ymyrrent,—
 Ail ewyn¹⁰ tonnau mŷr campwyr cwmpent
 Ogyrch,—er oll a wgent—myrdd o wyr,
 O lew filwyr, yn angau 'mbalfalent!

⁷ Parnassus, mynydd yng ngwlad Roeg lle y trigai'r Awenyddau (Muses.)

⁸ Leonidas, oedd frenin Lasedemon. Efe, gyda 300 o wyr Sparta, a rwystrodd, dros dri diwrnod, yn Thermopylæ, ymgyrch y Persiaid, y rhai oeddynt bum miliwn o rifedi.

⁹ Xerxes.

¹⁰ Foam.

Filwyr Groegia, yn fywlan
 A dewr, ymlenwch o dân :
 Achos sydd gennych uchel,—
 Pob gwlad yn geinfad a'ch gwêl.

Rhyw Bericles,¹¹ er lles gwiw i'ch llysoedd,
 Coded a d'wedded mor hynod ydoedd
 Ysbryd eich tadau, tyrau eich tiroedd,
 I lwyr chwilfriwiaw llaw pob galluoedd
 A gwnnent yn aml gannoedd—i'ch poeni
 Neu i chwerw doli hedd eich ardaloedd.

Groegwyr, clywch griau gwragedd
 Gweddwon, Och ! cleifion—a'ch cledd
 Hogwch, bwriwch hyd y bôn
 I galonnau'ch gelynon.

Gwelwch eich temlau gwiwlan,
 Allorau Duw, oll ar dân,
 A'u digwl weinidogion
 Mewn sarhâd, Ow'r brad o'r bron,—
 Y gelyn gresyn, di gred
 Yn ammharchu eich merched,—

Merched glana'
 Gwragedd Sparta¹²
 Och, a goelia'? 'mreichiau'u gâlon,—

¹¹ Pericles oedd Areithiwr hynod a gwr hyfedr neillduol i dân achosion gwladol, ym mhlith y Groegiaid.

¹² Sparta,—dinas enwog o Peloponnesus gynt. Trigolion y dref hon oeddynt hynod am eu dewrder. Menywod Sparta a

Ysgorpiynau
 'N porthi' u nwydau
 Ar dæg lysiau euraid glwysion,—

Plant, â dagrau
 Ar eu gruddiau,
 Yn rhoi nadau rhy annedwydd
 Am eu tadau
 Sydd mewn rhwymau
 Neu 'nglŷn angau, 'n lluniau llonydd.

Ow ! y fath greulondra fu—yn Seio,¹³—
 Y lwys Awen fwyngu
 Doreithiog, ni all draethu
 Hanner y gwaith—diaflwaith du !

Yr hanes hagr o'r ynys hon—clywais,—
 Cloiodd fy meddylion ;
 Eiriau dwys, aeth yn oer dòn
 Yn ei ôl gwaed fy nghalon.

Y Tyrchiaid, haid anhydyn,
 A'u gwedd yn llawn brad a gwŷn,

gynnalient wleddoedd i goffhâu marwolaeth eu meibion a gwypasent yn anrhydeddus mewn rhyfel ; a llawer mam a laddasai â'u llaw ei hun, ei mab anwylaf, os, trwy ddiangc o ryfel, y dygasai ddirmyg ar ei wlad.

¹³ Scio.

Hyll gigyddio,
 Llosgi, rhwygo
 A wnaent yno, mewn hynt anwar,—
 Lladd, heb arswyd,
 Hen wr penllwyd
 Ar ei aelwyd, Ow, oer alar :

Lladd y baban gwan, f'ai'n gwenu—arnynt,
 Wnai'r oernaws echryslu ;
 Yr oen gai ei drywanu
 Y'ngŵydd ei fam—geinfam, gu !!

Gwaed Crist'nogion
 Gwâr a gwirion
 Yn hyll afon fawr y llifai ;
 Y'ngho'l estron
 Ei wraig dirion
 Hygar wiwlon—gwr a welai !!

A fydd yn dâl ddim dialedd,—Roegwyr,
 O'r fath ddrygwaith hyllwedd ?
 A gâr ei wlad gu eurwedd
 Trwsied a gloywed ei gledd.

Ymfyddinwch,
 Ymarfogwch,
 Ar Dduw iolwch ;—e rydd âlon
 Eich glwys henwlad,
 O'i anwylyfad
 Hynaws gariad, yn ysgyriion.

Byddwch wyr, arwyr eres ;—ymgodwch,
 Mae gwaed Themistocles¹⁴
 Yn gwaeddi, mwyn gri, mewn gwrês,
 “ Dihunwch, er da hanes ;—

“ Dihunwch yn frwd heini ;—na fwriwch
 “ Niferoedd na chynni ;
 “ Gynnifer, sylwer, roes i
 “ Yn waelgarn yn y weilgi ?”

Mawrwyrth ar dir a moroedd,
 Enwog waith, wnaethoch yn g'oedd.

Muriau a chestyll mawrion—yn isel
 Rhoddasoch, wyr ëon ;
 Yn eu braw gwel'soch o'r bron
 Ar eu gliniau'r gelynyon.

Canfod a wnaeth y ce'nfor—yn ollawl
 Eich gallu dieisor ;
 Rhuadau pelau pylor
 A mwg ddychrynent y môr !

Llynges Twrci
 Dial arni
 A dirioni Duw a rannodd :

¹⁴ Themistocles oedd lywydd ar llynges y Groegiaid gynt yn Salamis, pan ddinystriwyd holl longau y Persiaid gan ryw nifer fechan iawn o eiddo y Groegiaid.

Yn dân fflamlyd
 A dychrynlyd
 Ar un ennyd yr ennynodd.

Iawn gospodd, mewn cludfodd clau,
 Duw Ior, y creulonderau
 A lwythwyd ar hil ethawl
 Anwyl wlad geinfad y gwawl.

Syw arwydd y GROES eirian—yn iawnwych
 Sy'n ennill ym mhob-man ;
 Mae'r Iesu glwysgu a glân
 Yn hwn yn gweithio'i hunan.

Yniawnddwyscadarnffydd ynddo—rhoddwch,
 A rhyddid ddaw etto
 Yn haelfraint i'ch anwyl-fro
 Fu ry drist, ar fyr o dro.

Ym Mhatras bu du dywydd—a dolef
 Diles feib di grefydd ;
 Yno bu curo caerydd,—
 Bu yno dwym benna' dydd.

Llumman y GROES yn llammu—a welwyd
 Drwy'r heolydd glwysgu,—
 Tyrchiaid yn y llaid yn llu
 A'u byddin wedi'i baeddu.

Ethol wedd gwel'd hen Athen,—wyrch arwyr,
 A'i chaerau'n eich perchen,—
 Daear eich tadau dien,
 Lle'n fôr didrai llifai llên.

Y Morëa,
 Hen Achaia
 Ac Eubœa¹⁵ dêg a biöch ;—
 Ynys Candia,
 Bro Thessalia,
 Ardd ddewisa', a ryddhasoch.

Arialweis, ym mlaen yr eloch,—y wlad
 Oleudeg fo'n eiddoch,—
 Yn hyrwydd fyth y llwyddoch,—
 Yn ben ar y Ddraig y b'och.

Uchel gri gwaed Padrieirch
 A'u Duw hwynt, sy'n gwrando'u heirch,
 O'ch plaid beunydd a fyddant—
 Gwyr Twrci eu cospi cânt.

Dan ofal Duw y nefoedd,—Llyw addwyn,
 Llwydded eich byddinoedd ;
 Eirian gamp, i guro'n g'oeodd
 Du elyn o'ch ardaloedd.

¹⁵ Negropont.

O gweler eich bannerau,
 Yn y gwynt ar fyr yn gwau,
 Fwynwawr, ar Seion fynydd,
 A Duw a 'mhoffa'n y dydd.

RHYDDID, nid oes o'r rhoddion
 Dy ail is ser, leufer lon ;
 Yn iawn dêg, heb y wên dau
 Nâ dynion gwell eidionau :—
Hwy ni wyddant, Fun addwyn,
 Am dy werth, na'th wedd ferth fwyn,—
 I *dâyn* wyd ran o'i ddeunydd,—
 O'th wÿdd syw yn fyw ni fydd :
 Byth i'w enaid bwth un-nos,
 O tlawd, gyda Rhyddid dlos,
 A ry' fodd i wir faeddu
 Pob gofalon digllon du.
 Ireiddwen hygar Ryddid,
 Ferch ddieisor, tôr bob tid,
 A gwena etto'n geinwych
 Ar Roeg, y wlad orau wych.—

Gwâr alluoedd Gorllewin,
 Yn falch a lym hogech fin
 Eich cledd, o drugaredd, gynt,
 Yn hwylus iawn eich helynt,
 I yrru gwyr hagr eu gwedd
 O wiwlan Gana'n geinwedd,—
 Cuaf fadweis, cyfodwch,
 A gwên hoff lawen, yn fflwch :—

Y Dwyrain, fwyn wlad orau,
 Achubwch, rhwygwch yr iau
 Sy'n rhydrwm, cwlwm caled,
 Yn gwasgu, 'n crymmu gwddf Crêd.

Oreudeg Ymerawdwyr
 Ewropa, hawddgara' gwyr,
 Codwch eich breichiau cedyrn,
 Yn wych gall, a thorrwch gyrn
 Y Bwystfil anferth bostfawr,
 Addoer Fall y ddaear fawr :
 Mae GROEGIA, fam gwyr hoywgall,
 Mammaeth pob dysgeidiaeth gall,

Mam Gwybodau,
 Celfyddydau,
 Goleuadau'r byd gweledig,
 Wrth eich gliniau,
 Yn rhoi criâu,
 O gain enau'n egwan, unig.

Ei gwaedd, O clywch, a'i gweddi,
 A hael gynnorthwywch hi.
 Ie'ngctyd y byd gwybodawl,
 I'ch nawdd chwi mae'i'n honni hawl ;—
 Os Homer, geinber ei gân,
 Mewn dyddiau mwyn a diddan
 A'i ddewr iaith ennynawdd wres,
 O fewn eich hygar fynwes,—

Os Pindar, a'i gref araith,
 A'i llif fel y môr-lif maith,
 Erioed fu'n gwiwlan dânu
 A nwyd coeth eich enaid cu,—
 Os bu trafod gwybodaeth
 Ichwi'n flasus, foddus faeth,—

Os bu felus
 Ffirwyth Parnassus
 Yn eich gwefus, iawnwych gofion,
 Clywch riddfanau
 A dolefau
 Y wlad orau anwyl dirion.

Ireiddwen gares Rhyddid,
 BRITANNIA, 'mlenwa o lid
 I ysu'r Twrc, ormesydd,
 A rho y Groegiaid yn rhydd.

BRITANNIA, eurbryd hynod,
 Dy enw glân a daena'i glod
 A'i barch i begynau byd,
 Iach hwyl, yn ddifrycheulyd.

Tydi anfoni'n fwynwych—i'r bydoedd
 Wâr wybodaeth iawnwych,
 A llawen ddiball lewych
 Y wiw lân Efengyl wych.

Tir Affrig anelwig a wnai'n olau
 A llwyr ddisglair â gair y Duw gorau ;
 Rho'ist yn rhyddion, drwy dy gysson geisiau,
 Ei meib anwyl o'u mwya' wayw-boenau ;—
 I ti am hyn tyn yw tônau—gwiwlon
 Mawl y dynion oedd gynt mal eidionau.

A adewi blâ daear,—cŵn annwn,¹⁶
 Cynnenus, dialgar,
 I wenwyno yn anwar,
 Wawd y byd, tir Crêd â'u bâr ?

Yn llon a haelwych tro allan hwyliau
 Dy fawrion, äang, hyson lyngesau,—
 Llanw o bylor yn llawen eu boliau,—
 I bob magnel rho fil o dân-belau,—
 Y firain ferch, clyw'n forau,—mewn mawrddig,
 Gri'r gorthrymedig,—caent ddiddig ddyddiau.

Gwyddys, dêr ynys, nerth dy daranau,—
 Hysbys i'r byd i gyd yw dy gadau,—

¹⁶ Geilw'r awdwr y Tyrciaid, yn y gân hon, wrth enwau lled greision, megis Cwn Annwn, Bwystfilod, Ysgorpiynau, &c., ond y mae'n credu y caiff faddeuant gan bob un ag sydd wedi darllen hanes y creulonedd dihafal—y barbareidd-dra digyffelyb ag y mae y Tyrciaid wedi arferyd yn y rhyfel presennol, tuag at eu cyd-ddynion. Nid all un galon lai nâ galw ar bob gallu daearol a goruwch-naturiol i ddiddymu o'r byd genedl mor hollol ddfieithr i deimladau dynol ag yw'r Tyrciaid, a dymuno llwyddiant i'r Groegiaid yn eu hymdrech i daflu'r iau oddiâr eu gwddf,

Yn Algiers¹⁷ mae etto ôl gwaeau;—
 Ai llonydd, Prydain gain, dy dæg ynnau
 Pan mae'r Groegwyr, gwyr gorau—yn llawn glân
 Cua' dân i dorri eu cadwynau.

Dros donnau, gwarrau geirwon,—i'w golwg
 Disgwyliant yn gysson
 Hael gymmorth a llawnborth llon
 O Ynys Rhyddid union.

Awdwr y Nefoedd wiwdeg
 A dwr dwfn a dâear dæg,—
 Duw, a yrri y daran
 Drwy ffyrdd ffyrnig y dig dân,—
 Y llaw a fu yn llywio
 Had Israel gynt, sirawl go,—
 O un môr wnait ddyfnfôr ddau
 Echrys a syn eu hochrau,—
 O ymgŵyd, fraich drom gadarn,
 Ar waedd byd, i roddi barn
 Ar elynion creulon Crist
 Hagrweddd, barbaraid, di-Grist.

Clyw, Arglwydd yr arglwyddi,
 Llais Crêd,¹⁸ a boed lles o'u cri.

¹⁷ Gwêl hanes gweithredoedd rhyfeddol y fintai o longau a hwyliasant yn ddiweddar yn erbyn Algiers, dan lywodraeth yr Arglwydd Exmouth.

¹⁸ Crêd—Christendom; yma meddylir trigolion Crêd.

Mal yn lân o Gana'n gynt
 Y gyrraist â'th lym gorwynt
 Halogwyr y wlad loywoeth,
 Etto, O Dad dwysfad, doeth,
 Yn wrthiol gwisg dy nerthyd
 A barn ffeidd-beth y byd.

BRWYDR NAVARINO.

Ennillwyd buddugoliaeth gan Lyngesau cyssylltiedig Brydain, Ffraingc, a Rwssia, ar Lynges y Twrc, ym Mhorthladd Navarino, Hydref 20fed, 1827. Y tri Galluoedd crybwylledig oeddynt wedi uno o blaid rhyddid i'r Groegiaid, yr hyn a ommeddai y Twrc. Yr oedd Llynges Twrci yn gynnwysedig o 214 o longau, y rhai a hollol ddifrodwyd, heb adael cymmaint ag un ym meddiant y Twrc.

A FYNNAI'r prydydd er's dyddiau—a chais
 Iachusol myrddiynau
 Cyflawnwyd,—cei filiynau
 O'th blaid, Roeg ddwys, burlwys bau.

Britannia mewn bryd tyner,—wawr wiwlan,
 Eiriolodd gryn amser,
 Yn dâl am ryddid yn dêr
 I lonbarth Groegia lanber.

Creulonedd hagrwedd o hyd,—gwaë oeraf,
 A garai'r Twrc ynfyd ;
 Ei fron ni ddangosai fryd
 I noddi pêr lonyddyd.

Yn awr y digiodd, tynnodd Britannia
 Yn ereswych, gyda Ffraingc a Rwssia,
 Y cleddyf o'r wain,—hoyw sain Hosanna
 Yn wir happus rhoddodd holl Ewropa ;
 Dïau'n deg pob dyn da—oedd â'i hoffedd
 Yn nialedd rheibwyr annuwiola'.

A *bu* dialedd ac enbyd wyllo,
 Y nef a'u rhannawdd, yn Navarino ;
 Brydain lân ei tharan yn bytheirio
 Ar y môr, lle y medra ymwrio,—
 Cry' helynt, yn cywir hwylio—tân rhydd
 Yn gawodydd, gan erchyll ergydio !

Rhestrawg fagnelau, gegau nid gweigion,
 A annelid yn eitha' manylion,
 A gyd-arllwysent gawod i'r llaesion
 Longau Tyrcaidd, rai gwaelaidd a gwelwon :
 Lledrwydd dybiai'r lladron—fod y Gwr Drwg
 O'i arwa' gilwg yn rhoi argoelion.

Yn barodwych derw-gestyll Brydain
 A wnai achos i'r gwaedgwn i ochain,—

Pan i'w golwg y cwmpai yn gelain
 Eu gwyr pennaf, y dewraf trwy'r dwyrain,—
 A mellt trwy eu longau main,—a lli' 'n llwyth,
 Hylla' adwyth, trwy y tyllau llydain.

Safai'r dynion, gan fraw yn syfrdanu,
 Ac yn llwyr oll ar goll aeth eu gallu,
 A'u bron a'u crinion aelodau'n crynu ;
 Trwy eu henaid caid ofn yn trywanu,
 Wrth weled ar lled eu llu—'n gyfrodedd,
 Hell wyw agwedd, yn angau'n llewygu.

O nerth braich Brydain, ferch firain, fawr-rydd,
 Er clywed ei hynod glod trwy'r gwledydd,
 Yr hagr haid o fileiniaid aflonydd
 Ni chawsent brofiad, er nâd annedwydd,—
 Ond yn ddigaeth daeth y dydd,—i roi'n glau
 Ar eu gwarrau gyflawnder o gerydd.

O'u deucant o longau, muriau mawrion,
 Un nis ceir nad ydyw yn ysgyrion ;
 Llyn oer y môr oedd yn llawn o'r meirwon
 Yno a ddodwyd o dan y ddudon :
 O'u beddau rhoddent rybyddion—i'w gwlad
 I attal brad, er lleihâd trallodion.

Y frwydr, os ydyw o fri—iachusber,
 Ni chospyd hen Dwrci
 Hanner, mae'r byd yn honni,
 I haeddiant ei hagrblant hi.

Gyrru o'u gwlad y gwyr garwol,—diewlig,
 Dylai'r byd Crist'nogol,
 A hau yr ardal o'u hôl,
 A grawn fo'n llai gerwinol.

Un dig waith o'i hyll gospedigaethau
 Yw, trwy niweid, torri o eneuau
 Dynion, i'w rhoi'n fudion, eu tafodau!!
 Difroder neu gwasgarer trwy gyrrau
 Byd maith, hygarwaith gorau,—heb un rhus
 Y gwarthus a'r poenus ysgorpiynau.

ENGLYNION

cofiant IFOR HÆL, Arglwydd Maesaleg, ac er annerch ei
 Ddisgyniaid o Deulu Tredegar, yn Eisteddfod Aberhonddu;
 a gynnaliwyd dan lywodraeth Syr Charles Morgan, Marchog,
 Medi 25, 1822.—Yr Englynion hyn a ennillasant y Wobr.

DEUWCH, Feirddion llon, yn llu ;—O deuwch
 I dawel gyd-ganu,
 Yn deilwng, fyth i deulu
 A gaid i'n tadau mor gu.

IFOR HÆL ddiwael i'w ddydd—yn addas
 A noddai'r Awenydd;
 Ei gêd, heb lai, rhoddai'n rhydd
 Yn barodwych i brydydd.

E gai'r Bardd yn hardd o hyd,—dàn waywloe
 Dàn alar tywyllfyd,
 Dàn rwystrau a beichiau'r byd,
 O law IFOR oleufyd.

IFOR hen, o fawr hanes!—wiwgu ŵr,
 Y mae gwaed dy fynwes
 Gu iawnwych *heddyw'n* gynnes
 Yn dy ŵyrion llon, er llês.

Rhyw ethol ŵr o'th hîl lân—a gododd
 Yn gadarn borth gwiwlan,
 Noddwr, mwyn garwr y gân,
 • Em eurgerdd—Syr Charles Morgan.

Gwaeddwn, llon ganwn yn gynnar,—Llwyddia!
 Oll iddo, Bôr hawddgar;
 Er iawn nerth i'r Awen wâr,
 Tŵr digwypm fo Tredegar.



GAUAF;

ennillodd Ariandlws a Gwobr y Parch. ARCHDIACON
S, Llywydd Cymdeithas Cymreigyddion Caerfyrddin,
111, 1828.

ai hyfryttach fu'sai, Awen fwyn,
wanwyn melus godi uchel gân,
yngciai'r adar ar y gangen fr
yn gydlais, a phan wenai oll
igylch iti mewn gogoniant llawn;
gwinnai'r bêr uchedydd gyda'r wawr,
ill ehangder i ddyrchafu mawl
wedydd anian, ag a roddai hân
dawel iddi, ac a'i porthai'n hael:—
rhw'n annheilwng etto o dy nawdd
tun hwn: yr un anfeidrol Fod
llywio Gwanwyn, Haf, a Hydref llon,
uaf llwydwawr hefyd. Trwyddo Ef
n deilliaw'r cyfan: ei lywodraeth lân
i deall dyn, sydd berffaith trwyddi oll.
hynny dere fu Awenvdd lws

Mæcenas¹ Cymru, Beynon, hael dy law,
 A hael dy galon,—er na fedd dy wlad
 Na Virgil pêr, na Horas doeth ei gân,
 Yn hynaws derbyn ein hymdrechiad ni,
 Wael Feirdd y Mynydd Dir sy'n llawn o bard
 I ti, wobrwyr² yr Awenydd lon !

Yr haul a deimlid yn ei wres mor boeth,
 A'i belydr gloywon yn sirioli'n tir,
 Yn awr a ferchyg trwy yr wybren ddu,
 Yn bwl ei agwedd ; eithaf diog yw
 I ado'i wely ar y moroedd draw,
 A mawr ei frys i 'mchwelyd yn ei ol
 O wÿdd ein hynys, fel pe byddai gas
 Yr olwg arnom yn ein cyflwr llwm.
 Ei gylch er byrred, e a red dros hwn
 Am amryw droion, heb i lygad dyn
 Un waith ei ganfod ; neu os rhydd ei wên
 Am ennyd fechan trwy ei fantell dew,
 Yn glau ar encil yn ei ol y try,
 Dan aml ddyblygiad a thywyllwch hon.

Yr haul os yw anhygar, etto mae
 Y lleuad wenlliw, yn serchiadol iawn,

¹ The celebrated Patron of the Roman Poets in the time Augustus Cæsar.

² The Roman and English Poets break out of their subject in this manner, to pay a deserved tribute of respect to the liberal and esteemed Patrons of their Muse ; and the Author could not here resist the temptation of following their example.

Trwy'r nen yn tramwy ar fawryddig hynt,
 Gan dafu hoff oleuni trwy ein bro.
 I'r teithiwr poenus ar ei ddyrys daith,
 Mor fwyn uwch bryn y cyfyd llewyrch hon.
 Pan mae'n ddeucornïog ac yn fain ei gwedd,
 Mae'n fawr lawenydd ei thywyniad glwys :
 Ond pan mewn llawn gogoniant y ceir hi
 Yn goron gron, heb gwmmwl yn ei gŵydd ;
 Neu pan ei gwelir rhwng mantelli'r nef,
 Yn mynych ddangos ac yn mynych doi
 Ei hwyneb siriol, mae ei heirian wedd
 Yn ogoneddus uwch darluniad iaith.
 Arglwyddes nos ! mor fwyn yw'th leufer di
 Sy'n gyrru t'wyllwch atgas, hyll, ar ffo,
 Yn gwynnu mynydd—yn ariannu dwr.
 Un ganwyll ydwyf, yn goleuo'n fad
 Yr un ag sy'n wynebu tu a'r de',
 A'r un i hwn sy'n teithio'n hollol groes.
 Os byr yw'r dydd, tydi'n gyfeillgar iawn
 Ddoi i gyfyngu ar deyrnasiad nos,
 A fu'sai hebot ti yn hirfaith wae,
 A gwewyr arnom yn ein carchar blin.

O gelloedd wybren y disgyna'n chwyrn
 Y curwlaw nerthus ar y mynydd ban,
 Nes llenwi'n hylwyr y cornentydd gwyllt,
 Rhwng serth agenau ac holltiadau'r graig,
 A neidiant yn ddychrynlyd, nes i lawr
 I'r dyffryn gwastad iddynt arllwys llwyth
 Eu safnau hyllig, a'u cynddaredd ffrom.

Yna'r fawr afon trwy y glyn a red,
 Tywi neu Teifi, dros y glannau'n chwai
 A deifl ei rhydrwm faich mewn digedd llawn,
 Gan rwygo perthi, pontydd—manwl waith
 Llafurus ddyn, a pheri galar trist
 I'r gwael anifail, wrth yr erchyll wedd.
 Ar ben moel glawdd, a'r llif yn cuddio'r ddôl,
 Mi welaf dwrr o ddefaid yn eu braw,
 Yn glynu 'nghyd ; uwch, uwch y gorlif gwyllt
 A gyfyd yn funudol ; wele hwynt
 Yn cael eu codi gyda'r ffyrnig dôn !
 Fy Awen, wyla—wyla gyda mi
 Ar hyn o dro ; mae'r drych yn gofyn daigr.
 Hanesion lawer o dosturi'n llawn
 A glywir erbyn foru,—teithwyr gwael
 I'r llyngclyn wedi syrthio, fel trwy'r rhyd
 Y ceisient dreiddio tu a'u cartref mwyn !

Fel hyn os echrys yw effeithiau'r gwlaw,
 Y gwynt nid llai brawychus, trwy y nen
 Pan rua'n ffyrnig, gan wneud adwyth blin
 I goedydd, teiau, ac ydlanau glân.
 Ond ar y môr yn bennaf mae ei rym
 Yn ganfodadwy : pan y chwydda'r dôn
 I faint aruthrawl, fel pe mynnai'n chwai
 Gymmysgu daear â ffurfafen bell.
 Mynyddau â mynyddau gwelir draw
 Yn hyll ymwrio yn eu gyrfa flong
 O flaen y corwynt ag a'u gwthia hwynt
 A nerth dychrynlyd ei chwythiadau gwrdd.

Gan lewod rheibus mae taranllyd sŵn,
 Ond pe'n cyfarfod y b'ai mil o'r rhai'n,
 Mewn digedd eithaf, ni b'ai'u rhuad hwynt
 Ddim i'w gymmharu â bytheiriad croch
 Y môr, pan yn dygyfor,—pan y daw
 Ei gernod orwyllt ar y galed graig.
 Gan nerth yr ergyd daccw'r ewyn gwyn
 Yn torri'n gandryll, ac yn cilio'n ol,
 Gan ddisgwyl hedd yn awr; ond wele'r ail
 Ucheldon ffromddig heb arosfa ddim
 Yn ei gyfarfod mewn ffyrnigrwydd gwaeth.
 Pwy ar y traeth yn aros ar y pryd
 Na rydd ei weddi o dosturiol fron
 Yn dyner dros y rhai, mewn cyflwr cul,
 Sydd ar y weilgi 'mhell o'u cartref clyd?

Ar gil yr aeth y gwlaw a'r dymhestl chwyrm,
 Dros amser bychan; wele'r ddaear oll
 O gylch yn galed, wele'r ffordd yn grych;
 A'r lle yn aros yr oedd arni ddwr
 Yn awr gwydredig yw: pob tawel lyn
 A'm traed yn sych caf gerdded dros ei chefn.
 Ti elfen ryfedd, ag a dreiddit trwy
 Furiau a thô'n hanneddau,—trwy ein gwisg,
 A thrwy wythenau y gallestrawg graig,
 Pa fodd y caf di, mewn newidiad llawn,
 Yn derbyn heddyw ar dy wyneb sych
 Fy nghamrau'n ddifreg, fel y garreg lefn?
 Y lanaf o'r afonydd, Tywi fwyn,
 Pwy feddyliasai wrth dy weled di

Yn cyflym redeg er ys dyddiau'n ol,
 Gan lyngcu'r cyfan ar dy wyneb brau
 A ddisgynasai, neu'n ei gludo'n wyllt
 Hwnt gyda'th ffrydiau i ardaloedd pell,—
 Pwy ddisgwylasai ar d' wynebpryd di
 Wel'd argraff hoelion y fath rygnau'n gwneud,
 A phlant yn teithio dros dy gefn hoff, gwych,
 Fel 'heda'r wennol trwy yr awyr las ?

Os wyneb daear ac afonydd glân
 Gan rew sy 'nghlo ; ac os o borfa'r ddôl
 Yr hyn adawyd sydd yn grin a sych ;
 I ddyn mae'n iachus, os yw'n oer, yr hin,
 I rodio allan dan yr awel gref,
 A ddyry nerthyd trwy holl rannau'r corph.

Yr hin cyfnewid wnaeth : och ! wele'n d'od
 Yr eira mân, fel pluf, o entrych nen,
 Gan wynnu'r bryniau a'r dyffrynoedd oll.
 Olygfa ryfedd ! dan un fantell fawr
 Ddidwll a chanplyg y mae'r ddaear faith.
 Pwy 'nawr o'i annedd a anturia'n hy,
 Pan yn gorchuddio llwybr, a ffordd, a ffos,
 Mae'r un llenlliaian wen, heb arni nôd
 O'r man lle dani mae peryglon trist ?
 Yn awr cynneuir ar yr aelwyd lân
 Yn glau y boncyff gyda dechreu nos ;
 O'r teulu aml yn eisiau ni bydd un ;
 Cardottyn penllwyd yn y cornel rhydd
 Hanesion rhyfedd o'i helyntion gynt ;

Tra'r forwyn wrth y rhod, ac yntau'r gwas
 Yn diwyd ddarpar, erbyn amser gwell,
 Rhyw beth fo'n rheidiol mewn hwsmonaeth lân,
 Neu'n rhoi'i gywreinrwydd ac ei fedr ar waith
 I lunio llwy neu phiol hardd eu drych.
 Yn awr y rhed o ddeutu amryw chwedl
 Am yr elyllon trwy'r tywyllwch du
 Sy'n tramwy yma a thraw, gan wneuthur gwyrth
 Ofnadwy a dychrynlyd ar eu taith;
 Gan droi eu hunain, fel y byddo'u chwant,
 I unrhyw ffurf—yn deirw neu yn eirth,
 Yn gathau, cwn, neu foch o hagraf wrych.
 Canwyllau cyrph a welsent hwy neu rai
 O'u teidiau'n cyrchu at y fynwent brudd,
 A hyll ysprydion y rhai meirw mud
 A ymddangosent i hysbysu'r man
 B'ai trysor yn guddiedig—dyma'r fath
 Destunau'n faith a drinir trwy yr hwyr.
 Y plant dan grynu at y tân nesânt,
 Gan dafu mynych olwg at y ddôr,
 A llwyr ddych'mygu fod y bwga mawr
 Yn disgwyl yno mewn digllonedd cryf.
 Mae'n bryd, O Gymru, i'r ffolineb hyn
 Ddiflannu weithian o'th ardaloedd tég,
 Pan mae Gwybodaeth, ar ei cherbyd gwych,
 Yn marchog beunydd dros dy fryniau heirdd.
 Y fath goelgrefydd sy'n niweidiol iawn
 I ieuangc synwyr a meddylliau plant,
 I'w gwneud i ofnau'n hydraidd trwy eu hoes.
 Yr argraff arnynt a osodwn ni

Yn nydd mabandod, nid yn hawdd fydd byth
 Ei lwyr ddiddymu a'i ddilëu ef.
 Gweithredoedd cariad a daioni llawn,
 I'r eitha'n hael, yw holl weithredoedd Duw,
 Ac fod dychrynlyd wyllon hagr, di les,
 Yn cael anffurfio ei lywodraeth lân,
 Sy'n groes i reswm ac yn groes i'r dyb
 A ddylem goledd am ein Crëwr mād.

Ardorriad gwawrddydd daccw'r hwsmon glew
 Yn gado'i annedd, er mor oer yw'r hin,
 (Y gwynt a ruai trwy y nos yn chwyrn,
 A rhuai gofal yn ei galon ef
 Dros hynt y praidd;) yn bruddaidd iawn y cyrch
 I'r man fynychaf b'ai arosfa'r rhai'n :
 Efe a'u tywys i'r tawelaf fan ;
 Ac os ar goll aeth rhai o dan y lluwch,
 Efe a wylia gydag enaid trwm,
 O bryd i bryd, nes gwelo ar y llen
 Ddangosiad cochliw yn arwyddnod cu
 O'r lle'r anadlant yn eu cyfyng gell.

Yn gul mae 'nawr ar greaduriaid byd
 O natur wyllt, ag sydd ar wyneb dae'r
 Yn arfer chwilio, heb gynnorthwy dyn,
 Eu hymborth hyd y maesydd äng draw.
 Y geinach, druan! sydd yr amser hwn
 Mewn mawr enbydrwydd; ac nid eisiau maeth
 Yn unig sy'n ei gwasgu, ond mae mil
 O'i hyll elynion gwaedlyd ar y maes ; .

Ac nid y *digwydd* o'i chyfarfod hi
 Yw 'nawr eu hennill a'u rhagorfraint hwynt ;
 Ond ôl ei thraed ddilynir, nes yn glau
 Cyrhaeddyd sicrwydd o'r lle gwnaeth ei nyth.
 I ogof fechan rhwng y lluwch a'r clawdd
 Mae'th draed yn gweyd it' fyned ; ac nid oes
 Un nôd o amgylch yn arwyddo'th dd'od
 O'th guddle allan,—mae'th sefyllfa'n wir
 Yn llwyr beryglus, ac os diangc wnai,
 Na ddiolch byth i annhrugarog ddyn.

Yr adar bychain, ar ganghenau'r coed,
 Mor bêr a byngcient yn y Gwanwyn mwyn,
 Yr hoff fwyalchen a'i chyfeillion glân,
 Sy'n awr yn nesu, yn gardottwyr gwael,
 I'r ydlan lawnwych ac o ddeutu'r tÿ,
 I geisio taliad am amrywiol gaingc
 A roisant hwy'n ddiddanwch trwy y fro.
 Tra'r byd yn ddi-glo, a thra'r maes yn rhydd,
 I loffa gweddill y cynhauaf llon,
 Ni ddaethant hwy i geisio ar ein llaw
 Un mwyn ymgeledd ; ond pan ddarfu'n llwyr
 Pob gobaith arnynt, wele'u taith yn hy
 At fangre dynion yn eu dyled sydd
 Am lawer caniad i ddifyrru'r fron.
 Ai dengar ũs i'w hudo 'nghyd yn dorf,
 Ac ai cynnwysiad y taranllyd wnn,
 Yn gawad boethwyllt o angeuol nerth,
 Yn ddiarwybod yw y tâl a gânt ?

O lengcyn creulon ! arbed—arbed di
 Y rhai'n ; a rho'th gywreinrwydd oll ar waith
 I ladd yr adar-tô sy'n difa'r yd
 Cyn llwyr addfedu ar y ffrwythlawn faes :
 Y rhai'n distrywgar ynt ; gelynion tost
 I'r glân amaethydd,—ni theilyngant hedd.

Mor ddistaw 'nawr yw'r gwenyn yn eu tai,
 Heb un yn beiddio nesu at y ddôr,
 I ddarllain wyneb y ddrygnawsaf hin.
 Y pryfed mân, yn lluoedd bywiog iawn,
 A rodient wyneb y ddaearen dwym,
 A ymguddiasant rhag yr oerfel blin,
 Yn nyfnder tywod mewn marweidd-dra-swrth.

Y coed a welid yn eu gwisg mor heirdd
 Yn ymfalchio, sydd yn awr yn wael
 Yr olwg arnynt ; lle'r oedd blodau fyrdd,
 O amryw liwiau, ceir pibonwy hagr,
 Na wna wahaniaeth rhwng un llwyn a'r llall.
 Ar fyr o dro—'mhen orig fer ei thaith,
 Y glana' 'i bryd a'r salwaf is y lloer
 A ddyd yr angeu o'r un lliw a llun.—
 Yn llu aneirif gwelir cesair cas,
 Lle buodd meillion hoff yn gwenu'n llon,
 Mor aml â hwythau ar foreuddydd tég
 Yr Haf gwresogwych, oedd mor lwys ei wawr.

Mor groch y seinia yn fy nghlust y gwynt
 Rhwng brigau'r onnen dâl a'r dderwen ddc... :

Er cryfed ydynt, hwy ogwyddant ben
 I hwn yn isel, ac hwy deimlant rym
 Ei anadl ffyrnig yn ei yrfa chwai.
 Y rhai'n cernodia mewn digllonedd mawr,
 Yn eiddigeddus o'u cyfodiad hwynt
 Uwch eu rhywogaeth ; tra'r eithinen wael
 Yn cael llonyddwch yn ei hisel 'stad.
 Y sawl uwch eraill a ddyrchafo'i ben,
 Am glod ac enw ac anrhydedd gwych
 Yn fawr ei drachwant, i biccellau fil
 Sy'n rhoi'n agored ei afonydd fron.
 Yn craffu arno bydd Eiddigedd gas
 A'i llygaid hylm ; ar ei gwaith bydd Chwedl,
 A'i dannedd duon yn ei frathu'n flin
 Y'ngŵydd ei gefn, a boddus iawn fydd torf
 Yn uchel ganu yn ei ddyrys gwymp :
 Tra'r iselfrydig ar ei dawel daith,
 Trwy'r byd helbulus, yn cael pawb yn gâr,
 Ac iddo'n barod fyth i estyn llaw
 Cynnorthwy'n llawen i leihâu ei gur.

Y GAUAF oerllyd, a'i dymhestlog hîn,
 Sydd dymmor addas i Haelioni lwys
 I agor ffynnon ei rhinweddau mât.
 Mor hyfryd canfod ei cherddediad mwyn
 I'r bwthyn llwydwedd, lle mae'r teulu gwael
 Yn hanner-trengu yn eu caban tlawd,
 Gan newyn creulon a chan oerfel blin :
 Mi welaf draw Haelioni wrth y ddôr
 Yn curo'n ddifalch ; ac mi glywaf lais

Ar hyn o bryd, fel gan delynau'r nef
 Yn seinio'n beraidd hyfryd yn y nen.
 O blantos carpiog wele chwech neu wyth
 Yn clau ymddangos, gan drwm sylu'n fud,
 Yn foel eu pennau, ac yn noeth eu traed,
 A newyn caled, druain! yn eu gwedd.
 Chwi, sy'n ymbesgi ar ddanteithion bras,
 Yn cael i'w yfed y pereiddiaf win,
 A chael ymorphwys yn y nos yn glyd
 Ar dwym welŷau tég o fanaf bluf,
 Yn llwyr ddideimlad o'r cawodydd chwyrn,
 O wlaw a chesair ar y tô a glywch
 Yn enbyd guro, cofiwch—cofiwch chwi,
 Nad yw yn eiddo pawb y breiniau hyn.
 Mae rhai yn gorfod, gyda chylla gwag,
 Ar wely gwellt a dillad carpiog llwm,
 Rhoi'i lawr eu pwys, gan oddef llymdra'r hîn,
 A llymdra newyn ag sydd etto'n waeth.
 O'ch llawnder rhoddwch yn barodwch ran,
 I attal cwynion y trueiniaid hyn:
 A chwi cyd-frodyr ŷnt,—yr un eu Tad
 A'r eiddoch chwithau, ac nid prawf o'i ddi
 Bob pryd yw anfon cystudd ar ei blant.
 Anolrheinadwy yn ei ffyrdd yw Ef:
 Ond hyn sydd *eghur*,—gwir o'r nefoedd yw,
 Mai'r hyn a roddoch i gysuro'r tlawd,
 A rowch ar fenthyg i'r cyfoethog Dduw;
 A ph'le, er chwilio'n faith, y gallwch gael
 Trysorwr sicrach a thaliedydd gwell?

Gan rew ac oerfel os clöedig yw
 Wynebryd daear, ac os cilio wnaeth
 Gwresogrwydd anian i'w thufewdol barth,—
 Os eira mân sy'n cuddio bro a bryn,—
 Ac os anhyfryd ydyw gwedd ein byd,
 Nid yw ymweliad rhew nac eira 'chwaith
 Heb les arbennig, gan mai puro wnant
 Y gweryd briw, a lladd pryfedach mân,
 Sy'n sugnaw nodd a holl nawseidd-dra'r pridd.
 Mae cwsg i ddyn a phob creadur byw
 Er adnewyddiad nerth yn rheidiol faeth:
 Fel hyn ein daear yn y GAUAF sydd
 Yn cael ei sïo gan y gwyntoedd croch
 I gymm'ryd hun a mwyn orphwysdra pêr,
 Fel bo'i deffröad mewn 'chwanegiad grym
 A thelediwrwydd, ac yn gwisgo'i hun
 A myrdd o emmau, nes y byddo'r haul
 O gariad atti yn ymwel'd â hi
 'Nawr yn foreuach, ac yn edrych fel
 Pe byddai'n glaf wrth adaw yn yr hwyr.

Mae olwyn amser a'r Tymmorau oll
 Yn cael eu dirwyn gan alluog law
 Creawdydd natur, ac mae'i ofal ef
 Yn ddisglair danbaid trwy ei waith i gyd.
 Haelionus Dad! pa un ai Gwanwyn tég
 Fo'n gwisgo'r llawr â hyfryd berlau llon,
 Neu Haf a'i wres yn poethi bryn a dôl,
 Neu Hydref ffrwythlon yn coroni dyn
 Ag amledd didrai ei drysorau mäd,
 Neu'r Gauaf llwydwyn yn marweiddio'r tir,

Wyt ti, 'r un modd i'th weled, Geli mawr,
 Yn oll o'th waith yn berffaith ac yn bur,
 Yn llywio'r cyfan trwy ddoethineb gwych,
 Mewn nerth yn gadarn—o dosturi'n llawn.
 Mae llygad ystyr yn dy ganfod di
 Pan rua'r daran—pan ddisgleiria tês,
 Pan wawria borau, a phan ddisgyn nos.

Yn Ngaua'r flwyddyn y mae cynllun gwir
 O auaf einioes brau, fyrhoedlog ddyn.
 Mae'r llwyni'n foelion,—hefyd moel yw pen
 Yr hen-wr egwan,—crych yw wyneb dae'r,
 A chrych yw gruddiau Henaint oer ei naws :
 Cymmylau duon sydd yn cuddio'r nen,
 A d'wynnai'n hyfryd ar ganolddydd Haf,—
 Cymmylau hefyd sydd yn rhestru'n aml
 Ar wyneb Senex³ lle'r oedd gwenau fil.
 Yn awr os gauaf yn teyrnasu sydd
 Yn faich gofidus ar ein haniaid wlad,
 Daw Gwanwyn melus, a daw Haf cyn hir,
 I lasu'r coedydd, ac i harddu'r ddôl :
 Fel hyn os Henaint sydd yn orthrwm wae,
 Ac os rhaid gostwng dan ei bwn a'i lwyth
 I'r distaw feddrod, y mae gobaith sicr
 I'r cywir Gristion y daw Gwanwyn glwys,
 A Haf tragwydd o ogoniant llawn,
 I wenu arno, mewn gwynfydig fan ;
 Uwch poen, uwch tristyd, ac uwch ofnau byth,
 Yn nidrangc dawel deyrnas Duw a'r Oen.

³ Y gair Lladin am Hynafgwr.

ERFYNIAD AM WLAW,

MEHEFIN, 1826.

Ti erchaist ini, 'n Tad o'r nef,
Ddyrchafu'n llef i'th orsedd,
Er cymmaint yw ein bai a'n cam,
A galw am d' ymgeledd.

Mae gwisg ein dae'ren heddyw'n wael,
O Arglwydd hael, dihidla
Y mwyn gafodydd etto'n îr,
Wrth wedd ein tir tosturia.

Mae'n boeth yr haul,—mae'n gras yr hin,
Y gwair yn flin ddiflanna ;
Yr ydyn godai'i ben uwch dôl
Yn raddol y marweiddia.

Mae'r anifeiliaid ar y maes
A'u gwedd yn llaes,—a'r llyisiau
A wywant gan y gwres di dwn ;
Trist gweled pwn eu pennau.

Mae'r bryniau'n goch,—a'r ddôl oedd hardd,
A ffrwythau gardd yn crino,
Ac ymborth dyn dros ddydd a ddaw
Mae myrdd mewn braw am dano.

Mae agwedd anian oll yn glaf ;
 O ! anfon, Naf y nefoedd,
 Y gwlaw i'n plith o gelloedd gwawl,—
 Cei gynnes fawl gan filoedd.

H A E L I O N I .

DYRCHAF, f' Awen, dyro gân
 O glod i lân Haelioni,
 A gosod hon i'r byd i ma's
 Mewn gwisgoedd addas iddi.

Os mwyn yw gwawr—os hoff yw gwên
 Y seren firain forau,—
 Os hardd yw clôg y gwanwyn gwyrdd
 A'i liwdeg fyrdd o flodau,—

Os glwys yw lliw yr haulwen dêg
 Uwch bryn wrth gudeg godi,—
 Nag un o'r rhai'n, sy'n gain i gyd,
 Mae'n lanach pryd Haelioni.

Mor foneddigaidd i bob un
 Yw'r anwyl fân addfwynaf,—
 Mor barod byth i roddi'n fwyn
 Rhwydd glust i gŵyn y gwannaf.

Mor hardd ei chamrau, 'r gauaf o'r,
 I alw wrth ddôr y rheidus,—
 I edrych a fydd eisiau bwyd
 Mewn bwthyn llwyd, trallodus ;—

I estyn llaw o gymmorth llon
 I godi'r galon gulwedd,—
 I wrando lléf yr henwr gwan,
 A noddi'i drwstan dristedd.

Y deigryn tawel ar ei grudd,
 Mwy purlan fydd nâ'r perlau
 Y'nghoron un tywysog mawr,
 Neu unrhyw ddrudfawr emmau.

Dwg faeth i galon glwyfus, drom,
 Y weddw lom anniddan,
 A chysur hoff a rydd o hyd
 Lle gwnaeth y drygfyd drigfan.

Myfi a welais lawer gwaith
 Yn oergell laith carchardy,
 Yn attal loesau gwae a gwŷn,
 Dy hyfryd lân, Haelioni.

I'r hen a'r 'nafus hardd-dai cain
 Trwy Frydain, uwch rhifedi,
 Bob dydd sy'n codi borau gân
 O fawl i lân Haelioni.

Mi glywaf weddi llawer mil
 Am lwyddiant hil Haelioni,—
 A thorf liosog, rif y gw lith,
 Yn dadsain “Bendith arni.”

O byddwn blant i'r lwysferch hon
 O ffyddlon union enaid ;
 Cawn weddi dyn,—cawn Grist o'n rhan,
 E'n dwg i'r man bendigaidd.

Ni gawn o'n cylch holl Nattur fwyn
 I ddyn yn dwyn daioni,—
 Pob peth yn dilyn siamplau mād
 Tirionwch Tad tosturi ;—

Yr haul yn gweini dydd a gwres,—
 Y ddaear gynnes geinwch
 Yn rhoddi yd a ffrwythau llon,
 Mewn agwedd hylon haelwch.

Cawn ffrydiau llawnaf, bob rhyw ddydd,
 O gariad Dofydd dwyfol
 Yn amgylchynu llwybrau dyn,
 Ac yntau'n wyfyn marwol.

Oll, oll o'n cylch, ai gwel'd a gawn
 Fel hyn yn llawn daioni,
 Heb deimlo'r fynwes dēg yn dân
 O serch i lân Haelioni ?

A ro'wn i'r truan, dan ei bwn,
 O'r teimlad hwn ddim profion,
 Drwy rannu o'n llawnderau ni
 Ryw faint i laesu'i loesion?

Pan wnelom wledd, a'n byrddau'n llawn
 O ethol iawn ddanteithion,
 A gaiff 'mo'r caban tywyll, du,
 'I ddiwallu â'r gweddillion?

Ni phery'r byd ond ennyd awr,
 A'i drysawr a'i deganau;
 In' drysor gwnawn,—na fyddwn ffol,
 Ar fythol freiniol fryniau.

Mor ffaidd ydyw'r cybydd cas,
 Ddyn brwnt, di ras, di reswm,
 Yn byw y'nghanol aur a bwyd
 Yn adyn crinllwyd croenllwm.

Ei galon galed byth ni thawdd,
 Mae mor ddi nawdd â'r garreg;
 Ni wél na loes, na chroes, na chri,
 Un rhad o honi'n rhedeg.

Ond gwrando, ddyn,—mae gair dy Dduw
 Yn haeddu'th glyw manylaf;
 Yr adyn ffol, pa le mae'th ffydd
 Y'ngwobrwy'r dydd diweddaf?

A gedwi'n gaeth o fewn dy gôd
 Dy drysor darfodedig,
 A Duw'n dy gymmell i roi rhan
 I'r tlawd a'r egwan unig?—

Yn dweyd mai poenau uffern ddu
 Fydd rhan y di drugarog,
 Na rydd ei glust,—na fydd yn frawd
 Y'ngwyn y tlawd anghenog,—

Yn addaw bythol wynfyd tēr
 Yn ardal bêr y bywyd,
 I'r sawl a ddysgo sychu'n glau
 A'i gyfoeth ddaurau gofid.

MOLAWD IESU.

“Efe a archollwyd am ein camweddau ni; efe a ddrylliwyd am ein hanwireddau ni; cospedigaeth ein heddwch ni oedd arno ef: a thwy ei gleisiau ef yr iachâwyd ni.” *Esay liii. 5.*

YSPRYD yr Iôn mwynlon mâd
 A ddisgynnaist, ddwys Gennad,
 A swn mawr croywfawr cryfwynt.
 Ar yr Wyl dêg anwyl gynt,
 Yn dân, gan roddi doniau,—
 Wyrthiog lēn, ac araeth glau,—
 Ti elli wneud i'r t'wyllwch
 Oleuo a fflammio'n fflwch;

Pura fi, ac O! pâr fod
 Yn hyfedr iaith fy nhafod,—
 Tyred â'th fwynwres tirion
 I 'mryd,—bywiocâ fy mron,—
 Estyn ronynyn o'th nerth
 Doniol i adyn dinerth;
 Felly canaf, hwyliaf f' hun
 I iawn ystyr fy nhestun.

Dewiswn, y da Iesu,
 Roddi cerdd yn arwydd cu
 O'm cariad a'm cywirwych
 Serch attad, fwyn Geidwad gwych.
 Haeddai'th haelder bêr ddi baid
 Gân fwyn o eigion f' enaid.
 Daethost, fy Mhrynwr dethawl,
 O lwys a gwyn Lys y gwawl,—
 O'r nefoedd eirian wiwfyg,
 Y fan lle'r oeddyt mor fyg,
 I'n daear o fwyn duedd,
 Yn druan, yn wan dy wedd,—
 Dros ddyn, er ei drawsedd o,
 I warth gwael er gwrthgilio,
 O'i drallod i'w gymmodi
 A'i nefol, ei rasol Ri.
 Heb un urdd, anwyllfab Naf
 Yn sylwedd dyn iselaf,
 A welwyd dan ei alaeth,
 Heb glydwr, mewn cyflwr caeth:

Gwely yr ych, gwaela' ran,
 Gai Aer coronog eirian
 Y bydoedd,—pwy arbedai,
 Wedd drist, y dagrau'n ddi drai !
 O'i wlad ffoi draw rhag llaw llid,
 Iawn gyfaill, a dwyn gofid
 Yn faban orfu hybarch
 Oen Duw byw, fel un di barch.

Dirwysg y teithiai'n dae'ren,
 Biler byd, heb le 'roi'i ben,—
 Ei fwyn wyrth cyfrif a wnaid,
 Boen duffin, i Ben diaflaid,—
 Melldith am iaith bendith bur
 Gai'n dâl, er gwŷn a dolur,—
 A chwerw athrod tafod dig
 Am ei roddion mawryddig.
 Dros fyd, yn hylldraws ei fai,
 Drom agwedd, a'i dirmygai ;
 Chwysodd ein mât Bennadur
 Ddafnau gwaed dan ryddwfn gur.
 Yn glaf iawn gwel ef, f' enaid,
 Ow ! boen blin, heb un o'i blaid,
 Yn yfed cwppan afiach
 Llid ein Rhi, fel doem ni'n iach.

Cofiadau golau gwiwlan,
 Deg Lyw, am dy gariad glân,
 Dy wylofain, dy lafur,
 Hael Oen Duw, dan hoelion dur,—

Dy boen tost, dy benyd du,
 Dy loesion, diwael Iesu,
 Dy oer gri'n dlawd ar y groes,
 A daioni dy einioes,
 Cyffröant, siglant, ddwys Iôn,
 Ddirgelaidd wreiddiau'r galon.

Fel yn drist etto'n ddistaw
 Yn lân â'r ddafad tan law
 Ei chneifiwr, dan gyflwr gwael,
 Yn ufudd iawn i'w afael,
 Arweiniwyd Iôr y wiwnef,
 Ddifai Grist, i'r lladdfa gref.
 Da ras haelddwys, dros sal-ddyn
 Ddofydd hoff, goddefodd hyn,—
 Drosom *m*—rai yn drawsaf,
 I'n nych a ddigiasom Naf:
 Dygodd ein cospedigaeth
 Ni, dan drwm gynni'n gaeth:
 Eiddilaidd os bu'i ddolef,
 Ein bai ni oedd ei bwn Ef,
 A thrwy'i gleifion uthr glwyfau,
 Glyw'n hedd, cawsom ni'n glanhâu.

Megis wedi'i ddirmygu
 Gan Dduw Dad, ein Ceidwad cu
 Bernid, gwelid fel o'r gwyr
 Y salaf rhwng iselwyr;
 Ond Duw fynnai, luniai'n lân
 Gystuddio y gwas diddan.

Am roi'n glaf dan lymmaf loes,
 Wâr Iôn, i lawr ei einioes,
 Yn loywfyg gwel o lafur
 Ei enaid heb baid, wr pur.
 Am hyn y rhan, eirian Nêr,
 Yr ysbail yn eresber
 Gyda'r dewrion, union wr,
 Uwch ereill yn wych arwr.

Os isel fu'th oes, Iesu,
 Mae heddyw'n lân y gân gu,
 Yn gain foliant gan filoedd
 I ti, fwyn Geli, yn g'óedd :
 Ac hefyd pery'r cyfarch,
 I'r Oen byth yn eirian barch.

Gwel ei had yn gail hydeg,
 Uwch pob plâ yn dyrfa deg
 Yn Seion, â llais hoywych
 Yn llanw o'i fawl holl nef wych.
 Ucheled, dynned fydd tant,
 Gun Iesu, 'r rhai gannasant
 Eu gynau yn ei geinwaed,
 Ei ddrudfawr, ei werthfawr waed.
 O'r cystudd caeth y daethant
 Wiwlan ffo, o lÿn a phant
 Wylofain, i le hafaidd,
 Un cri ei boeni nas baidd.

Teilwng y gwelant dalu
Goreu gerdd yn gywir gu
Am fan mor hyfryd anwyl,
Am dragywydd wiwrydd ŵyl.

Gan deulu hoff iawngu'r ffydd,
Yn ail i rif dail dolydd,
Ar ddydd glwysbryd hyfryd haf
I'w teimlo pan b'ont amlaf,
Hosanna a hoyw seinir,
Mewn profiad o gariad gwir,
I'r Oen a roes, trwy rinwedd
Ei waed glân, y loywlan wledd.
Ei ing a gwerth ei angau
Fydd destun i glymmu'n glau,
Dien gâr, ei glod yn g'oedd,
Hynaws Iesu, 'n oes oesoedd.

Meddyliaf, mewn modd hoywlon,
Y clywaf eu dwysaf dôn,
Ar seirian lân delynau
Eu hemyn hoff yn mwynhâu.

Pr Oen,—i'r Oen iawn ranner
Hwylus barch yn felus bêr,—
Iddo Ef a oddefodd
Warth yn bwys, fel wrth ein bodd
Y b'om ni,—heb ofni byth
Drwg ofid yn dragyfyth.

O wasgfa, odfa adfyd,
 I ganu'n bêr,—gwyn yw'n byd,—
 I le'r hedd, o lawer rhwyd,
 I wledd yr Oen a laddwyd,
 Y daethom :—O! 'n Duw ethawl,
 Gwin i'th feib yw gweini'th fawl.
 Bro yw hon o fwynbur haf
 Tragwydd,—nis tŷr gauaf
 Ein llon-gan a'n llawengerdd ;—
 Bro in' yw a bery'n werdd.
 Gwelwyd trechu, baeddu bâr,—
 Un gelyn er ein galar,
 Un dryghin, un blin oer bla
 Neu ddamwain ni ddaw yma.

Am y Ne', deg le, da'i glod,
 Clywsom, ein Celi, isod,—
 Ond difedr oedd un tafawd,
 Drwy iaith ffydd, i draethu ffawd
 A gogoniant gwiw gu-nef,
 Seion a'i Lys anwyl ef.
 Pŵl pob meddwl am y man,
 Heb *weled* y lle bywlan.
 O! ddidwyll ryfeddodau!
 Wynfydig, arbennig bau!
 O! fannau anwyl-fwynion!
 O! eirianwedd annedd Iôn!
 Cedyrn yw'r muriau cudeg,
 Ein Duw a'u seiliodd yn ddeg:
 Treiddio ni ddichon trwyddynt
 Y daran goch, dwr na gwynt.

Hyfryd ŵyl lawn hwyl yw hon,
 Gŵyl lân, uwch swm gelynyon :
 Yn gu pob telyn a gair
 Ac awen oll mewn cywair.
 Gwên Oen Duw gynneua'n dawn,—
 Heddyw mae'n cerddi'n hyddawn,
 Wrth ein bodd—mae'r iaith yn bêr
 Yn llifo heb sill ofer.
 Cain yw miwsig cân Moesen
 A'r Oen o hyd—ni thry'n hen.
 Mawr gôr mewn môr o gariad
 Sy'n dy foli di, O Dad,
 A'r Un (werthfawroccaf rodd)
 Yn lanaf a'th foddlonodd.

Dyled na allem dalu
 Yn faich ar dy weision fu :
 Llwytho'r iad a llethu'r oedd
 Ein briwedig ysbrydoedd,—
 Ond wele ni'n gweini'r gân
 Wedi'r cwyn, ar dir Cana'n
 Ni haeddasom, dda Iesu,
 Olud a gwerth y wlad gu :
 Dy waed, fwyn gâr, a'n dodwys
 Yma'n glydŷmewn lle mwyn glwys :
 I ti, ar ddeheulaw'r Tad
 Yn eistedd wyt yn wastad,
 Yn rhedeg boed anrhydedd
 Mal teg win,—mawl iti gwedd,—
 Ein gwir-Dduw mwyn, ac urddas
 Am amledd o ryfedd ras.

Fal hyn yn pêr foliannu
 Bydd y diên, lawen lu,—
 Yn addoli'n iawn ddilyth
 Crist eu Pen, heb orphen byth.

DWYS FYFYRDOD.

TAD fy nawn, tydi fy Nuw,
 Dda, haelddoeth drag'wyddol-Dduw,
 Côr hoywbur y Cerubiaid
 Gân, uwch sêr, yn bêr ddi baid,
 Gannoedd, ar dir gogoniant,
 Dy fawl di â dwyfol dant,—
 Fad Iôn, beth yw'm tafod i
 Eiddilwas, i'th addoli?
 Etto cymmer, dyner Dad,
 Y Por mawr, (pur yw 'mwriad,)
 Gennyf a *allwyf* ganu,
 Adyn gwael, i'th glod yn gu:
 Duw Iôn, gad im' dy annerch,
 Llawn gwres wyf—llawn geiriau serch;
 Gwrando ar lwyd abwydyn,
 Rasol Dduw—ar isel ddyn.

Yn ddidawl gwir fawl a fo,
 Llawnaf it' am fy llunio,—

Fy ngalw i fod—fy ngholedd
 Trwy'm mebyd o hyd mewn hedd,—
 Yn fadiai am addfedu
 Y côf a'r cynneddfau cu,—
 Am roddi im' arwyddion
 Goruwch rhif dyfrillif y dòn
 O'th fwynder a'th dynerwch
 Mwyn a llon—a mi yn llwch.

Uwchlaw dim, fy uchel Dad,
 Molaf di am d' ymweliad
 A dyn pan y'nghyflwr dwfn
 Tywyllddu pechod dallddwfn,
 Trwy dy anwyl—trwy d' unig,
 Fab difai a dynnai'r dig.
 Agoraist, trwy dy gariad,
 Ffordd newydd, yn rhydd, yn rhad,
 Trwy Iesu fu farw trosom
 Fel byw i dy fawl y b'om.

Dyfodfa, os du f' adfyd
 Dan sâl friw—dan isel fryd,
 Fy Nhad, sydd attad etto,
 Drwy'i glaf ing—drwy'i glwyfau o.
 Ar led O rheded yn rhydd
 O fy enaid afonydd
 O gariad at y gwir-Oen,
 Dan y baich fu'n dwyn ei boen.
 Os adyn clwyfus ydwyf,
 Yn Oen Duw yn wan nid wyf,—

At Iôn tirion anturiaf,
 A groeso ganddo a gaf.
 A oes cil isa' calon
 Nad yw'n frwd—un dyn o fron
 Ddrylliog, na ddyry allan
 I'r Iesu cu wresog gân ?
 Y glwys-Oen, trwy ei gleisiau
 A'i chwys cawsom ni'n hiachâu :
 Dorau nef, wych dirion waith,
 Agorodd trwy ei gurwaith.

Pan bo'r ddaear hygar hon
 Yn ulw,—a'i dymunolion
 Bethau ar lwyrgoll bythawl,—
 Pan na rydd seren wên wawl,—
 Yn oer niwl pan byddo'r nen,
 Heb yr ol lle *bu'r* haulwen ;—
 Os gwiwnef a glwys ganu
 Yn bêr a gaf mewn bro gu,
 Enneiniog Duw, 'r Oen anwyl,
 A brynodd, a rôdd yr wyl.
 Os gwaith cu yw clymmu clod
 Da Iesu mewn byd isod,
 Caerau hedd os cyrhaeddaf
 Yn fil gwell ei foli gaf,
 Yn ddiderfyn ar dÿn dant,
 A melus fydd y moliant :
 Y gân fydd well nâ gwinoedd,—
 Llawnaf fÿs fydd llawen floedd

Hosanna, yn llys hoywnef,—
Uwch du gur—a chydag Ef.

ANNERCH Y DUWDOD.

O Dduw mawr, seilydd muriau
Y nef bur, eirianaf bau,
Pa le am iaith faith—pa fodd
Y medraf iawn ymadrodd
I ddatgan, gulan Geli,
Yn dda dêg dy fawredd di?
Awdwr y cyfan ydwyd,
Bywyd oll yn danbaid wyd.
Yn g'oeidd y bydoedd uwch ben,
Siriolaf sêr a haulwen,
Tystiant pan fflamiant yn fflwch,
Dy allu ar dywyllwch.
Lluniaist y mwyngyrph llonwawr
Harddaf a gwyhaf eu gwawr,
O ddim, gan wedyd yn dda,
“Byddwch” a hyn a'm boddia.

Dy law, ein Duw, deil yn dêg,
Gadwyn holl anian gudeg,
Ar ennyd a ymrannai,
O barch i'th wych arch yn chwai.

Cawraidd os rhua'r corwynt,
 Dy air rhwydd a dŷr ei hynt ;
 Dan dy gaeth lywodraeth lân
 Derwyd, mae gyrfa'r daran :
 Ti wnaist, ti wisgaist y wen
 Oreubryd eglur wybren
 Yn llawn gemmau llon gymmwys,
 Heb ri' yn y glasni glwys :
 Cannaid wedd, er ceined ŷnt,
 Yn hylwydd iawn eu helynt,
 Edwina, hena'r rhai hyn,
 A llwydant fel dilledyn,—
 Ein Tad, etto'r *un* wyt ti
 Uwch anaf, poen a chyni,—
 A'th flwyddau, ddwys orau Sant,
 Os meithion, byth nis methant.
 Yn eglur dēg gwelir di,
 Dduw uniawn, a'th ddaioni
 Ym mhob peth—heb feth yn fwyn
 Ddeddfwr a Llywydd addfwyn.
 Wyt Fod heb adnabod nos,—
 Tywynu a wna tew-nos
 I ti, fel goleuni glân
 Siriol yr hafddydd seirian.
 Y lonwawr nef a lenwi
 Dirion Naf, a'n daear ni :
 O'r rhwyd i b'le y rhedaf
 • Gu Ner, os dy ddigio wnaif?
 Trigfan, yn hoff wiwlan ffo,
 Ni bydd un heb Dduw yno.

I'r dyn doeth a rodia'n d' wydd,
Têr ymgais, ni ddaw tramgwydd
Na blinder na chwerwder chwith;
Dy fwynder a dy fendith
A'i tariannant trwy einioes,
A Ne' lân a ga 'n ail oes.
Gweled dyfnderau'r galon
A wnei di, bob ennyd, Iôn:
Y dall, a gais dy dwyllo,
Yn wir fawr y siommir fo.
Hyll hynod dwyllo'i hunan,
A wna'r gwr o synwyr gwan.
Cela rhag dyn mewn c'wilydd
Y du fai,—a Duw a fydd
Yn gweled ar lled yn llwyr
Ei helynt oll yn hylwyr.
Duw addfwyn, fel yn d'wyddfod
Di, y byddwyf fi am fod
Beunydd—yn caru'n bennaf
Y gwir noeth a geiriau Naf.
Yn anwyl ffordd unionedd
Boed fy mryd o hyd, yn hedd
Cydwylbod, a'r Bod sy'n ben
A Naf dewr nef a dae'ren.
Diau 'nol cael Duw'n elyn,
Ni lesâ tyb dda gan ddyn?
Un dyn ni saif ond ennyd,
A'i barch i felysu'm byd:
Gyda'm Ner a'm mad Berydd,
Fy nhaith yn hir faith a fydd.

Duw imi fydd gydymaith
 Am oed trag'wyddoldeb maith.
 Ar yrfa gyda'm gwiwdeg
 Hyfwyn Dad yr wyf yn deg,
 Yn ddeiliad iddo'n ddilyth,
 Yn was byw i oesi byth ;
 Gwell i mi golli 'mywyd
 Na'i ddigio er boddio'r byd.

I'r enaid mwynwar union,
 A rydd ei oglud ar Iôn,
 Yn ei gariad mad mae mêl,
 A thywydd tēg a thawel :
 Hedd o fewn y dda fynwes
 Yrr trwy'r yspryd hyfryd des,
 A bydd o hyd fy myd mwyn
 Yn gwenu fel y gwanwyn.
 Cofia Duw am y cyfiawn ;
 Ei fwrdd yma llenwa'n llawn :
 Wrth oddef bydd borth iddo,
 Oleu fraint, yn anial fro
 Marwolaeth,—bydd faeth, bydd fur,
 I'w ddal o dan ei ddolur.
 Yn ol ing a niwl angau,
 Ca wledd mewn hedd i'w mwynhâu,
 Yn llawen bêr, lle na bydd
 Un drwg wae yn dragywydd.

DYDD Y FARN.

Mesur—" Gwel yr Adeilad."

Efallai pan bo Nattur,
Mewn gwisg ardderchog fwynbur,
Yn harddwych wenu ;
Pan byddo clôg y coedydd
Yn gain, mewn gwawr ysplennydd,
Yn mwyn olygu ;
Y bydd, it' ddarllain ar ryw ddydd
Fy ngwirddwys ganiad, ar ymddattodiad
Holl anian lwysfad a'i rhaniad ; pan y rhydd
Yr hanes iti syndod,
Dan gysgod tég y gwŷdd :
Ond daw, yr amser llawn o fraw :
Y gwir ymadrodd Duw a'i llefarodd,
Yr hwn a ffurfiodd, a luniodd nef â'i law,
Yr hwn wna'r gwynt i bwylo,
A'r môr i dreio draw.

Y creigiau cedyrn mawrion
Ar ennyd yn ysgyrion
Rhoir ar wasgariad ;
A chwymp yr uchel fronydd,
Y'ngghyd â'r talion eltydd,
Ar un ysgogiad :

Yn dân, aiff harddwch natur lân ;
 Ein daear dodda gan wres erchylla',
 Trwy'i pharthau mwyna' a hagra'n ddiwahan
 A gwyrddion lysiau'i gerddi
 A'i meini'n ulw mân.

Rhyw ddydd, ofnadwy iawn a fydd !
 Dydd braw a gwelwi, dydd mawr y cyfri',
 Dydd barn Duw Celi, sydd ini'n rhoddi'n rhyde
 Uchelbris ddoniau glwysfad,
 Mewn cariad heb ddim cudd.

Daw Iesu gyda'i weision,
 Gôr harddwych o Angylion,
 Ar y cymmylau ;
 Ac udgorn yr Archangel
 Rydd ddolef gadarn uchel,
 Trwy'r ban^l wybrenau ;
 A'r rhai, fo'n gorwedd yn y clai
 A than y tonnau, mewn cudd ogofau,
 Ddont yn filiynau, o'u holl garcharau'n chwai,
 Ryw dyrfa fawr o feirwon,
 Rifedi meillion Mai :
 I'r lan, yn glau e'u cyrchir ; pan
 Y cânt eu dedryd, mewn trag'wyddolfyd,
 Yn bur ddedwyddyd, a rhwyddfyd byth i'w
 rhan ;
 Neu ynte wae truenus,
 Mewn llwyr anfoddus fan.

Uchel.

Y rhai fu yma'n rhodio
 Y'ngwyddfod Duw, gan bwylo,
 Yn wâr eu llwybrau,
 A pharchu'r Arglwydd Iesu,
 Yr hwn a ddaeth i'w prynu
 O'i gariad gorau ;
 Y rhai'n, yn dorf wynfydig gain,
 A gânt roesawiad i mewn i'r fwynwlad,
 Lle mae y ganiad o felus wiwfad sain,
 Uwch glŷn dychrynlyd Angau,
 Uwch ofnau drygau drain :
 Mewn gwledd, o amgylch Duw a'i sedd,
 Cânt weled Iesu, fu yma'n gwaedu,
 Gan, yn anwylgu, iawn wenu yn ei wedd,
 Mewn mwynder o'r hwylusaf,
 Dros byth a hoffaf hedd.

Y rhai fu yma'n gwatwor
 Eu Duw, heb wneyd ei gyngor
 Na phrisio'i eiriau,
 Gan ffolaf gau eu llygaid
 Yn erbyn goleu tanbaid
 Efengyl orau,
 Gan fyw, 'n rhy ffaidd, er y'nglyw
 Glân air y nefoedd, gair Duw y lluoedd,
 Sy'n gwa'dd yn gyhoedd i'r lleoedd hardd eu
 lliw,
 A chymmell pawb i bwylo
 A pheidio digio Duw ;

I'r llyn, llawn gwaeau ca'r rhai hyn
 Yn glau eu danfon, yn hyll gaethweision,
 At uffernolion i boenau salwon syn :—
 Rhyw barch, er hir amynedd,
 I'w fawredd Duw a fyn.

Tydi sy'n rhodio llwybrau
 Llwy'r groesion i reolau
 Y nef oreulan,
 Mewn pechod yn ymrwydo,
 Pa peth wyt ti'n ei addo
 I'th daith anniddan ?
 Mae Duw, (a'i air gwirionedd yw)
 Yn eglur wedyd fod dydd dychrynlyd
 I dd'od ar ennyd ;—cyn delo'r clefyd clyw ;
 Peth tost yw poen trag'wyddol,
 Iawn geisia fythol fyw :
 Mae'th Dad, yn caru dy iachâd
 Fil, mil o weithiau yn well nâ'th boenau ;
 Cais di'n wir forau feddiannu'r muriau mad
 Sydd iti'n barod anrheg,
 O fewn ei loywdeg wlad.



Y GALON.

galon sydd fwy ei thwyll nâ dim, a drwg ddiobaith ydyw;
pwy a'i hedwyn?" Jeremi xvii. 9.

DIRGELAF le ydyw'r galon;—edrych
I'w anhydraidd eigion
Nid ellir,—diao deillion,
Er pwyll, ym i hagrduwyll hon.

Gwâl addoer¹ yw i gelwyddau;—enllib,
Ac anllad ddrwg eiriau
Agwnnant, och! i'r genau,
I friwio heddd a'i freuhâu.

Yn dala mae'i hudoliaeth—y callaf;—
Colli wna gwybodaeth
Wrth bwyso, er gwylio'n gaeth,
Y galon—gwae ehelaeth.

Glân hynod ei galon ei hunan—fyth
Dyn a farn yn fuan;
O'r golwg, is mawr geulan,
Gudd dwfn, y mae'r fagddu dân.

Pwy hygar wr gwâr, gwirion,—yn wiwdeg
A edwyn ei galon?

¹Oer.

Gwneyd yn annoeth y doethion,
A'i gweniaith hyllfaith, mae hon.

Ow! gell lawn dichell oer, du ;—yn boenus
Pob enaid mae'n dallu :
Tywyllwch gaiff fantellu
Baw yn llwyth a beiau'n llu.

Yn ei ddydd Dafydd, er dwyn—yr oenig,
Ran Urias addfwyn,
Er brad ac anllad gynllwyn,
Nis teimlai, nis gwypai gŵyn.

Yn fuan Nathan ddynoethai—y drwg,
Gan ei drin yn hyllfai
O'r bôn ; etto'n hir y bai
Y galon gas a gelai.

Gwilia, ddyn, ar dy galon—yn fywiog ;
Na feia'th gym'dogion,
Cei'n nes, yn y Sarphe hon,
I'w ddiwygio lawn ddigon.

Yn angall na chwil wallau—rhai eraill,
Rhy eirwon dy lwybrau,
Adyn ffol, a'th fron d'i'n ffau
A dewr ogof pob drygau.

Y drwg sydd yn agos i dre',—lladder
Er llwyddiant ef gartre'

Yn llon, canys dyma'r lle
Gwna ei ôl freg anaele.

lawn ymladd di ag anamlwg—waeledd
Dy galon lawn hyllddrwg ;
Y'ngheubwill, twll tywyllwg,
Dy fron ddu cais drechu'r drwg.

BODDLONRWYDD.

FODDLONRWYDD, ble'n gwenu mae'th wyneb mwyn
llon,

Gan weini tawelwch hyfrytaf i'r fron ?
Nid oes i Bererin, yn nyffryn oer du
Y gofid a'r galar, gyfeilles mor gu.

Un ydwyt â moddion, ferch lwysgu, i'th law
I godi'r drom galon, i ymlid pob braw :
Gwna 'mwith it' yn annedd, a dysg imi'th lais,
Mewn byd o orthrymder a thrawsder a thrais.

Dy fynwes di'n dawel bob amser a gaf,
A'th wedd yn hyfrydlon fel hinon yr haf ;
Ac arnat mor ddinerth y gofid a gur
A'r gwyntoedd ar greigiau a muriau y mŷr.

Mi'th welais, Foddlonrwydd, yn llawen gân waith
Rhwing plantos yn chwarae, wrth fwthyn llwyd,
llaith,

Ac yno'n hir aros, yn fwyndlos lân ferch,
Tra mawrion yn ofer ddeisyfu dy serch.

Pan byddo gofidiau'n ymchwyddo'n y fron
Yn donnau cynddeiriog, Boddlonrwydd, fun lon,
A ddofa'u lliidiawgrwydd, a'r galon oedd glaf
Fydd lawn o bob gwynfyd, dwys hyfryd dês haf.

Bydd imi'n garedig; â'th law dyner wen
Oddiar fy ngolygon tyn ymaith y llen,
A gâd imi weled pob peth fel y mae,
Nid chwant lle mae digon, nid gwên lle mae gwae.

Y palas godidog, uchelfrig, gwych draw
Gaf wel'd yn llawn llwybrau y gofid a'r braw;
Tra llu arno'n syllu mewn syndod di lyth,
Y'nghronglwyd y fangre gwnaeth gofal ei nyth.

Anneddau mawryddig a rhodres y byd,
Boddlonrwydd a garaf yn well nâ chwi 'gyd:
Ar fer-daith ei fywyd, â'i oes megis hûn,
Ychydig, pe gwelai, sydd ddigon i ddyn.

Foddlonrwydd, yn rhodio o ddeutu'm bwth i
A'th fwyn chwaer, Amynedd, yn llaw-law â thi,
Y'th welwyf yn fynych yn dawel dy bryd,
Ac yna bydd hoenus a melus fy myd.

Dysg imi iawn brisio teganau'r byd hwn,
 A chofio dan ddolur nad hir pery'r pwn,—
 A chwyd fy ngolygon at fryniau'r hoff wlad
 Lle mae im' wych urddas yn Nheyrnas fy Nhad.

Dysg imi ystyried o ddyled i Dduw
 Faint sydd am fendithion heb rif o bob rhyw ;
 A byth i ymostwng yn dawel i'w law,
 Os am fy nhroseddau'n geryddol y daw.

Os yma'r wy'n caffael yr enllib a'r gwawd,
 A chael imi'n elyn un dybiais yn frawd ;
 Mae Duw imi'n gyfaill, ni chaf fyn'd ar goll ;
 Mae'i fraich yn alluog, mae im' oll yn oll.

Y WENYNEN.

Os canaf nis haeddaf sen,
 Yn iawnwych i'r Wenynen,—
 I fawl Creadur mor fach,
 A thafod parod, puriach.
 Gwanwyn llon, tirion torrodd,—
 Yn wiwlan wych daeth ail nôdd
 I wreiddiau llyisiau llesol ;—
 Iraidd wawr sydd ar y ddôl,

Yr awel sy'n bêr rywiog,
 Ac ar waith wel-accw yr ôg¹,—
 A'r wŷn fry ar eirian fron
 Galwant eu mamau gwiwlon :
 A hithau, yn hoyw weithian,
 Y wan, lew, Wenynen lân,
 A'i thraserch at ei thrysor,
 Yn ddistaw a ddaw i'r ddôr :
 Bellach ei chwsg a ballodd
 A'i thrwm hân, hoff un, a ffodd :
 Gwlaw a rhew wnaï'n gul ei rhan ;
 O'i chell yr edrych allan,
 Yn ebrwydd i'r gain wybren,
 Pa nod sydd yn bod uwch ben.
 Hi anturia gyda'r gwynt,
 Fore heulog, fyr helynt ;
 Nid oes un man dewisol,
 Buan yr annela'n ol
 I'w mur,—ac ofnau mawrion
 Yn llwytho a briwio'i bron.

Daeth Haf llon, a meillion mêl,
 A thywydd mwyn a thawel :
 Y Wenynen lawen, lwys,
 Drwy y gerddi'n dra gwirddwys
 Yn awr a hed, iawnwar hynt,
 Yn hwylus deg ei helynt.
 Draw ar gaeau, parthau pell,
 Wych ystyr, cofia'i chastell ;

¹ Oged.

Daw i'w hannedd geinwedd, gu,
 A'i llwyth yn mron a'i llethu.
 Gwiw effro i amgyffred
 Ei swydd, iddi'n rhwydd yr hêd,—
 Heinif, heb eisiau'i hannog,
 Yw i ddwyn o'r llwyn ei llôg.

Ni thâl rheolau'i theulu,
 Iawn y gŵyr, heb *wneyd* yn gu
 Ei rhan, yn eirian wiwrydd
 A dyfal, tra dal y dydd.
 A oes heddyw un swyddog
 Dros ei wlad, er llad a llôg,
 A'i ofalon mor felys
 A mwyrwydd er llwydd y Llys?
 Ei sî, yn llwyni llannerch,
 Sy'n dwyn, fel â swyn, fy serch:
 Mor ddiwyd, â mawr ddeall,
 Y casgla mewn gwyldra'n gall,
 Yn yr Haf, cyn addoer hin
 A gwyw gur gaua' gerwin!
 Druan fach! dyrannaf fi
 It' ystyriaeth tosturi:
 Tydi, er nas gwyddi'r gwall,
 Trysori'r wyt dros arall:
 Y foru i oferwaith
 Yr êi o'th dŷ'n wir i'th daith:
 Ow! dyn a 'speilia d'annedd
 Yn ddewr ei sŵn,—ddiras wedd!

Edrych, ddyn, ar ddiwydrwydd
 Y lân Wenynen, i'th lwydd ;
 Parottô, erbyn pryd dwys,
 Hygar olud goreulwys ;
 Yn fanwl, yn Haf einioes,
 Synia'n gall am arall oes :
 I gasglu na fydd gysglyd
 Erbyn taith i faith wych fyd :
 Dy drysorau, geiriau gwir,
 Na ddioga, ni ddygir
 Oddi arnat trwy ddewrnerth ;
 Byth barhâ gwychdra eu gwerth.

TRACHWANT.

Ti Ellyll gorwancus, di ddigon, di ddâ,
 Ti haint y bydysawd, dechreuad pob plâ,
 A'th wisgoedd yn goegwych, a gwên ar dy bryd,
 Tra'th gorph yn llawn clwyfau cuddiedig i gyd ;

Gynnifer o ddynion a ddygaist trwy d' arch
 I ben uchel d'frau, gan addo mawr barch,
 Oddiyno i'w tafu'n afuniaidd i lawr
 I bydew dychrynlyd, a surlyd ei sawr.

B'le dygaist ti Bona,¹ yn niwedd y daith,
 Yn ol ei glodforedd a'i fawredd gwir faith ?

¹ Buonaparte.

I anial Helena, arswydus dy swyn,
Y'mhell o fro'i geraint, yn gaethwas di-gŵyn.

Nid Ffraingc, un o'r gwledydd hyfryttaf dan nen,
I hwn ydoedd ddigon, a bod arni'n Ben ;
Ond Trachwant a'i trechai, a'i dallai, nes d'od
Yn isel garcharwr y dyn mwya'i nod.

Gwell byw yn ddisylw, ac felly'n ddi sen,
I ddyn, nâ dyrchafu'n rhy uchel ei ben :
Y gwynt ag sy'n darniaw yr onen, chwyrn gri,
Ni wna fawr ymryson, eithinen, â thi.

Pa fwyaf ar glodydd y byddo fy mryd,
Mwy'r hoga Cenfigen ei dannedd o hyd,
Ac uwch yn fy nghwypad y codir y gân
O felus orfoledd gan fawr a chan fân.

O'm llwybrau distawaidd sa', Drachwant, y'mhell ;
Ni chei di un noswaith lettya'n fy nghell :
Mae Tlodi a Gofal gan' milwaith i mi,
Er tristed eu hagwedd, yn hoffach nâ thi.

Y'mhell o ymyrraeth a balchedd y byd,
Yn nyffryn tawelwch, â'm hannedd yn glyd,
Y treuliwyf fy einioes, yr hunwyf mewn hedd,
A dodder a ganlyn ar garreg fy medd :—

Fan hon y mae'n gorwedd dan raian y'nghudd
 Un dreuliodd yn ddifraw, yn ddistaw ei ddydd :
 Ym maes yr ymryson ni chlywyd ei lais ;—
 Nid clod oedd ei hoffder, nid mawredd ei gais.

Da welodd nad ydyw y bywyd ond brau,
 A gwenau gogoniant nad ydynt ond gau ;
 Mae'n dawel ei annedd o sŵn byd a'i glyw,
 A'i obaith yn gorphwys ar gariad ei Dduw.

GOBAITH.

Fwyn angor yr enaid, mewn chwerwder a chur,
 Er gwaethaf pob adfyd i'r eithaf fo'n sur,
 Trwy'r niwlen yn gwenu os gwelir di draw
 Tawelwch nefolaidd i'm hyspryd a ddaw.

Tydi dan glefydau sy'n cynnal y fron,
 Rhag syrthio'n ddrylliedig dan ymchwydd y don ;
 Wyt lewyrch yn gwawrio'n fwyn hyfryd dy wedd,
 Ar fordaith dymhestlog ein bywyd i'r bedd.

Os heddyw cymmylau sy'n erchyll amdoi
 Fy llwybrau dyryslyd, fy ngolwg gan gloi,
 Tydi fyddi'n serchog afael'u'n fy llaw,
 Gan wedyd, " Y foru yn desog y daw."

Dy hoff fwynaf rinwedd iachusol iawn yw,
 Ac arnat ti'n unig mae miloedd yn byw:
 Y lle yr anelodd gorthrymder ei saeth
 Tydi'n glau a welli yr archoll a wnaeth.

Pan byddo cyfeillion mynwesol a gwir
 Yn gorfod ymadael, dros amser dwys hir,
 Y *Gobaith* o eilwaith gyfarfod yn llon
 Fydd eli i glwyfau, i friwiau y fron.

Y fam beth ond *Gobaith* a'i cynnal bob awr,
 Rhag syrthio'n wywedig dan lewyg i lawr,
 Pan draw ar y ce'nfor peryglus mae'r un
 A gâr mor bur anwyl â'i henaid ei hun.

Os rhwystrau'n dyrysu'n hamcanion a gawn,
 Trwy'th gymmorth, hoff *Obaith*, yn llwyr ni thrist-
 âwn;

A thi yn ein nerthu ymdeithiwn ym mla'n
 Trwy oer ddyffryn adfyd, yn uchel ein cân.

Fel gw lith i'r gwenithyn,—i'r sychdir fel gw law,
 Yn hoff dy gysuron i'r ddwyfron a ddaw;
 Bydd imi'n gyfeillgar, i'm hofnau rho sen,
 A llawen y treuliaf fy myrddydd i ben.

Fy nâ¹ a fy nefaid os colli a wnafl,
 Os casglu o ffrwythau fy ngwinllan ni chaf,

¹ Habacuc iii. 18, 19.

Fy ŷd ar y maesydd os diffirwyth y try,
Yn Nuw y gobeithiaf er hyn oll yn hy.

Yn wyneb holl ddychryn tra dwys angau du,
Mwyn *Obaith* yn darian i filoedd a fu,
Yn llusern i'w llwybrau,—yn dangos o bell,
Trwy'r llen o dywyllwch, y bryniau sydd well.

Ond dychryn, fy enaid ; adgofia fod man
Na rydd i'w drigolion un gobaith yn rhan ;
Lle wedi machludo mae hyfryd haul hedd,
Heb neb, och ! yn disgwyl ail weled ei wedd.

I mewn pan bo'r meddwl ei lygad yn troi,
A gweled trugaredd dros byth wedi ffoi,
Mor erchyll y teimlad, arswydus uwch iaith !
Fy Nuw, rhag ei brofi, ystyriwyf fy nhaith.

I'R CELWYDD.

COLYN y diawl yw Celwydd—gwenwynig,
Wŷn anwar afonydd ;
Gyrr ar ei faith daith trwy'r dydd
Eneidiau yn annedwydd.

Chwerwloes i lonwych irwlad—ydyw hwn,
Sy'n dihoeni mwynwlad ;

Gwae marwol, trwy'i gameiriad,
A geir i lwys hygar wlad.

Gwledda wna'r cas gelwyddwr,—dig gulwaith,
Ar waed calon glân-wr :
Mae urddas gwell i'r mwrddwr,
Ryffin wedd, na'r aflan wr.

Cilio rhag ergyd celwydd—nid ellir ;
Gwna dyllau'n ein clodydd,
Mewn du frad ; a'i fwriad fydd
Dwyn holl iawnwerth dyn llonydd.

Och ! wirfai sy'n gwneyd chwerwfyd,—wae
anwiw,
Yn diwyno glanfyd :
Yn hoywfraint caem wên hyfryd
Daear bêr ped âi o'r byd.

O ! gelwydd, pa faint y galar—erioed
Wnaeth dy rydost lafar ?
Llawer Cristion gwirion, gwâr,
Gyrraist ti goris daear.

Dagraulif o rif gro'r afon—peraist
Mewn darpariad creulon ;
Braenaru bronnau irion
A geisi di â'th gas dôn.

Caled yw bron mab y Celwydd,—megis
 Pe'i maged ar fynydd
 Carregog, rhwng y creigydd,
 Oror hell yr eryr rhydd.

Udgorn celwyddwr adgas,—briw iechyd,
 Sy'n brawychu teyrnas ;
 Ni wëdd,—mae'n waith anaddas
 Estyn coel i'r Satan cas.

Y Suddas brwnt fo'n soddi,—a'i wely
 Ar waelod y mawrlli' ;
 Neu wrth warrog yn crogi,
 Oer elyn cas, ar lun ci.

I'w nadael i wael annedwydd—gwympad,
 Wnai'i gampau'n llawn c'wilydd,
 Naw colofn i un celwydd
 Yn rhy fach i'w rhoi a fydd.

Noder yr un a wedo—gas anair ;
 Gwiw synied am dano
 Mai brad yw ei fwriad fo,
 Du gclwydd, paid a'i goelio.

Ac un a fo'n llawn gweniaith—yn d' wyneb,
 Gan dannu nawseiddiaith,
 Gochel,—nid rhywiog wychiaith.
 A fedd serch, yw'r foddus iaith.

E ddy lai fod nôd i ni—ar dalcen
 Hir-dolciog celwyddgi
 O losgiad gôf, law wisgi,
 Er llai o goel i'r hyll gi.

 AWDL I'R GWANWYN.

Yn awr yr arddwr, gwr rhagorol,
 A â i'r maes yn wir rymusol,
 I droi â'i aradr yn dêr wrol
 Y ddaear lwysaidd irwiw lesiol,
 A rhoi hâd fal mae'n rheidiol—i'w harffed
 A ga o'i nodedd yn gynnyddol.

Y tymhestloedd, floedd arw flin—hedasant
 A'u diserch lais oerflin;
 Daeth nefolaidd hafaidd hin,
 A glwys agwedd glas egin.

Daeth y gwanwyn mwyn a mât—i filoedd
 Yn felus iawn gennad,
 A'i lewyrch yn oleuad,
 Ar uchelfryn a glyn gwlad.

Yr haul per araul pur eurwawr—bywlon
 A'i belydr dysgleirwawr,
 Sy'n bywhâu llyisiau y llawr
 Trwy ei wiwnerth tironwawr.

I fywyd dwg yn fuan—a hoywdeg
 Bob hedyn bach egwan ;
 Ei lygad glwysfad a glân,
 Rydd enaid i wraidd anian.

Y ddaear hygar ei hagwedd—yn awr
 Mewn eres orfoledd,
 Ei mynwes gynnes geinwedd,
 Egyr hon â gwawr o hedd :

A daw myrdd o bryfed mân—o honi
 Yn heinif iawn allan ;
 A theimlant, deg lwyddiant glân,
 O'u mewn fywyd mwyn fuan.

Mae meillion gwynion ugeiniau—lliwdeg
 Yn dilladu'r caeau ;
 A gwisgir, paentir pob pau
 Fel Eden â heirdd flodau.

Yn awr pob gardd hardd ei hurddas,—gwena
 Yn geinwych ac irlas ;
 Llawn o glod yw pob llwyn glas
 Gosgeddig, mewn gwisg addas.

Llawenydd sydd drwy'r llwyni ;—gwâr adar
 Yn goreudeg odli :
 Clyd fwriad, yn clodfori
 Awdwr nef a'n daear ni.

Ar y coed daw'r cawodydd—iawn anwyl
 I enneinio'r gwinwydd ;
 Gwlaw gwresog a rywiog rydd
 Yr eginau ar gynnydd.

Yr hwsmon, dirion wr da,—ar ei wych
 Oreu waith pan sylwa,
 Yn wir foddus rhyfedda ;
 Gwenu yn anwylgu wna.

Ar foreuddydd,
 Yn gywreinrydd,
 Yr uchedydd ar iach aden,
 A'i mawl-gywydd,
 Fry i gaerydd
 Iôn ei Llywydd & yn llawen.

Draw y gwelir yn dra golau—yr ŵyn
 Eirianwedd yn chwaraeu ;
 A gwyllt mae eu traed yn gwau,
 Bêr anian, ar y bryniau.

Llwy'r ddefnyddiwch, tra meddwch, eich moddion,—
 Oriau ieuengctyd a hyfryd hoywfron,—
 Neidiwch, byw redwch & ch'lonnau brwdion,—
 Ni welasoch etto, anwyl weision,
 Aua', nac eira, nac oerion—wyntoedd,
 A bair ryw gannoedd heb ri' o gwynion.

Bore einioes yw,—mae'r bryniau—'n desc
 Dewisaf funudau ;
 Iach a diddan yw'ch dyddiau,
 Mewn hoen boed ich' eu mwynhâu.

Na ragwelwch, rai gwiwlon,—y gyllell
 A'r gwellaif awchlymion,
 A dwyn gan ddwyllaw dynion
 Eich dillad, mewn brâd, o'r bron.

Awr y Gwanwyn, ry' ugeiniau,
 Fwynaf loywdwf, o fân flodau ;
 Gwyn a llonwawr y gwinllanau,
 Gwyrdd a deiliog gardd a dolau.

Yn y Gwanwyn daw'r gu wennol—loywdw
 O wledydd estronol,—
 Gwestai ydyw gwastadol
 Yr awr hon ar dòn a dôl.

Yn gynnar, pob giâr, wraig eirian,—happ
 Ei heppil try allan ;
 O'i hol yn lliaws hoywlan
 Y daw'r gwyr â'u diwair gân.

A'i gwiw ewinedd i'w gweinion—lwys bli
 Dwg faethiant, dêg foethion ;
 Daeare chwilia drwy'i chalon
 Am bryfed ar lled yn llon.

I rodio mae'n oreudeg—hyd waelod ·
 Y dolydd mwyn irdeg,
 A gwrando ar gywreindeg
 Lais yr afon dirion dæg.

Yn awr yr adar a gynnar ganant,
 Oll ar y manwydd, lle yr ymunant
 Yn briodasol ; (manol eu mwyniant,)
 Mewn bwriad hoywyh mwyn barottöant
 Deiau pluf i gadw eu plant—anwylion
 Rai addas gwiwlon, a wir ddysgwyliant.

Eu hygar annedd a hoyw gywreiniant ;
 Gwiw eithaf seiri, eu gwaith fesurant ;
 A chlai y mwswm yn awchlym asiant ;
 Blew mân a sidan y'nghyd osodant ;
 O foddion oll ganfyddant,—fo gweddaidd,
 Yn lladronaidd i'r unlle dirwynant.

Fwynweis, gwahanol fannau—dewisant
 I osod eu teiau ;
 Rhai'n uchel ar ben prennau,
 Rhai mewn llafrwyn a brwyn brau.

Rhag creulonder, digter dyn,
 Ceisiant, iawn buchiant bob un,
 Ryw fan draw nas daw ei dôn,
 Er eu mawr gur na'i sur swm.

Y *frân* yn yr awyr fry,
 Gwiwlwys y gwna ei gwely ;
 A'r *dryw*'n addas, y gwas gwan,
 O'r golwg dan ryw geulan :
 Ni welwyd tŷ anwylach,
 Cul yw y drws, byrddrws bach,
 Rhag bysedd, digllonedd llangc,
 Gywir ofal, a'i grafangc.
 Eu had coledda'r adar,
 Mal dynion, weis gwirion gwâr ;
 Eu cynnydd a fydd yn faeth,—
 Mawr alar eu marwolaeth.

Drwg erchyllwaith,
 Hagr elynwaith,
 A dyryswaith, wiw der weision,
 Dwyn eu hethawl
 Blant iachusawl,
 Gwywô, bythawl, eu gobeithion !

Oer ran y mwyn rieni—yw galar,
 Gwaywloes, a chaledi ;
 Llawnion y cwmp o'r llwyni
 Dagrau 'nawr i'r llawr yn lli'.

Y fam ar y brigyn fydd—(gwely oer)
 Yn galaru beunydd ;
 Ei meibion tirion, terydd,
 Anwylgu, darfu eu dydd !

Gan ofidio,
 Dwys och'neidio,
 Troi ac wyllo, tyr y galon
 Drom aflonydd
 Ar y gwinwydd,
 W y nias gerydd, yn ysgyrion !

Tirion yw holl naturiaeth :—mor gynnes,
 Mor gain yw'r gre'digaeth :
 Holwn trwy ba law helaeth,
 Mor fwyndeg, mor deg y daeth.

A gawn ni sylwi ar gynnesolion
 Belydr yr Haul, fawrgu araul goron ;
 A gawn ni weled mor hoywgain wiwlon
 Gannoedd o elltydd gynneu oedd wylltion,
 A glwyswawr ddolydd gleision—heb roddi
 Da fawl i Geli â dyfal galon ?

Am a feddwn
 Ac a welwn,
 Iddo dygwn haeddedigol
 Glod yn barchus,
 Ein Tad cofus,
 Iawn haelionus, anelynol.

Trwy ei gennad,
 A'i ordeiniad, Iôr da union,
 Pob hyfrydwch
 Neu ddiddanwch ddaw i ddynion.

Heb weniath gwedd in' beunydd—dy gyfiaw
 Adgofio, Duw Ddofydd :
 Gwanwyn a phob rhyw gynnydd,
 Tad yr hael, tydi a'i rhydd.

Gwelir di, Geli gwiwlan,—yn yr ia,
 Yn yr awel fwynlan ;
 Yng ngwellt, dwr, yng ngwyllt daran,
 Cawad a mellt ac ôd mân.

A W D L

A anfonwyd i Anrhydeddus Gymdeithas y Cymreigyddi
 Caerludd, yn y flwyddyn 1824.

YN Fardd os etholwyd fi,—un di iaith,
 I'ch Cymdeithas, 'leni,
 O fwyn chwedl anfon i chwi
 Rhyw dammaid mae'n rhaid imi.

A pha beth, pa bleth rydd fwy blas—na ga
 Am gywrain fawr urddas
 Y deg iaith, fad, gyweithas,
 I n'n gu—gan Dic¹ yn gas ?

¹ Dic Siôn Dafydd.

Hir oesoedd ar dir Asia—hi gadwodd,
 Ac wedi'n Ewropa
 Oll i gyd, yn ddiwyd dda,
 Tramwyodd, mewn trwm aua'.

Trafaelodd i'w *charitref* Walia—'n galed,
 Er gelyn a thraha ;
 Ca'dd wisg newydd ddedwydd, dda,
 A thwymwych, pan ddaeth yma.

Da roeso a mawr draserch—ca yma,
 Bob cam, a chywirserch,
 Heinif yw pawb i'w hannerch,
 Yn glau â chusanau serch.

Rhodio y mae mewn anrhydedd—mirain,
 A mawrwych orfoledd ;
 Newidir mewn hynodwedd
 Delw'r byd cyn delo i'r bedd.

Gwleddau a byrddau a beirddion,—a wêl
 Yr anwylyd dirion,
 Ugeiniau yn deg union,
 Yr un dydd yn rhoi iawn dôn.

Yn gry' cwyd dy ben o'r graian,—yn lwys,
 Taliesin mwyneiddlan :
 Tro olwg i'n tir hoywlan,
 Gwêl awr deg—Walia ar dân :—

Ar dân â'r hen gân ar gynnydd,—telyn
 Ym mhob teulu dedwydd,—
 Cân côg ar fawnog fynydd,
 “Cymru a fu—Cymru fydd.”

Gwêl Fonedd gloywedd ein gwlad—yn car—
 Cu eiriau awenfad ;
 A Beirddion, fel meillion mad,
 Yn filoedd hyd y fyw-wlad.

Yn barod nos a borau,—mae digaeth,
 Gain odiaeth ganiadau,—
 Yn glyd derbynir yn glau
 Gwin Awen i'n geneuau.

Aneurin, cwnna o weryd,—gâd fedd,
 Ymgwyd, fardd, am ennyd,—
 Wiw dad, a byddi'n d'wedyd,—
 “Môr o gân yw Cymru 'gyd,”

Gwelwyd gwerth, a golud, a gwych—rinwedd
 Yr heniaith oleuwych ;
 Seinir heddyw'n gysonwych
 Ei mawl glân â mil o glych.

Ar elor ein mam oreulan—welwyd ;
 Wylodd nef ei hunan,—
 Yn fyw y daeth yn y fan,
 A llawenodd holl anian.

Ein hyglod Eisteddfodau,—a'n iesin
 Oesawg Gymdeithasau,
Dyngant na chei di, Angau,
 Mwy wneyd nam i'n glwysfam glau.

Ei heiddo iddi a'i haeddiant—*mynmun* :
 Mae enaid ei mwynblant
 Yn danwydd—a chyd-unant,
 Yn lwys gôr, ac ni lesgânt.

“ Calon wrth galon ” i ddiogelu
 Ein hiaith dirion sy'n gwiw lon ymlynu,—
 Tra bo'n ein mynwes waed i'w chynnesu,
 Ein da lân fwyniaith daliwn i fynu :
 Unwn a gweithiwn yn gu,—mewn iawn hedd,
 I'w hynod fawredd hon i adferu.

Llwyddiant, gogoniant, gwiw gynnydd—i'r iaith
 Wir ethol oleurydd ;
 A hil Dic tra dalio dydd,
 Baw-dorf, fo'n hel eu bwydydd.

Boed banllefau,
 A llanw'n wiwglau
 Mil o wydrau, i ganmol oedran
 Iaith ein tadau,
 A'n hiaith ninnau,
 Iaith gu, orau, blethog eirian :

Iaith hen Adda
 Gynt yng Ngwynfa,
 Iaith bêr Efa, iaith boreufyd,
 Fydd, er cyndyn
 Ddig a gelyn,
 O un derfyn â daearfyd.

YMDDIFFYNIAD Y BEIRI

O AM lân lwysgran felusgu,—deraf,
 I dirion amlygu
 Dwyswaith Beirddion, ceinlon, cu,
 Dewisgoeth, a'u clod esgud.

Diddanwch dyddiau einioes—in' ydyw
 Eu caniadau eirioes ;
 Difyrrwch ein du fer-oes,
 Dan oerllyd glefyd a gloes.

Os heddyw tra'n byw'n y byd,
 Ynt dan iau y bradau brwd,
 Dont etto ryw dro'n wyr drud :
 Y ceufedd, yn niwedd nod,
 Yn ol cur llafur a llid,
 Rhan fach wna ddwyn (groywfwyn g
 O'r prydyddion mwynion mād.

Ystyriwn, gwelwn eu gwaith,
Cain eilwyr, eu cynnilwaith ;
Iesin fur, erys yn faith—tra haulwen,
Heb orphen, yn berffaith.

Bu farw'n ofer,
Byw yw HOMER
A'i gerdd hoywber, agwrdd, hybarch ;
A'i enw'n eglur
Saif yn loywbur,
Mewn cof iawnbur, mewn cyfanbarch.

Dichon etto
Bydd astudio,
A thyn eilio'n *Athen* wiwlwys,
Ym mhen amser,
Mydrau dwysber
Iaith hil Gomer ethol gymmwys.

Mawl pêr ar dyner fwyn dôn—iawn rhoddi
Yn rhwyddwch i'r Beirddion ;
Addas i ni, er si, sôn
Am iawnwaith y gwyr mwynion.

Am afonydd ymofynant
Dan y gwinwydd dien ganant ;
A lleferydd y llifeiriant,
Eirian duedd, a wrandawant.

Iawn trwy ei chalon natur a chwiliant,
 Holl ffyrdd a throion dynion adwaenant,
 Eu beiau a'u hagr nwydau dynodant,
 Drwg y clwyfau â geiriau agorant ;
 Defaid, Bugeiliaid, galwant,—yn unwedd,
 O'u du oferedd i edifeiriant.

Hyll wreiddyn balchder ofer a nwyfiant,
 Iawnwych weis taerion, awchus y torrânt ;
 Gwaith ffol y bydol hwy ni arbedant ;
 Pybyr gyhuddwyr, pawb argyhoeddant
 O'u hynfydrwydd, ac ni fedrant,—wyr clau
 Hoffi gwag enwau a ffug ogoniant.

Hedd y byd a haeddai Bardd
 A wŷr gaeth fesur ei gerdd,
 Nid ffei a'i droedio i ffwrdd
 Gan haid o ffyliaid pen ffordd.

Peraidd yw clod pob Bardd clau,
 Gwin hylwyr yw'r gân olau :—
 Harddach i ddyn synwyrddwl
 Na chadw stwr a dwndwr dwl
 Ddysgu rheol y ddwysgamp,
 Chwilio gwyrth uchel y gamp.

Melus, gwn, malais i gant,
 A llaweroedd lliw ariant,
 I minnau'n hoff bethau bydd
 Iawnwych Awen a Chywydd.

Er bod yma'n wan yn awr,
 Megis un di-ymogawr
 Wnai ei wely fry'n y fron
 Yn dawel rhwng *Brain¹ duon* :
 Os ieuangc yw'r lwys Awen,
 Os wyf dan gur ei sur sen,
 O eisiau modd i roddi
 Mwy hamdden i'w helpen hi,—
 Er na chaf pan ganaf gerdd
 Un ddysg im' drefn addasgerdd,—
 O fy enaid erfyniaf
 Yn fwyn am gael gan hael Nâf
 O'i rad, yn ol llafur oes,
 Dda Iôn, yn niwedd einioes,
 Drigfan o gyrhaedd drygfyd,
 O swm y bai sy'n y byd,
 I wledda ar oleuddoeth
 Waith y Beirddion dyfnion doeth ;
 Oes y mel, i flysio mwy
 Berffaith gywreinwaith G'ronwy ;
 I godi'r gân gyda'r gôg
 A llon dylwyth llwyn deiliog.

¹ Cyfeirir yma at wisg ddu Ysgolheigion y lle'r oedd y Bardd yn byw, sef Rhydychen.



CYWYDD Y FESEN

OLEURYDD awenydd wâr
 Barablddoeth hoywgoeth hygar,
 Eilia'n gynnes i'r Fesen
 Ddidraws bur gân dda dros ben ;
 Yn glaurwydd gwna'n eglurach
 Ei mawr fudd, a hi mor fach.

Yn sywdeg hon osodir,
 Ferch groenwen, îs tonnen tir ;
 A gwiwrwydd cwyd yn gawres
 Eilwaith o'r pridd llaith, er lles ;
 Cymmalog uwch cwm helaeth
 Ehed i'r ser, mal dewr saeth ;
 A'i breichiau yn gwau 'n y gwynt,
 Ymwria fry â'r mawrwynt.

Er temhestloedd yn bloeddiaw,
 Aruthr glych, er rhuthrau gwlaw ;
 Er siglo a briwio'i bron
 A chorn corwyntoedd chwyrnion ;
 Arw twrf, er crynu o'r tir,
 O'i thrigle hi ni threiglir :
 Er bwrw o'r gwynt ar hynt rhydd
 Ei gwallt o ddeutu'r gellydd,
 Heb annwyd saif yn bennoeth,
 Mal Arglywyddes gynnes goeth ;

Mae hi'n cysgodi adar,
 Mwyn swydd, yn ei mynwes wâr ;
 Yn llu yn hon llawenhânt
 Nosweithiau, ac ni sythant.
 Yn gywrain daw brain ein bro -
 I ddwyfron hon i huno,
 A godidog y dodant
 Ynddi nythau gorau gânt ;
 Cain syw dŷ, cynnes i'w dal,
 Un castell ni chan' cystal :
 O daw gelyn dig'wilydd
 I 'speilio'u gloyw dwr hoyw rhydd,
 Arfogant yn fawr fagad,
 A garw stwr ar gwrr eu stad ;
 Codant yn filwyr cedyrn ;
 Tröant a chwythant yn chwyrn ;
 Eres oll y gwersyllant ;
 Rhag aflwydd i'w plwydd a'u plant.

Yn ol glân ymlydanu,
 Gwel y Fesen geinwen gu,
 Fawr drefn ar y ce'nfor draw,
 I *Amerig* yn moriaw.
 Hi a gynnwys yn ddwys dda
 Filoedd yn ei mawr fola ;
 A deil ar ysgwydd y dòn
 Lwyddiannus lu o ddynion.
 Mynych, gwêl, rhyfel îs rhod,
 Mewn mesen mae'n ymosod ;

Gloywdeg rhoir arfau gwledydd
 O fewn ei chroth fwyniach rydd ;
 Daw i maes o'i cheudod mawr
 Trymion daranan tramawr :
 Llef oer, uwch swm llifeiriant
 A ffrydiau ugeiniau gânt :
 Swm hynod gan lewod lu,
 A myrddiwn o deirw mawrddu.
 O'i wirfodd y dewr forfil,
 Chwyrna' cawr, mewn dychryn cil ;
 Y'mhell, gan fantell o fwg,
 O'r gwawl ni welir golwg.

Diau'r Fesen ddienn dda,
 Du benyd yw i *Bona*.¹
 Ni thraethir, er poeni'r pen
 Fisoedd, holl waith y Fesen :
 Dwys hygar Dywysoges,
 Yn llong, mawr iawn yw ei lles,—
 Ar wendon hed i'r India,—
 Ymaith dwg bob moethau da.
 Holl ddychryn diderfyn dig
 Y ddudon fawr chwyddedig,
 A gorwyllt reieidr geirwon
 Ni rwystrynt mo helynt hon.
 Ydd ynfyd foroedd anferth
 Weithiau yn eu cafnau certh
 Yn hyll wangcus a'i llyngcant
 I lawr i'r chwerw a'r berw bant :

¹ Buonaparte.

Cyfyd eilwaith o'r ceufor,—
 Rhed i maes o rwyd y môr,
 A naid o'i draflwngc yn ol,
 Ganwaith yn gynt nâ gwennol.
 Llwgwr hwy welasai Lloegr hen,
 Oni f'asai'r fwyn Fesen,—
 Llewndid trigolion Llundain,
 A-phob trefydd celfydd cain.
 Iach wiwfun, yn ei cheufol
 Dalir bwyd i lawer bol ;
 O'r glasfor draw daw i dir,
 A deugeiniau digonir :
 Lleinw o ffrwythau pellenig,
 Diwall y tro, 'r wlad lle trig,—
 Trwy'n hynys pob llys sy'n llon
 Gan fwynhâu moethau meithion,—
 Gwenu ym mhob digonedd
 Mae Prydain gywrain ei gwedd.

Gorau o brennau'r bronnydd
 P'w pherchen y Fesen fydd ;
 Gloyw y daw dan glo daear
 I bwll cul pan ballo câr.

Doed barn cydwybod arnoch,
 O roi mes i besgi'r moch :
 Dwys holwch ai disylwedd
 Eu gwaith, os distadl eu gwedd.
 Trwy 'mywyd nis tro' mwyach
 Dan droed mo'r wen Fesen fach.

Dyma hyder, llawnder llon,
 A gwrolbarch gwâr Albion :
 Tra mes o ddeutu'r maesydd
 Britannia wen yn ben bydd.

CYWYDD Y CLAF O GARIAD

MÆ 'r byd o hyd yn mwynhâu
 Yn siriol ei bleserau :
 Minnau, o gariad meinwen,
 Dan lwyni rwy'n poeni'm pen ;
 Rhodio'r wyf, fel rhyw 'adyn,
 Is dail heb gymdeithas dyn ;
 Yma'n gwau, a mi yn gaeth,
 Cwyn oeraf, cân o hiraeth.

Gwiredd fod *son* am Gariad,
 Hudol wr, ar hyd y wlad ;
 Ond lle na bu'n gwasgu'n gerth
 Ni ddirnad neb ei ddewrnerth :
 Byw'n yr awel mae'r gelyn ;
 E all fod y dull a fyn ;
 Ymofyngar am feingorph,
 Trwy'r ais â, os cais, i'r corph ;
 Traed mân trwy waed a 'mennydd,
 E wna hyll boen y lle bydd ;
 Rhydaer trwy'm corph mae'n rhedeg
 Ganwaith i'r fron gwnaeth arw freg.

Ni wŷr hwn am fawr o hedd,
 Uthr y gwr, na thrugaredd ;
 Obry 'nawr mae'n braenaru
 Gwaelodion y galon gu.
 Trwy Wèn dy saeth trywana,
 Meddyliau hon meddalhâ.

Dygodd hi, y lili lon,
 Angylaidd, wraidd fy nghalon ;
 Uchel, trwy'r dydd 'rwy'n ochain
 O draserch am y ferch fain :
 Briwedig, bob awr, ydwyf
 O'i serch, a galarus wyf,—
 D'rysais mewn rhwyd o draserch
 Am yr hafaidd, fwynaidd ferch :
 Oer yw y nych, cwyno'r nos,
 Ochain, ac nid heb achos,
 Yr ydwyf, fel llwŷr adyn,
 Gan glwyfau a saethau syn ;
 Siarad trwy 'nghwsg â'r seren,—
 Tybied heb ffael im' gael Gwèn—
 Adwaen mewn breuddwyd ydyw,
 Brudded wyf, mai breuddwyd yw !

Gwel'd eisiau 'r un gled iesin,
 Eisiau'r mêl sy ar ei min ;
 Eisiau'r feinir gywir, gu,
 Ddaionus, i'm diddanu ;
 Meddwl o hyd am ddelw hon—
 Meddwl, nid am ei moddion,

Ond am ei llun, y fun fau,
 Wiwddoeth, a'i holl rinweddau.
 Trwy alar troi a holi
 Ffa achos syn na fyn fi;
 Pa'm dywed nad oes groesaw,
 Y leuad hoff, gan alw "Taw."

Yn aml am deg resymau
 Chwilio'r wyf, i'w chael i'r iau:
 Dywedyd mai da ydyw.
 Priodas, mai addas yw,—
 Mai bywyd o hyfryd haf
 Tesog,—mai byd dewisaf,—
 Yw byw'n ol y rheol bur
 Hynotaf, a roes natur;
 Bod, trwy'r holl wlad, yr adar
 Bob un heb ffael yn cael câr,
 A mwynblant mewn tŷ manbluf
 Ar frigyn glas, mewn plas pluf:
 Dywedyd, os llwyd ydywf,
 Sylwi o hyd, os *salw* wyf,
 Fod mewn gardd lysiau harddwawr
 Teg a syw o atgas sawr,
 A rhai i'w cael, gwael eu gwedd,
 Heb rân ond o bêr rinwedd.
 Chwerthin, 'nol grwgnach wrthi,
 Wna hon, mor ddi gŵyn yw hi:
 Dihoeni wnafl yn glafaid,—
 Tyr y galon gron o'r gwraidd:
 Och! brath i'r fron diriondeg
 Yw "Taw" 'n ol rhesymau teg.

Anwyl y cawn, 'nol y cur,
 Imi dâl am y dolur :
 Pe doe' 'r un nefol olau,
 Dyner, wych, o dan yr iau,
 Carwn yn ddeg cywirach
 Bob tammaid o f'enaid fach :
 O ddim mael a ddoe i mi
 Rhan addas fyth rhown iddi :
 Odlau i'r ferch lygadlas
 Gain ei gwedd a ganai'i gwas.
 Gyda hi, y lili lân,
 Cawn fwynhâu dyddiau diddan,
 Heb gynnal un gofal gau,
 Na son ond am gusanau :
 Cawn wasgu llaw, fwynlaw fain,
 Y gynnilferch ganolfain—
 Dal f' un lariaidd, faswaidd fin,
 Anwylaf ar fy neulin ;
 A gwenu, hyd ddigonedd
 Yn ei thirion wirion wedd.

CAIS Y DYN DALL.

Rhwch glust yn garedig i gŵyn y dyn dall,
 Sy'n 'mofyn ei dammaid o un drws i'r llall ;
 Mae'r nos yn dynesu, mae'n llymdost yr hin,
 A'r gwlaw sydd yn treiddio trwy'm henwisg yn flin.

Yng nghanol rhyw gwmmwl o d'wyllwch du dew,
 Ac hefyd yng ngafael oer Henaint a'i rew,
 Fel hyn yr wy'n crippian mor egwan, mor wael ;
 Eich lletty agorwch, mewn harddwch, yn hael.

Yr haul yn ymgodi mewn bri uwch y bryn,
 Yn fawr ei ogoniant, a welais cyn hyn ;
 Y ddôl yn feillionog, a'r coedydd hoff gwiw,
 Yn hyfryd a mwynfad i'r llygad eu lliw.

Ond 'nawr yn dywyllwch mae pob peth i mi,
 Sy'n edrych mor ddisglair a siriol i chwi ;
 I *mi* nid yw'r bore a'i lewyrch hardd llon
 Ond cefnos anniddan, du-dywyll o'r bron.

Yr haul, pan ddisgleiriaf, ar ganol y dydd,
 I'm llygaid ei fwynaf oleuni ni rydd ;
 Pryd hyn ymbalfalu mewn tew-nos yr wyf ;
 Dangoswch dosturi, mae'n drymaidd fy nghlwyf.

Mae eraill i'r bryniau yn mynych roi tro,
 I weled mwyn harddwch—hyfrydwch y fro ;
 Ond *natur* hyfrytaf a gwychaf ei gwedd
 I *mi* sy'n dywyllwch, fel caddug y bedd.

Os buoch ar wely, a'ch dwyfron yn brudd,
 Ar hirnos o auaf, yn disgwyl y dydd,
 Meddylwch am gyflwr yr adyn dan glwy',
 Heb obaith cael gweled yr haulwen *lyth mwy* !

Mae'n hoff myn'd i farchnad, mae'n hoff myn'd i *ffair*,
 Gan rai sydd yn *gweled* beth yno a wnair :
 Nid ydyw, och finnau ! un lle mwy nâ'r llall
 Yn gweini fawr gysur i ddyn a fo'n ddall.

Mae gwel'd y briallu yn gwenu'n eich gardd,
 A'r wŷyn bach yn chwareu, yn olwg fwyn hardd ;
 I minnau llwyr ofer yw codi fy mhen,
 Un mantell o d'wyllwch yw daear a nen.

Pelydrau goleuni y foru'n wiw fwyn
 I *chwi* trwy'ch ffenestri hoff ddydd a wna ddwyn ;
 I minnau, gyfeillion, a'm bron yn llwyr brudd
 Y foru fel heddyw yn *ddu-nos* a fydd.

Yn fynych mae'r ceiliog ein bronnau'n tristâu
 Wrth ganu 'nghlyw *deillion* fod *dydd* yn nesâu,
 Mae'n ddolur, mae'n dramgwydd, mae'n gelwydd
 ei gân ;
 I ni ddaw borau na golau hardd glân.

Mae eraill wrth rodio'n cael canfod yn rhwydd
 Pob erchyll wrthddrychau, a chilio o'u gŵydd ;
 I minnau pan deithiaf, â braw yn fy mron,
 Yr unig hyspysydd o'm perygl yw'm ffon.

Mae taran y cerbyd yn enbyd iawn wae,
 A'r tarw yn rhuo,—pan na wn b'le mae :
 Ef allai, trwy geisio o'i wŷydd myn'd i ffwrdd,
 Y byddaf yn myned yn nes-nes i'w gwrdd.

Rhowch imi attebiad mewn cariad, wyr call,
 Pa ffordd sydd i ennill ei dammaid i'r *dall* ?
 Offeryn os cymmer yn llaw nid all weyd,
 Pa ffordd y mae'n myned, pa beth mae'n ei v

Gan hynny tosturiwch wrth adyn tylawd,
 A chwi sydd gyd-Gristion,—yng Nghrist sy
 frawd ;

A Duw, ar ei chanfed, anfoned yn fwyn
 Yn ol eich rhodd etto, am wrando fy nghwy!

CYWYDD Y PRUDD-DE

Y DDINAS i *ryw* ddyinion
 Rydd wynfyd a llwyddfyd llon,
 Lle mae'n wastad brad, heb rus,
 A genethod gwenieithus ;
 A meddwon yn trwm waeddi,
 Yn ail i foch croch eu cri :—
Minnau, i ael y mynydd
 Y ffulliaf, ac âf i'r gwydd,
 Lle'n ddibaid y naid y nant
 Goriesin, o liw'r grisiant ;
 Lle bydd adar cerddgar, cu,
 Geinweis, yn pêr gyd-ganu,
 A'r wenynen felen fach,
 Ddiwyd, (ni bu ddeheuach)

Yn wiw dêr, hyd y bêr bau,
 O'r dail yn sugnaw'r diliau.
 Dyma fan, da im' ei fod,
 Seirian, uwch byd a'i sorod,
 A gwell na gogoniant gwag,
 Suraidd, y ddinas orwag.

Ymyrred meibion mawredd
 I'r lwyslan a'r loywlan wledd ;
 Lle mae cân a diddan dwrf,
 A iach enaid, a chynnwrf,
 A gwenau llon, a gwinoedd
 Sy felys, a blys. a bloedd :—
 O gyrraedd byd a gwÿd gau,
 I'r *fymvent* draw 'r af finnau,
 Dros ennyd i wâr syniaw
 Y terfyn i ddyn a ddaw.
 Dyma dŷ a gwely'r gwan,
 A gwely'r gwr mawr gwiwlan,—
 Gwely'r plentyn glanwyn glwys,
 A gwely ei fam gulwys.
 Clywaf y gloch yn ochain,
 Yn drwm, yn swrthdrwm ei sain :
 Daccw *Amanda* deccaf,
 I'w hoes oedd flodeuyn haf,
 Geneth na welwyd geinach,
 Yn dyfod i'r beddrod bach.

Cu wyneb yr haul ceinwyn
 Yn codi mewn bri, uwch bryn,

Mwy gwynfyd, o hyd, a hedd
 Gwir felus, a gorfoledd
 A bair i'r enaid lle bo
 Llawenydd diball yno ;—
 Ond i galon a bron *brudd*,
 Yn gostwng dan drwm gystudd,
 Awr yr *hoyr* sydd orau rhad,
 A llewyrch mwyn y lleuad :
 Heddwch i dristwch, am dro,
 A gaf, fy hun i gofio,—
 I ddi stwr dda ystyriaw
 Yn ddwys am yr hyn a ddaw.

Gwên y cymmylau gwynion,—
 Y ser euraid, llygaid llon,—
 Yr wybren laswen, lwyswawr,
 Harddaf a gwyrddaf ei gwawr,—
 Yr awel lân, yn canu
 Yn y gwŷdd a'r coedydd cu,—
 Ynt i'r galon a'r fron frau
 Iachus a theg wrthddrychau.
 Peraidd win i'r prudd enaid,
 Yn ei gur, y rhai'n a gaid.
 O swm anghall a dall dyn,
 A'i nwydau, un munudyn,
 Gorweddaf, geiriau addas,
 Dan glwyf ar y gwyndwn glâs.
 Adgofiadau golau gânt
 Diwyd i'm meddwl deuant
 Am gyfeillion gwiwlon gynt,
 Heno na chaf o honynt ;—

Am hoywbur oriau'm mebyd,
 Mor bêr oedd im' wawr y byd ;
 Gwyrdd ydoedd, fel gardd Eden ;
 Llwydodd, e wywodd ei wên.

Leuad wen, anwyled wyt ;
 Caredig mewn cur ydwyt :
 Goleu yn awr y gwelaf,
 Adnabod, gwybod a gâf,
 Dduw dad, mai breuddwyd ydyw
 Is ser pob gogoniant syw,—
 Mai gwê cwsg, mae gwag gysgod
 Yw'r hyn a geir is y rhod,—
 Mai iawn imi geisiaw'n gall
 Bywyd eres byd arall.

ORIAU FY IEUENGCTID.

Hoff oriau fy i'engctid tra hyfryd eich hynt,
 Mae'r atgof yn dyner o'ch gwychder chwi gynt,
 Pan nad oedd un gofid yn llethu fy mron,
 Fy mynwes yn dawel, a'm henaid yn llon.

Cawn droswyf fi f' hunan yn hoff, y pryd hwn,
 Rai eraill mewn gofal f'ai'n ddyrys ei bwn :
 Mewn gofal wyf finnau drwy 'nyddiau yn awr,
 Dros eraill dan wasgfa, a'i feithdra'n wir fawr.

Mwyn oriau fy ie'ngctid ! llawn oeddych o wres,
 A yrrai drwy 'nghalon lân dirion lon des :
 Pa le'r oedd helbulon, pan chwiliwn drwy'r dydd
 Am nyth yr aderyn, a'm rhodiad yn rhydd ?

Ni wasgai'm hymenydd un cerydd, os cawn ;
 Ar ôl braw'r wialen i chwareu'n iach awn :
 Nid ydoedd un gofid na gwae â mi 'nglŷn
 A gadwai fy llygaid a'm henaid heb hun.

Yn oriau fy i'engctid, b'ai'm mynwes yn dân,
 Wrth chwareu'n llwyr ddigrif rhyw lon gastiau
 mân ;
 Bob awr a allaswn ladratta o dre',
 Chwiliaswn Baradwys wir lân yn rhyw le.

Mor ysgafn y galon pan awn dros yr îâ,
 Mor gyflym â'r wennol ar foreu o ha' ;
 Pan na chawn i'm blino, na chystudd, na chur,
 Na chnöd eiddigedd, a'i dannedd fel dur.

Yn oriau fy i'engctid, nid oedd imi'n rhan
 Yr ofnau o ddyfod y byd arna' i'n wan,
 Nac wylo wrth weled rhoi rhai yn y rhych,
 A gwreiddiau fy nghalon yn rhwym wrth eu drych.

Rhy gynnar yr aethoch, hoff oriau, ar ffo ;
 Ac mwy ni ddychwelwch byth, byth ond i'm co',—
 A hynny bob amser, yn ddiau, gan ddwyn
 Cymmysgedd o dristwch â rhywbeth sy fwyn.

GALAR MERCH,

Ar ol ei hanwylid, wrth glywed iddo syrthio mewn Brwydr
ar dir estronol.

Y NEWYDD chwerw, trwm a sur,
Trywanodd fi fel cleddau dur;
A berem gwyllt sy'n berwi'm gwaed,
Yn eithaf trist o'm pen i'm traed.

Och! llwyr alarus yw fy llef!
Ond pwy a'm gwrendy? b'le mae ef,
A fu'n fy meddwl lawer tro
Pan byddai byd gan gwsg y'ng hlo!

Yn iach, yn iach it', obaith, mwy,—
Ti fuost eli'n hir i'm clwy':
Yn awr mi welaf, trist fy stad,
Nad oes i mi byth, byth iachâd.

Ais gant o weithiau ar fy nglin,
Gan brofi'r gwaith mor hoff â'r gwin,
I geisio'i wel'd yn iach yn ôl
I sychu'm dagrau yn ei go'l.

Ei feddwl ef a'm meddwl i
Nid oeddynt ddau, ond un mewn rhi';
A theimlaf ar ei ôl, dan glwyf,
Mai hanner o'r hyn oeddwn wyf!

Mi ge's lythyrau dros y don
 Yn dyst o'i serch i'r fynwes hon,
 A chynt y sych y glasfor llaith
 Nag atto'r oera 'nghariad maith.

Pe bu'sai'r fraich fu'n codi'r cledd
 I dorri hwn, a gwywo'i wedd,
 Yn gwybod am fy nheimlad i,
 Treiddiasai gwendid trwyddi hi.

Toddasai'r cledd, a'i fin yn ddur,
 Pe gwelsai fi, mewn serch yn bur,
 Yn cynnyg iddo'r fynwes hon,
 Er achub fy anwylddyn llon.

Tu hwnt i'r môr mewn ardal bell
 Yn gorwedd mae'n ei gyfyng gell,
 Lle na chaf byth fwynhau y wledd
 O hidlo'r dagrau uwch ei fedd :

Yn gorwedd mae lle nad oes un
 Yn gofyn dim ynghylch y dyn
 Ag oedd yn llyw pob gobaith llon,
 A glana' haul i'r galon hon.

Awelon nef! a gludwch chwi
 Y ffrwd sydd ar fy ngruddiau i
 I'w thywallt ar ei fedd i lawr?
 B'ai'r weithred yn gymmwynas mawr.

O Ryfel ! erchyll yw dy waith,—
 Dwyn llu o'u gwlad dros ge'nfor maith,—
 Dwyn un a fo o'r llall yn rhan
 I'w ddryllio mewn pellenig fan.

Ei gorph ni cha'dd un fynwent lwys
 I roddi'n dawel yno'i bwys :
 Y llewpard heno, f' allai, sydd
 Yn gorwedd ar ei wely cudd !

Ti, haul, sy'n canfod ar dy dro
 Y man lle gorphwys dan y gro,
 O ! derbyn fi i'th gerbyd mawr,
 Ac ar ei feddrod rho fi i lawr.

Daw gwanwyn gwyrdd i wenu'n îr,—
 Daw peraroglau dros y tir ;—
 Ond byth i mi, dan nych yn wan,
 Trag'wyddol auaf fydd yn rhan !

Y gog mwyn hoff, i b'le'r wyt ti
 Y gaua' 'n myn'd o'n golwg ni ?
 Ef allai fod dy daith i'r wlad
 Lle'n huno mae f' anwylddyn mad.

Pe gwypwn hyn, taer geisio wnawn
 It' ddysgu 'ngherdd o alar llawn,
 I'w chanu ar y nesaf lwyn
 I'r man lle mae fy nghariad mwyn.

Y marw er na chlyw dy gân,
 I'm meddwl i b'ai'n gysur glân
 Fod sain fy nghwyn yn treiddio'r nen,
 Yn brudd alarnad uwch ei ben.

Mi fum mor hoenus, do, cyn hyn,
 A'r wŷyn f'ai 'n chwareu ar y bryn,
 Pan oedd yr un oedd im' mor fad
 Yn rhodio'i enedigol wlad.

Fel rhyw aderyn dan ei glwy',
 Heb ddim ond *un* wael aden mwy,
 Rhaid imi dreulio'm hoes i ben ;
 Byr iawn a fydd fy nydd i's nen.

CESTYLL CYMRU.

CHWI Gaerau mawryddig a welaf
 Ar fryniau fy ngwlad yma a thraw,
 I'm meddwl, pan arnoch y sylwaf,
 Rhyw ryfedd gynhyrfiad a ddaw :
 Yn nodded cadarnaf bu'ch ochrau
 Rhag ymgyrch gelynyion di rif,
 A wnaethant, yn amser ein tadau,
 Yr ardal o gochwaed yn llif.

O'ch amgylch bu meirch yn gweryru,
 Agwel'soch yr arfau o ddur
 Trwy'r bröydd yn hyll lucedenu,
 A nodau dychrynlyd trwy'r tir ;
 Hardd ffrwythau y maesydd toreithiog
 Yn cwympo'n wywedig i lawr,
 Tra chegau cwn rhyfel cynddeiriog
 Yn uwch-uwch oer-leisio bob awr.

Mae gweled eich llun adfeiliedig
 Yn hyfryd, i'n gosod ar go',
 Fod dyddiau y distryw adwythig
 Er's talm, er mor ffyrnig, ar ffo :
 Wrth osod, ym mynwes y ddaear
 Ffrwythlondeg, ireidd-deg, yr yd,
 Yr hwsmon a deimla'n wir goelgar
 Ca'i fedi, heb fraw, yn ei bryd.

Wrth weled y defaid yn llechu
 Yn dawel dan gysgod y fan
 Lle gynt y bu dynion yn gwaedu
 Yn filoedd â'u hagwedd yn wan,—
 Y lle bu tyn wthio picellau
 Yn noddfa i'r oenyn a'i fam,—
 Wrth weled tawelwch ein dyddiau
 Fy nghalon rwydd lawen rydd lam.

Chwi Gaerau, a wel'soch y cigfrain,
 A'r gwangcus eryrod ynghyd
 O'ch amgylch yn porthi eu hunain
 Ar waelgyrph y meirw oer mud,

Mor hoff ich' yw clywed yr awrhon
 O'ch deutu chwi'r bugail yn fwyn
 Yn tiwnio ei bibgoed feluslon,
 Tra arnoch yn chwareu mae'r wŷn.

Pan ar eich ymylau'r eisteddaf
 I ganfod hyfrydwch y fro,
 Try'm meddwl yn ddwys, pan ystyriaf
 Mai tawel mewn graian a gro
 Yw'r milwyr gwrolion fu'n codi
 Eich muriau, â'u mynwes yn dwym,
 Gan weyd, "Ein calonnau gânt gollu
 Eu gwaed cyn ein rhoddi ni'n rhwym."

Wrth gyfrif mor bur oedd eu bwriad
 Y deigrŷn a red dros fy ngrudd,—
 Ond cadwodd Rhagluniaeth ei llygad
 Ar Gymru, a gwawriodd ail ddydd;
 Byw'r ydym dan dirion lywodraeth,—
 Byw beunydd mewn hedd a mwyn haf,
 Ag arnom yn gwenu'n ehelaeth
 Fendithion anwylion ein Naf.

Y BLAIDD A'R DEFAID.

'R OEDD haid o Ddefaid gwirion gynt
 Yn byw mewn helynt hylon,
 Ond fod hen Flaidd o olwg chwith
 Yn d'od i'w plith ar droion.

Yr oedd ei lais yn eŷchyll iawn
A'i wedd yn llawn cynddaredd ;
Fe laddai gant yn llwyr ddi gŵyn
O'r gwannaidd ŵyn â'i ddannedd.

Ymgsglai'r werin oll ynghŷd
Yn dwym eu bryd, ryw forau ;
A rhoed y gelyn cyndyn cas
Yn gaethwas mewn rheffynau.

E'i cadwyd ddyddiau heb ddim bwyd,
Nes oedd yn llwyd a gwannaidd ;
Yr oedd ei olwg yn ddi hoen,
A'i flew a'i groen yn grinaidd.

Yr oedd ugeiniau am ei ladd,
Fel pawb o'i radd wir haedda',
Ond nifer fwy oedd am ei fod
Yn fyw, er clod o'i ddala.

Y truan Flaidd edrychai'n 'nawr,
Bob dydd â'i wawr mor wirion,
Nes daeth yn drist gan ambell un
I wel'd ei lun a'i loesion.

Ei lygaid oeddynt braidd yn gweyd
Na fyn'sai wneyd drygioni,
Pe cawsai etto wneyd ei nyth,
Fel gynt, ym mhlith y llwyni.

E gaid ymaflyd yn ei drwyn,—
 Yr oedd yn fwyn a hawdd-deg ;
 Yn chwareu'i ran, er maint ei blâ,
 Yn ddoethwych a chyfrwysdeg.

Dangoswyd ef i'r defaid tlawd,
 A gofyn wnawd i'r rhei'ny
 Ai boddlon oent, ag ef mor brudd,
 Ei roddi'n rhydd cyn trengu.

Attebai'r rhei'ny yn gyttûn,
 Mae'n drist ei wŷn a'i boenau,
 Ac mae mor wirion, agwedd lom,
 Ag un o honom ninnau.

Mae gennym ynddo gyflawn ffydd,
 O rhowch e'n rhydd, fe haedda ;
 A chaed o fwyd ryw dammaid gwell
 I gulwag gell ei gylla.

Y Blaidd edrychai fel rhyw sant,—
 Yr oedd y plant yn wylo
 O lwyr dosturi ;—pawb i gyd
 Yn gwaeddi “ Rhyddid iddo.”

A'i gamrau'n llesg, â'i lun yn llaes,
 Ca'dd hwnt i'r maes ymdeithio ;
 Pob un a wedai “ druan bach,
 Doi etto'n iach, gobeithio.”

Mawr ddiolch ichwi, meddai'r Blaidd,
A boed i'ch praidd gynnyddu,—
Ni laddaf mwy mo'r gwirion rai,
Pe newyn f'ai'n fy ysu.

Yr-hwyr a ddaeth, a daeth wrth hyn
Rhoi'r defaid yn y gorlan,
Lle'r oedd eu gwely'n dawel bêr,
Dan wên y sêr nawseiddlan.

Ar ganol nos hwy glywent naid
Rhyw fwystfil diriaid hyllig
Yn syrthio arnynt, i'w rhoi'n ddellt
A'i ddannedd melli'digedig.

Gwae ni! gwae ni! y Blaidd! y Blaidd!
E waeddai'r praidd gwirionaf,
Tra'r oedd y gwaed yn goch a brwd
Yn llifo'n ffrwd erchyllaf.

ESPONIAD.

Y Blaidd yn Rhufain y mae'n byw,
A'r Defaid yw Prydeinwyr,—
Na fyddwch ffol, ond cofiwch hynt
Yr amser gynt, fy mrodyr.



Y LLEUAD.

O MOR fwyn yw goleu'r Lleuad,
 Ar hyd y nos,
 Sydd yn hwylio fy ngherddediad,
 Ar hyd y nos ;
 Mae ei gwawr a'i gwên yn siriol,
 Lân Frenhines hardd wybrenol ;
 Mae ei gwel'd yn llwyr ddymunol,
 Ar hyd y nos.

O! mor hyfryd yw ei chodiad,
 Ar hyd y nos,
 Uwch y bi yn yn goron lwysfad,
 Ar hyd y nos ;
 Y mae'r t'wyllwch yn ymgilio,
 Y mae'r ffordd yn hardd oleuo,
 Y mae 'nawr yn rhwyddach llwybro
 Ar hyd y nos.

Tra mae'r heulwen yn ein gado,
 Ar hyd y nos,
 Mewn tywyllwch du ei amdo,
 Ar hyd y nos ;
 Y mae'r Lleuad wych yn dyfod
 Yn ei thro'n garedig hynod,
 Er lleihau ein cur a'n trallod
 Ar hyd y nos.

Y mae'r dwr mor wyn â'r arian
Ar hyd y nos,
Gan oleuni'r Lleuad fwynlan
Ar hyd y nos;
Pawb yn awr gânt dd'od o'u neges
Adre'n rhwydd i'w lletty cynnes,
Trwy gynnorthwy'r Lleuad hyles,
Ar hyd y nos.

Pan fo dyn dan drymder meddwl
Ar hyd y nos,
A'i obeithion oll dan gwmmwl
Ar hyd y nos,
Hoff yw ganddo ef yn wastad,
Fel mwyn eli i'w ddoluriad,
Rodio'r maes wrth oleu'r Lleuad
Ar hyd y nos.

Edrych arno ef wna honno
Ar hyd y nos,
Fel cyfeilles burlan iddo
Ar hyd y nos;
Fe a deimla fel pe'n ddiâu
Na b'ai dim a wnaeth Duw gorau
'Nawr ar glawr ond ef a hithau,
Ar hyd y nos.



ATTEB

I SILLYDD AB GOMER, yr hwn a roddai gerydd i'r Awdwr, a rhai eraill o'i frodyr awenyddol, am eu diogi yn peidio anfon gohebiaethau i'r GWYLIEDYDD. (Gwel *Y Gwyliedydd*, Rhifyn 53, Tu Dalen 25.)

DYRO gennad, fwyn Wyliedydd,
Imi geisio atteb Sillydd,
Wr â'r duon, eirwon eiriau,
Sydd yu brathu fel picellau.

Chwennych wyf i Sillydd wybod,
Mai peth difai yw *segurdod*,
Yn ei le,—fod mwynwaith natur
Weithiau'n gofyn bod yn *segur*.

Onid *segur* yn y gauaf
Ydyw'r ddaear gain hygaraf?
Fel y dygo ffrwythau hyfryd,
Pan fo'r haf yn hoff ddychwelyd.

Segur yw y coed anwylber,
Dros ryw gyfran fawr o amser;
Segur hefyd yr aderyn,
Ar y gangen heb un emyn.

Segur yw yr ardd a'r llyisiau,
Heb fywiogrwydd, gwên, na blodau;

Segur y wenynen fwynlan,
Amryw fisoedd yn ei chaban.

A pha ham na cha'r prydyddion
Weithiau fod yn *segur* ddigon?
Fel y gallo'r Awen fwyniach,
Wedi cwsg gyfodi 'n gryfach.

Os yw Tegid, os wyf finnau,
Os yw Glân Geirionydd yntau,
Os yw Dewi Wyn o Eifion,
Os yw Nantglyn, awen ffrwythlon,

Oll yn awr a'n pennau'n llonydd,
Ac yn dawel ar obennydd:
Etto deffry'r fwynber Awen,
Cyn bo hir, a chân yn llawen.

Baban gaiff ei sio i gysgu,
Fel y gallo 'i nerth newyddu;—
Ac am gwsg fe dalwyd punnau
I Feddygon, ar amserau.

Peth sydd fwyaf yn adfywio
Ydyw cwsg, yr wyf yn tystio;
Ar ei ôl mae'r corph yn hwylus,
Ar hoyw enaid yn orhoenus.

Os yw f' Awen innau'n cysgu,
 Creulon waith f'ai 'i hafonyddu ;
 Cei, fy merch, er gwaetha'r cyfan,
 Gysgu 'r hun yn hollol allan.

Cenais hyn o gerdd anghymmen,
 Pan mae 'nghwsg y fwynber Awen ;
 Pan gyfodo hon yn heini,
 Chwi gewch gân amgenach genni.

A W D L

AR GREULONDER AT GREADURIAID MUDION.

AWENYDD derydd dirion,
 Y Dduwjes lwys ddewis lon,
 Da medri di ymadrodd
 Oreu fun, o bob rhyw fodd ;—

I roi'r clod i arwyr clau,
 Dien, erfawr, dan arfau,—
 A darlunio, drwy laniaith,
 Maes y gwaed, nid maws y gwaith,—

I oreuro arwyrain,
 A genau gwiw, i Gwèn gain,—
 Yn *fynych*, seirian Fanon,
 Gelwir di âg eglur dôn,

A mynych i'r dymuniad,
Iawn fun, y rhoi glust yn fâd.

Ar swydd arall, fwyngall ferch
Union, yn awr dy annerch
Anturiaf, mewn hynt hoywrydd,
Ac imi rho gammau rhydd.

Cân yn awr, sywfawr y sôn,—yn felus
I'r 'nifeiliaid mudion ;
Croywlais eu cyflwr creulon
Darlunia mewn dinam dôn.

Yn y dechreuad o'i gariad gorau,
Iôr da a greodd amryw deg rywiau
O greaduriaid, gwir ydyw ei eiriau,
Erfawr bur iawnwaith, ar fŷr a bryniau,
A gwiw roddodd ar bob graddau—'n benaeth
Adda, wr odiaeth, ddeheuwïw radau.

Pob mil truan gwan sy'n gweini—i'r dyn,
Drwy ordeiniad Celi ;
Ei arch, o'r cadfarch i'r ci,
A ddysgant yn rhwydd wisgi.

Union Naf, er hyn ein Ner—iawn hoywffur,
Ni hoffa greulonder
At un rhan, hyd anian dêr,
O'i lanwaith, nefawl wiw-Ner.

Diau erchyllwaith ydyw archollion
 I hir ddoluriaw yr eiddil wirion
 Anifail distaw, dan hirfraw oerfron,—
 Beius yw taro y baw-was tirion
 Cynnil, na ŵyr d' amcanion—na goddau
 Yr holl regiadau a'r hyll ergydion.

Cwyd d' olygon
 I'r nef hoywlon,
 Lwys a gwiwlon lys y golau ;
 Yno bythol
 Mae'n drigiannol
 Ynad dethol arnat tithau.

I ddyn o rhannwyd, addien y rhinwedd,
 Holl arglwyddiaeth y gre'digaeth degwedd,
 Hynodwych ddeall,—enaid a challedd,
 A mirain rodio mewn mawr anrhydedd,—
 Ei swydd ddilyth fyth hyd fedd—boed, er Naf,
 Gwaredu'r salaf greadur iselwedd.

Ddewis dra gwirion Dduwies Trugaredd,
 Merch Duw ei hunan, mor iach dy annedd,
 Iawnaf wen felus, yn nef anwylwedd,
 Y fun wyrenig, wiwfwyn, eirianwedd,
 Ymwel â'r fron hon mewn hedd,—er mawrllles,
 A dysg i'm monwes wiwdasg amynedd.

Dos, fy eglurwen feinwen fanol,
 Lle y mynnwn rhodiwn, waith rheidiol,

Loywlon deithwyr, lawlaw, 'n odiaethol,
 A da ystyriwn, yn dosturiol,
 Oer gur a chyflwr garwol—ymlusgiaid
 A phob ehediaid hoff bywydol.

Y gynnes Dduwies lwys dda,—gu wiwlan,
 Os gweli greulondra,
 Im' yn hygar mynega,
 Y galar hyll eglurhâ.

Daccw'r addien darw madien yn rhwymedig,
 A'r huad aflan anwar a dieffig
 Yn darnio y cnawd o'i drwyn cnöedig,
 Fal uffernawl arw anghenfil ffyrnig,—
 Rhuadau'r gwan curedig—yn gynnar
 A oer ergydia'r awyr rwygedig :

A Christionogion, dynion di enaid,
 Yn fil gorfoleddant fal geirw fleiddiaid,—
 Chwarddant a chanant wrth bob ochenaidd,
 Mal anhoffolion a milain ffyliaid :—
 Dyrys ddifyrwch diriaid—rhy greulon,
 A esyd dynion, och ! yn Sataniaid !

Chwerwon geiliogod, hynod ddihenydd,
 Afrywiawg elwir i friwio'u gilydd ;
 Diau ammhur yw y cur a'r cerydd,—
 Y gwaed a dan i gyd eu hadenydd,—
 A dynion mewn dywenydd—gwynfydant
 Pan eu gwelant, on'd penna' gywilydd !

Daccw'r aderyn ar frigyn, fawr agwedd,
 Mwyngu awr felus, mewn gwiw orfoledd,
 Cu wr hynaws, yn cyweirio'i annedd,—
 Da iawn arafwaith dien a rhyfedd,—
 Hydera'n ei dŷ eurwedd—am feibion,
 Deraf iawn hoywlon wiwdorf anwylwedd.

Daw creulonwas diras, mewn bradwriaeth,
 Ammhur alanastr, a mawr elyniaeth,
 I rwygo 'i adail oreugu odiaeth,—
 Brudd anwiw helynt, bai ar ddynoliaeth,—
 Dwyn o'i go'l lwysfad yn gaeth—ei feibion
 I boen, weis tirion, heb iawn ystyriaeth.

Cyni y rhieni ceinwar union,
 Pwy a iawn draethai, a'u poender weithion!—
 Gwyw byth y torrwyd eu gobaith tirion,
 Hirloes anhyfryd, o'r lwys wen hoywfron;
 Gulweis, â thrymaidd galon,—am eu plant
 Y galarant ar y gwiail irion.

Wele'r gwenyn, yn dŷn a daionus,
 Yn sugnaw'r meillion yn hoywlon hwylus;
 Yn dwyn eu trysorau, pynnau poenus,
 Ar hoff adenydd yn wir ffwdanus,
 I lenwi'n anwyl hoenus—eu hannedd
 Hygaraf fadwedd, rhag awr ofidus.

Dwylaw dyn yn sydyn ymosodant
 Ar eu holl dllysau gorau a garant,

Eu mirain dyrau mawrion a dorrant,—
 Yma, wyr öon, ni ymarhöant,
 Eu bywydau nid arbedant ;—mewn bedd,
 Hyllaf agwedd, yr holl lu a fogant !

O dygi eu trysor, dig y trosedd,
 Yn dra gerwin heb yr un drugaredd,—
 O torri eu muriau têr a mawrwedd,
 Lle mae'n feunyddiol eu hoff orfoledd,—
 Estyn iddynt, hynt mwyn hedd,—eu bywyd,
 Gwirioniaid diwyd gwâr, hynod, hoywedd.

Yn y gauaf du oeraf a diran,
 Gwael newynllyd drigolion y winllan,
 Wiwdda rai hoywdlws, a ddaw i'r ydlan,—
 A dwys ofynant, dewisaf anian,
 I'w maeth y gweddillion mân—di rinwedd,
 Iawn deulu mygwedd, yn dâl am hoywgan.

Onid dyrys benyd diriaid
 Troi i annel y trueiniaid !
 Lladd â gynnau llwydd y gweiniaid,
 Dirion hoywlwys dêr anwyliaid.

Dy ddiddanwch
 A'th ddifyrwch, waethaf fwriad,
 Yw eu clwyfo
 A'u dolurio, dial irad.

Pa beth, ddyn, bryfyn oer brau,—o carai
 Duw cywiraf gorau,
 Doethwych, dy boeni dithau,
 Dy friwio a'th glwyfo'n glau ?

I bryfyn¹ llibyn y llawr—neud amlwg
 Yr un deimlad gwirfawr,
 Yn ei derfyn, wŷn dirfawr,
 Y sydd ag i gelfydd gawr.

Clywaist fiin, hirfiin, oerfloedd—anifail
 Dan ofid, yn gyhoedd ;
 Heb achos, dios, nid oedd—
 Nodiad o'i boenau ydoedd,

I ddyn, goleurydd enau—a roddwyd,
 I arwyddo'i boenau
 A thafod, er clydnod clau,
 I ddangos ei ddu ingau.

Anifail miwail a mwyn—o clwyfi,
 Ddrwg glafwaith anhyfwyn,
 Pan oddef, pwy yn addwyn,
 Deg was, a wrendy ei gŵyn ?

O mynni 'n hael gael ymgeledd—gan Naf,
 A gwiw nawdd er trosedd,

¹ " And the poor beetle, that we tread upon,
 " In corporal sufferance feels a pang as great,
 " As when a giant dies."

Egora ddor trugaredd
At fil gwan it' fal y gwedd.

Gwél loesau y gwael asyn,—a'i benyd,
A'i boenau diderfyn ;
Dan lidiawg, orphwyllawg ffyn,
Ei dda ochrau a ddychryn.

Nid cyfiawn, iawn ydyw cofio,—y caiff
Y ceffyl ei droedio,
Drygwaith, ar faes i drigo
Yn was henaidd, drymaidd dro.

Rhydew fochyn mae'n rheidiol,—egwanwas,
Ei gwyno 'n drag'wyddol ;
E'i gyrrir, mewn modd garwol,
Ar hirdaith, er ei faith fol.

Er ariant, drachwant rhy awchus,—pob pwn,
Pob poenau gofidus,
Yn ddir a roddir, heb rus,
Ar 'nifail yn rhy nwyfus.

Ciaidd a digaidd yw dyn,
Hyll wedd, at bob gradd a llun
O gre'duriaid euraid Iôn,
A chreulonaidd, fal blaidd blin.

Ond iawn iddo
Fyth fyfyrio
A dwys synio, da wasanaeth,

Y geilw'r pennaf
 Dduw goruchaf,
 I farn iawnaf, ei freniniaeth.

Mawr ei lwydd, dedwydd y dyn
 A arbedo'r abwydyn,—
 A wrendy lais tirionder
 At holl faith anwylwaith Ner,—
 A gofio yn gu hoywfad
 Pa Bor dwys, pa wiwbur Dad,
 A'i lluniodd ar holl anian
 Yn arglwydd glwysrwydd a glân,—
 A ystyrio'n ddwys dirion,
 Mai o gariad iawnfad Iôn
 Yr ydym ni yn rhodio,
 Puraf gred, uwch pryf y gro,—
 Mai iawn yw rhoi am ein rhad,
 Gair dilys, gorau daliad,
 Drwy noddi'n dirion addwyn
 Holl waith ei law fangaw fwyn.

TOSTURI.

Nw helynt ymladdfa, lle'n cwympo bu gwyr
 Yn filoedd ar filoedd trwy'r cledd a min dur,—
 Nid hanes rhyw fwrdd-dra mewn brad ac mewn
 gwŷn
 Yn unig sy'n gofyn Tosturi gan ddyd,—

Nac hefyd llongddrylliad, lle'n oer y bu cri
 Y fam a'i mwyn faban yn soddi 'n y lli' :
 Y sawl a ystyrio a gaiff dan y ne'
 Wrthddrychau Tosturi yn llenwi pob lle.

Yr hen-wr methodig, yn rhychiog ei rudd,
 A ddaw i'm cyfarfod, wna'm henaid i'n brudd ;
 A phawb a fo'n unig, gwywedig, a gwan,
 Sy'n haeddu'n Tosturi yn rhwyddgu i'w rhan.

Y teulu newynlyd, mewn caban llawn cŵyn,
 A dderbyn dosturi gan fynwes fo fwyn :
 Lle'n llifo bo deigryn yn hanner dan gêl,
 Gwir frawdol Dosturi yn gyflym a'i gwêl.

Y lle'n arglwyddiaethu bo gormes a thrais,
 Gan omedd i'r truan ei lafar a'i lais,
 Sy'n gofyn Tosturi yn rhwydd ac yn rhad ;
 A'i wir, gywir berchen ei gymmorth nis gwâd.

Wylofain a galar a chur o bob rhyw
 Tosturi, bob amser, yn glwyfus a glyw ;
 Pob hwyr a phob boreu nid hir fydd fy nhaith,
 Heb le i Dosturi'n dra gwisgi gael gwaith.

Bydd lle i Dosturi a'i deimlad di nam
 Lle byddo'r anifail gwael, mud yn cael cam ;
 A lle bo creulonedd yn rhoi brath a briw
 I'r gwaelaf greadur ga'dd einioes gan Dduw.

TORRIAD Y DYDD.

Yn brithio mantell t'wyllwch du
 Mae gwawr goleuni mwyn,—
 Hyfrydwydych ddydd o'r moroedd draw
 Olwynion haul sy'n dwyn :
 Bu e'n ymweled ar ei daith
 A pharthau pella'r byd ;
 Mor ffyddlon y dychwela 'nol
 Yn gywir yn ei bryd :
 O'i flaen y daw cennadon dwys,
 Eu rhif na ddatgan iaith,
 Yn llu pelydrawg, yn cryfhau
 Bob ennyd ar eu taith.

Y ceiliog ar ei uchel glwyd
 Sydd wedi rhoddi'r gân,
 Yn rhybudd in' fod dydd yn d'od
 Ar gerbyd goleu glân :
 Ni welwn gynneu ddim o'r coed,—
 Mi wela' 'r dail yn awr :
 Yr wybren yn y dwyrain draw
 Sy'n siriol iawn ei gwawr :
 Fry o'r simneiau wele'r mwg
 Yn codi'n arwydd cu,
 Fod dydd yn nesu, gan gyffroi
 Bywiogrwydd ym mhob tŷ.

Yn brathu trwy y perthi tew
 Mae'r carwr tua thref,
 Yn ol hir aros gyda Gwèn,
 Lle'n ddifyr iawn bu ef.
 Mae'r adar bach ym mrigau'r coed
 Yn fywiog iawn bob un,—
 Ac mi a welaf ym mhob man
 Holl anian ar ddihtn :
 Fel yn y bedd dros dro bu'r byd
 Yn ddistaw ac ynghlo,
 Heb swm ond swm y cornant gwyllt,
 Neu'r awel ar ei ffo.

Ond wele etto hyfryd ddydd
 A'i lewyrch mwyn a llon,
 A phwy na ddyry lawen gân
 O dwym serchiadol fron ?
 O ! groeso iti, heulwen hardd,
 A brysia uwch y lli',
 I euro pen y mynydd ban
 A'th hyfryd lewyrch di :
 Ni welaist ti dywyllwch cas
 Erioed ; ni wyddost chwaith
 Pa fath beth yw,—efe a red
 O'th flaen ar gyflym daith ;

A daw ar d' ol,—ond i dy wydd
 Ni feiddia ddyfod byth :
 Ynghanol hwn trwy 'r nos, O haul,
 Mae dyn yn gwneyd ei nyth.

I'r golwg daccw 'n dechreu d'od
 Glân lygad cawr y nef,
 A phelyderau disglair hardd
 Yn wallt ei amrant ef:
 Mi feiddiaf edrych arno 'nawr
 Mae'i wedd yn dirion iawn:
 Pwy arno sylla maes o law,
 Yng ngwres canolddydd llawn?

ENGLYNION,

A wnaed i gysuro hen wr,¹ o Geredigion, ar drangcedigaeth ei
 wraig, â'r hon y buasai briod dros 60 mlynedd.

ANNIDDAN yw fy nyddiau—a phoenus,—
 Gorphenodd mwynderau,—
 A gwynnodd y gwallt gwinau
 Oedd gynt yn y gwynt yn gwau.

Dihoenodd y traed heini—o danaf,—
 Y doniau sy'n soddi;
 O'u gwirfodd mae'n diffoddi
 Y ddau lygad fad, Ow fi!

Hanner byw yn awr yw bod,—fy oriau
 A fwriaf mewn trallod;

¹ Elias Nathaniel, Gwehydd, yr hwn a fu yn hir yn byw ar
 dir Maesmynach, Ystrad, Ceredigion, lle ganed yr Awdwr.

Daeth yn rhwydd, annedwydd nôd,
Gyrfa henaint i'm gorfod.

Gyda meirwon mae'm hen gydmares,—fu
Oreu fwyn gyfeilles ;
I'r fynwent aeth o'r fonwes,—
I'r llwch, pan oedd fawr ei lles !

Gwanaidd a henaidd oedd hon,—yn nychu
Dan awchus flinderon ;
Etto rhoddai, lluniaï'n llon
Ei siarad ryw gysuron.

Oedd imi *un* ddiamhur—a rannai
I'r enaid fawr gysur ;
Oedd *un*, dan bob gwrthun gur,
A fwyn welai fy nolur.

Unigol wyf, o wan agwedd ;—nesu
Mae noson fy niwedd ;
Ar fyr yr âf i orwedd
O glyw byd i glai y bedd.

Mawr gysur mewn cur oer caeth—i'm meddwl
Yw moddion Rhagluniaeth ;
Duw Iôr mwyn, dý air yw'm maeth
A'm eli, dan drwm alaeth.

Duw'r cariad, ein Tad wyt ti ;—Duw â llais,
Duw â llef tosturi ;

Ein lles iawn ewyllysi,
Iôr mad, medd dy air i mi.

I dy eiriau fyth hyderaf—finnau
Am fwyniant ; a chredaf,
Uwch bedd, er camwedd, y caf
Gu deiau nas gadawaf.

Gorweddaf, hunaf mewn hedd,—a 'ngwely
Yng ngwaelod y dyfnfedd ;
A thrwy Naf, caf, o'r ceufedd,
Etto fyw, tu hwnt i fedd.

Caf, yna, ym mysf cyfiawnion—drigfa,
Heb un drygfyd weithion,
O gyrraedd gwaeau oerion
Angau a'i rwyg, yng nghaer Iôn.

Y FAM I'W MABAN,

Yn ol claddu ei Dad.

Fy mhlentyn mwyn, ni wyddost pa'm
Yn syllu arnat mae dy fam,
Gan olrhain mewn myfyrdod mud
Llinellau'th wyneb, lawer pryd.

Dy wedd, fy mhlentyn gwirion, mad,
Sy'n dwyn i'm cof dy dirion dad ;
Os gwel'd ei roi dan gwys wnais i,
Mae etto'n fyw yn d' wyneb di.

Ni wyddost ti, fy maban mwyn,
Yr hiraeth trist wyf fi'n ei ddwyn,
Na pha'm y methaf weithiau roi
It' wên am wên, â briw'n fy nghloi.

Mae'th dad, fy mhlentyn, dan y gro
Mewn beddrod oerllyd obry 'nghlo ;
Mae etto'n fyw i'm meddwl i
Pan syllwyf ar d' wynebpryd di.

Mor dÿn y rhwymi'r fynwes hon
Wrth lwch y bedd, fy maban llon ;
Wyt drech nag Angau trwm ei gledd,
Wyt, wyt, er gwanned yw dy wedd.

A chwârddi di, fy maban bach,
Yn f' wyneb i fel hyn yn iach ?
Beth am y byd a'i drais, a'i dwyll,
A'i faglau fyrdd, sy'n d'rysu pwyll ?

Mae'r rhai'n o'th flaen ; mae cynghor tad
Dros byth ar goll, fy mhlentyn mad ;
A'th fam ar fyr, ef allai, fydd
Yn briddell oer mewn lletty cudd.

Bydd yna'th ran a'th gyflwr syn
 Fel rhyw blanhigyn ar y bryn,
 Heb gysgod rhag yr ysawl wynt
 Cynddeiriog ar ei ffyrnig hynt.

Ond chwardda di,—mae nefol Dad
 It' etto'n fyw,—efe ni'th âd ;
 Gŵyr ef am danat ; gŵyr, a gwna
 Dros bawb o'i blant yr hyn sy dda.

Os trwy ei gymhorth ef—Iôn mawr
 Yr wyt yn gwenu'n iach yn awr,
 Paham na chredaf mai mewn hoen
 Y treuli'th ddydd, heb gur na phoen ?

O! chwardda, 'mhlentyn, yn y bla'n,
 Yr wyt dan aden Noddwr glân ;
 O dan ei dyner ofal ef
 Cei yma ddechreu bywyd nef.

Cei yn y bur drag'wyddol wlad
 Ail gwrdd â'th hoff rieni mad ;
 Lle na bydd rhaid ymadael mwy,
 Nac ofni galar, cur, na chlwy'.



YMDDIDDAN

Rhwng Iwan, (sef y diweddar Barch. David Williams,¹) ag Ieuan, (sef Daniel Ddu:) Iwan oedd wedi bod yn canu yn alarus ac yn bruddglwyfus ar y testun "Bedd fy Nhad;" ac amcan Ieuan oedd ei ddenu yn gariadus i dynnu ei feddwl oddiwrth ei glefyd, mor belled ag y byddai modd, rhag i hynny niweidio ei iechyd yn fwyfwy.

IEUAN.

DYWED imi, gyfaill Iwan,
Onid bai yw chwalu'r fron
A meddyliau'n friw a dorrant,
Fel y dur, y galon don;
Gwell yw codi fynu'r olwg,
Na braenaru'r enaid mad,
Y mae myrdd yn gorfod edrych,
Fel dy hun, ar *fedd eu tad*.

IWAN.

Mewn myfyrdod prudd, fy nghyfaill,
Nid wy'n canfod unrhyw fai;
Puro wna, ac nid dolurio
Y lygredig galon fau :

¹ Mr. D. Williams oedd fab i Mr. Williams, o Ben-pont-bren, Llanbedr, Ceredigion; yr oedd yn Bregethwr gyda'r Bedyddwyr; a bu gryn amser yn cadw Ysgol gyda mawr lwyddiant a chlod. Dyn o ddyfnder synwyr, ac o archwaeth neillduol at wir brydyddiaeth oedd Mr. W. Mae rhai o'i ganiadau mor gyson â natur ag unrhyw gerddi yn ein hiaith ni; ond ni hoffai Iwan fesurau caethion Barddoniaeth, er ei fod yn eu deall. Bu farw yn ieuangc, o gylch 28ain oed.

A ddisgwyl i mi ganu
 Molawd merch, neu glod fy ngwlad,
 Gan grechwenu'n ffol, a llammu,
 Pan b'wy'n syllu ar *fedd fy nhad*.

IEUAN.

Rhaid i alar gael ei derfyn,
 Rhaid i'r enaid gael rhyddhâd ;
 Gormod baich i ddydol anian
 Syllu fyth ar *fedd ein tad* :
 Y mae dannedd mân gan Brudd-der,
 Rai na welir ddim o'u llun,
 A ddifethant bob yn 'chydig,
 Nerth a gallu enaid dyn.

IWAN.

Dyn, fel fi, ar fin ei feddrod,
 Ddylai droi'i olygon draw,
 'N fynych ar ei wely priddlyd,
 Ac ar fryniau'r byd a ddaw :
 Ceir mewn Prudd-der fwy o fwyniant
 Nag a ddyry maswedd ffol,
 Mae llawenydd dae'r yn gadael
 Gwenwyn aspaidd ar ei ol.

'R wyf yn caru rhodio'r gelltydd,
 Ganol nos, i ddweyd fy nghwyn
 Wrth y t'wyllwch tew sy'n cuddio
 Hudawl wenau anian fwyn ;

Yna hed fy meddwl pruddaidd
 I'r uchelder tawel fry,
 Ac a ddwg o lysoedd prudd-der
 Faeth a mêl i'm henaid i.

IEUAN.

Meddwl gormodd am y beddrod
 Sy'n dihoeni anian fwyn ;
 Cwyd i fynu dy olygon,
 Gwêl yr adar ar y llwyn ;—
 Gwêl hwy'n chwareu ac yn neidio,
 Clyw eu llais pereiddiaf llon,—
 Llais a lonna, 'nghâr, os coeli,
 Dy gystuddiol bruddaidd fron.

Nid llawenydd *ffol* wy'n gynnyg
 I dy feddwl, gyfaill gwiw,
 Ond dywedaf fod llawenydd
Pur yng nghreadigaeth Duw :
 Gwawr yr haul a gwên y bore,
 Hyfryd lais yr adar mân,
 Wybren las, a dôl feillionog,
 Ynt wrthddrychau glwys a glân.

IWAN.

'R wyf yn caru rhodio'r maesydd,
 Gwrando'r ednod yn y llwyn,
 (A phan allwyf dd'od o'm gwely)
 Gwel'd yr haul yn codi'n fwyn ;

Ond ni ront i *mi* ddidanwch,—
 Rhaid yn awr cael mwyniant gwell;
 Pob rhyw gerdd ddistawa'n ebrwydd—
 Sawdd yr haul i'r dyfnder pell.

AR FARWOLAETH IWAN.

1823.

WÆLED a saled is sêr—yw beroes,—
 Mae'n bwriad yn ofer;
 I bridd-dŷ 'r aeth (och brudd-der)
 IWAN bach a'i awen bêr.

Unllais cyd-genais âg ef—yn ddiâu
 Ar ddaear,—ac unlef
 Y canom mewn cu wiwnef
 I enw ein Iôr, yn y nef.

Yn y ddaear, gâr, gorwedd—yn dawel,
 Nes deuo'r awr ryfedd
 Y cyfyd, uwch y ceufedd,
 Duw Iôr ei had i dir hedd.



MARWNAD

Y diweddar BARCH. ELIEZER WILLIAMS, M.A., Periglor ac
Ysgol Feistr, Llanbedr, Ceredigion; bu farw Ionawr 20,
1820, yn 68ain oed.

GALARUS, i'r gwael weryd,
Wych awen fach, o wyn fyd,
Troi'r olwg trwy oer waywloes,
A dilyn hynt wael ein hoes ;
O'r byd troi'r llygad i'r bedd,
Ac o haelfyd i'r culfedd.

A di lai, f' awenydd dlos,
Oruchel, hyn yw'r achos
Im' dewi c'yd am deg gâr,
Diwael, fu dro mewn daear.

ELIEZER, pêr, purwedd,
WILLIAMS bach, a glymwys bedd ;
A dios achos ochi
Drwy 'm oes yw'r chwerwder i mi.

Oedd dda gyfaill haeddai gofion
Am wir gariad im', wr gwirion ;
Loes i giliau y lwys galon
Gloi am wyneb Gwilym union.

Fy Athraw¹ hylaw hoywlywys—a gwiwlon,
 Fu Gwilym oreuddwys ;
 I'm oerddu fron cur mawrddwys,
 Wirion gâr, ei roi'n y gŵys.

Mae'n rhaid i'm henaiddihoeni—('mswynaf!)
 A'm synwyr wallgofi,
 O Williams, cyn yr eli,
 Y cuaf wr, o'm cof i.

Tra'r gwaed yn têt ergydio—trwy'm mynwes,
 Tra'm anadl yn effro,
 Rhaid im' fyth, er dim a fo,
 Fy hen gyfaill fwyn gofio.

Ei ddoniau fu ddiddanwch—ac eli
 I'm calon mewn tristwch¹;
 Geiriau ei gyfeillgarwch,
 Dda wr llon, ni ddaw o'r llwch.

Er dâl, er cynnal cwynion,—briw enaid,
 Er bronnau hiraethlon,
 Mwy ni chlywir, ar dir, dôn
 Ei ddoniawl ymddiddanion.

¹ Awdwr y Llyfr hwn a gafodd ei ddwyn i fynu dan ofal athrawiaethol y Parch. Eliezer Williams, cyn ei ymsymmud i Rydychen; a chyda mawr hiraeth y mae efe yn adgofio parod-rwydd ei gariad, tynerwch ei gynghorion, hynawsedd ei ymadroddion, a doethder ei lefariad.

Ei lygad oedd fad, oedd fyw—a siriol,
 Fel seren oleufyw,
 Gwelw yn awr yn y glŷn yw,
 Bore fwyd i bryf ydyw.

Beirddion teg, o briddo'n tad,—yn gydwedd
 Iawn godwn alarnad ;
 Y genau lle bu ganiad,
 Di 'stwr a mud yw ei 'stad.

Yr Awen gu, eirian ei gwedd,—gollodd
 Ei gallu a'i mawredd ;
 Wyla fyth ar ael ei fedd,
 Heb un gair, tro bo'n gorwedd.²

Ydoedd ieithydd,
 A duwinydd,
 Ac hanesydd gwiw hen oesau ;—
 Fe fu'n odiaeth
 Bleser helaeth
 Ei farddoniaeth i fyrddiynau.

Ond er doniau,
 Rhagoriaethau,
 Dewis raddau, a dwys roddion,

² Ni wyddwn pan wnaethum ddefnydd o'r Englyn yma ar yr achos hwn, fod Cymdeithas y Gwyneddigion, yn Llundain, wedi ei ddewis yn Fedd-argraff Thomas Edwards, (Twm o'r Nant,) i'r hwn achos y cyfansoddais ef ar y cyntaf, yn hir cyn yr Awdl hon.—D. E.

Beddrod obry
 Ydyw lletty,
 Du oer wely daearolion.

Bydd wych, os i'r rych oedd rhaid
 It' hedeg at dy wiwdaid ;
 Dos yn iach, ni thâl achwyn,
 Yn ol y câr ni eilw cŵyn ;
 Etto'n glau, dagrau ar d' ol
 Rhedant, er nad yw rheidiol ;
 Dy lân reddf a'th gynneddfau
 A gaiff eu hir wiw goffhâu.

Yn dy happus
 Annedd iachus,
 Iaith anhoenus, a thi'n huno,
 Gan Frythoniaid
 Bydd yn ddibaid
 Taer ochenaid hir a chwyno.

Dy gu eiriau, dy gariad,
 Yn ffynnon o rwyddlon rad,
 A redai, yn wir odiaeth,
 Fal y llif, o fêl a llaeth :
 Megis brawd, ymgais a bri
 Dy enaid oedd daioni,—
 Daioni i bob dynion
 A hwyliai fryd dy hael fron.

Dwyn o bwll yr adyn bach,
 O bur egni, heb rwgnach,—
 Rhoi ei gyngor, rhag angen,
 Yn hael i ieuangc a hen ;
 Rhoi'n ddistaw o'i law a'i lys,
 A allai, o wir 'wyllys,—
 Gweini'i rodd i'r gwan ei rym
 O galon a wnai Gwilym ;
 A chwyno, os nid 'chwaneg,
 Fal Cristion, dros y fron freg.

Fel anwyl dad, ddi frad fron,
 Yn gwblwedd i'w ddisgyblion,
 Oedd Williams, ac ni ddaliai
 Hir wg am fawrddrwg neu fai.
 Da ystyriol dosturi
 A lanwai'i fron, lanaf ri ;
 A chlywai, pan godai gais,
 Afradlon ei hyfrydlais.
 Ei gywir ddwys gerydd o,
 Wr boddus, f'ai rhybuddio,
 A gwiw arddangos y gwall,
 A'r ing a ddoe i'r angall
 Araf fwyn eiriau o fêl
 I'r un diwyd roe'n dawel,
 Ac ethol annogaethau,
 Dyner wr, o dan yr iau.

Oedd ganwyll yn hardd gynnu,
 Wawl llon, i oleuo llu ;

Diwygiai y gym'dogaeth
 A'i addysg i'n mysg er maeth :
 O falchder ofer afiach
 Ei dirion ddwyfron oedd iach ;
 Iawn fugail i'w gail deg oedd,
 Gweinidog y gwan ydoedd.
 Siomwyd torf o'th symmud di,
 Frawd hyfwyn, o fro Teifi ;
 Wylwn oll am alw o Ner
 Oleu'n byd o Lanbeder ;
 A rhoi i bwl oer y bedd
 Da ganwyll De' a Gwynedd.
 Y dydd yr aeth ef dan dô
 Llawer ael fu'n llwyr wyllo ;
 Yr awr yr aeth i'r oer-rych
 Ni bu sôn am wyneb sych.

Was cyfiawn, melus cofio
 Ei dêr ddwys ymadrodd o,
 Yn wiw ddysg o'i enau ddaeth
 Ar wely ei farwolaeth.³

³ Ei ymadroddion, ychydig cyn ei anadliad olaf, â dau neu dri o wyr ieuaingc, offeiriaid, a ddygasid i fynu dan ei ofal, oedd ryfeddol ddwys a chyffrous. "Chwi welwch, (eb efe,) nad yw dysgeidiaeth yn yr awr hon (awr marwolaeth) o ddim lles heb dduwioldeb. Rhaid i gorph gwael y dysgedig a'r annysgedig, yn ol ychydig ddyddiau o ofalon a helbulon, ddychwelyd i bridd y bedd, ond yr unig sylfaen gadarn a saif ar awr angau ac yn wyneb y byd tragywyddol, yw duwioldeb. Byddwch, (meddai efe,) (a chyda phwyslais ac egnï rhyfeddol y dywedai

Dan ei boenau,
 A'i ddu loesau,
 Ar awr angau, er yr ingoedd,
 Oedd i'w nerthu,
 A'i ddiddanu,
 Crôg yr Iesu, Craig yr oesoedd.

Diammeu gofid yma gafodd,
 Ei iawn fron wiriawn a fraenarodd ;
 Croesau, addoer boenau dderbyniodd,
 Ei dda hoyw enaid a ddihoenodd ;

y geiriau,) byddwch ffyddlawn weinidogion Crist." Meddai wrth ei blant ag oeddynt yn llefain o amgylch ei wely ychydig cyn ei ymadawiad, "Fy mhlant anwyl, yn llefain y daethoch i'r byd, ac ef allai mai yn llefain yr ewch trwy y byd, ond gobeithiaf y byddwch yn *canu* wrth fyned allan o'r byd."

Ni gofiwn dy hynawsedd, a'th eiriau mwynaidd mad,
 A roit i'th ysgolheigion, wr tirion, fel eu tad ;
 Ni gofiwn fyth mor heini yr o'it i godi'r gwan,
 A gwneyd dros bob cyflyrau neu raddau'n wych dy ran.

Ffarwel ! fy nghâr anwylaf a rhwyddaf is y rhod,
 I ti mewn hyfryd ardal mae heddyw dâl yn dod
 I dderbyn meibion Cariad gan Dduw mae gwlad a gwledd,
 Lle trigant dan ei gysgod yn hynod iawn eu hedd.

I ninnau, Dduw'r gwybodaeth, rho helaeth galon hael,
 I deimlo'n wych a mwynlan byth dros y gwan a'r gwael ;
 A dilyn Iesu isel gan dawel gofio'r dydd
 Y'n gelwir o'n mynwentau a'n rhwymau oll yn rhydd.

Er hyn mae gan Rhên y modd—i wellhau,
Coeliaf ei eiriau, 'r clwyf a yrrodd.

Y mae tiroedd a gwiw lysoedd glwysion,—
Y mae caerau, neuaddau newyddion,
Man nad oes gweli mewn un dwys galon,
Na chwerwaidd ddufrad, na chur i ddwyfron;
Ond dethawl bêr ddanteithion—ar fwrdd gwych,
Da einioes hoyw-wych, ein Duw yn Sion.

Ac yno yn drigiannawl,—mi goeliaf,
Mae Gwilym yn siriawl;
Gwyn ei fyd, a'i gân o fawl
I'w Dduw union yn ddoniawl.

A'i dywedodd Duw ydyw,
A gair y nef gwir in' yw,
Mai Cariad, anwyllfad naw,
A ddilëa ddu liaws
O feiau'n hegwan fywyd,
Ar ein taith i fawrfaith fyd.

Oedd anwyl i'w gyd-ddynion,—
Anwyl yw yn nheulu Iôn;
Holl lu y nef llawen fnt,
O'i roddi'n gymmar iddynt.

Pan aeth i fysg peneithiaid
Y nef, ar orchfygawl naid,

Bu'n fud dros ryw funudyn
 Cerdd eu Duw er cwrdd & dyn,
 A'r lôn o'i faingc, eirian fodd,
 Adwaenai,—a Duw wenodd.

ENGLYNION

○ barchus Goffadwriaeth am y diweddar Fardd ac Hanesydd,

IOLO MORGANWG.

DE'wch, Feirddion iawnion, yn unwedd,—i lwyr
 Alaru, dan dristedd,
 O yrru, 'n wael i orwedd,
 Tad y Gân, i fudan fedd.

Anialwedd heb ein Iolo,—dua' glwyf,
 Ydyw gwlad y Cymro;
 Y da Dŵr, o dô i dô,
 Ar ei ol bydd hir wylo.

Morganwg, os mawr gwyno—a weli,
 Am farwolaeth Iolo;
 E rydd Beirdd Cymru iddo
 Fôr o gân,—ni chaiff farw'i go'.

Hunodd,—ond saif mewn hanes—ei gofiant
 Yn gufad ac eres ;
 Ceir llu'n datganu'n gynnes
 I'n hiaith lân faint wnaeth o les.

Daliodd i'r lan mewn duloes—yr Awen
 Oreuwych, yn eirioes ;
 Ni adawodd, mewn düoes,
 I'n hiaith derfynu ei hoes.

Er loes, ac er croes, ac er cri—miloedd
 Am weled ei soddi,
 Iolo hoff a'i daliai hi
 Uwch y dôn,—â'i fraich dani.

Helynt ei wlad wen hoywlan,—ei llwyddiant
 A'i holl ludded trwstan,
 Gwyddai, iawn gofiai'n gyfan,
 Gymro glew o gamrau glân.

Os oedd mewn Hanesyddiaeth—yn llewyrch,
 Nid llai ei wybodaeth
 A'i bur ddawn mewn Barddoniaeth,—
 O'i ben didrai ffrydiai'n ffraeth.

Cynnilych f'ai cân Iolo,—a gemwaith,
 Nid rhigymau diglo ;
 Llawn synwyr, yn llon seinio,
 A gwrdd waith fyddai'i gerdd o.

Y gwannaf mewn ymadrodd gweniaith—oedd,
 Er meddu cadarniaith ;
 Y gwir¹ a'i hoff ragorwaith,
 Goron fad, a garai'n faith.

Golud ni hoffai'i galon,—na mawredd,
 Nac ymyrraeth beilchion ;
 Gwelai, trwy aml argoelion,
 Frys a hynt y fer-oes hon.

Rhyw²hen femrwn² crwn, y'mron crino,—llwyd,
 A pheth Lladin arno,
 Yn fwyaf f'ai'n adfywio,
 Gulan wr, ei galon o.

Er grym pen cyflym, er co'—ehelaeth,
 Er hylwydd fyfyrion,
 I'r beddrod caeth daeth, do, do,
 Prudd hanes,—pridd yw heno !

Ond os (modd trwch) llwch oer llaith—yw'n Iolo,
 Fwyn wiwlan gydymaith,

¹ Cyfeirir yma at arwydd-air y Beirdd, sef "Y Gwir yn erbyn y Byd;" ac nid at ei ddaliadau crefyddol, beth bynnag oeddynt.

² Hyspys yw mai llafurus gasglydd Ysgrif-lyfrau ydoedd, a'i fod yn mwynhau yr hyfrydwch mwyaf yn y gwaith. Dylai ei ymdrechadau canmoladadwy, dros achos ei genedl, sicrhau i'w enw glod ac anrhydedd, gan bob Cymro

"A garo lwydd gwyr ei wlad."

Marwol nid yw y mawrwaith
Wnaeth ei law,—iawn ethol waith.

Saif hwn tra y safo heini—Awen,
A hoyw-waith barddoni,
Tra mawr haul, tra môr heli,
Yn loyw'i fraint, yn olau'i fri.

AWDL

AR FARWOLAETH Y DIWEDDAR BARCHEDIG JOHN
JENKINS, A.M., PERIGLOR, CERL.¹

Bu farw yn y flwyddyn 1829.

CYNNAR dan ddæar oer ddu—e'i dodwyd,
Er didawl wæ Cymru ;
Dros Walia lân a'r gân gu
Mae du-niwl yn ymdaenu.

Gwr oedd o foesau gwareiddiaf,—a gwr
A garem yn bennaf:
Ei gufwyn wên & gofiaf,
Gwên o hyd yn dwyn gwyn haf.

Selog a serchog i'w swydd,—oruchel
Wir achos yr Arglwydd ;

¹ Mr. Jenkins oedd enedigol o Gilbronnau, Ceredigion.

A gwelid, er teg wiwlwydd,
Yn daer o'i blaidd wyr ei blwydd.

Ochain y mae'r rhai'n mewn echur—beunydd,
Dan boenau a dolur :
Aeth dan y llen eu Pen pur,
Dan gwys eu dien gysur !

Yng nghur caid ei gynghorion—yn nodded,
Yn addysg iachuslon :
B'ai'i gynghor coeth, doeth ei dôn,
O flaen gwin i flin gwynion.

Brawd o deg waelawd ei galon—oedd ef,
O ddifai amcanion :
Caid yn ei annedd wledd lon,—
Ger ei fwrdd gôr o Feirddion.

IFOR CERI ! ti, fel tad,—yn addas
A noddit ein henwlad :
Gwael oernych a galarnad,
Trwy ddewr lef, sy'n treiddio'r wlad !

Gwrdd reieidr gruddiau'r Awen—wyw, lwythog,
A wlithant y ddae'ren ;
Griddfanau'th gerydd, Feinwen,
Yn iaith bwl a ddaw o'th ben !

Llawenydd, iawngall ynad,—o ceisiai
Er cysur goreufad,

Difyrwch mewn *da* fwriad
A luniai'i fwyn galon fad.

Wrth raid, o'i enaid iawnaf,—dylifai
Da lafar mwyneiddiaf:
Meddai fron ail hinon haf,
Ddihoced, foneddica f.

Difalch fel harddwas Dofydd—e'i cefid,
Enwog gyfaill haelrydd;
Darian glân, drwy ein glennydd
Ei gof ef yn gu a fydd.

A bydd iddo, uwch bedd, haddef—dawel
Gyda Duw y lwysnef;
A gogoniant gwiw gu-nef,
Gwleddau a chaniadau nef.

Llawn gwres cariad mad a mwyn,—wedd anwyl,
Oedd ei enaid gwirfwyn:
I noddfa hedd yn addfwyn
Y byd mynnai ddiwyd ddwyn.

Oerddu garchar mewn daear yw'n diwedd
A'n lle oer anwiw, bawb oll yr unwedd;
Yno dan ddidor gloion ca bonedd
Ran y salaf,—yr un yw eu sylwedd:
Myfyrio'n ffol am fawredd—a wna dyn,
Ac e, wyfyn, y foru'n y ceufedd.

IOAN a welodd yn union olau
 Y gwir hwn, yn ei amrywiog rannau :
 Oer ofal bydol, dan ry-ffol raffau,
 Ni chafodd ddal mewn nych ei feddyliau :
 Da ei glod, yn ddiwyd glau—am nef wlad
 Rhôdd ei lwysfad fyfyriad yn forau.

Fel pren plàn ar lan dôl wych,
 Yn nhawel ddyffryn hoyw-wych,
 Dan hyfryd wên heulwen haf,
 A nos iddo'n nawseiddiaf,
 Dygai firwyth, yn deg hoff rodd,
 Yn fadwych a addfedodd,
 A thrwy'r wlad yn llad mwyn llon
 Gwelwyd ei degwch gwiwlon.

Brawdgarwch brwd a gorau
 Yn fwyn hoff a fynnai hau,
 Gan faeddu a llaesu llid
 I weis Naf ag sy'n ofid :
 I'w wlad cywir siampl ydoedd,
 Glân wr, a'i goleuni oedd :
 Yn iachus y chwennychai
 Wir lwydd yn rhwydd i bob rhai.
 Rhagrith a'i hyll-ffyrdd rhygroes,
 Addwyn lyw, oedd iddo'n loes,
 Un oedd, pan y beiai neb,
 Wnai hynny yn eu hwyneb :
 Goleu y ceid ei galon,
 Heb ddichell yn harddgell hon.

Cwblwir elyn pob cabledd,
 Ei fryd f'ai o hyd ar hedd.
 Cam a dig rhwng cym'dogion
 A roi friw i'w dyner fron:
 Tawelwch rhwng mad deulu
 Yr Iôn gwâr a garai'n gu,
 A chynnydd ar grefydd gras,
 Yn harddwch ac yn urddas,
 A gweled ôl duwioledd
 Ar y byd cyn myn'd i'r bedd.

GOLWG

AR GYFLWR YR IUDEWON.

CYNNWYSIAD.

GOLWG ar gyflwr presennol Had Abraham.—Eu gogoniant gynt fel cenedl.—Eu gwrthodiad o'r Messiah.—Y canlyniad o hynny, sef dinystr eu dinas a'u gwasgariad hwythau.—Agwedd druenus gwlad Canaan y dydd heddyw.—Galwad ar Israel i gredu etto yn y Messiah, a'r effeithiau dedwydd a ganlyn.

GALARA, fy Awen, Fun geinwen, fwyn gu ;
 Na attal y dagrau ar d' wyneb sy'n lli' ;
 Meddyliaist am wrthddrych tosturi gwir fawr,
 Na attal y dagrau, ond ffrydient i'r llawr.

Had Israel yn athrist sy'n gostwng dan gur,
 Dros feithion flynyddau 'n ymddifaid o'n tir,—

Heb gael un ymgeledd na nodded dan nen,
Heb ddinas ar ddaear i lawr i roi'u pen.

Pob teyrnas a'u gwrthyd¹ fel sothach rhy sal,
O dir ni roir iddynt un dernyn am dâl ;
Yn warth ac yn ddirmyg y crwydrant ar hyd
Holl gonglau pellenig ac anial y byd.

Ai chwi, 'nawr mor isel, yw'r genedl fu gynt
Dan nawdd y Goruchaf mor hwykus eich hynt,
A'r môr ichwi'n ufudd, a chestyll o'ch bla'n
Yn syrthio'n wirfoddol, heb arfau na tân ?

Os heddyw'ch bychanir, yr amser a fu
Y gwlawiai y nefoedd eich ymborth i chwi ;
A phan y sychedech, mewn anial dir cras,
Duw berai i ddyfroedd o'r graig dorri i ma's.

Glân haul² y ffurfafen, mae'n deilwng o go',
Wrth arch un o'ch meibion arosai 'n ei dro,—
A'r wenloer ddisgleirwawr yn entrych y nen
Dros gyfan ddiwrnod a safai uwch ben.

¹ Yr Iuddewon, o herwydd nad ydynt yn cydffurfio â chrefydd scfydledig unrhyw wlad neu lywodraeth, ni chânt eu gwneuthur yn ddinasyddion ; ac felly nid ydynt gyfrannogion o'r breintiau ag mae eraill yn eu mwynhau.

² A'r haul a arosodd, a'r lleuad a safodd, nes i'r genedl ddial ar eu gelynon. Gwêl Jos. x. 13.

Pwy'n glau a orchfygodd Goliath y cawr,
 Mewn pres yn döedig o'i wddwg i'r llawr?
 Bugeilwas³ llengcynaidd o'ch ethol had chwi
 Trwy Dduw a'i concwerodd, er cymmaint ei fri.

Yn eiddoch bu Teyrnas helaethwych a llawn,
 Brenhinoedd clodforus am olud a dawn;
 Yn eiddoch bu Temel oedd syndod y byd,—
 Pwy draethai 'i gogoniant a'i gwychder i gyd?

Bu'n eiddoch Brophwydi, â'u genau'n datgloi
 Dirgelion y nefoedd, a Duw'n eu cyffroi:
 Yn foreu bu Dafydd, tywysog y gân,
 Yn llenwi'ch mynwesau â dwyfol⁴ bur dân.

Eich Dinas⁵ fawr gaerog a Sion pwy sydd
 Na wŷr am eu hanes odiaethwych, un dydd,—

³ Am hanes Dafydd yn gorchfygu Goliath, gwêl i Sam. Pen. xvii.

⁴ Iawn y gellir dywedyd fod Psalmau Dafydd yn llawn o "dân dwyfol." Pwy erioed a'u clywodd neu a'u darllenodd heb deimlo ei fynwes yn gwresogi? Ym mha gyflwr bynnag y byddom,—mewn gorthrymder o herwydd cyfeillion gau,—mewn cystudd, yn gorfod yfed chwerwon ddyfroedd Mara; neu ynte yn gysurus ac yn llawen o herwydd cynnydd ein hachosion tymmorol neu ysprydol, ac felly yn cael "gorwedd mewn porfeydd gwelltog, gerllaw y dyfroedd tawel,"—y mae rhyw rai o'r Caniadau dwyfol hyn yn taro yn uniongyrchol at ein sefyllfa, ac yn dwyn ein meddyliau cyffroedig at y Bod mawr, "eiddo yr hwn yw'r ddaear; y byd ac oll sydd ynddo."

⁵ Jerusalem.

A Charmel hardd fynydd, man cofus mewn cerdd,
A dyffryn hyfrydlon glas Saron lwys werdd?

Trwy'r hollfyd mewn cofiant mae Lebanon fryn,
A dyfroedd iachäol Siloam, deg lyn,—
A llawer man arall o Ganaan ddi gaeth,
Lle ffrydiai llifeiriant o fêl ac o laeth.

Bu'n eiddoch fendithion o rif y mân wlith,
Ac Arglwydd y lluoedd a drigai'n eich plith;
I chwi, diau, 'n unig, o bawb dan y nef,
Arwyddion gweledig o'i wyddfod roes ef.

Yn nerthus gynnorthwy yr Arglwydd a fu
I ymladd eich brwydrau, i gynnal eich bri:
Derbyniodd eich offrwm, er trosedd tra maith,
A dagrau merch Sion a sychodd gàn waith.

Os heddyw'ch cystuddir, anghariad y nef
Haeddasoeh, O Israel, cyfiawnder a lef;
Os melldith a orphwys yn drwm ar eich had,
Mae'ch dwylaw chwi'n euog o wirion bur wa'd.

Calfaria ! pwy welaist yn dioddef ar bren,
A choron lem bigog o ddrain ar ei ben;
A llu yn ei wawdio, a phawb o un fryd
A'u cais am ryw newydd, waeth ddirmyg o hyd?

Pa'm crynit ti, ddaear, trwy'th gonglau tra maith,
Pa'm, haul, y tywyllit rhag c'wilydd o'r gwaith?

Pwy ydoedd y Person? Clyw, Israel, O clyw,
Glân Seiliwr y bydoedd—trag'wyddol Fab Duw.

O nef y gogoniant os na ddaeth i lawr
Yn ol eich disgwyliad, mewn harddwisg⁶ y wawr,
Fe oedd y Messiah,—dangosodd ei nerth
Fel gynt heb ei difa i losgi rho'i 'r berth.

Rhoes ef, gan ymdeithio trwy'ch hyfryd fro wiw,
Eu golwg i'r deillion, i'r byddar eu clyw:
Pa allu dröasai'r ffigysbren yn grim
Ar air, ond awdurdod ar natur ei hun?

Y gwynt a'r tymhestloedd fu'n ufudd i'w lais,
A'r moroedd ymchwyddawg tawelent i'w gais:
Y meirwon o'u pridd-dŷ a ddeuent i'r lan,
Wrth air ei orchymmyn yn fyw yn y fan.

O'r beddrod cauedig fe gododd ei hun,—
Yr hyn, er creu daear, erioed ni wnaeth dyn:
Esgynnodd ar gymmwl, yn ddisglair ei wawr,
I nef y gogoniant, lle'n eistedd mae 'nawr.

Ond hyn ni'ch boddlonai mai fe oedd yr un
Addawai'r prophwydi mewn llais yn gyttûn:

⁶ Yr Iuddewon a ddisgwylient y Messiah i ddyfod ar gymylau'r nef, mewn rhwysg mawr a gogoniant, fel pen-rhyfelwr, i'w gwared oddiw'rth iau y Rhufeiniaid,—ond efe a ddaeth mewn modd llwyr wahanol.

I garchar ac angau cai 'r rhei'ny eu rhoi,
Y sawl o'ch cyfeiliorn a geisient eich troi.

Gwargaled, O Israel, gwargaled yn wir
A fuoch i dorri yr Arglwydd o'r tir,—
Y dagrau a gollaf, mewn galar oer maith,
Fel Mair wrth y beddrod, pan gofiat y gwaith.

Cynghorodd chwi'n addfwyn, yn dirion, fel tad ;
Fe wylodd mewn alaeth dros ddinas eich gwlad :
Mynnasai⁷ eich casglu, mae'i eiriau fe'n dyst,
Dan aden ei gariad, ond chwi ni roech glust.

O na wybuasech, â'ch genau yn fud,
Y pethau berthynent i'ch heddwch mewn pryd :
O'r diwedd fe'u cuddiwyd o'ch golwg, och fi !
Amynedd y nefoedd, mae terfyn i ti !

'Nawr dydd⁸ bygwthiedig y dial a ddaeth,
Dydd "ffoi i'r mynyddoedd," dydd galar ac aeth ;
Jerusalem gaerog ! gwêl d' olud ar dân,
A dydd cyfyng-gyngor ar fawrion a mân.

⁷ Jerusalem, Jerusalem, yr hon wyt yn lladd y prophwydi ac yn llabyddio y rhai a ddanfonir attat, pa sawl gwaith y mynnaswn gasglu dy blant ynghyd, megis y casgl i'ar ei chywion dan ei hadenydd, ac nis mynech ! Mat. xxiii. 37.

⁸ Ynghylch rhagfynegiad dinystr Jerusalem, gwêl Mat. xxiv. a Luc xxi.

Y nefoedd ysgydwir,—yn rhuo⁹ mae'r môr,—
 Arwyddion dychrynlyd digofaint Duw Iôr:
 Dy blant trwy'r heolydd, arswydus yr awr,
 A syrthiant yn feirwon mewn llewyg i'r llawr!

Gwae chwi sy'n rhoi bronnau—yn awr a dry'n
 sych;¹⁰

Babanod a welir yn marw o nych:
 Ymddengys trallodion heb rif, o bob rhyw,
 Fel iawn y disgwylid yn ddig pan b'ai Duw.

O'r Demel ni adwyd un ma'n ich' ar fa'n,—
 Gogoniant merch Sion difäodd y tân,—
 A'r gweddill o'i meibion, yn gaethion a gwael,
 Trwy'r hollfyd a werthwyd¹¹ yn filoedd am fael.

⁹ Er y crybwyllir yma am amgylchiad ag sydd wedi cym-
 meryd lle er ys yn agos deunaw cant o flynyddau, sef dinystr
 Jerusalem, etto y mae'r awdwr yn llefaru yn yr amser presennol
 gydag amcan i ddwyn y darlennydd i ganfod, fel o flaen ei
 lygaid, yr olygfa alarus ac ofnadwy hon.

¹⁰ Ac fe fydd newyn, &c. Mat. xxiv. 7.

¹¹ Pan amgylchid Jerusalem gan Titus Vespasian, dywedir
 i gant a deg o filoedd o'i thrigolion farw o newyn, &c., a phan
 ddarostyngwyd y ddinas, i bedwar ugain a dwy ar bymtheg o
 filoedd gael eu cymmeryd yn garcharorion, a'u gwerthu wedi
 hynny yn gaethweision, neu eu gyrru i ymladd â chreaduriaid
 rheibus, y rhai a'u llarpient ac a'u darnient er difyrwch i'w
 goresgynwyr creulon. Am lawn hanes cwmp Jerusalem,
 gwél JOSEPHUS.

Eich telyn bereiddlais, ei thannau fu'n dŷn,
 Sydd heddyw'n grogedig ar helyg y glyn:
 Eich Temel odidog na welwyd mo'i hail,
 Bwystfilod y maesydd a bawr ar ei sail.

Pêr Ganaan nefolwawr, fel haulwen dan gudd,
 Yn drigfan anialwedd i'r Tyrciaid¹² y sydd:
 Gwlad hoffai angylion ymweled â hi,
 Yn annedd barbariaid—heb fraint ac heb fri.

Ti, Fynydd, a glywaist hoff bregeth Mab Duw,
 Ti, Hermon, o'it unwaith mor hyfryd dy liw,
 Eich dau y'ch yn gostwng eich pennau i'r llawr
 Wrth gofio'r hen ddyddiau a'r dyddiau sy 'nawr.

¹² Crefydd y Tyrciaid yw Mahometaniaeth. Fel eu gau Brophwyd, yr hwn a sylfaenodd ei grefydd trwy ryfel, twyll, a chreulonedd, felly hwythau ydynt lwyr ymddifaid o deimladau dynoliaeth. Pwy all feddwl am ysgelderder eu hymddygiad yn y rhyfel diweddar rhyngddynt â'r Groegiaid, heb deimlo dolur wrth ystyried mai dynion yw y fath creaduriaid. Erchyll yw hanes eu barbareiddwaith bwystfilaidd yn ynys Scio, yn y flwyddyn 1822. Halogid gwragedd o flaen llygaid eu gwyr, a merched yng ngwydd eu rhieni,—ac yna trywanid hwynt â'r cleddyf!—y plentyn sugno, yng nghoel ei fam,—yr hen-wr egwan, methodig—pob oedran—pob gradd, a lofruddid, heb wahaniaeth ac heb drugaredd! Temlau ac allorau Duw a roddid i'r fflamiau, a'u gweinidogion hybarch, llonydd, a dinweid, a leddid heb deimlad ac heb dosturi!! Yng ngwlad y TWRC, y ffordd o gopsi dynion am droi yn ol, yr ail waith, i fod yn Gristionogion wedi unwaith arddel crefydd Mahomet, yw eu rhostio'n fyw, neu eu taflu o ben muriau y trefydd i ddisgyn ar fachau blaenllym a osodir i'w derbyn; wrth ba rai yr hongianant weithiau dros ddyddiau mewn poen erchyll cyn cael marw!!

Och ! gwaedgwn uffernawl a hogant eu cledd
 Y man y bu'r Iesu ei hun yn hau hedd :
 Mae Sion yn wyllo—mae Carmel yn brudd
 Mewn henwisg o alar yn disgwyl ail ddydd.

O Israel, gan addef, addefwch eich bai,
 Fel gynt mewn sachliain at Dduw gan nesâu :
 Y mae ei drugaredd mor helaeth â'r nef,—
 Duw Abra'm, Duw Isaac, Duw Jacob yw Ef.

Bydd Enoch, Elias, a Lot, a mawr lu
 O'r hen ufuddollon o'ch plaid yn rhoi cri :
 Fe'ch cymmer, ond addef eich ffyrdd fu'n rhy ffol,
 A chredu'n yr Iesu, i'w nawdd etto 'nol.

Ac yna'r anialwch a ddyrchaif y gân,
 Daw Duw ichwi'n Llywydd fel buodd o'r bla'n ;
 A dwg eich tylwythau ar wasgar sy 'mhell
 I'r wlad oedd *dda*¹³ gynneu ond 'nawr fydd fil
 gwell.

O olwg gynhyrfiol ! ynghyd gwel'd eich d'od
 O Ewrop, o Affrig—pob man is y rhod ;
 Bryn Sion a neidia—y ddaear fydd lon,
 Ac uwch fydd Hosanna'n y nef yr awr hon.

¹³ Canaan a elwir yn yr Ysgrythur yn "wlad *dda*, gwlad afonydd dyfroedd," &c., gwâl Deut. viii, 7.

Daw pennau'r mynyddoedd uchelfrig yn awr,
Fel doldir y dyffryn yn wyrddlas eu gwawr,—
Y lle rhwng mieri a drain nid ai droed,
Ceir gweled afalau ar gangau pêr goed.

O ddydd gwynfydedig ! daw'n heddwch trwy'r
byd,
Y blaidd¹⁴ a'r oen gwaraidd a borant ynghyd :
Y seirph¹⁵ 'nawr a daflant eu gwenwyn i ffwrdd,—
A'u cefnau cragennog, heb niweid ceir cwrdd.

Wylofain¹⁶ na dagrau byth mwyach ni fydd,—
Yr haulwen yn ofer ei llewyrch a rydd,—
Yr Arglwydd ei hunan oleua i'r wlad,
Ar dalcen ei feibion bydd enw'u Duw mând.

O orsedd Jehofa a'r Oen, yn lwys hardd,
Glân ddyfroedd grisialwawr yn afon a dardd ;
A phren pêr y bywyd ei ffrwythau rhy i ma's,
Bob mis yn gwahanu mewn rhyw ac mewn blas.

¹⁴ Y blaidd a'r oen a borant ynghyd, y llew fel ych a bawr wellt, &c. Esay lxxv. 25.

¹⁵ A'r plentyn sugno a chwery wrth dwll yr asp, Esay xi. 8.

¹⁶ Ac fe sych Duw ymaith bob deigr oddiwrth eu llygaid hwynt ; a marwolaeth ni bydd mwyach, na thristwch, na llefain, na phoen ni bydd mwyach : ac ni bydd nos yno ; ac nid rhaid iddynt wrth ganwyll, na goleuni haul ; oblegid y mae'r Arglwydd Dduw yn goleuo iddynt, &c., gwel Dat. xxi. 4., a xxii. 5.

ENLLIB.

ELLYLLES lygadgoch ! i b'le mae dy daith
 Yr awron i osod dy wenwyn ar waith ?
 Trugaredd anfono 'i hangylion o'th fla'n
 I weyd fod y dalaeth yn myned ar dân.

Y ddager ddaufiniog, wrth d' ystlys y'nghrôg,
 Er d' ymgais i'w chuddio, a welaf trwy'th glôg ;
 Duw'n gymmorth i'r adyn raid odde 'n ei fron,
 Heb wybod pwy'i brathodd, effeithiau hyll hon.

Fwystfiles uffernol ! âi 'n hollol ddi lun,
 A hylwyr ddiagwedd, pan fynnot dy hun :
 Pan elir i'th ddala, dy hylgorph a droi
 Yn fil o ronynau, nas gellir grynhoi.

Y llofrudd, â'i ddwylaw yn gochion i gyd,
 Nid hagrach ei olwg, nid casach i'n byd,
 Nâ thi, Etifeddes hen deyrnas y Fall,
 Sy'n gosod holl wynfyd y bywyd ar ball.

Rhy ofnus i ddangos dy wyneb di drefn,
 Ti frathi 'r diniweid, pan attad ei gefn ;—
 I lawer dyn truan faint beraist o boen,
 I bell ac i agos mor ddiddrwg â'r oen.

Yn gwaedu o'th glwyfau mae lliaws di ri',
 (A ph'le ceir un meddyg i'r brath a roi di?)
 A thra dan d' archollion yn griddfan mae'r byd,
 Ymguddi mewn t'wyllwch, â gwên ar dy bryd.

Ond gwên yw a ddysgaist, y Wiber lawn brad,
 Yn eigion pwll uffern, gan ddiabol, dy dad;
 Y wên oedd ar wyneb y saph gyfrwys gynt,
 I faglu'r hil ddynol, pan lwyddodd ei hynt.

Ym mantell y ddunos pan byddwyf yng nghudd
 A 'mhen ar fy ngwely, 'nol hirwres y dydd,
 Ef allai 'th fod, Enllib, ar droed yn rhoi clwy'
 I'm heddwch, nad allaf ei wella byth mwy!

Hyfrydwch dy galon fileinig o hyd
 Yw gyrru 'n aflawen yn ben-ben y byd;
 Troi'r gân yn wylofain,—troi'r ddaear hardd hon
 Yn unwedd â'r fagddu, lle sugnaist y fron.

Y lleidr sy'n ceisiaw yspellio fy nghell,
 Sy'n chwantu rhyw bethau wna'i gyflwr yn well;
 Ond nid yw'r Enllibwr, wrth ddwyn fy ngair da,
 Ar ennil, er cymmaint i *mi* 'r niweid wna.

Difâodd, ar unwaith, â'i galon yn ddur,
 Fy ngobaith dan flinder, a chwerwder a chur,
 Heb gael am ei drafferth, was diafol, dost ddyn,
 Ond boddio'i hyll dymmer satanaidd ei hun.

Ti, ddyn, a lân luniwyd ar ddelw hardd Duw,
 A gaiff anllad Enllib dy serch, rho im' glyw ;
 Tra'th obaith i gyrraedd y wlad lle mae hedd
 Yn gwneyd i'w thrigolion drag'wyddol lawn
 wledd ?

Mae'r anian sydd yno i Enllib mor groes
 A gwawl i dywyllwch,—llid yno nid oes ;
 A'r gair digyfnwid sy'n gwirio na thrig
 O fewn ei hardaloedd un fron a ddeil ddig.

M A W L I D D U W

AM EI DRUGAREDDAU.

Duw, fel afon y dylifa
 Dy fendithion, rhoddion rhwydda',
 I dy ddeiliaid, waith dy ddwylo,
 Ar y tir sydd yma'n tario.

Y mae'n perthyn am ein porthiant
 Iti felus gerdd o foliant ;
 Mae in' achos am ein hiechyd
 Foli Duw, a'i ofal diwyd.

Ar ein dwylo nid oes daliad,
 Duw lor goreu, am dy gariad ;

Boed yn lân y gân o'n genau
Yn dy byrth yn iawn aberthau.

Dad yr uniawn, dy dirionwch
Etto welom, er tawelwch,
Ar ein taith trwy fywyd anghall
O waelderau, i wlad arall.

Neu os rhaid i ni fydd rhodio
Llwybrau gofid, par in' gofio
Yr wialen pwy reola,
Er daioni, pan bo'i dynna',

Oll o'n dyddiau pan diweddant,
Fry i gaerau, manau'r mwyniant,
Cymmer ni yn iach a llawen,
Duw'n da awdwr, dan dy aden.

BRO MARWOLAETH.

RHAID im' adael holl hyfrydwch
Daear deg ar fyr o bryd,—
Rhaid i'm llygaid gau'n dragywydd,—
Rhaid i'r babell gwympo i gyd,—
Rhaid wynebu bro marwolaeth,
Lle o feibion byd ni ddaw
Un i hwyllo fy ngherddediad,
Gan ymaffyd yn fy llaw :

Lle na bydd o'm ceraint ffyddlon
 Un i'm tywys ar yr iawn,
 Neu sirioli fy wynebpryd
 A diddanwch da ei ddawn ;
 Lle nad all yr hyn a gesglais
 O drysorau'r ddaear hon
 Brynu dim yn feddyginiaeth,
 Os anhwylyd fydd fy mron :

Bro raid imi dramwy'n unig,
 Heb gyfeillach mam na thad,
 A roddasent, pe'n eu gallu,
 Im' gynnorthwy'n rhwydd a rhad ;
 Bro na chaf o'i hyll ddiffeithwch
 A'i haniaiwch dd'od yn ol,
 I ail gyrhaedd dim fo'n eisiau
 A anghofiais yma'n ffol.

Bro marwolaeth ! dyffryn cysgod
 Angau oerllyd, du ei wedd !
 Ar y testun wrth fyfyrio
 Difrifoldeb mawr a'm medd :
 Bro yw hon heb un goleuni
 Trwy ei holl ehangder maith !
 Bro fu'n arswyd edrych arni
 Pr pererin lawer gwaith.

Iesu mawr ! nid oes im' gysur
 Oni roddi di dy law ;

Ond os ti a weni'n siriol
 Ni fydd arnaf ofn na braw :
 Mi ddechreuaf ar fy siwrnai
 Wrth fy modd, gan godi'r gân,—
 A than ganu âf yn llawen
 Trwy'r diffeithwch mawr ymla'n.

Yn tywynu ar fy llygaid
 Cyn bo hir bydd golau'r wlad,
 Lle mae llewyrch digyffelyb
 A diddiwedd ei barhâd,—
 Lle mae myrdd o aur-delynnau
 Yn cydseinió peraidd fawl
 Duw a'r Oen, mewn hyfryd hwylddeb
 A gwresogrwydd pur di dawl.

CYFIEITHAD.

ANGHREDINIAETH, cau dy enau,
 Yma gorwedd yn y llawr
 Lwch tri baban ; dywed imi,
 Ai cadwedig ýnt yn awr ?

Os trwy bechod mae marwolaeth,
 Hwyl bechasant,—maent mewn bedd ;
 Os trwy fuchedd dda ceir nefoedd,
 Hwyl nid allant fod mewn hedd.

Reswm, O mor wanted ydwyt,—
 Edrych i ddatguddiad Duw,—
 Pechodd Adda,—buont feirw,—
 Crist oddefodd,—maent yn fyw.

CRISTIONOGAETH.

GAIN dirion gennadwri
 Y nef i'n daearen ni ;
 Arbennig, fawryddig rodd
 Deraf erioed a yrrodd
 Duw i ddyn, er da ddeunydd,
 Yn brawf cariad rhad a rhydd :
 Dysgwn, iawn barchwn dy bur
 Rywioglan eiriau eglur :
 Gyrraist ar ffo (da'r tro) 'r trwch
 A dallaf dew dywyllwch,—
 A dygaist, mewn modd digaeth,
 I wael iawn fyd lawen faeth.

I'n cur, yn oer ddyffryn cau
 Du ingus gysgod angau
 Gerwin, yr o'ym yn gorwedd,
 Yn byw fel yn eigion bedd ;
 Ond ysplennydd ddydd a ddaeth
 A gwenau meddyginiaeth.

O! Grefydd oleurydd lân,
 Hynaws yn oll o'i hanian,
 Yn melysu aml loesion
 A chlwyfau a briwiau bron,—
 Esmwyth ei hiau, geiriau gwir,
 Ein Ior os ydyw'n eirwir,
 A'i baich yn ysgafn y bydd
 I bob enaid byw beunydd.
 Ei llafar hygar yw hedd
 Trwy helynt o wâr haeledd,
 A gwiwrydd faddeugarwch
 Rhwng meibion llymion y llwch,—
 A chariad yn llad a llwydd
 Dibrin, yn nodded ebrwydd;
 Gwylled, a phuro'r galon,
 Dien fryd, a dwyn y frôn
 I deimlad o rad yr Iôn,
 A'i ddaioni i ddyinion;
 Yn dirion gwneud i arall
 Yn llwyr a fynnem i'r llall
 Yn uniawn wneud i ninnau,—
 Wych a phur ddeddf i'w choffâu:
 Yn deg Crist'nogaeth a'n dysg,
 Yn hyddoeth iawn ei haddysg,
 O gywir frwd hawddgar frôn
 I garu, nid y gwirion
 Yn unig, ond ein hanwar
 Elynion yn wiwlôn wâr;
 Rhôl elusen, heb sên sur,
 I eiddilwas dan ddolur,

Gan gredu'n rhwyddgu mai'r hyn
 I'w raid a rown i'r adyn
 Sy 'nghadw'n iawn gyda llawn llôg
 Yn llaw yr Hollalluog ;
 Cofio gweithredu'r cyfan
 I glod y Jehofa glân,
 Fel yn ei ŵydd,—o flaen neb,
 I Dduw Iôn rhoi boddineb,
 Fel Arglwydd yr Arglwyddi,
 Yr hwn a fedd, ryfedd Ri,
 Y gallu'n rhwydd-deg ollol
 I droi'r cas ddiffeithwas ffol
 I boen echrydus di baid,
 Yn ffau gwŷn, gorph ac enaid !

Trwy Grist'nogaeth y daeth dydd
 O wiw lanaf lawenydd,
 Yn hyspysiad mad am oes
 Byd arall, bywyd eirioes.

Wele Iesu'n hwyluswych,
 Dad y nerth, yn d'od o nych
 Y bedd, er boddloni byd
 Y gwawria gwlad uwch gweryd,—
 Gwlad hyfryd o glyd hoywfraint,
 Gwlad y serch, golud y saint :
 O ! gysur clau i'r frau fron !
 Crist anwyl ! ceraist weinion
 Blant rhydrwch y llwch a'r llaid,
 Mal finnau ;—mawl ef f' enaid !

Yma llefain, sain synwae,
 Ochain i gyd, a chwyn gwae,
 A glywir,—mae gŵyl lawen
 Yn bod uwch y rhôd,—gŵyl Rhên.
 A gollaist mewn argyllaeth
 Dy blentyn, gan sydyn saeth
 Yr angau dewr a'i ing du?
 Cei ei wên ar dir canu,
 Yn d' wyneb yn mad unaw
 Ym mawl Iôn, â thôn na thaw.

Ail-fywyd! ddwys hyfryd sain,
 Daw ar lef dewr wylofain;
 Wrth y gair diwerth i gyd
 Yw dâ erfawr daerfyd:
 Bèr yw'n hoes, a'i bore'n haf,
 A'i nawn gwyw'n wyniau gauaf!
 I'w holaf awr mae'i helynt,
 Fel chwyryn lif ar heinif hynt;
 I'r bedd distaw y daw dyn,
 I oer bydew'r abwydyn!
 Ond *eil-oes* fwyn duwiolion
 Cystuddiau a briwiau bron
 Na chwynfan byth ni chenfydd;
 Un trag'wyddawl ddidawl ddydd
 Hafaidd, yw'r einioes hyfwyn,
 Wyn iawn fyd, a'i wên yn fwyn:
 Yn Salem nos o waywloes,
 Na chur na dolur nid oes,

Na galar, nac ofn gelyn,
Nac angau a'i saethau syn.

Y mae'r wlad, er mor loywdeg,
I ti, am ymdrechriad teg,
Yn agored ; cais gyrhaedd
Y dêr wyl,—O dyro waedd
Ar Geli, o wir galon,
I buro'th fryd,—briwia'th fron
A nadau dwys,—nôd y dyn
Trwy wirfodd yn taer erfyn.
Yn neddfau Duw, noddfa deg,
Cais rodio, cysur hoywdeg,—
A gwylia ar dy galon ;
Iawn yw pwyll rhag hagrdrwyll hon.
Holl bleserau gau a gwŷd
Na choledd,—mŷn ochelyd
Pob drwg nwyd yn ei rwydau
I dy gur fo am dy gau.
Gwêl harddwch y fflwch hoff wlad,
Firain, sydd er dy fwriad,—
Bröydd nefoedd, lleoedd llon,
A syw-wych furiau Sion :
Yn hoyw dal, er hudoliaeth,
Dy fron yn bur rhag sur saeth ;
Ymdrecha,—'mad â'r achwyn,
Ymdrech deg, gan gloi ceg cŵyn ;
Trwy'r anialwch, trwy'r niwlen,
Gwêl wynfyd y byd uwch ben :

Ym mawr-ryd dyfroedd Mara,—
Yng ngwlad y trin a'r blin blâ,
Lle dros ffyrdd, drygffyrdd, mae drain
A mieri'n ymarwain,
Cofia am dir y cyfoeth,
Am bêr gân y Gana'n goeth.

IAWN OLWG

AR DDYSGEIDIAETH.

NID oes ddoethineb heb hyn,
Aml gofio mai ail gwyfyn
Yw y dyn mwyaf doniol,
A'i ffun mal eiddaw y ffol.
HORAS, er maint oedd hoywrym
Ei ddeall llwyr-gall a llym,
A gaid, yn ei olaf gell,
Bôr addysg, yn oer briddell.
NEWTON, a chwiliai natur,
Hynt glau, drwy ei pharthau'n ffur,
Ga'dd annedd, yn niwedd nôd,
Mewn daear a mân dywod.
JOHNSON, a sôn ei synwyr
Yn llif dros y byd yn llwyr,
Hwn a ddaeth yn gaeth i'r gwys,—
I salgafn yr iselgwys.

Ninnau, lai'n golau, gwaelod
 Y bedd yw diwedd ein bôd ;
 Er nad beius, foddus faeth,
 Dwys godi mewn dysgeidiaeth,
 Yr addysg *oreu* wiwddoeth
 I ddyn, yw myfyrio'n ddoeth
 Ar bethau gwir a bythawl
 Eu gwerth yn ardaloedd gwawl.

O b'ai 'n ol bob rhyw holiad,
 Dysgwn hyn yn dasg i'n hiâd,
 Golwg ar y mawr GELI,
 Ein Nêr a'n Creawdydd ni,
 Fal yn ddoeth uwch pawb doethion
 A Llyw pob goleuni llon,—
 Ei foddio, gan ufuddwych
 Wneud ei gais, dda Ynad gwych,—
 Byw'n isel, yn dawel dan
 Law Lluniwr hael holl anian,
 A'i gariad glwysfad yn glau
 Fwyn nôd ei holl drefniadau,—
 Cofio mai pwll y ceufedd,
 Lleiaf fan, yw oll a fedd
 Y goludog a'i glodydd,
 Foethus wr, mor faith y sydd ;
 Mai yna daw'r doetha' dyn
 A ddaliodd yn hir ddilyn
 Llwybr dysg,—pan ga holl bair dawn
 Ei difa gan bry'r du-fawn.

BEDD-ARGRAFFIADAU.

I'r diweddar Barch. D. WILLIAMS, Ystradmeurig.

WILLIAMS i addysg wiwlon—bri ydoedd,
A brawd gwych i'r tlodion ;
Goleu'i ddeall, diwall dôn,
A goleu oedd ei galon.

I'r Rhaglaw (*Lieutenant*) DAVIES, Mab y Parchedig
Mr. Davies, Ficer, Llanybyther.

DROS gylchoedd moroedd mawrion,—lew filwr,
Trafaliodd yn ffyddlon ;
Gorwedd yn awr mae'r gwron
Yn llwch oer dan y llech hon !

I'r diweddar T. EDWARDS, (Twm o'r Nant.)

¹YR Awen gu, eirian ei gwedd—gollodd
Ei gallu a'i mawredd ;
Wyla fyth ar ael ei fedd,
Heb un gair, tra bo'n gorwedd.

¹ Gwelais yn rhyw lyfryn, er ys tro yn ol, yr enw "J. PARRY"
ar ol yr Englyn hwn ; ond, bid da bid drwg, mi yw ei awdwr.
Nid wyf yn sicr fy mod yma, nac ychwaith yn Awdl Farwnad

Yr ENGLYN a etholwyd, pan ddymunwyd ar holl Feirdd Cymru i wneuthur Englyn priodol i'w osod ar fedd WILLIAM JONES, (Bardd Môn,) uniawn garwr iaith ei wlad.—1821.

BARD D Môn mân bridd a'i medd ;—yma o'r byd
 Mewn gweryd mae'n gorwedd ;
 Iaith ei wlad oedd fyth ei wledd
 A'i felus lawn orfoledd.

Pr Parch. D. DAVIS, o Gastell-Hywel, Ceredigion.

Dwys gododd mewn dysgeidiaeth,—do, lawer
 Da lywydd gwybodaeth :
 Llawenydd gaid a lluniaeth
 O ddien ffrwd ei ddawn ffraeth.

O eigion calon, coledd—daioni
 A dianaf rinwedd
 Oedd ei fryd o hyd, yn hedd
 Ei Naf, a gwir dangnefedd.

y Parch. Eliezer Williams, lle gwelir yr englyn, yn ysgrifenu y linell gyntaf o hono yn gymhwys yn yr un dull ag y wnaethum wrth ei anfon i mewn i Gymdeithas y Gwyneddigion yn Llundain, yn 1813, i'w farnu mewn perthynas i'w deilyngdod at yr achos i ba un y darperid ef. Y Gymdeithas a ddeisyfasai ar y Beirdd oll ysgrifenu ar yr achlysur, a dewiswyd hwn ynghyd âg un arall o waith rhyw Fardd arall.—D E,

I JOHN WILLIAMS, (*Jack Post*), o Drefach, Llanwnen,
Ceredigion.

GOLEU oedd gwraidd ei galon—iach odiaeth ;
Ni chadwai ddichellion :
Daionus hedd rhwng dynion
A geiriau serch garai Siôn.

ERAILL AR AMRYWIOL ACHOSION.

ECHDOE yr o'wn mewn nychdod,—yn eiddil,
Yn nydd fy mabandod ;
Ddoe yn heinif ddyn hynod,
Heddyw mewn bedd yma'n bod.

AROS, y mwynlangc irwedd,—i weled
Dy olaf gul annedd ;
Y gwas bach, i gwys y bedd
Y deui yn y diwedd.

NID yw einioes frau ond ennyd—fechan ;
Afiachus yw bywyd :
Carwn, iawn geisiwn i gyd,
Breswylfa mewn bras eilfyd.

NESHAU mae'r awr fawr pan fydd—y meirwon,
Sy'n eu muriau llonydd,
Y dyfod, ar air Dofydd,
Filiynau o'u rhwymau'n rhydd,

GWEL drigfan baban glwys bach,—fu anwyl
 Pr fynwes,—ond bellach
 Nofiodd o wyniau afiach
 A gwayw'r byd, yn Gerub iach.

YN briddyn daw dyn er doniau—uchel,
 Er awchus gynneddfau ;
 Ymddalied y meddyliau
 Ar well byd, ar arall bau.

O oerfyd aeth i wirfarn—y llon Dad,
 Lle nad oes un rhagfarn
 Yn uchelfai,—na chulfarn,—
 Na dyn byth yn cael dwyn barn.

MAE gwedd oer y bedd yn rhybuddio—dyn
 Mai daionus synio,
 Yn lew ei fryd, am loyw fro,
 Gwlad Duw Iôr, i glyd dario.

YN gorphwys o bwys y byd—yn dawel
 O'r diwedd mae f' yspryd :
 O'm ceufedd oer fe'm cyfyd
 Fy Naf glân i'w fwyn nef glyd.

EINIOES nid yw ond ennyd,—a diddym
 Yw dyddiau ein bywyd ;
 Ein hafiach daith sydd hefyd
 I dŷ'r bedd, wrth dd'od i'r byd.



O roddi hon mewn bedd, oer bant,
Mae tad a phlant yn wyllo ;
A chyda pharch a hiraeth gwir
Hi gaiff yn hir ei chofio.

ENGLYNION

O ddiolchgarwch i IOAN TEGYD, am ddyfod o Rydychain i ym-
weled â'r Awdwr yng Ngheredigion, pan oedd yn glaf, 1822.

ESGYN, fy Awen wisgi,—ar aden,
Cais oreudeg godi ;
Fy hoffder tyner wyt ti,
Dan alar yn dwyn eli.

Galwaf arnat i deg eilio—diolch
I'r dewis lân Gymro,
Yn fwyn hardd ddaeth dan fy nho,
A'i siarad i'm cysuro.

Enw y gwr sy'n gofyn y gân—gennyt
Yn gynnar yw IOAN
TEGYD, wr glwysbryd a glân,
Prydyddol, pêr a diddan.

Mewn Gomeriaith mae'n gymmarol—i lif
Rhyw loyfwyn nant bywiol,

A red yn gyflym radol,
A'i daith yn ffrwythloni dôl,—

Neu os mynnwch, i naws mwynaidd—dilwfr
Y delyn hyfrydaidd,
Wna'n llon y galon gulaidd,
Drwy roi tes a gwres i'w gwraidd.

Dewisgoeth ydyw dwysgan—cu adar,
Mewn coedwig neu berllan;
Ond etto 'mhell gwell y gân,
O weuad y bardd IOAN.

Cilia, eos, clyw IOAN—yn canu
Ei acenion mwynlan;
Ei iaith, ei araith eirian,
I'm bryd ail gyfyd y gân.

Mae emyn yn iaith ein mammau—fal gwin
Fal gwawr haul y borau,
Fal hygarwych fêl gorau,
Yn union deg i ni'n dau.

Dâ eraill yw'r byd a'i arian,—a swm
Disynwyr a ffwdan;
Ein dâ ninnau yw gwau'r gân,
A'i choledd yn iach wiwlan.

ANNERCHIAD

I'r Parch. R. REES, M.A. ar ei ddyrchafiad i fod yn Broffesydd
yr Iaith Gymraeg, yng Ngholeg Dewi Sant, Llanbedr.

E'RH godwyd i'n hiaith gudeg—yn llywydd,
Er llawen fudd hardd-deg ;
Dan dy aden dirfwen deg
Ei chynnydd fo'n ychwaneg.

Gwna reol yn ol manylwych—ddeunydd
O'th ddoniau enwogwych,
I gywreinio, gâr iawnwych,
Amrywiog we 'r Gymraeg wych.

A bydd i'r Awen, lle bo,—yn darian,
I derwylch flaguro ;
Goreu fraint i'n hawddgar fro
Ydyw hon i'w dihunio.

Iaith burlan, wiwlan, olau,—a ddysgot,
Yn ddwysgall dy lwybrau :
Onid rheol ffol coffhâu
ANEURIN a hen eiriau ?

Yn glau, pregethau pur goethion—llunier,
I'n llannau'n ddysg mwynlon,—
Yn olau a manylion,
Awchus eirf yn achos Iôn.

Dyddiau o fwynder diddan—a fyddo
 Iti 'n foddus gyfran ;
 A hwyl i'th fawrswydd hoywlan,
 Dan ofal Iôr,—Duw nef lân.

ENGLYNION

Ar achos priodas DAVID JONES, Yswain, o Gaerfyrddin, Arian-
 ydd, a Miss M. WILLIAMS, 1822.

BOED dyddiau a bywyd dyddan—iddynt,
 Addas bâr goreulan ;
 Gwynfyd, heb unrhyw gwynfan,
 Fore a hwyr, fo eu rhan.

Duw Ion iddynt boed yn Noddwr—(dewr Borth)
 Drwy y byd a'i ddwndwr ;
 Ar eu taith, eu gorau Tŵr
 Caredig, fo'u Creawdwr.

O'm enaid mi ddymunaf—ddaioni
 Ich', ddynion mwyneiddiaf ;
 Boed eich byd o hyd yn haf
 Blodeuog, heb lwyd auaf.

Weis anwyl, boed rhosynau—'n ddiattal
 O ddeutu eich llwybrau,

A hoywbur hedd i barhau
I ben oes, heb un eisiau.

ANNERCH I'R UNRHYW

Ar farwolaeth ei Wraig, yr hon a fu farw yn ddisymmwth o'r
parlys, Mai, 1829.

Mi genais i'th annerch, do, unwaith o'r bla'n,
Pan gym'raist gymmares, i'th fynwes, wr glân ;
Eich dau ich' dymunais fwyn hawddfyd a hedd,
A llwyddiant ac iechyd, hir fywyd, hwyr fedd.

Fel hyn y dymunodd dy ffrynd, Daniel Ddu,
Ond 'wyllys y Nefoedd fel arall a fu ;
A phwy'n well nâ'r Arglwydd a drefna bob peth,
Yn ddoeth ei ddibenion, mewn cariad di feth :

Gwahanu heb rybudd oedd ergyd tra thrwm,
A roddodd dy yspryd o'i blegid yn blwm ;
Ti gollaist un serchog, wnai 'n rhywiog ei rhan
I wneyd pawb yn happus,—un gofus o'r gwan.

Y llwybrau rodiasoch, a'ch llafar yn llon,
A ddygant ddwys gofion i friwio dy fron ;
Yn unig y teimli, yng nghanol mawr lu,
Ac unig o fewn ac o amgylch dy dŷ.

Galara fel Cristion, dan drymder dy faich ;
 Rho'th oglud ar nerthol ddiysgog dda fraich ;
 Os hon a drwm dery, mae'i gallu'n ddi baid,
 I gynnal a nerthu'n drugarog wrth raid.

Mae colli gwrthdychau tra hoff hyn o fyd .
 Yn ddysg in' ochelyd eu prisio'n rhy ddrud ;
 A rhoddi ein hymgais am olud, mewn gwlad
 Lle rhannir trysorau o fythol barhâd.

ENGLYNION.

ISELFRYDEDD.

OFER cri, gweddi y gwas—a fyddo
 O feddwl uchelgas :
 Iôr a sylwa 'r iselwas,
 A grŷn wrth orseddfa gras.

I'R CYBYDD.

AR drafael, pa fael fydd—i ddyn bychan
 Ddwyn beichiau di-ddefnydd ;
 Doethach y gwna hen deithydd
 Brynu y dorth bâr *un dydd*.

I FIWSIG.

GWNA Miwsig, diddig, ein dyddiau—'n siriol,
 Dan suraf flinderau ;

ARY.”

. Prydydd o'r

oedd wedi bod yn
eith dan y coed, ac
y tro nesaf iddynt
anwyd ar ei ffordd
larw, cyn i Burns,
than ei deimladau
—cerdd a fydd byw
gelyn anghof tra-

gylch

ni,

rdd bo'ch dail,

ound

flowers,

Llygaid y dydd, rydd roddion,—a welwyd
 Yn oleu a chyson ;
 Yn fyrdd, o Gaerdydd, i Fôn,
 Gwenant,—sef *cesair* gwynion.

WRTH GYFARFOD A MENYW,

Swydd yr hon, dros hir flynyddau, oedd cludo wyau, mewn
 cewyll i'r trefydd i'w gwerthu.

Y^{MBOENI} y mae 'i beunydd,—y gauaf,
 Ag wyau i'r trefydd ;
 I honna ei bara bydd
 Drwy gawell yn dragywydd.

CYFARCHIAD Y BEIRDD,

A wnaed yn ddifyfyr, with waith DANIEL DDU a IOAN TEGYD,
 yn cyfarfod yn ddisymmwth ym mhentref y Cribin, Ceredigion.
 D. Ddu oedd yn barod i feddwl mai o'r Bala yr oedd Tegyd
 yn teithio, am ei fod yn gwybod fod rheini Tegyd yn byw yno.

DANIEL DDU.

YN gry'deg mi a greda'—taw agwedd
 TEGYD hoff sydd yma :
 Daeth y gwr, brydyddwr da,
 Ar ebolyn o'r Bala.

ATTEB TEGYD.

Ar ebolyn o'r Bala—y daethum,
 Fardd dethol, hyd yma :
 Y nos Caerfyrddin a wna',
 Eresfardd, fy arosfa.

“HIGHLAND MARY.”

Cyfieithad o Waith ROBERT BURNS, Prydydd o'r Alban (Scotland.)

Testun y Gân oedd fel y canlyn.—Burns oedd wedi bod yn ymgyfeillachu â Mary ei gariad ryw noswaith dan y coed, ac yr oeddynt dan yr ammod o ymbriodi y tro nesaf iddynt gyfarfod; ond ei anwylyd a gymmerodd anwyd ar ei ffordd adref, a aeth mewn twymyn, ac a fu farw, cyn i Burns, druan! ei gweled yn fyw byth drachefn: a than ei deimladau cyffrous a galarus fe ganodd y Gerdd hon,—cerdd a fydd byw nes bo i holl dyrau dawn syrthio i lyngclyn anghof tra-gywyddol.

CHWI fryniau glwys a choed o gylch
Hoff Gastell glân Montgom'ri,
Yn hardd bo'ch gwawr, yn wyrdd bo'ch dail,
Mewn glendid yn rhagori;
Byth yno 'nghynta' gweler haf,
Ac yno'n ola'n gwenu,
Can's yno'r ymadewais i
A'm hanwyl, anwyl Fari.

Y SAESONAEG.

YE banks and braes and streams around
The Castle o' Montgomery,
Green be your woods and fair your flowers,
Your waters never drumlie!
There summer first unfold her robes
And there the longest tarry,
For there I took the last fareweel
O' my sweet Highland Mary.

Mor hardd oedd clôg y fedwen las,
 A blodau'r drain mor wynion,
 Pan dan eu cudd y gwasgwn i
 F' angyles at fy nghalon;—
 Yr oriau'n bêr aent dros y bardd,
 A'r un ag oedd e'n hoffi,—
 Can's hoff i mi fel bywyd oedd
 Fy anwyl, anwyl Fari.

Trwy lawer llŵ, a'n breichiau 'nghlo,
 Bu dyner ein gwahaniad;
 Gan addunedu mynych gwrdd
 Torrasom ein coffeidiad;—
 Ond O! rew angeu, deifio wnaeth
 Fy rhosyn hardd—fy lili;
 Gwyrdd yw'r dywarchen, oer yw'r clai
 Sy'n cloi fy anwyl Fari.

How sweetly bloom'd the gay green birch,
 How rich the hawthorn's blossom,
 As underneath their fragrant shade
 I clasp'd her to my bosom;
 The golden hours on angel wings
 Flew o'er me and my dearie;
 For dear to me as light and life
 Was my sweet Highland Mary.

Wi' many a vow and soft embrace
 Our parting was full tender;
 And pledging oft to meet again
 We tore ourselves asunder:
 But O! fell death's untimely frost
 That nipp'd my flower so early!
 Now green's the sod and cold's the clay
 That wraps my Highland Mary.

O! gwelw yw'r gwefusau pêr
 Mor swynol gawn gusanu ;
 A chwedi caead arnynt byth
 Mae'r llygaid oedd mor llongu ;
 Mae'n llwch a lludw'r galon lân
 Mor dyner fu'n fy ngharu,—
 Ond yn fy nghof a'm serch caiff fyw
 Fy anwyl, anwyl Fari.

O! pale, pale now those rosy lips
 I oft have kiss'd so fondly,
 And clos'd for e'er the sparkling glance
 That dwelt on me so kindly ;
 And mouldering now in silent dust
 That heart that lov'd me dearly !
 But still within my bosom's care
 Shall live my Highland Mary.

YR ENETH FFYDDLON.

Ar dorriad y wawrddydd ar foreu o Fai,
 A'r adar yn neidio trwy'r coedydd yn chwai,
 Wrth deithio trwy fynwent, wrth Eglwys rhyw
 blwy'
 Mewn ardal o Gymru—'n ei enwi nid wy',—

Mi welwn lân eneth mewn gwisgoedd yn wych,
 Yn ail i angyles mewn agwedd a drych,
 Yn fuain ei chamrau yn nesu o draw,
 A blodau amryliw yn llenwi ei llaw.

Ymguddiais o'r golwg i wybod beth oedd
 Ei hamcan a'i neges mewn lle mor angh'oedd,
 Heb neb yn gydymaith—mor foreu o'r dydd—
 Gan adael cymdeithas am fangre mor brudd.

Yn fuan y cyrchai at feddrod wrth fin
 Prif-lwybyr y fynwent, a syrthiai ar ei glin ;
 A'r llysiâu a blannai yn lluniaidd â'i llaw,
 A'i golwg yn gymmysg o fwynder a braw.

Y dagrau a sychai o'i deurudd, fun lân,
 A'i napcyn ag ydoedd o liw'r eira mân,—
 A chlywn ei lleferydd, i'm meddwl i'n syn,
 Yn treiddio trwy'r awel yn rhywfodd fel hyn,

Fan hon y mae'n gorwedd yn dawel yr un
 A garwn mor anwyl â'm henaidd fy hun :
 Ond angau a'i dygodd i'm galar di daw,
 Yr amser yr oeddym ar uno'n dwy law.

Fan hon y mae'n gorphwys o swm byd a'i si,
 Y cyfan is heulwen sydd anwyl i mi ;
 Clau dyfwch, heirdd flodau, yn fwyn ar ei fedd,
 Er methu mewn glendid ddynewared ei wedd.

Ca'dd gennyf anrhegion yn fwy wrth ei fodd,—
 Fy llaw yn addewid,—fy ngwallt iddo'n rhodd,
 A hollol gydsyniad i gym'ryd fy rhan,
 O'i wynfyd neu'i adfyd—yn wych neu yn wan.

Wrth eistedd fan yma mor foddus yr wyf,
Y man lle mae'm meddwl b'le bynnag y b'wyf,—
Pe teithiwn y ddaear o'i hamgylch i gyd,
Fan hon b'ai canolbwynt gwastadol fy mryd.

Er nad wyt o'r ddaear yn gwedyd un gair—
Er nad wyt yn gwenu fel gwenaist ar Mair—
Mae etto, f' anwylyd, yn gysur i mi
Gael eistedd am ennyd yn agos i ti.

Dy lygaid mwyn siriol fy meddwl a wél,
A chofiaf dy eiriau mor beraidd â'r mêl,—
Dy fedd a gofleidiaf pe'n canfod b'ai'r byd,
A mynnaf ein gweled fel gynt etto 'nghyð.

ANNERCH YMADAWOL CARWR.

Rho 'th law i ymadael, y fwynaf lân ferch,
Un arall, mi glywais, a ddygodd dy serch;
Fy yspryd a wywodd, e giliodd y gân,
A ffynnon fy nghysur a sychodd yn lân.

Mi gollais o ddagrau o'th achos di, Gwen,
Do, nifer y mân-wallt sy'n harddu dy ben;
Mi 'th gerais yn ffyddlon, mae'r nefoedd yn dyst,
Mai gwir ydyw'r geiriau a glywodd dy glust.

Llwyr gredaf na charodd un mab fel myfi,—
 Yn hanner fy hunan ystyriwn dydi :
 Llawenydd a'm llyngcai wrth weled dy wedd,
 Bu'n wynfyd Paradwys mwynhâd o dy hedd.

Yr oeddwn eiddigus o awel y nen,
 A glywn yn y llwyni 'n chwibanu uwch ben;
 Ei bod, wrth ymdeithio, 'n cael cusan dy fin,
 Sy'n berach nâ'r diliau,—a mi yma'n fiin.

Fy unig hyfrydwch oedd rhyngu dy fodd,
 Heb gynnyg i arall na chusan na rhodd,—
 Ond cabledd a goelit yn hytrach nâ'r gwir
 Yr hwn fydd mor olau â'r hafddydd cyn hir.

Bydd iach, fy anwylyd,—pob llwyddiant mwyn
 llon,
 Ddilyno dy lwybrau ; boed heddwch i'th fron :
 Pob peth dymuniadol fo'th gyfran o hyd,
 I mi, wael bererin, beth bynnag fo'r byd.

Pe byddai genethod mor amled â'r dail,
 A rhei'ny mewn glendid i *Helen* yn ail,
 Un arall ni cheisiaf i noddi fy nyth ;
 Fy nghalon yr unman a erys byth, byth.

Mi gerddaf i'r goedwig ; mae 'deryn bach draw
 A gollodd ei gydmar yn wylo'n ddi daw,—
 Gwnaf hwn imi'n gyfaill, galarwn ynghyd,
 E ddarfu pob rhinwedd a fedd yr holl fyd.

NA AD FI'N ANGHO'.

Na âd fi'n angho', un wyf fi
Mewn serch fel craig yn beiddio'r lli':
Bu'n curo arnaf lawer tòn,
Ond byth yr un yw'r fynwes hon.

Na âd fi'n angho'; cofia hynt
Ein rhodiad dedwydd, hyfryd gynt,—
Pan hedai'n serch mewn modd di ball
Fel saeth o lygad un i'r llall.

Na âd fi'n angho' pan bo'r gwÿdd
Yn deilio'r haf; llawn bryd a fydd
It' gofio'n hymddiddanion mwyn
Brydnawnau tég dan gysgod llwyn.

Na âd fi'n angho'; nid yw'n hardd,
Pan rodiot hyfryd lwybrau gardd
Neu rhai o'r adar ar y berth
A wedant nad yw'th air o werth.

Na âd fi'n angho' pan bo'r wledd.
A'r lawen gân yn llonni'th wedd;
Mi fuais innau pan y cawn
Gyfeillach *un* yn llawen iawn.

Na âd fi'n angho' unrhyw bryd
Y b'ot ymhell o swm y byd:

Ar awr o'r fath, mewn mwynder maith,
Bu siarad rhyngom lawer gwaith.

Ar ganol nos os ar ddihûn,
Na âd fi'n angho'; 'n wir mae un
Yn debyg iawn, dan oeraidd gri,
Yr amser hwn o'th gofio di.

Na âd yn angho' 'r olaf dro
Bu ein cyfarfod ; dwys oedd o :
Mae'r ymddiddanion oll i gyd
I mi ar gof, yn llenwi 'mryd.

E ffrydiai'm dagrau ; siglai'm bron
Fel llong mewn tymhestl ar y dôn ;
Os gelli'm troi o'th gof, nid syn
Fydd unrhyw newid wedi hyn.

Na âd fi'n angho', os yn gas
Bydd neb i ti ar ddaear las ;—
O ! nid fel hyn, iawn wyddost ti,
Bu ein cyfarfod olaf ni.

WILLIAM A MARI.

BLODAU'R merched ydoedd Mari
Trwy'r holl wlad o amgylch iddi—
Eüfeddes tyddyn llydan
Biai'i hanwyl dad ei hunan.

Llawer oedd yn ceisio'i chariad
A'i hoff wên mewn ffair a marchnad,
Ar bob cyfle ac achosion
Am ei serch 'r oedd mawr ymryson.

Ond er bod i bawb yn hawddgar,
Mari oedd yn ferch fyfyrgar,—
A deallai mai'i goludon
Ydoedd pennaf gais y meibion.

William ydoedd fab i ffermwr,
Nid y gorau yn ei gyflwr,
Ond y tylwyth oedd mewn helaeth
Glod a pharch trwy'r holl gym'dogaeth.

William oedd o lawen galon,—
Un yn ddig wrth bob ymryson;
Un mewn glendid yn rhagori,—
Merch nid allai beidio'i hoffi.

Sut y buodd dechreu siarad
Rhyngddynt hwy am bethau cariad
Mi ni wn,—ond hawdd heb ammeu
Lle bo serch y daw i'r goleu.

Hir y buont yn cyfarfod
Heb i neb o'r byd adnabod,
Ac erioed ni buodd purach
Ymddiddanion a chyfeillach.

Tad y ferch yn awr a glybu,
 Ac mewn llid dechreuai wgu,
 Gan ddywedyd gwae a fyddai
 Os & William etto 'mwelai.

Hi ddywedai, 'Nhad anwylaf,
 Parch i chwi sydd beth teilyngaf;
 Ond mae'm serch dan glo ynghadw,
 Byth yn ol nid alla' 'i alw.

Ar fy ngliniau 'r wyf yn syrthio
 'Nawr o'ch blaen, eich hedd i geisio;
 Ac yn addo gwneud yn ufudd
 Byth fy rhan i'ch gwneud yn ddedwydd.

Os fy serch a ro'is o'm gwirfodd,
 Teilwng yw y mab a'i cafodd,—
 Na omeddwch gais eich unig
 Ferch, fel hyn sy'n ostyngedig.

Tra fo byw fy mam a chwithau
 Mi ni cheisiaf eich meddiannau,
 Ond yr hyn a fynnoch rodidi
 O'ch ewylllys a'ch daioni.

Lldiai'i thad yn fwy-fwy etto,
 Nes i'w dyner ferch ymrwymo
 Na ymwelai byth ond hynny
 A'r un oedd mor anwyl ganddi.

Fe ddanfonai 'i thad yn union
At ei chariad glau gennadon,
I fynegi penderfyniad
Mari 'i ferch, a'r holl amgylchiad.

Wedi rhoi'r adduned chwerw
Nad oedd modd yn ol i'w galw,
Gyrru geisiai Mari'n fanwl
William mwyn o'i chof a'i meddwl.

Llwyr 'r un peth yw disgwyl canfod
Llanw'r môr yn methu dyfod,
Ag yw disgwyl byth anghofio
'R un ag aeth â'r galon ganddo.

Mewn cymdeithas lawen ddigri'
Un difyrwch ni chai Mari;
T'wyllwch nos oedd dros ei hyspryd
Am na welai 'i mwyn anwylyd.

Mewn rhyw gilfach wrthi 'i hunan
Mynnai fod, yn llwyr anniddan;
Aeth ei haul dan ddu gymmlau,
Ffodd y gân,—a ffodd ei gwenau.

Nid oedd blas ar unrhyw fwydydd,
Gwelid hi yn gwywo beunydd,
Fel diflanna blodau'r lili
Pan bo'r haul yn para'n lloggi.

Aeth yn glaf,—ond ni chyffesai
 Wrth un dyn yr hyn a deimlai;
 Rhoesai'r byd am gaffael siarad
 Hanner awr â'i hanwyl gariad.

Er yr awr y clybu William
 Am adduned Mari ddinam,
 Ni chynnygodd droi 'i hamcanion,
 Er ei fod ar dorri 'i galon.

Gwyddai ef mai'n bur ei bwriad
 Y gwnaeth Mari'r penderfyniad,
 Sef i foddio'i hoff rieni
 Am y byd ni fynnai siomi.

Tristwch oedd yn toi ei ddwyfron,
 Distaw 'r aeth ei hoff bennillion ;—
 A'r holl adar a ryfeddent
 Beth a ddaeth o'r gân a glyw'sent.

Ei ddwy rudd, a'u lliw o'r iacha',
 'Nawr a drodd i liw yr eira :
 Tebyg oedd i lun neu gysgod,—
 Un o gant a all'sai 'i 'nabod.

Yn y y nos wrth oleu'r lleuad,
 Codi wnai dan boenai irad ;
 Ac fel hyn y caid e'n cwyno,—
 Torriad calon oedd ei wrando :

“Mi a aethwn hwnt i Affrig
 Am ddeng mlynedd faith yn ddiiddig
 Ar gais Mari, mewn cytundeb
 O gael wedi'n byw mewn undeb.

Derfydd rhew a derfydd gauaf,
 Fe ddaw'r haf a'i wên dirionaf,—
 Ond ni ddaw un pêr ddiddanwch
 Byth i mi sy'n llawn o dristwch.

Mari fwyn, os byd sy'n rhwystro
 Ini rod-di 'nghŷd ein dwylo,
 Etto 'nghŷd mae'n pur galonau,—
 Groeso, groeso iti, angau.”

Clafach, glafach aeth y ddeuddyn,—
 Ar eu gyrfa'n glau daeth terfyn:
 Yn y bedd maent heddyw'n dawel—
 Enw'r man gaiff fod yn ddirgel.

Dyma gariad oedd yn haeddu
 Gwobrwy gwell, nid ellir gwadu;
 Anwyl bâr! e gollir dagrau
 O dosturi uwch eich beddau.

William garai Mari fwynlan
 Yn fwy cryf nag ef ei hunan;
 Hithau barchai ei rhieni
 Dan y baich er gorfod soddi.

Rhoddi'n aberth eu bywydau
 Wnaeth y ddau i bur feddyliau,—
 Ond er cael eu llym gystuddio
 Gall y nef eu llawn wobrwyo.

O! mewn cân na fyddwn gelfydd,—
 Gwnawn i'ch henwau fyw'n dragywydd,
 Ac mi wnawn i bob rhyw fynwes
 Gyda theimlad gofio'ch hanes.

Aed dan ystyr pob rhieni
 Hanes William hoff a Mari,
 Cyn y gwnelont hyll ysgariad
 Byth rhwng dau lle byddo cariad.

C A N

Y MAB MAETH A ELWIR CARIAD.

(Y Cân gyntaf a gyhoeddodd yr Awdwr.)

Dos ymlaen, y glân dy ddeurudd,
 At un sy'n *abal* i roi rhybudd;
 Erglyw hanes Cariad gwrol,
 Ddaeth o'i fagu 'n anorchfygol.

Ce's Fab Maeth, a elwir Cariad,
 Gan ryw ferch o deg olygiad,

I roi porthiant iddo drosti,
Yn gymmwynas addas iddi.

Ac er mwyn y seren siriol,
Gwnes ei dderbyn yn fy nwygo'l,
Gan ei gynnal ef yn gynnes,
Hoff a manwl, yn fy mynwes.

Ar fy ngho'l yn benna' beunydd,
Rhwng pob lluniaeth a llawenydd,
Fe gynnyddodd yn un lliwus,
Ond yn awr mae imi 'n boenus.

Mae'r Mab Maeth yn un gwrthnysig
Ac anynad a gwenwynig,
Dwl a sarrug,—beth dâl siarad?
Ni thâl curo'n erbyn Cariad.

Un i flino, un aflonydd,
Un a boena f' enaid beunydd,—
Cred, un afrwydd, cryd i 'nwyfron,
Chwalu f' ais a gais yn gyson.

Y mae'n wir, â'i gas a'i gyndyn
Fwa 'nelog yn fy nilyn;
O'm du ingoedd b'le diangaf?
Och! i b'le o'm rhwydau 'r rhedaf?

Mae'r Mab Maeth yn ansefydlog,—
Fe a'm dwg i'r dolydd deiliog,

Ac oll yno, tan y llwyni,
Fe a'm gwnel i uchel ochi.

Myn ei ddangos ar ryw droion,—
Myn ei gelu 'm min y galon,—
Myn gael gwel'd y fenyw fwyniach,
A phan wêl, bydd saith creulonach.

Os gwêl neb yn beiddio d'wedyd
Gair neu ddau yng nghlust 'r un hyfryd,
Arnaf fi diala 'n union,—
Bratha 'i golyn trwy y galon.

Pan yr own i 'n heini hynod,
Ar ryw hafaiddeg ddiwrnod,
Daeth i'm pen ryw ryfedd fwriad,
Sef myn'd i maes i guro Cariad.

A mawr fygwth ymarfogais,
Pastwn yn fy llaw gymmerais ;
Ond ni theimlai hwn ergydion,—
Fe a chwalai giliau 'r galon.

Yna, gwed'yn, rhoes i gadw
'R chwareu oll, gan sylwi'n salw,—
"Pan mae 'r rhyfel rhwng f' arenau,
Pa les im' yw darnio 'm dyrnau?"

'R wy'n dad maeth i'r mab creulona'
Fagwyd ar y ddaear yma ;

Mil o weithiau 'r ediferais
Imi fagu'r mab a fegais.

A raid bellach byw dan gwmmwl,
Heb un gobaith mwyn i'm meddwl?
A oes etto ddim byth iti,
Galon oeraidd, ond galaru?

Attal, attal, oes mae etto
Haul go lawen yn goleuo;
Gad bob galar, fwynaidd galon,
Fynu cwyd o'r llwyd drallodion.

Y mae gwychaidd lân Rosgochyn
Etto'n effro mewn rhyw ddyffryn,
Sy ag eli at y galon
A wasgarwyd yn ysgyrion.

Dyna'r lle mae Dora dirion,
Dyna'r lle 'r wy' 'n troi 'ngolygon,
Dyna'r lle mae seren gwynfyd,
Dyna'r lle mae clwm fy mywyd.

Dyna'r lle mae mam addfwynder,
Dyna'r lle mae chwaer hynawsder,
Dyna'r lle caf wel'd y lili,
Ar lan dwr isel rhwng y d'rysi.

Y mae un all roi im' gysur,
Y mae un all wella 'nolur,

Sef y ferch a roddodd imi
Y Mab Maeth i gael ei fagu.

Os na thâl y fwynaidd fenyw
Imi, gwed'yn, am ei gadw,—
Oni rydd wobrwyaad imi,
Rhaid i'm dwyfron dirion dorri.

YR ACHOS FOD MENYW YN LANACH
NA GWRRYW.

E LUNRWYD Adda, gynt, heb lai,
O ddyrys glai y ddae'ren ;
Yn llwyd a brwnt e'i gwnaed o bridd,
Heb gymmal iddo'n gymmen.

A brych yw'r gwrryw fyth fel hyn,
A melyn a chymmalog,
A llwyn o eithin ar ei ên,
Islaw y talcen tolciog.

Ond Efa ddaeth yn hardd-deg iawn,
(Gan gael yn llawn ei llunio,)
Yn syw a da, o ais y dyn,
O'r priddyn, 'nol pureiddio.

Ac fyth y Fenyw'n deg a gawn,
 A gwiwlan iaŵn e'i gwelir :
 Ei dwy-ên glir sy'n denu gwlad
 At hon, o gariad geirwir.

F A L E N T I N .

FẼ ddarfu'r gauaf creulon ;
 Tawelach yw'r awelon,—
 A'r adar bach, gan fywiocâu,
 Sy'n dechreu gwau caneüon.

Holl anian gain sy'n gwenu,
 Gan nawsaidd ymgynesu ;
 Ac nid yw'n deilwng rhoddi sen
 I minnau, Gwen, am ganu.

Wrth wel'd dy lun mor laned,
 Pa fab all dewi, dywed ?
 O rho i langc, ar soddi i lawr,
 O'i ddolur mawr ymwarded,

Yn dewis y mae'r adar,
 Yn awr, bob un ei gymmar,
 I fyw mewn undeb eithaf llon,
 Uwch pob argoelion galar,

Un, un ddewisaf finnau,
 A hon wyt ti, liw'r blŷdau ;
 Yn rheidiol les, o rho dy law,
 I dorri'm braw a'm briwiau.

Yr eneth fwyn eirianaf,
 Tydi yw'r lana' welaf ;
 Na âd, a mi mor wael fy nrych,
 Fath bwn o oernych arnaf.

Rho'th law'n addewid immi,
 Rho'th gusan i'm'sirioli ;
 O galon rydd, yn glodydd glân,
 Diderfyn gân cei genni.

Y mae dy wedd yn waddol,
 Deg Wen, o werth digonol ;
 Uwch unrhyw bris yw'th lygaid pêr
 Sydd fel y sêr yn siriol.

O! tro yn awr, tra'n iraidd,
 I rwymyn cariad puraidd,—
 Cawn fyw mewn tes, yn gynnes, Gwen,
 A'n byd yn hufen hafaidd.

Mae'r gwanwyn ar egino,
 Daw blodau'r haf i'w rhifo ;

Anturia, Gwen, mae natur gain
Yn cymmell sain cyd-synio.

MENYW.

MENYW fwyn yw gwaith perffeithiaf
Dwylo glân y Duw goruchaf;
Perl a harddwch creadigaeth,
Rhosyn byd yn ddiamheuaeth.

Y mae'n harddach, fil o weithiau,
Gwenau hon nâ gwawr y borau;
Holl brydferthwch hyfryd anian
Drig ym mron yn hon ei hunan.

Glwys y rôs a glwys y lili,
Glwys y gwanwyn glas yn gwenu;
Rhwing y blodau glwysach etto
Menyw deg mewn gardd yn rhodio.

Fel o ddwr mae'n llawn yr afon,
Llawn o deimlad yw ei dwyfron;
Cariad hon, yn ol sefydlu,
Awch y dur nid all ei dorri.

Llawn ei mynwes o dynerwch,
Llawn ei chalon o hawddgarwch:

Menyw fwyn ! pwy all ryfeddu
Enaid dyn ei bod hi'n denu ?

Mi a welais, yn ddigyffro,
Faes y gwaed a mil yn syrthio ;
Ond ni welais ddagrau'n hongian
Ar rudd hon heb wylo f' hunan.

Gair o'i genau mewn serchogrwydd,
Ddiarfoga bob digllonrwydd ;
Ar ei thafod y mae eli
Mawr ei rinwedd, mawr ei allu.

Hoff gan wr, pan fo'n trafaelu,
Gwrdd ar ffordd â chyfaill digri' :
Milwaith hoffach, rhwydd in' addef,
Menyw fwyn i'w roeso adref.

Menyw serchog, lon mewn teulu,
Wna bob peth i ymsirioli ;
Oll o gylch, ei llais caredig
Rydd fel Eden ardd fawledig.

Gwael y dyn sy'n rhodio daear,
Heb gael hon yn gymmwys gymmar ;
Och ! heb gael, yn wych ymgeledd,
Hon i'w uno ef â'i annedd.

Menyw fwyn ! y byd, er cystal,
Hebot ti nid yw ond anial ;

Heb dy lais i dorri loesau,
Heb dy gynghor, heb dy wenau.

Ti wyt leuad mewn tywyllfyd,
Seren hoff mewn nos o dristyd,—
Angor enaid cystuddiedig
Ar y garw fôr berwedig.

Diogelwch yn dy galon
Sydd i dderbyn pob meddylion ;
Cyfaill ydwyt o'r ffyddlonaf
Uwch pob gwerth, O ! Fenyw fwynaf.

GWLAD FY NGENEDIG- AETH.

Pennillion a gyfansoddwyd yn Haf y Flwyddyn, 1819, pan oedd IOAN TEGYD, Brawd awenyddol i'r Awdwr, yn bwriadu gadael *Gwlad ei enedigaeth*, a myned i ymsefydlu yn yr India Ddwyreiniol. Yr amcan oedd denu y Bardd godidog hwnnw i beidio ymadael â *Gwlad ei enedigaeth*, trwy ei ddarlunio fel yn cwynfan yn y modd canlynol, yn y fro estronawl honno.

Trwm yw f' enaid, trwm yw f' yspryd,
Trom yw 'nghalon fach bob ennyd,
Gan ryw alar oer a hiraeth,
Am hen Wlad fy Ngenedigaeth.

Anwyl gwin, ac anwyl arian,
 Anwyl haf, ac awyr fwynlan,—
 Ond anwylach im' nag unpeth
 Bryniau Gwlad fy Ngenedigaeth.

Hyfryd iawn yw gwel'd yr haulwen
 Yn ymdorri draw o'r Dwyrain:
 Etto gwell f'ai golwg eilwaith
 Ar hen Wlad fy Ngenedigaeth.

Fel yr hŷdd am ddwr y dyffryn,
 Fel yn ôl ei fam yr oenyn,
 Cwynaf finnau'n fawr fy alaeth,
 Am hen Wlad fy Ngenedigaeth.

Beth i mi yw mwyth ddanteithion?
 Beth i mi yw maith oludon?
 Beth y byd a'i holl arglwyddiaeth
 Maes o Wlad fy Ngenedigaeth?

Pe bawn frenin ar yr India,
 Neu drigolion holl Ewropa,
 Dim i mi f'ai pob dyrchafiaeth,
 Maes o Wlad fy Ngenedigaeth.

Ym mha le y mae'n ymsymmud
 Hen gyfeillion mwyn fy i'engctyd?
 B'le mae'n trigo pob anwyl-beth?
 O! yng Ngwlad fy Ngenedigaeth.

B'le mae'r tŷ, a ph'le mae'r aelwyd
Fu im' hygar, lle fy magwyd?
B'le mae ffynnon pob rhagoriaeth?
O! yng Ngwlad fy Ngenedigaeth.

B'le mae'r ardd, a ph'le mae'r caeau,
Lle y buais gynt yn chwarau,
Heb na gofal na gwanobaith?
O! yng Ngwlad fy Ngenedigaeth.

B'le mae'r llwybrau fu'm yn rodio,
Lawer gwaith dan beraidd byngcio,
Oll yn llawn o'r awenyddiaeth?
O! yng Ngwlad fy Ngenedigaeth,

B'le mae'n byw'r genethod difyr,
Rai a fedrant garu'n gywir,
Heb adnabod twyll na gweniaith?
O! yng Ngwlad fy Ngenedigaeth.

B'le mae'n byw yr *un* anwylaf
Ga's fy serch a'm cariad cyntaf?
B'le mae hon yn marw o hiraeth?
O! yng Ngwlad fy Ngenedigaeth.

B'le mae'r man cyfeillgar hynny,
Lle mae pawb fel o'r un teulu,
Heb na chilwg nac ucheliaeth?
O! yng Ngwlad fy Ngenedigaeth.

B'le mae'r hael a'r hwylus galon ?
 B'le mae bwyd yn rhad i estron ?
 B'le mae byw yn ôl naturiaeth ?
 O! yng Ngwlad fy Ngenedigaeth.

B'le mae cynnal glân ddefodau,
 Iawn a didwyll fy hen dadau ?
 B'le mae'n byw yr hen Gymreigiaith ?
 O! yng Ngwlad fy Ngenedigaeth.

B'le mae'r delyn bêr ei thannau ?
 B'le mae darllain mwyn gywyddau ?
 B'le mae'r Awen a'r Farddoniaeth ?
 O! yng Ngwlad fy Ngenedigaeth.

Crôg oedd telyn plant hen Sïon,
 Ar y gwïail gynt ym Mab'lon,—
 Mud y gân gan oeraidd hiraeth
 Am hen Wlad eu Genedigaeth.

Meddai meibion Babilonia,
 Rhowch in' ganiad, blant Judëa ;
 Ebent hwy, Nid oes gerddoriaeth
 Maes o Wlad ein Genedigaeth.

Llawer gwaith dywedaf finnau,
 Awen, rho im' gân i'm genau ;
 Ond attebai, 'Does it' obaith
 Maes o Wlad dy Enedigaeth.

Beth wna Bardd ar ddolydd India ?
Beth wna Bardd o'i wlad anwyla' ?
'R Awen fwyn ni chân beroriaeth
Maes o Wlad ei Genedigaeth.

Cwyno nos a dydd yn ddibaid,
Yma'r wyf ym mhlith estroniaid,—
Nid am aur na goruchafiaeth,
Ond am Wlad fy Ngenedigaeth.

Mynych af i ben y creigiau,
Tro'f fy ngolwg, gyda dagrau,
Dros y ce'nfor garw diffaeth
Tua Gwlad fy Ngenedigaeth,—

Yna tyr yn friw fy nghalon,—
Gwel'd y môr a'i donnau mawrion,
Rhyngof fi yn gwneyd ysgariaeth
A hyfryd Wlad fy Ngenedigaeth.

Gwel'd y môr a'i donnau'n berwi,
Fel pe b'ai e'n ymhyfrydu,
Ei fod rhyngof fi âg odiaeth
Anwyl Wlad fy Ngenedigaeth.

O! na' chawn adenydd c'lommen,
Hedwn dros y moroedd llydain,
I gael golwg ar gu helaeth
Fröydd Gwlad fy Ngenedigaeth.

Mi orweddwn yno'n dawel
 Drwy fy oes, mewn caban isel ;
 Cyfoeth byd ni'm denai ymaith
 O hen Wlad fy Ngenedigaeth.

MY NATIVE LAND.

A Translation of "GWLAD FY NGENEDIGAETH," by MISS LYDIA
 JONES, St. Fagan's, near Cardiff.

My soul is sad, my spirit fails,
 And sickness in my heart prevails,
 Whilst chill'd with grief, it mourns and wails
 For my old Native Land.

Gold and wine have power to please,
 And Summer's pure and gentle breeze,—
 But ye are dearer far than these,
 Hills of my Native Land.

Lovely to see the sun arise,
 Breaking forth from eastern skies ;
 But oh ! far lovelier in my eyes
 Would be my Native Land.

As pants the hart for valley dew,
 As bleats the lambkin for the ewe,
 Thus I lament and long to view
 My ancient Native Land.

What, what are delicacies, say,
And large possessions, what are they?
What the wide world and all its sway
Out of my Native Land?

O should I king of India be,
Might Europe to me bend the knee,
Such honors should be nought to me
Far from my Native Land.

In what delightful country strays
Each gentle friend of youthful days?
Where dwelleth all I love or praise?
O! in my Native Land.

Where are the fields and gardens fair
Where once I sported free as air,
Without despondency or care?
O! in my Native Land.

Where is each path and still retreat
Where I with song held converse sweet
With true poetic fire replete?
O! in my Native Land.

Where do the merry maidens move,
Who purely live and truly love—
Whose words do not deceitful prove?
O! in my Native Land.

And where on earth that friendly place,
 Where each presents a brother's face,
 Where frowns or anger ne'er debase ?
 O! 'tis my Native Land.

And O! where dwells that dearest one
 My first affections fix'd upon,
 Dying with grief that I am gone ?
 O! in my Native Land.

Where do they food to strangers give ?
 Where kindly, liberally relieve ?
 Where unsophisticated live ?
 O! in my Native Land.

Where are the guileless rites retain'd,
 And customs of our sires maintain'd ?
 Where has the ancient Welsh remain'd ?
 O! in my Native Land.

Where is the harp of sweetest string ?
 Where are songs read in Bardic ring ?
 Genius and inspiration sing
 Within my Native Land.

Once Zion's sons their harps unstrung,
 On Babylonian willows hung,
 And mute their songs—with sorrow wrung,
 They mourn'd their Native Land.



Captives, the Babylonians cry,
Awake Judæan melody,—
There is no music they reply,
 Out of our Native Land.

And thus when I in misery
Beseech my muse to visit me,
She echo's—there 's no hope for thee
 Out of thy Native Land.

A Bard how dull in Indian groves,
Distant from the Land he loves !
The muse to melody ne'er moves
 Far from her Native Land.

Day and night I ceaseless groan
Among these Foreigners, alone ;
Yet not for fame or gold I moan,
 But for my Native Land.

Oft to the rocky heights I haste,
And gaze intent, while tears flow fast,
Over old ocean's troubled waste,
 Towards my Native Land.

Then breaks my heart with grief to see
The mountain waves o'erspread the sea,
Which widely separates from me
 My charming Native Land ;

To see the boiling ocean near,
Whose waves as if they joy'd appear,
Rolling betwixt me and my dear
Enchanting Native Land.

O had I wings! to cure my pain
I'd flee across the widening main,
To view the extensive vales again
Of my dear Native Land.

There I would lay me down secure,
And cheerfully my wants endure:
The wealth of words could not allure
Me from my Native Land.

ATTEB TEGYD

I

"WLAD FY NGENEDIGAETH."

"I mi bu gyfeillion lawer, rhywiog a chywir, yn deall cyfreithiau caredigrwydd, ac yn eu cadw yn fanwl; ond un arbennig o blith y nifer, gan ragori arnynt oll mewn cyfeillach attaf, a ymegniai eu blaenu belled ag y blaenynt hwy y sawl ag oeddynt o gymhedrol serch tuag attaf." ST. CHRYSOSTOM,

DANIEL! Daniel! paid â'th gynghor,
Nid oes achos d'wedyd rhagor;
Byth ni wêl yr India helaeth
Fi o Wlad fy Ngenedigaeth.

Wrth im' ddarllen dy bennillion,
 Gair GWLADGARWCH rwygai 'm dwyfron,
 Fal nad allwn, er dyrchafiaeth,
 Adael gwlad fy Ngenedigaeth.

Dy resymau ŷnt mor gryfion,
 Maent i mi mal dur-forthwylion;
 Peraist im', er pob ystyriaeth,
 Fyw yng Ngwlad fy Ngenedigaeth.

Oni b'asai i'th fwyn bennillion
 Dreiddio draw trwy giliau 'r galon,
 Buaswn i, wrth bob argoeliaeth,
 Ym mhell o Wlad fy Ngenedigaeth.

Pan ofynwyd imi gynta'
 A awn o'm gwlad i fyw i'r India,
 D'wedais awn;—ond etto hiraeth
 Oedd am Wlad fy Ngenedigaeth.

Barnu 'r oeddwn i, pryd hwnnw,
 Mai o Feirion gwell im' farw,
 Nâ gwel'd plant yr hen waedoliaeth
 Yn gwerthu Gwlad eu Genedigaeth.

Gofid enbyd oedd i'm calon
 Weled Cymry 'n troi yn Seison,
 Gan anghofio iaith dda odiaeth,
 Iaith hen Wlad eu Genedigaeth.

Onid trwm fod Cymro 'n gallu
 Gwadu iaith ei fam anwylgu,
 Gwadu 'n hyf, er ei Gymreigiaeth,
 Ow !•hen Wlad ei Enedigaeth ?

Awn i blith yr Indiaid gwylltaf,
 Awn i bellder gwledydd poethaf,
 Cyn y gwadwn fy nghym'dogaeth,
 Neu iaith Gwlad fy Ngenedigaeth.

Cymro ! Cymro ! gwaeddaf allan,
 Iaith dy fam pan oeddit faban,
 Honno cara mewn maboliaeth
 Gyda Gwlad dy Enedigaeth.

Tra fo môr, a thra fo mynydd,
 Tra fo 'n llifo yr afonydd.
 Na foed Cymro mewn gelyniaeth
 A hen Wlad ei Enedigaeth.

Merched Cymru, mwyn galonnau,
 Glân o bryd a gwedd a geiriau ;
 Cerwch iaith eich mam yn helaeth,
 Hefyd Gwlad eich Genedigaeth.

Nid oes mwynach peth nâ chlywed
 Iaith Gymraeg o enau merched ;
 Y Gymraes, a fyddo fammaeth,
 Cofied Wlad ei Genedigaeth.

Pan feddyliwyf fi am Feirion,
 BALA bach a'r hen gymdeithion,
 Glynw 'r wyf, mal oenyn llywaeth,
 Wrth hen Wlad fy Ngenedigaeth.

O! mae f' enaid yn ymlynu
 Wrth anwylyd lân yng Nghymru;
 Gwn na fyn, mwyn yw ei haraeth,
 Wadu Gwlad ei Genedigaeth.

Gyda hon mae ffyddlawn galon,
 Gyda hon mae geiriau mwynion,
 Pwy rydd imi bob cysuriaeth?
 Hon, a Gwlad fy Ngenedigaeth.

Gallwn fyw ar ben y mynydd,
 A byd gwael o ddydd bwy gilydd,
 Gyda hon, a'r Awenyddiaeth,
 Yn hen Wlad fy Ngenedigaeth.

Parchu 'r ydwyf ferched Seison,
 Ni chant gennyf eiriau duon;
 Ond pwy bïa y rhagoriaeth?
 Merched Gwlad fy Ngenedigaeth.

Bellach, bellach, rhaid im' dewi,
 Mae fy nghalon oll yn lonni;
 Ymaith, ymaith, pob hudoliaeth
 A'm dwg o Wlad fy Ngenedigaeth.

Daniel ! Daniel ! y mae f' awen
 Wrth ei bodd yn fywiog lawen,
 Am ei bod yn cael magwraeth
 Etto 'Ngwlad ei Genedigaeth.

Aed i'r India 'r sawl a fynno,
 A phob llwyddiant a'i canlyno ;
 Ceisiaf finnau gael bywiolaeth
 Yn hen Wlad fy Ngenedigaeth.

Gwlad Efengyl, gwlad yr Awen,
 Goreu gwlad o tan yr haulwen,
 Gwlad yn profi gwên rhagluniaeth,
 Hon yw Gwlad fy Ngenedigaeth.

MIS MAI.

Mor dêg a hyfryd ydyw Mai,
 Pob peth heb'drai sy'n ddedwydd,—
 Mor hardd eu drych yw blodau'r drain
 A geir yn gain ar gynnydd,—
 Aderyn bach, mor bêr dy big,
 A'th gân ar frig y gwinwydd.

Y ddaear rwydd sydd oll yn wres,
 A glân yw tês y glennydd,—
 Mor fwyn y gwenyn sydd yn gwau,
 Gan sugno diliau'r dolydd,

Ac arwain adre 'u llwythau llawn
Ar dynnion iawn adenydd.

Mor lwys a llon yw meillion Mai,
Y lili a'i chwirydd,—
Fel llawn yr afon pan bo lli',
Llawn clod a bri yw'r bröydd :
A daethost tithau 'nol yn iach,
Gu weinol fach, i'n gweunydd.

Mor felus clywed llais y gôg,
A gweled clôg y coedydd,
Mewn llawen fraint a'u lliw yn frith,
Ac arnynt wlith boreuddydd,—
A gwrando wrth fachludiad sêr
Ar ganiad pêr uchedydd.

I roeso Mai, O deued fyrdd,
A'i wên yn wyrdd ar wawrddydd ;—
E ddarfu'r gauaf oer ei naw
Fu'n hir yn draws-reolydd,
Mae Mai mewn braint uwch unrhyw bris,
Y goreu Fis i faesydd.

Coroner Mai trwy'r byd ar g'oedd
Yn ben y misoedd mwynrydd
A blodau teccaf trwy y tir,
Nes byddo'n wir ysblennydd,—
A doed i ganu 'i fawl yn ffrwd
Mewn cariad brwd bob pryddydd.

O doed y merched tēg eu pryd,
 A'r bechgyn gyda'u gilydd,
 Ar ddechreu Mai, i'w barchu o,
 I ddawnsio ar y bronnydd,
 Fel gwna mewn agwedd wych ddi wael,
 Yr ŵyn ar ael y mynydd.

Pwy, pwy, yr amser hyfryd hyn,
 A erys yn y trefydd,
 Yn druan wr, mewn cyflwr cas,
 Yn gaethwas rhwng magwrydd ;
 Tra'r ddaear las yn siriol iawn,
 A'r coed yn llawn llawenydd ?

CYFARFOD CYFEILLION.

O MOR hoff yw cyfeillachu,
 Ar hyd y nos,
 Pan mae'n bronnau yn ymglymmu,
 Ar hyd y nos ;
 Son am ddyddiau hoff ein mebyd,
 Am gyfeillion mwyn ein hie'ngctyd,
 Dyma waith sy'n llawn dedwyddyd,
 Ar hyd y nos.

Cysur calon yw cyfarfod
 Ar hyd y nos ;

Yfed peth, nid yfed gormod,
Ar hyd y nos ;
Son am ein cyfeillion cynnar,
Sydd trwy'r byd ym mhell ar wasgar ;
Yfed iddynt iechyd hygar,
Ar hyd y nos.

Son am waith yr hen brydyddion,
Ar hyd y nos ;
Canu rhai o'u hoff bennillion,
Ar hyd y nos ;
Gadael gofal byd yn llonydd,
Rhoddi wfft i galon cybydd,
Hoffi diliau'r Awen fwynrydd,
Ar hyd y nos.

Y mae'r meddwl yn adfywio,
Ar hyd y nos,
Hen hanesion wrth adgofio,
Ar hyd y nos ;
Mewn llawenydd yma'n llonni,
Son am fil o droion digri,—
Y mae'r gwaith yn anwyl ini,
Ar hyd y nos.

Boed in' gwrdd fel hyn ar droion,
Ar hyd y nos,
Gyda'n gilydd o'r un galon,
Ar hyd y nos ;

Nid oes hoffach peth mewn bywyd,
 Nâ chael awr fel hon yn hyfryd,
 I anghofio cur ac adfyd ;
 Ar hyd y nos.

Gyrrer teulu Dic Siôn Dafydd,
 Ar hyd y nos,
 Dros y môr a thros y mynydd,
 Ar hyd y nos ;
 Carwn ninnau gyda'n gilydd,
 Lonwych Awen lân a chywydd ;
 Dyma waith a'n gwna ni 'n ddedwydd ;
 Ar hyd y nos.

CLOD I ABERYSTWYTH.

Gan aber mwyn terydd, pêr odiaeth i'r prydydd ;
 Lle hyfryd foreuddydd, i'r 'wenydd i wau,
 'N ddiattal o ddeutu, fel gwennol, dan ganu
 A gwisgi drawsdynnu dros donnau.

Bwäog, llawn bywyd yw 'r aber goreubryd ;
 I'r claf, yn eu clefyd, mae 'n hyfryd, yr haf ;
 Llawn yw o ffynbaglau 'adewir i deiau
 I'w llosgi rhag gwaeau rhew gauaf.

Yr awel bêr, rywiog a ddaw, nid yn ddiog,
 Dros lāsfor grisialog, rhedegog, i dir,—

A llawer, â'u lliwiau yn wanaidd gan wyniau,
Yn glau, o'u gofidiau gyfodir.

Têg Ystwyrth a Rheidiol, o'r bryniau hoff breiniol,
A ddygant feddygol iach radol wych rin,—
Y ddwy am y cynta', yn lwyswych hwylusa',
I'r cla' a bur rodde bereiddwin.

Hoff gweled y llongau â'r haul ar eu hwyliau,
'N tywynu uwch tonnau, a'r badau, o bell ;
Un hwyl yn ymestyn i'r Gogledd ar deg-lyn,
A'r llall yn ei herbyn, o hirbell.

Y cregin a'r creigiau, a miwsig brignosau,
A ddeil y meddyliau dan loesau i'r làn ;
Mân hoenus, mwyn hynod, â'r tai ar fin tywod,
Yr angeu o'i ganfod a gwynfan.

MORGANWG.

Ar fesur Triban Morganwg.

Pennillion a wnaed i Miss Lewellin, Boneddiges ieuangc o sir
Forganwg, ar ei gwaith yn ymweled â'i pherthynasau yn sir
Aberteifi.

Er byw mewn ardal ddiddrwg,
Sy'n weddol hardd ei golwg,
Yn fynych iawn o fewn fy ngho'
Mae dolydd bro Morganwg.

Mae yno fil o bethau
 Na fedd un eraill fannau ;
 Bydd ar fy meddwl tra b'wyf byw
 Mor hyfryd yw ei llwybrau.

Pe bawn ar randir India,
 Ym mhell dros fôr llydana',
 Ni chofiwn byth, â llygad sych,
 Morganwg wych anwyla'.

Màn yw lle ces fy ngeni,
 Màn yw sy'n tra-rhagori :
 I'r lân feillionawg ddeiliawg ddôl
 Bydd myn'd yn ol yn eli.

Morganwg ! mawr y gwyniau
 A'r hiraeth, hwyr a borau,
 Sy'n rhoi i'm calon frath a breg,
 O olwg dêg dy gaeau.

Gardd Cymru yw Morganwg,
 A'i ffrwythau pêr yn amlwg ;
 Gardd yw o wenau oll yn llawn,
 Yn hyfryd iawn ei golwg.

Y mae 'i chabandai gwynion
 Yn hardd fel perlau glwysion ;
 Mae holl breswylwyr mwyn y fro
 A'u gilydd o'r un galon.

Gwlad yw sy'n llawn llawenydd,
 Yn hoffi gwaith y prydydd :
 Try 'n fud y gôg wrth glywed cân
 Ei Thriban glân trwy 'i glennydd.

Gwlad wiwrydd tywydd tawel,
 Gwlad ddibrin, iesin, isel :
 Gwlad dêg iachusaf dân y rhod,
 Mae imi 'n glod ei harddel.

I BONT AR FYNACH.

Yr hon a elwir Pont y Gwr Drwg.¹

YN burlan uwch y berwlif—y sefi,
 Uwch safn cwm y mawrlif;
 Lle y llam yr hylla' llif
 Ddeugeinllath yn ddig wynllif.

Wyt gadwyn yn dwyn dywenydd,—a chlod
 Gwych lydan trwy 'n bröydd ;
 A rhaff, na ddaw byth yn rhydd,
 Wyd i fwnwgl dau fynydd.

¹ Y mae'r Bont hon, a'r rhaiadr, neu gwmp dwfr ag sydd yn uniongyrchol dan, yn un o'r rhyfeddodau mwyaf yn yr Ynys.

Danat heb baid naid ofnadwy—raiadr
 Gan ruo trwy'r adwy,—
 A chan nerth ei ryferthwy,
 Gwna y llif y graig yn llwy.

Mae anian ddiran yn gynddeiriog—wyllt,
 A'i gwedd yma'n llidiog ;
 Ei tharan sy'n fytheiriog,
 A'i gruddiau yw creigiau crôg.

O'th ben, bont fwynwen fanol,—edrycher
 I drachwith bant ffrydiol ;
 Pa enaid na naid yn ol
 O sydyn fraw arswydol !

Mi a wn mai rhyw ymenydd—cadarn
 Fu'n rhoi cydiad celfydd
 Y Bont addien ysblennydd,
 Uwch ceudod yn syndod sydd.

Llesiol wyt, trwy'r holl oesoedd,—da waith,
 I deithwyr, aml filoedd ;
 Camfa lân uwch cwm â'i floedd
 Nwyfus yn cyrhaedd nefoedd.

Gwir draws yw rhoi i'r Gwr Drwg—y moliant
 Am haeledd mor amlwg ;
 I ni dda mae 'n wir na ddwg
 Etifedd cas y tewfwg.

BEDD GELART.

Cyfieithad talfyredig o Gerdd Saesneg o'r enw, gan
yr Anrhydeddus W. R. Spencer.

Llywelyn ab Iorwerth, Tywysog Cymru, yr hwn oedd wedi priodi Joan, merch ordderch John, brenin Lloegr, a dderbyniodd, yn rhodd oddiwrth ei dad-yng-nghyfraith, Filgi gorwych o'r enw *Kill-hart*, (lladdwr carw,) wedi hynny a droid yn Gymraeg, Gelart. Y mae traddodiad yn y Gogledd, i Llywelyn, wedi colli ei gi ag oedd mewn ffafr neillduol ganddo, ddych-welyd ryw ddiwrnod o'r helfa yn anfoddlon i'w gyflwr; a phan ddynesai at ei gastell, ei ffyddlon gi, Gelart, a garlamodd i'w gyfarfod; a chan wenieithu, neidio, a siglo ei gynffon, a ddangosodd lawenydd anarferol: ond ei enau gwaedlyd, a'r llawr gorchuddiedig gan waed, a gynhyrfodd syndod ei feistr, a'i fawr arswyd, wrth weled y gadair, yr hon a ddaliasai ei blentyn, wedi ei dymchwelyd. Gan feddwl fod y ci wedi lladd ei anwyl faban, efe yn uniongyrchol a'i trywanodd â'i hel-waywffon, pan y rhoes y creadur truan gri cwynfanus ac a drengodd. Wedi troi'r gadair i fynu, efe a gafodd ei faban dani yn fyw, ac yn cysgu, â gwrid ar ei ruddiau; a gwelai yn agos flaidd marw, yr hwn yn amlwg a laddesid gan Gelart. Gellir yn hawdd ddychymmygu galar Llywelyn. Efe a gyfododd gofadail uwch bedd ei ffyddlon gi, a elwid oddiwrth hynny Bedd Gelart, yr hwn hefyd a roddwyd i'r Eglwys blwyfol yno wedi hynny, yr hon a ddaeth yn ganolbwynt i dref fechan yn sir Gaernarfon, a elwir hyd heddyw Bedd Gelart. Ar y traddodiad hwn y sylfaenwyd y Gerdd.

Yr helwyr godent gyda brys
Ryw foreu 'n foddus fyddin,
A chlywai'r helgwn, heb ddim orn,
Yn ufudd gorn Llywelyn.

guch gan waed,
waed, a'i dafod.

wlaen a wnai,
wlynaï;
wriaï 'i draed,
wraed a welai.

dig gwelai grýd
d olwg!
d a than draed
d yn amlwg!

galwai 'nawr,
er anaele,—
a gylch a gai yn lli',—
ai'n unlle.

fy mhientyn i
fi'n fladdedig,"
a rhoes ei gledd
dd ei mewn mawrddig.

pan yn syrthio'n wyw,
w gysgadur,—
lals pèr iach
ach yn eglur!

olwald mewn un màn,
lèn y gadair;
un blaidd marw gaid,
dald iddewrder!

Uwch ynddo etto chwythai ef,
 A chodai lef llawenydd,—
 Dos, Gelart, dos,—rhoi clust wnait ti
 Y blaenaf i'm lleferydd.

Pa le mae Gelart, pen ei ryw,
 Y boreu heddyw'n crwydro ?
 Hwn gartre' fel yr oenyn sydd,
 A llew pan orfydd taro.

Ymborthi wnai y milgi gwrdd
 Yn ymyl bwrdd Llywelyn,—
 Ei feistr gwasanaethu wnai,
 A gwiliai'r nos rhag gelyn.

Oedd filgi gwych, o ddewraf fron,
 O roddiad John enwoca' ;
 Ond Gelart 'nawr ar goll a gaid,
 Er hyn myn'd wnaid i'r helfa.

Llywelyn glew 'r dydd hwn ni cha's
 Ddim nemmawr flas, na'i foddio,—
 Bu'r ddalfa'n wael ; y bai oedd hyn,
 Fod Gelart yn gwrthgilio.

Llywelyn dro'i yn drist i dre',
 A Gelart fe ganfyddai
 Yn rhoddi 'n llon i'w gyfarch ef
 Wichialaid lef a 'strangciau.

Ond pan at ddrws ei gastell daeth,
 Yn llawn yr aeth o syndod ;



Y ci oedd oll yn goch gan waed,
Ei drwyn, ei draed, a'i dafod.

Llywelyn brysio 'mlaen a wnai,
A Gelart a'i canlynai;
Lle bynnag y cyfeiriai 'i draed,
Hyll ffrydiau gwaed a welai.

Yn ddymchweledig gwelai grŷd
Ei faban, enbyd olwg!
A thros y gwèlydd a than draed
Arwyddion gwaed yn amlwg!

Ar ei anwyl-fab galwai 'nawr,
Dan ofid mawr anaele,—
Gwaed, gwaed o gylch a gai yn lli',—
Ei faban ni chai'n unlle.

“Uffern-gi cas! fy mhlentyn i
Sydd gennyt ti'n lladdedig,”
Dywedai'r tad; a rhoes ei gledd
Trwy'i berfedd ef mewn mawrddig.

Bloedd Gelart pan yn syrthio'n wyw,
Ddihunai ryw gysgadur,—
Y tad a glywai lais pèr iach
Ei blentyn bach yn eglur!

'Doedd arno niwaid mewn un màn,
Er syrthio dân y gadair;
Gerllaw yr hon blaidd marw gaid,
A fu o ddiriaid ddewrder!

Llywelyn! faint oedd 'nawr dy gur,—
 Disgleiriodd eglur wiredd;
 Y blaidd a laddwyd gan y ci,
 I gadw i ti d' etifedd!


Llywelyn 'nawr a roddai gŵyn,
 "Wyf wedi dwyn dy einioes,—
 Yr ergyd marwol gefaist ti
 Rydd byth i mi alarloes!!"

I'r ci a garai ef mor fawr,
 Cofadail 'nawr cyfodwyd,
 A maen o fynor i goffâu
 Ei glod a'i raddau roddwyd.

Tra 'r Wyddfa'n sefyll uwch y lli',
 Tra 'r ser yn t'wynu 'n hoyw,
 Y cyssegredig fan mwyn, rhydd,
 Bedd Gelart fydd ei enw.

Y DDAFAD.

MOR wirion ydwyf, Ddafad fwyn,
 Mae'th wedd yn dwyn rhyw deimlad
 I bob rhyw fynwes, hawddgar, rwydd,
 O wir serchogrwydd attad.



Nid oes it' erfyn o un math
I ymladd â'th elynion ;
Na chorn na charn i daro'r ci
A fo'n dy boeni 'n greulon.

Dim, dim ond ffoi, yn llesg a gwâr,
Yw ymddiffynfa'r Ddafad,—
A chynt nâ hi pob corgi sydd
Pan fwyaf rhydd ei rhediad.

A phan y metha 'i hoenyn glwys
Ei dilyn er dwys alw,
Er braw, ni âd yr eiddil gwan ;
Saif yn y fan hyd farw.

Ac wrth y llawr ei throed hi gur
Yn anwyl bur ei bwriad,—
E gododd ganwaith, wrth wel'd hyn,
Y deigryn yn fy llygad.

Ond os na roddwys Natur lon
Ddant llym i hon, na charnau,
Mae unpeth iddi etto'n faeth
Nid gronyn gwaeth nâ hwythau.

Mae iddi'n dæg ymgeledd dyn,
Dàn frath a gwÿn helbulon,—

A modd i dalu iddo'n faith
Am oll o'i waith mwyneiddlon,

Peth mwy ei werth a rydd i ni
Nâ'r pridfawr fwyni arian ;
Neu aur, sy'n llenwi daear dda
Y liwdeg India lydan.

I ddyn mae'i 'n rhoddi cymmorth clyd,
Rhag gwyntoedd enbyd digllon,
A rhag y gwlaw sy'n curo'n flin,
Pan byddo'r hin yn greulon.

Y fantell wresog gawn y nos
Mewn gwely diddos diddan,
Pwy in' a'i rhydd yn fendith rad,
Pwy, ond y Ddafad fwynlan ?

Iawn gofiwn am y Ddafad dda,
Pan byddo'r gaua' 'n rhuo ;
Pan guro'r gwlaw—a ninnau'n glyd,
Boed parch o hyd i honno.

Ei gwisgoedd hi i ni sy'n nawdd,—
Mae hi wrth glawdd yn delwi :
Dangoswn fyth y gorau fan
I fod yn drigfan iddi.

PENNILLION

A wnaed yn ddifyfyr i annerch Siôn y Pannwr, o Ryd-Owen, Ceredigion, ar ei waith yn myned â THELYN DEWI, sef gwaith prydyddawl y Parch. David Davis, o Gastell-Hywel, i Gastell-Nedd, i'w anfon oddi yno i'r Argraphwasg, Mawrth 8fed, 1823.

O Siôn y Pannwr pennaf,
Mae gennyt waith o'r mwyaf,—
Rho glust i'm geiriau yn ddi feth,
A gwranddo'r peth a draethaf.

O gochel ffos a nentydd,
A phob rhyw ddrwg afonydd,
Rhyw bwysfawr waith â thi sy 'nglyn,
Sef cario Telyn Dafydd.

Nid yw holl aur yr India,
Na golud maith Ewropa,
O gymmaint gwerth â'r baich y sydd
Ar ben dy ysgwydd, cofia.

Ni raid it' ofni'r Gelyn,
Os daw ef yn dy erbyn,
Yn fawr ei boen fe red i bant
Ond taro tant y Delyn.

Hen Saul gai heddwch iddo,
A'r Drwg-wr fyddai'n cilio,
Pan gym'rai Dafydd delyn gain,
A rhoi ei sain i swnio.

Na 'wed wrth wŷr Morganwg
 Un gair,—cerdd ar dy gilwg,
 Rhag dwyn o neb, b'ai 'n chwerw 'r tro,
 Y Delyn o dy olwg.

I' th gwrdd os na ddaw'r Gelyn,
 Na chynnyg chwarau'r Delyn,
 Rhag ofn yr âi, ar ben rhyw ros,
 I aros yno flwyddyn.

Mae 'i dolef fel y diliau ;
 Mae mêl a gwin o'i genau ;
 Nid âi di byth o'r fan i ffwrdd,
 Os bydd it' gwrdd â'i thannau.

Gan hynny nac arosa,
 Ond rhed fel march cyflyma'
 Mewn oriau naw i Gastell-Nedd,
 Cei dâl a hedd o'r hawdda'.

YMDDIDDAN-GERDD.

DEWI.

Y CYFAILL mwyn cofus, a welwyd yn hwylus,
 Mae cwrdd yn ddiddanus, iaith hoenus, â thi ;
 Fy llaw o gariadwaith it' estyn yn dystwaith,
 Ddiweniaith gydymaith, gâd imi.

IDWAL.

Bu Idwal mor heini' â'r hydd, ac yn rhoddi
 I sôn waith i synnu cyn nagu o'i nerth;
 Ond henaint anhoenus a drodd yn anweddus
 Un nwyfus, iawn ddawnus, yn ddinerth.

DEWI.

Yn hen yr wyf f' hunan, a'm hagwedd yn egwan;
 E ddengys yr oedran wall buan lle bo;
 Gadewn dros ychydig fan hon, mae'n fan unig,
 I'n pwysig gyrph ysig orphwyso.

IDWAL.

Mae 'm berrau 'n llwyr barod i hyn, ac nid hynod;
 Ymwasgwn i gysgod o gryfdod y gwres;
 I'n gilydd am unwaith iawn rhoddi mewn rhydd-
 iaith,
 O'n dwyswaith, lew henwaith, ail hanes.

DEWI.

Am godwm myg odiaeth o'it, wr, â'th naturiaeth
 I honni'r frêniniaeth trwy'r dalaeth yn dêg,—
 Ar ymffrost trwy'r ardal lle rhodiet, frawd Idwal,
 Was arial, digystal, doi gosteg.

IDWAL.

Am bêl yr o'it tithau, gâr Dewi, trwy'r Dëau,
 Yn fawr ar ryw forau mewn seiniau, mewn sôn;
 O'th weled b'ai synnu, mor ysgafn, mor wisgi
 I'r clochdy 'n dewr godi d' ergydion,

DEWI.

A gofi di 'n gyfan Wil Llwyd o'r Pantllydan,
 Gwr hwylus, goreulan, iawn ddidan i'w ddydd?
 Collasoch fawr ffynnon o chwys ar achosion,
 Ddau lon, o un galon â'u gilydd.

IDWAL.

Mae'th iaith yn fy ngweithio'nail fyw (pwy all feio?)
 Hynodwych am neidio fu'r dwndro, un dydd;
 Ti gofi yr awr'on, da gwn, yn deg union,
 Dai Salmon ac Einon y cynydd.

DEWI.

Mae'r hen fechgyn llawen â'u deurudd mewn dae'ren;
 Rhyw eilfath o elfen anniben sy 'nawr;
 Llawn enllib a drygfoes a rhagrith cas rhygroes
 Yw 'r oes, er du oerloes daearlawr.

IDWAL.

Da wir yw dy eiriau, diweddodd y dyddiau
 O fyned i fannau llon chwarau a chân;
 Yn awr yn ein oeroes, wahanol i'r henoës,
 Nôd eirioes gwareiddfoes yw griddfan.

DEWI.

Gwna wyneb o lasfwg ac aelau ar gilwg,
 E'th fernir yn amlwg, ddwys olwg, yn sant;
 Seguryd os ceri, i bulpid cei'th helpu,
 A'th fawrfri dwsenni da seiniant.

IDWAL.

Yr efail, le gorau o gwmpas am gampau,
 Mewn diddan well dyddiau, 'nawr (swyddau rhy
 sâl,)
 Er gwenwyn i Gymru, 'r bai syn o absennu,
 Drwg si, a goganu ga gynnal.

DEWI.

Tra boddol y byddid, heb gynnen nac anwyd,
 Yn geinfalch mewn gwynfyd pan bwridd y barr ;
 Sawl garo yr awr'on yn fawr hen arferion,
 Barn dynion e'n union yn anwar.

IDWAL.

Mae sw'n y byd newydd yn gryfach am grefydd ;
 A ydyw'n dda ddedwydd ar gynnydd mewn gwir
 Ryw awr gywir eirian, pan elwir yn wiwlan
 Y cyfan i'r glorian, eglurir.

DEWI.

Mil mwy o genfigen, os llai sydd yn llawen,
 At gelwydd mwy elfen is haulwen y sydd ;
 A gyrrwyd Brawdgarwch, dad addwyn dedwydd-
 wch,
 A'r fflwch hen dawelwch o'n dolydd.

IDWAL.

Dynionach eu gilydd a grafant am grefydd,
 Lom un yr ymenydd, frwnt awydd ein tir ;

Am grefydd o'r ffynnon, wna'n dêr ac yn dirion,
O'r eigion naws calon nis gwylir.

DEWI.

Ein dyled yn olau a roir mewn byr eiriau,
A'i ddeall yn ddiau wna doniau pob dyn,—
Sef caru Duw 'nghynta' yn hylwyr anwyla',
Ac yna 'n barod-dda ein brawd-ddyn.

IDWAL.

Y cerdded i'r cyrddau, a'r nâd a'r och'neidiau,
Ni wnant yn ddiammau lwys orau lesâd,
Heb fod yn gyfrodedd, trwy helynt a haeledd,
I Dduw yn anrhydedd ein rhodiad.

DEWI.

A geir yn rhagori 'r dô hon mewn daioni,
'N ol dëol i dewi bob digri' waith dyn?
A ddyry gwyr gwaraidd ein hoes yn fwynawsaidd
A chlau i ddall llwydaidd ddilledyn?

IDWAL.

'Nol cyrddau a griddfan o'r cof yr â'r cyfan;
Pob un drosto 'i hunan, waith Satan, y sydd,—
Yn lle gwneyd yn fwynlon, 'nol gair y Duw gwirion,
Dda 'n ffyddlon o galon i'w gilydd.

DEWI.

Fy hunan e's neithiwr i glydwydych dÿ gwladwr,
Gryf hyddoeth grefyddwr, a mawr-wr llawn
modd,



Am fenthyg, dan angen, rhag aball rhyw ddiben,
Im' chweugain o'i goden,—e'i gwadodd.

IDWAL.

Y gwr sydd ag arian nis try at y truan,
Cais ennil, gas anian, oer bagan, aur byd ;
O'i flaen pan yn rhyfedd yn aros, iawn wiredd,
Mae oeredd y culfedd ac eilfyd.

DEWI.

Pan gynt awn o gartre' ar daith dros fynyddau,
Gofalu rhag eisiau ni fyddai am fwyd ;
Cawn gynnyg, mi honna', yn hylon, lawn wala,
Yn wiwdda i'm bola 'mhob aelwyd.

IDWAL.

Os gwelir gwas gwaelaidd, truanwawr, estronaidd
Yr awrhon â'i duedd, hynt wanaidd, at dŷ ;
Yr hwswi am guddfa, rhag cardod i'r gwrda,
A frysia, wawr boda, i'r beudŷ.

DEWI.

O'r ffermdŷ i'r pentre' ni ddaw 'nawr yn ddiau
Bur lawn ysteneidiau yn forau o faidd,—
I'r twlc hwn yn heini' i gyd gaiff ei godi
I borthi 'r gwydch wiwlu gwichialaidd.

IDWAL.

Y gwael y'nghrog eled ; rhaid talu y dyled
Mewn siopau heb arbed dros Farged, y ferch,

Sy'n ofni 'n lled ènbyd, y felen hwch fawlyd,
Cyn maglu dyn ynyfyd, daw 'n henferch.

DEWI.

Ti nodaiſt, 'rwy 'n gwybod, gan waith y genethod,
I'w mysg fath orhynod, fursendod y sy ;
Arferant ryw fyriaith hyll iawn, ac nid lloniaith,
Fel pe b'ai 'n llafurwaith llefaru.

IDWAL.

Os tra chywilyddgar ei hagwedd anhygar,
Heb arfer iaith hawddgar a dengar y dydd,
Y feinwen rydd fwynair da iawn, ac nid anair,
Y nos mewn tew lwydwair towlodydd.

DEWI.

O hyn y mae profion yn digwydd uwch digon,
Yn faich ar yr hwsmon â'i galon dan gur,—
Tra Thwm dan ddû gwmmwl yn holi 'n dra manwl
Pris gwaith caib a morthw'l ym Merthyr.¹

IDWAL.

Ar Mary 'th wraig gynta', a chwarddai'n iach
wirdda,
Bu caru o'r mwya', o'r tynna' trwy 'r tir,—
Yn bur daeth y lodes er hyn, e'i gŵyr hanes,
Yn lles i dy fynwes, da feinir.

¹ Dinas noddfa tadau basdarddiaid yn y Deheubarth.

DEWI.

Bol mawr y pryd hwnnw oedd surwarth dwys arw
 I ferch, a gwnai 'i gadw rhag sylw a si ;
 Mae'n awr yn anwaraidd, yn lle deuddyn gwedd-
 aidd,
 Mewn cwlwm *dri* 'n rhwydddaidd i'w rhoddi.

IDWAL.

Ble 'n dêg mae'r diwygiad a fostir yn wastad
 Gan lu, a'r goleuad mewn siarad y sy ?
 Gwae gwyr y gwag eiriau sy'n hudo eneidiau ;
 Gwel wallau dy gamrau, da Gymru.

DEWI.

Boed gweled yn llwyddo mewn iawn fraint ein
 henfro,
 Y gwir yn blaguro, 'n blodeuo, bob dydd,—
 A chariad cyffredin 'n egino 'n nhir gwenwyn,
 A therfyn ar golyn oer gelwydd.

IDWAL.

Doe yna i dywynnu gwawr nef gan degnofi
 Ein daear o ddeutu 'n wych longu a chlau,—
 Yr eos i byngcio yn lwysfaint i'r lasfro,
 A'i thôn yn mwyneiddio 'n mynyddau.

DEWI.

Cyfarfod â'n gilydd fu 'n odiaeth o ddedwydd,
 Sai' 'n hir dy leferydd mwyn gwiwrydd ar go' ;

Yn rhodd dyma gyllell dra lliwgar o'm llogell
It', gyfaill, am gymhell ymgomio.

IDWAL.

Fy hen ffwch tybacco gei dithau i gyd-deithio ;
(Ar hirnaid mae arno lun cadno mawr certh,)
Ef derbyn yn heini', a chadw 'n wych wedi,
I'm cofio 'n hir, Dewi, er diwerth.

I'R CYBYDD.

O MOR atgas ydyw'r Cybydd,
Ar hyd y nos,
Heb ddim cwsg, yn llwyr aflonydd,
Ar hyd y nos,
Tra mae'n meddwl am ei arian,
Yn ei gur, gan fethu hepian,
A'i hen siol yn llawn o ffwdan,
Ar hyd y nos.

Wrth ei ganwyll ddu ac aflan,
Ar hyd y nos,
Fel ei galon ef ei hunan,
Ar hyd y nos,
Rhif ei goden fil o weithiau,
Gan ddywedyd, Gwnaf fy ngorau
I'w rhoi'n llawn, er goddef eisiau,
Ar hyd y nos.

Mynna' 'i llanw, doed a ddelo,
 Ar hyd y nos;
 Hoff i mi onestrwydd cadno;
 Ar hyd y nos;
 Ni wrandawaf gŵyn y gweinion
 Fwy nâ'r barcud 'sgrech y cywion;
 Dim i mi ond arian ddigon,
 Ar hyd y nos.

Dyma iaith y Cybydd aflan,
 Ar hyd y nos,
 Sydd yn byw fel hen ddylluan,
 Ar hyd y nos:
 Pan bo'r byd yn llonydd huno,
 Ei ofalon yw dyfeisio
 Sut i gasglu'r aur trwy dwyllo,
 Ar hyd y nos.

Pan bo'i bwys ar wely carpiog,
 Ar hyd y nos,
 Gofid hwn sy 'nghylch y geiniog,
 Ar hyd y nos:
 Pan y cwsg am ennyd fechan,
 Yn ei freuddwyd cyll ei arian,—
 Yna'n wyllt rhydd fawrfloedd allan,
 Ar hyd y nos.

Y mae Satan yn datguddio,
 Ar hyd y nos,

Llwybrau anghyfiawnder iddo,
 Ar hyd y nos ;
 Y mae llawer o ymddiddan
 Rhwng y ddau am bethau aflan,
 Tra mae'r byd yn tawel hepian,
 Ar hyd y nos.

CYWYDD Y GLOCH OFNAD- WY,

NEU'R WRAIG GECRUS.

Clywch gloch rhwng dwy foch fychain,
 Rydd, heb rus, arswydus sain :
 Cloch yw hon, clywch ei hanes,
 A yrr o dŷ 'n llwyr ei des ;
 Ei sain ddadchwala 'r synwyr,
 Hyll y gosp, ond llu a'i gŵyr,—
 Cloch boenus, ingus, aingall,—
 Anniddig fiwsig y Fall,—
 Cloch yr angau ! clywch ringyll
 Gwelw, anhardd, y gelyn hyll :
 Cloch y diawl, clywch ei dolef,—
 Ciliaw o'i nych yw cael nef.
 O ! am ogof i 'mddofi
 O glyw swn ei dig-lais hi,—
 Neu wâl ar fawr-fryn niwlog,
 A'i grib fel y Frenni¹ grôg :

¹ Mynydd yn swydd Benfro.

Crochsain y cigfrain o'u co',
 Yna 'n chwiban uwch abo,
 Goddefwn yn deg ddifyr ;—
 Ond sain hon y galon gyrr
 Ar wasgar, gan oresgyn
 Cynneddfau a doniau dyn.
 Canu 'r gloch, gwyddoch, heb gél,
 Y Sabbath wna Jesebel :
 Tawed gwynt a hyll hynt llif,
 Ni thaw hon â'i chnith heinif :
 Gwae a gym'ro, yn llo llaith,
 Y gloch hon i'w gylch unwaith.
 Ni cha gawr, och ! ei gwared,
Nae arian holl groywlan Gred ;
 Cloch firaeth yr ymyrraeth mawr,
 Dilyn wna hon hyd elawr.
 Gloch ofnadwy ! yn pwyo
 O siol gwr ei sylw a'i go'.
 Efallai mewn cyfeillach,
 Pan bo'th fron yn wiwlon iach,
 Y try yma 'r twrf tramawr
 A dyr hedd y wledd i lawr.
 Gwna'r gloch i'r moch drwm achwyn
 Lawer tro, glwy' ar y trwyn,—
 A'r cwn o'r swyn gresynol
 Ffoant draw gan siglaw'r siol.
 Y cathod, mewn ofn cethin,
 Mewn cyfyngder, blyngder blin,
 A lechant ar le uchod,
 Fan rhydd, a da fydd ei fod.

Gan nerth ei llais, hagrlais hi,
 O'u laesdrefn cwmp y llestri
 Yn chwilfriw,—mae'n uchelfr faint
 A byd o hedd bod o'i haint.

Yn barod yn y borau
 Mae sain hagr-groch y gloch glau ;
 Cyn nawn trwm iawn d' ymenydd
 Yn faich yn dy iad a fydd :
 Gwell it' heno dan glo 'n glaf
 Daer alw am dy awr olaf.

CAN Y GWAHODDWR.¹

Dydd da i chwi bobol, o'r hynaf i'r baban ;
 Mae Stephen Wahoddwr â chwi am ymddiddan ;
 Gyfeillion da mwynaid, os felly 'ch dymuniad,
 Cewch gennyf fy neges yn gynnes ar ganiad,

Y mae rhyw greadur trwy 'r byd yn grwydredig,
 Nis gwn i yn hollol ai glanwedd, ai hyllig,
 Ag sydd i laweroedd yn gwneuthur doluriad,
 Ar bawb yn gongcwerwr, a'i enw yw CARIAD.

¹ Yr arfer o gynnal neithiorau a gwahodd iddynt sydd gyffredinol iawn yn swydd Geredigion.

Yr ifaingc, yn awchus, a dery fynychaf
 A'i saeth trwy eu hasen, mewn modd truenusaf;
 Ond weithiau â'i fwa fe ddwg, yn o fuan,
 O dan ei lywodraeth y rhai canol oedran.

Weithiau mae 'n taro, yn lled annaturiol,
 Nes byddont yn babwyr yn wir yr hen bobol;
 Mi glywais am rywun a g'as, yn aflawen,
 Y bendro 'n ei wegil yn ol pedwar ugain.

A thyma 'r creadur, trwy 'r hollfyd wrth grwydro,
 A d'rawodd y ddauddyn wyf drostynt yn teithio
 I hol eich cynnorthwy a'ch nodedd i'w nerthu,
 Yn ol a gewch chwithau pan ddel hwn i'ch brathu.

Ymdrechwch i ddala i fynu, yn ddilys,
 Bawb oll yr hen gwstwm, nid yw yn rhy gostus,—
 Sef rhoddi rhyw swlltach, rai 'nol eu cysylltu,
 E fydd y gwyr ifaingc yn foddgar o'u meddu.

Cânt brynu rhyw bethau ynghyd, gan obeithio
 Byw yn o dawel, a'u plant yn blodeuo;
 Dwyn bywyd mor ddewis wrth drin yr hen ddaear
 A Brenin y Seison, neu gynt yr hen Cæsar.

Can's nid wyf fi 'n meddwl mai golud a moddion
 Sy'n gwneuthur dedwyddwch, dyweden' hwy
 wedon';

Mae gofid i'r dynion sy 'n byw mewn sidanau,
 Gwir yw mai'r byd hawsaf yw byw heb ddim eisiau.

'Roedd Brenin mawr Lloeger² a'i wraig yn alluog,
 A chig yn eu crochan—ond etto'n byw 'n'sgrechog;
 Pe cawsai y dwliaid y gaib yn eu dwylo,
 Yr wyf yn ystyried y bu'sai llai 'stwrrio.

Can's cynnal rhyw gweryl yr oent am y goron,
 Ac ymladd â'u gilydd, a hynny o'r galon;
 'Rwy 'n barod i dyngu, er cymmaint ein hangen,
 Nad oent hwy mor ddedwydd â Stephen a Madlen.³

* * * * *

Yr wyf yn attolwg ar bob un o'r teulu
 I gofio fy neges wyf wedi fynegi,⁴
 Rhag i'r pâr ifaingc ddyweyd, y pryd hynny,
 Os na chânt ddim digon, mai fi fu 'n diogi.

Chwi gewch yno roeso, 'rwy'n gwybod, o'r hawsaf,
 A bara a chaws ddigon—on'dê mi a ddigiau;
 Caiff pawb ei ewyllys, dybacco, pibelli,
 A diod hoff ryfedd—'rwyf fi wedi 'i phrofi.

² Y gân hon a gyfansoddwyd yn glau ar ol yr holiad cyhoedd a wnaeth y Brenin Sior y pedwerydd ynghylch ymddygiad y Frenhines Caroline, ei wraig, 1820.

³ Magdalen, enw gwraig y Gwahoddwr.

⁴ Y mae y Gwahoddwr yn dechreu y pennill hwn ar ol dywedyd mewn rhyddiaith, y pethau mwyaf neillduol; megis, enwau y dynion ieuaiagc, &c.

Gwel'd digrif gwmpeini wy 'n garu 'n rhagorol,
 Byw 'n wastad mewn gofid sy 'n oerwae gauafol,—
 Mae amser i gwyno, mae amser i ganu,
 Gwir yw mai hen hanes a ddywed in' hynny.

Cwpanau da fawrion a dynion difyrus
 I mi sy ryw olwg o'r hen amser hwylus ;
 Ac nid wyf fi 'n digio, os gwaeddi wna rhywun,
 Yng nghornel y 'stafell,—A yfwch chwi, Stephen?⁵

Dydd da i chwi weithian ; mae 'n rhaid i mi deithio
 Dros fryniau, a bronnydd, a gwaunydd, dan gwyno ;
 Gan 'stormydd tra awchus a chan y gwlaw uchel
 Caf fi lawer cernod—a chwithau 'n y cornel.

ANNERCH YR AWDWR I'W GI.¹

AWST 6ed, 1826.

YLENI etto, Carlo bach,
 Mae'r boblach fel y llynedd,
 Yn myn'd â'r crymman, yn ei bryd,
 I dorri 'r yd melynwedd.

⁵ Enw y Gwahoddwr, sef Stephen Sion Ellis, Dihewyd, Ceredigion.

¹ Dealler mai Ci adar yw.

Y mae 'r deuddegfed Awst gerllaw,
 I'r mynydd draw rhaid codi :
 Sut yr ymdeimli at dy waith,
 D' arferol lonwaith, 'leni ?

Y mae dy lygaid braidd yn gweyd
 Y ceisi wneyd dy orau,
 Ac mai 'th hyfrydwch, doed a ddel,
 Yw myn'd lle 'r elwyf finnau.

Daw hela petris cyn bo hir,—
 A dd'wedi 'r gwir yleni,
 Drwy ddangos imi, â dy drwyn,
 Le byddont hwy 'n trigfannu ?

A godi 'th droed yn gynnil wâr,
 Rhag tarfu 'r adar glwysfad ?
 Ac a ddisgwyli, rhag cael sèn,
 Nes delo 'th berchen attad ?

Os cwyd 'sgyfarnog o dy fla'n,
 A dd'wedi 'n fuan wrthi,
 Yr wyt nâ mi yn llawer cynt,
 Dydd da, rhwydd helynt iti ?

A âi di 'leni ar dy dôr,
 Heb gynghor, gwg, na rhybudd,
 Tra byddwyf fi, yn dwym fy mryd,
 Yn darpar ergyd newydd ?

Fel hyn arferit wneyd, heb lai,
 Yn llwyr ddi fai 'th wasanaeth,—
 Dealli 'n lew, fel pawb o'th lin,
 Y ffordd i drin helwriaeth.

Mae rhyngu 'm bodd, fy ffyddlon Gi,
 Da gwn, i ti 'n hyfrydwch,—
 A'm canlyn ar fy nhaith, bob awr,
 Rydd iti fawr ddiarwch.

Yn rhydd pan gaffot dd'od o'th dŷ,
 Fy ol ddilyni 'n fuan,—
 A gofid prudd fydd ar dy ael
 Nes iti 'm caffael allan,

Ti fuost bedair blwyddyn falth
 Yn fwyn gydymaith imi,
 Dros lawer iawn o barthau 'r byd,
 Yn diddan gyd-drafaelu.

Os imi bu cyfeillion gau
 Yn peri oriau tristaf;
 Mi ges fy nghi, o dan fy nghwyn,
 Yn gyfaill mwyn ffyddlonaf.

Mewn serch cywirach wyt, was cu,
 Nâ dynion, deulu 'r gweniaith;
 Gwell fu'sai 'm ffydd mewn cant, pe 'n bod,
 Fel ti, heb wybod uniaith.

Ar ol dy holl ffyddlondeb di,
 A fyddaf fi mor greulon
 Ag, yn dy henaint, pan y daw,
 It' omedd llaw gariadlon.

Cei ran yn dda, beth benna' ddel,
 O 'myd yn dawel, Carlo,—
 Cei ran o'r tŷ, cei ran o'r tân,
 Gwas eirian, i'th gysuro.

I HEN WRACH DAFODOG.

ERGLYW, yr hen wrach fawrglap—â'th goryn
 Yn maith garu dyfnglap;
 Cadw di hagrroch gloch y glap
 Dan ddeuglo, nes daw 'n ddiglap.

A gesgli di atgasglap—yn ddewrlym,
 Gan ddarllaw newyddglap?
 Diweddglo'th annedwyddglap
 Fo carchar, rhag clochdar clap.

Dewisglod am ei dwysglap,—a moliant,
 Gaiff melin gysonglap;
 Och! hollglod hen wrach hylglap
 Sydd rhwng carwyr, cludwyr clap.

DYDDIAU PYSGOTTA.

Yn nyddiau 'r gwanwyn tirion,
Hoff gennyf lannau 'r afon,
A chynnyg tammaid tég ei rân
Yn dwyll i'w glân drigolion.

O'r de' ar glau adenydd,
Pan ddaw 'r awelon gwiwrydd,
Mwynderau gwell nag eiddo 'r gwin
A geir ar fin afonydd.

Ceir yma awyr rywiog,
A gwenau dolydd deiliog,
A hudo deiliaid heirdd y dwr,
Sy 'nawr mewn cyflwr bywiog.

Yn neidio at wybedyn
Mae'r rhai'n; rhof finnau blufyn,
Fu'n harddu 'r ceiliog dwys ei dôn,
O amgylch bôn fy machyn.

Y mae o'r unlliw 'n union
Ag yw 'r gwybedyn gwiwlon:
Yn awr, mi roddaf hwn ar waith
Ar wyneb maith yr afon.

Ha! neidiaist, lân bysgodyn,
Ond aist yn ol yn sydyn,—
Mae arnat eisiau meddyg mwyn,—
Yn cwrdd â'th drwyn bu gelyn.

Fan draw wrth fôn y wernen
 Mi daffaf flaen fy ffunen,—
 Mae acw 'n gorwedd hyfryd langc,
 Os yw 'n ei wangc, yn llawen.

Y mae e wedi cydio,—
 Mae 'r *reel* yn erchyll swnio!
 Yr wyf yn gryndod oll a braw!
 Beth, beth a daw o hono!

Wialen! wyt fel bwa;
 Un mawr yw hwn mi honna',—
 Ni welais etto ddim o'r gwalch,
 Ond byddaf falch i'w ddala.

Mae eisiau 'i gael i'r golwg,—
 Ar fyr fe naid i'r amlwg:
 Wel, dyna fe:—ryfeddawl faint!
 A wel'soch faint yr hwdwg!

Fe roddodd naid adwythig
 Fry uwch y donn mewn mawrddig;
 Ond trwy yr eigion, etto 'nawr,
 Y bratha 'r cawr mileinig.

Y mae 'n dri phwys o'r lleiaf,—
 B'wyf gynnill iawn rhag anaf:
 Os daw y llanc yn dêg i dir,
 Ar hwn yn hir mi syllaf.

Mae 'i rym a'i nerth yn cilio,—
 Mae 'n bryd i mi ei dirio :
 Y mae e 'n nesu at y làn,
 Arafwyf! gan ymrwyfo.

Fe'm gwelodd! aeth fel gwennol
 Yn ôl i'r pwll yn wrol :
 Ond fe gaiff brofi, er fy nghlod,
 Ar fyr ei fod yn farwol.

I'r gro myfi a'i tynnaf,—
 Cerdd atto, was, yn araf,
 A chymmer afael dêg dros ben
 O'i gragen, neu mi'th grogaf!

Wel, dyna fe mewn dalfa,—
 Mae ganddo safn erchylla'!
 Nid oedd yn rhyfedd, hyn sydd wir,
 I'r filain hir ryfela.

ENGLYNION,

Yn glod i Lyfr Cymraeg, a elwir RHIFYDDIAETH YN RHWYDD-
 ACH, gan y Parch. E. Lewis, Cilgwyn, Ceredigion.

GYMRY, down a rhown yn rhydd—i Lewis
 Oleuaf fawl beunydd :
 Ar RIFYDDIAETH daeth i'n dydd
 Gwawl addysg fel goleuddydd.

Yn ein hen iaith ein hunain—y gwelir
 Y gwiwlwys lyfr cywrain ;
 Y gwaith cu ac eitha' cain,
 Saif yn bur fel mur mirain.

Nid uniawn amddawn neudda ddysg—y trown
 At estroniaid gwaelddysg,
 Ar daen pan y mae'n ein mysg
 Hygar roddion goreuddysg.

A gladdwn ni'n goleuddysg,—i chwilio
 A choledd Saesondysg ?
 Harddach a dwysach yw dysg,
 Gwiw ammod, fo'n ddigymmysg.

Mae dynion llym eu doniau—yn ein gwlad,
 Dynion glew eu pennau ;
 Ein gwarth yw myn'd o'n parthau
 I ddilyn peth ddeil ein pau.

Digaeth RIFYDDIARTH sydd foddion—i ddyn
 Feddiannu dysg wiwlon
 Am waith hardd-deg, iawndeg, Iôn,—
 Am y sêr a'u mesuron ;

Am yr haul araul eirian,—y lleuad,
 Gorph lliwus goreulan,
 A'r planedau talpau tân
 Neu berlau y ne' burlan.

A'r llong, sy'n myned er lles,—yn loywdeg,
 I wledydd y twymwres,
 GWYBODAETH a wnaeth yn nes,
 Hardd arwydd, ei ffyrdd eres.

Lles mwyngu o fedru fydd—mesur cae,
 Mesur coed neu welydd,
 Er gweled ar ei g'wilydd
 Sawl fynno'th dwyllo, un dydd.

Cufraint a fydd cadw cyfri',—yn lewgall,
 Gyflogau a threthi,
 A'r gasgen,¹ yn wr gwisgi,
 Bwrw ei swm a'i holl bris hi.

A bwrw faint yn iawnbur a fydd—i'r gof,
 Wr gwiwfwyn a chelfydd,—
 I'r ceibiwr,—ac i'r cybydd
 Na ry' am ddim aur am² dydd.

Eithaf iawn i'r *wraig* hithau,—gu wiwfron,
 Lân gyfri, 'i phryniadau,
 Cur i'w gŵr, y câr gorau,
 Cyrchu 'r corph i'r carchar cau.

¹ Y gasgen ymenyn.

² dros.



CWLWM PRIODAS.

CWLWM yw sy'n gwneyd *un* calon—o ddwy,
 A'i ddeall yn union :
 Arafwch, deg wryfon,
 Yn forau, a llangciau llon.

Da gwelwch fod dwy galon—o hynod
 Wahaniaeth uwch digon :
 Uno'n bur y ddwy'n un bôn
 Sydd anhawdd wers i ddynion.

Cwlwm yw nad oes cilio—o'i afael
 Nes dyfod i'r amdo :
 Rhwydd ar awr y rhoddir o,
 Ei ddattawd nid rhwydd etto.

Gwnïo enaid gwenwynig,—warth oer,
 Wrth arall fo diddig !!
 Astud iawn mewn stad unig
 Cymmer bwyll rhag du-dwyll dig.

Gweled rhoi oenig wiwlan,—angylaidd,
 Yng nghwlwm â llyffan,
 Ar ei llw wrth allor Llan !
 Dyna wedd led anniddan.

Noddi etto sy'n anniddan—i wr
 Ryw anwarwyllt Satan,
 A'i thymmer o lwyth Haman,
 Trwy y tŷ yn taro tân.

CLOD I BONT ABERCERDINEN,

Gerllaw Llanwnen, Ceredigion.—1820.

PONT Abercerdinen a geir yn un gywrain,
 Un liwus, oleuwen, un lawen i'r wlad ;
 Pont ydyw baentiedig, un gadarn gauedig,
 Arbennig, asiedig osodiad.

Pan ddelo llifogydd, oer ddiluw, ar ddolydd,
 Bydd hon, heb ddihenydd, er gwiwfudd i gânt ;
 Y lanaf Bont lonwedd, ar afon bydd ryfedd
 Ei gwedd, er holl fawredd llifeiriant.

Y dalaeth o hirbell a grynai rhag Grannell,¹—
 Ei phydew a'i phadell oedd fflangell a phlâ ;
 Yn awr ysgyrniged, ei gwaethaf bygythied,
 Caf fyned i'w cherdded,—a chwardda'.

Oll union, fal llinyn, yw'r ffordd i Gaerfyrddin,
 I waered â'r werin heb ddefnyn o ddwr ;

¹ Enw yr afon ar yr hon y mae'r bont yn sefyll.

O weled fath welydd o'n blaen mor ysblennydd,
 Rhown beunydd iawn glodydd i'n Gwladwr².

PENNILLION

I Filgi o'r enw Topper, eiddo J. N. Williams, Yswain, Castle Hill, Ceredigion, yr hwn wrth redeg a gwmpodd yn farw yn ddisymwth ar y maes, trwy niweid tufewnol, ac a gadd ei gladdu ar y man, ar y dydd cyntaf o redegfa ymorchestol milgwn o eiddo gwahanol Foneddigion o gymmydogaeth Aberystwyth, a gymmerodd le yn Hydref y flwyddyn 1825, ar fynydd-dir¹ Siôn Quilt, Llanarth, Ceredigion. Yr oedd y Milgi hwn wedi ennill y dydd ym mhob ymdrechfa y bu ynddi erioed.

FAN hon y mae 'n gorwedd yn dawel dan gudd
 Glew Filgi fu hoenus, fu ddewr yn ei ddydd :
 Ei enw oedd Topper,—fe ddaliodd gan' waith
 'Sgyfarnog gyflymaf ar fynydd hir faith.

Ar Topper ni chariodd un milgi *erio'd*,
 Ac angau a welodd mai *digon* ei glod ;
 Ac felly fe 'i t'rawodd, fel gallem ni gael
 Ymryson f'ai tecach rhwng cwnach mwy gwael.

² T. H. Jones, Yswain, Neuadd-fawr.

¹ Y mynydd-dir hwn a gadd ei enw oddiwrth fwthyn unigol a aneddid, dro yn ol, gan ddydd tlawd o'r enw Siôn, hugan (*coat*) yr hwn oedd wedi ei chlytio â derynnau brethyn o amryw liwiau, fel, gan ei bod yn tebygoli i *G-rilt* yn fwy na dim arall, y dygodd i'w pheichenog yr enw Siôn Quilt, ac i'w anedde, Ty Siôn Quilt.

Pan ddelo 'sgyfarnog galonog ei gwedd
 Un amser i bori yn agos i'w fedd,
 Trwy 'i hesgyrn, yn sydyn, rhyw ddychryn a ddaw
 Wrth feddwl fod Topper, er marw, gerllaw.

ARAETH AC ENGLYNION,

A draddodwyd ger bron Eisteddfod Aberhonddu, 1822.

Y MÆ yn llawenydd uwch geiriau i mi ganfod yma heddyw gynnifer o'm cydwladwyr wedi ymgynnull yng nghyd i goledd ac i gynnal iaith ein mamau,—i gefnogi yr iaith honno, at lwyddiant pa un y darfu i amryw o'n cydwladwyr, heb fawr olwg at eu helw eu hunain, ddefnyddio eu hamser a'u talentau i'w chadw yn ddihalog a'i thraddodi i ni yn ddigymmysg. Diolchwn i'r enwogion hynny, o bob oes, a safasant yn wrol o blaid eu gwlad a'u hiaith, pan nad oedd ond ychydig a barchent eu hymdrechiadau. Boed i'r goffadwriaeth am Goronwy Owain, Lewis Morris, y Prydydd Hir, Owain Myfyr, Gwilym Owain, Iolo Morganwg, a ymwrolasant yn y ganrif ddiweddaf i gynnal ac ymddiffyn ein hiaith, fod mewn haeddiannol barch gennym oll. O ddeutu can' mlynedd yn ol, neu ychydig yn llai, yr oedd cymmylau yn duo ar yr hen Gymraeg :—Yr oedd Barddoniaeth, yn enwedig, yn

gweled y bedd yn agor ei safn ac yn barod i gloi arni am byth. Ond bu rhai gwylwyr ffyddlon ar y tyrau. Diolched ein calonnau am eu hymgais,— am bob cynnorthwy a dderbyniwyd ym mhob oes, i gadw yn fyw iaith y Cymry,—iaith a ddylai, er llawer achos, gael mawr barch yn y byd. Un rhagoriaeth enwedigol a berthyn i'n hiaith glodfawr yw ei *hanymddibyniad*. I'w ffynhonell ei hun y mae hi yn ddyledus am y môr helaeth o eiriau godidog ag y mae hi yn eu cynnyg i'w choleddwyr. Y mae hi wedi rhoddi benthyg yn helaeth i ieithoedd eraill, heb echwyna ond ychydig iawn, os dim, ei hun : ac os na cha byth yn ol yr hyn a roddodd ar fenthyg, ni fydd nemmawr mwy gwag. Mae digon etto yn ei mwyn-gloddiau, nid yn unig i ddiwallu eisiau ei theulu ond i ddigoni cardotwyr estronaidd. Gan bawb o'r dysgedigion a goleddasant y Gymraeg, gyda'r un diwydrwydd ag ieithoedd eraill, y mae hi wedi bod mewn rhagorol barch. Mae tystiolaeth fod yr ardderchog ddysgawdwr hwnnw, Syr William Jones, ail i ba un mewn ieithyddiaeth ni welodd un oes o'r byd, yn cwyno na buasai yn ei ieuengctyd wedi llafurio mwy i ddysgu yr iaith Gymraeg, gan weled y buasai yr wybodaeth o honi o les neillduol iddo tuag at olrhain tarddiad ieithoedd y Dwyrain.

Peth arall a berthyn i'n hiaith ogoneddus yw ei *hynafiaeth*. Oddiwrth hyn y mae hi yn enwog iawn trwy y byd, ac mor anwyl i ninnau y gwir Gymry. Y mae y Gymraeg yn adnabyddus, mewn son,

trwy yr holl fyd. Mae hi yn cael ei gadael yr iaith hŷnaf ag sydd heddyw yn fyw ; ond pa un a ydyw hi yr iaith gyntaf a draddodwyd i ddyn, rhy anhawdd dywedyd. Hi fu unwaith yn lledu dros Asia, a chwedi hynny dros y rhan fwyaf o Ewrop, a thros holl Ynys Prydain Fawr. Bu gwybodaeth yn cael ei rhannu trwyddi i ieuengctyd boneddigeiddiaf yr ynys.

“Troja fuit ; fuimus Tröes.”

Trwy ddichellion, trwy frad, trwy ormesiadau, yr ydym ni wedi cael ein gyrru i ran fechan o'r ynys doreithiog ; felly y bu,—felly y trefnodd rhagluniaeth ; na rwgnachwn,—na ddaliwn eiddigedd. Yr unig beth ag ydym ni yn ei geisio, ydyw cael llonyddwch i hoffi, i garu, ac i amgel-eddu yr unig drysor gwerthfawr ag mae ein tadau wedi ei gadw i ni trwy eu holl helbulon,—trwy eu holl boenau. Gymry ! mae ein hiaith heddyw yn fyw ! Boed i ni, yr ychydig ag sydd yn canfod ei hardderchogrwydd, yn teimlo ei melusder, ac yn hoffi ei phereiddlais, gael myned yn y blaen yn ein hymgais i'w chynnal, mewn distawrwydd ac mewn tawelwch. Nid yw y Gymdeithas hon wedi cael ei llunio er terfysgu heddwch nac er magu cenfigen ; eithr i noddi, i feithrin, ac i gynnorthwyo yr hen Gymraeg,—ein mam. Mae ein calonnau yn dywedyd wrthym y dylem wneud y goreu drosti. Mae gwledydd estronol,—mae rhai o drigolion Ffraingc yn dymuno llwyddiant i ni yn ein gwaith : y maent wedi clywed am cin hen *fam*, ac yn

chwennych iddi fyw, gan ewyllysio yn dda i'w meibion a'i cynnorthwyant yn ei hen ddyddiau. Ond (y mae yn gywilydd dywedyd) y mae iddi elynion yn nes atti: mae rhai ag a *ddylent* ei charu, yn ysgyryngu eu dannedd i'w herbyn. Er hyn, cymmerwn gysur: mae hen Gymru wedi gweled llawer o elynion oddiallan ac oddifewn; ond mae hi etto yn fyw. Mae llawer o'i phlant, wedi unwaith ymadael â hi, yn lle cwyno ac hiraethu ar ei hol, gan gofio ei mwynder a'i charedigrwydd, yn cywilyddio ei harddel. Maent yn ymadael â hen Gymru â iaith lân yn eu geneuau; ond dyfod yn ol, fel yr afradlon gynt, yn noethion, heb un iaith!! Teulu Dic Siôn Dafydd yw y rhai hyn: balchder yw eu dechreuad, a chywilydd fydd eu diwedd. Nid oes golled i Gymru am danynt; nid yw yn digaloni o'u herwydd. Mae gwedd yr Eisteddfodau—mae sain telynau—mae canfod ychydig o ffyddlon gyfeillion iddi, fel y gymdeithas hybarch ac anrhydeddus hon, yn sirioli ei hwynebpryd, yn ennynu tân yn ei mynwes, ac yn peri iddi gywir ffyddio mai gwir a lefarodd yr hen Daliesin—“Eu hiaith a gadwant.”

Gymry! a gaiff ein hiaith fyned i'r llwch? yr iaith honno ag sydd wedi gwrthsefyll troadau byd, wedi marchog yn ddiennaf ac yn ddianaf ar adenydd amser, wedi chwerthin yng ngwyneb gelynyon, a beiddio eu holl fygythion. Mae GWLADGARWCH, fel duwies degwawr, yn sefyll y funud hon o flaen fy llygaid, ac yn gwenu wrth weled ein hymdrechiad-

au clodfawr o blaid yr hen Gymraeg. Dyna hefyd yspryd Taliesin, wedi cyfodi o drigfannau y meirwon, yn amneidio arnaf i ail adrodd y geiriau "Eu hiaith a gadwant." Gwelaf ef, â dwrn cauedig ac â braich estynedig, yn barod i drosglwyddo i lwch anghof bob gelyn i'r iaith honno, am ba un y rhagddywedodd efe y parhâi hi byth.

Mal y dywedais o'r blaen, yr oedd y Farddoniaeth Gymraeg, ychydig yn ol, ym mron myned ar feth; ond bu o hyd rai milwyr ffyddlon dros ein gwlad a'n hiaith; ac ar yr 8fed o Fis Gorphenaf, 1819, sef dydd yr Eisteddfod gyntaf yng Nghaerfyrddin, cyfododd haulwen newydd ar hen Gymru a'i hiaith. Ar foreu y diwrnod hwnnw gwelodd yr Awen, â hi yn glaf ar ei gwely, lewyrch newydd yn tannu trwy ffenestr ei hystafell. Teimlodd wres yn treiddio trwy ei holl aelodau; daeth yn ddisym-mwth yn holliach; cyfododd, a gwisgodd wisgoedd ei gogoniant. O hynny hyd heddyw mae hi yn gwledda ar fyrddau pendefigion yr ynys. Mae bonedd y tir yn gwenu arni, ac yn ymhyfrydu yn ei chyfeillach. Er pan gwypodd Llys Ifor Hael hyd foreu y dydd a enwais, yr oedd yr Awen yn byw mewn bwthyn tlawd—yn bwyta bara haidd ac yn llymeitta dwfr. Galarwisg 'a welid yn ei hamgylchu; ond yr oedd o hyd yn cadw yn ei choffr wisgoedd ei gogoniant yn ddifrycheulyd. Ar foreu y dydd a nodais, cyfododd yn gadarn, a llon yw ei gwedd hyd yr awr bresennol; ac mae pob tebygolrwydd na chlafycha byth mwy. Mae

yr Awen wedi priodi—wedi priodi âg anfarwoldeb.
Mae ei phlant yn amlhau ac yn cynnyddu. Wele
gynnifer o honynt o'm hamgylch, yn ieuaingc ac
yn wridog fel ser y bore. Blant yr Awen! Feibion
Anfarwoldeb! llwyddiant i chwi yn eich ym-
drechiadau.

Iechyd a hedd boed i chwi—i gynnal
Gogoniaut a mawrfri
Ein hen iaith anwylfaith ni,
Yn addas byth, a'i noddi.

Areulweis, ym mlaen yr eloch,—yr iaith
Wir ethol a harddoch,—
Cu uniawn byth y canoch,
“A dedwydd beunydd y b'och.”

Bu 'n hiaith dan boenau eithaf—a g'lanastr
Gelynion ffyrnicaf;
Oer gethern! er eu gwaethaf
Arni 'n syw mae heddyw 'n haf.

Bu dy ben ar obenydd—yn glwyfus,—
Bu 'n glaf dy leferydd;
Ond o'r ne' mae 'n dwyre dydd
Etto unwaith it', Wenydd.

Trosti aeth cymmylau trwstan:—gweled
Mae Gwalia fach weithian,
Er mwynhau dyddiau diddan,
Ail oes i gu lais y gân.

Walia a'i hiaith bêr wiwlon—gu ethawl,
 Er gwaethaf gelynion,
 Byw fyddant, mewn llwyddiant llon,
 Tra doniau, tir, a dynion.

Ddewisgoeth, fawrddoeth Feirddion,—er
 rhwystrau,
 Er rhestrawg helbulon,
 Eich heniaith, heb achwynion,
 Cywirwych waith, carwch hon.

Minnau â'm llaes ymennydd,—o'm henaid,
 Ddymunaf ei chynnydd,
 Yn effro, tra dalio 'm dydd,
 I les hon a'r lwys Wenydd.

Gwell i mi yw gallu a maeth—y gerdd
 Nâg aur y byd helaeth;
 Im' bu win, o'm mabaniaeth,
 Eirian ffrwd yr Awen ffraeth.

Iawn lais y bêr Awen lon—i f' enaid
 Rydd fanna hyfrydlon:
 E ga 'r rhai a garo hon
 Fêl i'w yfed fal afon.

Yr Awen lawen ry' wledd—i Feirddion
 Ar fwrdd y gynghanedd,—
 Ciniaw hoff, sef cân a hedd,
 Trwy gulfyd hyd dŷ 'r gwaelfedd.

AWDL

Ar etholiad yr Awdwr i fod yn Fardd i Anrhydeddus Gymdeithas y *Gwyneddigion*, yn Llundain; 1819.

Yr Awen fau, eirian ferch,—wyd union,
Wyd anwyl ddewisferch;
Dyro, iawnfad dirionferch,
Gynnes syw, im' gân o serch,—

O serch, ac annerch i geinion—ddwyswych,
Urddasawl Brydyddion,—
I Gymdeithas, addas sôn,
Ddeheugu'r Gwyneddigion.

Os i'r glod o fod yn Fardd—eirianwych
Yr enwyd iselfaridd,
Profwyf mai swydd pob prif-faridd,
Cain iawn hwyl, yw canu'n hardd.

Diammhur ganiad boed im' ar gynnydd,
Ffraethgu anian a ffrwythawg Awenydd,
Goleu i'm mynwes,—digwl ymenydd,
Bywyd diboenau a byd da beunydd,
I gynnal a dâl i'm dydd—y lwysfad
Bêr wiwgu alwad heb awr o g'wilydd.

Yr Awen wiwffur eirian a hoffais,
 O'm mebyd yn iawn ei dawn adwaenais,
 A myfyriadol yr ymhyfrydais
 Yn y fwyn gywrain wiwfun a gerais,—
 I'm dwyfron bu lon dy lais,—dy wiwlef,
 Fain iawndda oslef, Fanon ddewislais.

Wrth ddarllen iaith wael grygwael y Groegiaid,
 Llwyd achwynion a llawer ochenaid,
 Mawr iawn gwyno am yr Awen gannaid
 A ddoi i'm mynwes oerddu a'm henaid ;
 Wylwn dan y pwn heb baid—am dani,
 A hi yn oeri, ferch hoywen euraid.

A phob rhyw awr gyfan pan o'm poenau
 Y cawn anadliad, acenwn odlau,—
 Hyll bwl waith ydoedd yr holl blethiadau
 Egwan, heb oreulan wiw reolau ;
 Etto i'm min gwin oedd gwau—yn llonydd
 Yr hoywdeg gywydd ar hyd y caeau.

Gymdeithas addas o Awenyddion,
 Chwi ŷch ddewisgoeth iawn fawrddoeth
 Feirddion
 O eurawg Wynedd, rywiogwiw union ;
 Chwi, ddwysgu degweis, ŷch ddysgedigion ;
 Gwyddoch chwi, mewn bri, o'r bron—holl
 fydrau
 Ein heniaith orau uniawn a thirion.

Llwyddiant, beunydd, cynnydd i'ch amcanion
 I gynnal ein hiaith, ddigwliaith gulon,
 Oedd iaith dra addas ddoeth y Derwyddon
 (Iesin ddiwaelbarch) a senedd Albion :
 Iawn ich' o hyd yw chwennych hon—heb gél,
 A hygar arddel ei geiriau heirddion.

Y mwynweis hoywfyg, minnau a safaf
 Yn wiwgain foddus ac yn ufuddaf
 O blaid ein hiaith, bur rwyddiaith bereiddiaf,
 Iawnfaith ei geiriau,—hon fyth a garaf,
 A diwyd y dadweuaf—ei mydrau,
 Ac yn ei rheolau ceinwiw 'r eiliaf.

Hir boed eu helwant i wyr bydolion,
 Dwys aur ac ariant, dewis ragorion,—
 Glandeg anifeiliaid, defaid dofion,—
 Hyd gyrrau eu maesydd dâ grymusion,—
 I *ninnau* boed *Awen* union—addfed,
 A chael ystyried ei chu lais tirion.

Dilyn glwysgain dda fadiain ddefodau
 Uniawn a didwyll ffyrdd ein hen dadau—
 Euro cu addas rywiawg gywyddau,—
 Chwareu y delyn a charu 'i diliau,—
 Dwym oes addas, dyma swyddau—mwynlon
 I bruddaidd galon a bair ddydd golau.

O bêr wiwdda sylwi bardd iselaf
 Ichwi diolwch yn iach a dalaf,—

I'r Gwyneddigion, dynion di anaf,
 Cymry o galon, dwysion dewisaf,
 Da o'm henaid dymunaf—mewn iawn bwyll,
 Yma 'n ddidwyll *Amen* a ddywedaf.

ENGLYNION

A adroddodd yr Awdwr ar y Giniaw yn Llanbedr, Ebrill 6fed, 1824, wrth dderbyn Cwpan Arian—"Gwobrwy ei gyd-wladwyr i Daniel Ddu, o Geredigion, am ei fuddugoliaethau awenyddol yn Eisteddfod Dyfed, Medi, 1823."

DAU fywyd i'r hylaw Awen,—yn ddiau,
 A ddeuodd, is wybren,—
 Un bywyd o surllyd sèn,
 Ac un o hwyl fel cain heulwen,—

Un o haiarn anhywedd,—un arall
 O aur ac anrhydedd;
 Ceir 'nawr am gân, wiwlan wedd,
 Dysglau arian disgleirwedd.

Marw ar diroedd Amerig,—gwir union,
 Wnaeth G'ronwy¹ fawryddig;
 Gado 'i wlad, mwyn dad, mewn dig,
 Am le anial mileinig.

¹ Y Parch. Goronwy Owen.

Haul hoywdeg Cymru'n machludo—'n ddiwres
 Ar ddù oer dywyllfro!
 Briw claf a gaf wrth gofio
 Yr erchyllaf, drymaf dro!

Tad y Beirdd yn alltud y bu—o Fon,
 O fynwes hen Gymru:
 Nì wyddys b'le 'n anneddu
 Mae corph hygar y câr cu!

Gwalia, mawr yw dy gywilydd—heno
 Na hân dy ben-prydydd,
 GORONWY, gâr y Wenydd,
 Yn ei wlad oreufad rydd.

Ar aden pan yr hedwch—uwch ei fedd,
 Iawnwych Fardd eirian-fflwch,
 Awelon y nef, wylwch,
 Yn lle 'i wlad, ar gell ei lwch.

Heddyw i'r sawl a'u haeddant—mae gwobrau,
 Mae gwiwbrid urdduniant;
 Yr Awen, hoff lèn, a'i phlant,
 Boneddion bawb a noddant.

Y Cwpan arian eirioes—a gadwaf
 Yn gudeg trwy 'm heinioes:
 Dianaf, wedi unoes,
 I lawr â drwy lawer oes.

Disgyn y trysor dwysgu—yn arwydd
 I f' wyrion a Chymru
 I'r bêr Awen fwyn wenu
 Yn dawel ar DDANIEL DDU.

Gwêl, Awen fwyngu, lewych—dy wobrwy,—
 Dadebra 'n fywiogwych ;
 Yf lwyddiant, gogoniant gwych,
 Ganoes i Gymru geinwych.

Na attal—moes gerdd etto ;—da weli
 Y dyled sy 'n pwysu ;
 Pob bryn a dyffryn deffro ;
 Gwin neu fêl dy gân a fo.

Dda Wenydd, bydd ddiddanwch—i lawer ;
 Goleua dywyllwch ;
 Pob rinwedd hoff lânwedd fflwch
 Hyrwydda mewn careiddwch.

G O L W G

Ar yr Yspryd Awenyddol yng Ngheredigion, 1823.

CEREDIGION, ceir dy agwedd—o bryd
 Rhyw baradwys geinwedd ;
 Am win glân y gân, dêg wedd,
 Sychedir, syw iach adwedd.

Pob bryn a phob glŷn o'n gwlad—gu weddus
 Sy 'n gwaeddi am ganiad,—
 A Beirddion mwynion a mad,
 Wyr difyr, sydd ar dyfiad.

Un bwth ni chawn heb ieithydd—a chwiliwr
 Iach hoywlais y Wenydd ;
 A chân geir ar ei chynnydd,
 Yn hynaws dêg, nos a dydd.

Gwregys mynyddau grugog—a yrrant,
 Yn wiwrydd a gwresog
 Allan lwys gân—lais y gog
 Dda hwyl, drwy 'n bro ddihalog.

Hardded yw llais y Beirddion—trwy gyrrau
 Tra geirw Ceredigion ;
 Canant o Gapel-Cynon,
 Yn hyfedr, hyd Lanbedr lôn.

Gwelwch Ystrad-Meurig wiwlan—hoywfyg,
 Lwys hafod mwyn anian,
 Llonna' dir, yn llawn o dân
 Eres yr Awen eirian.

Os Edward Rhisiard, rhosyn—y Dêau,
 Sy 'n dawel oer briddyn ;
 Ei dra hoff yspryd, er hyn,
 Ei hen annedd sy 'n ennyd.

Aberystwyth sy 'n llwythog—o ddoniau;
 O ddynion godidog;
 Diau ceir yn flodeuog
 Yma 'n gain emyn y gôg.

Hoff rad y ceir yn ffrydio—yr Awen
 Fwyn rywiog, heb fiino;
 A byth yn ddirai y bo
 Llif anwyl ei llef yno.

Ei thoddi gan Areithyddion—a gaiff
 Y gu hoffaid galon;
 Mae 'u doethder mor dêr â'r dôn
 Ar fin y lân-dref union.

Syw ddienn gymdeithas ddiwyd;—hoywlwys
 Ei rheolau hyfryd;
 A'i hyfwyn Lywydd hefyd
 A geidw 'r rhai'n yn gain i gyd.

Diwyd yw Llwyn-rhyd-Owen—(dewiswaith)
 A Llandyssul addien,
 Y parth lle mae 'n ferw bob pen
 O rywiog ffrwd yr Awen.

Llwydd gwiwlan i'r gân fwyn gu,—a'r Awen
 Oreuwych, trwy Gymru;
 A'i dawn a fo 'n ymdannu
 I arllwys llên er lles llu.

Y FERCH SYRTHIEDIG

YN CWYNO MEWN GWLAD DDIEITHR.

Dychymmyger bod y Ferch wedi ei hudo o ffordd diweirdeb, ym mhell o fro ei genedigaeth, a'i gadael yn ddiymgeledd; fel y mae achos ofni fod cyflwr llawer o ferched Cymru, ag sydd yn myned i Lundain, heb berthynasau ganddynt yno i'w rhybuddio rhag y maglau melldigedig ac uffernol a osodir yno i'w rhwydo. Bwriad yr Awdwr wrth lunio y Gerdd oedd attal y Cymry i ganiattâu i'w perthynasau ieuaingc menywaidd adael eu gwlad, fel y gwneir yn rhy gyffredin, o leiaf yng Ngheredigion, a myned i dir estronol pan na bo ganddynt neb yno i roddi cartref iddynt hyd nes caffont sefyllfa, &c. Nid oes un testun ag a ddwg berthynas â dedwyddwch dyn, a all ofyn ystyriaeth fwy difrifol ar ran rhieni a pherthynasau, dan yr amgylchiadau crybwylledig.

TROM y galon! tra 'r wy' 'n gweled
 Fod fy mawrglwyf hyll cyn ddyfned,
 Fel nad oes, mae 'n fawr fy alaeth,
 Iddo, gwn, un feddyginiaeth;
 Collais drysor gwell nâ 'r hollfyd;
 Trist yw f' artaith!
 Darfu am obaith dewr fy mebyd:
 Darfu 'r blas o weled anian
 Mewn gwedd iachus,
 Ail i f' hoenus hwyl fy hunan.

Mi adewais dŷ 'm rhieni,
 Annedd lawn o burdeb trwyddi,
 Er rhoi son am heirdd rosynau,
 Deurudd lân g'ai gân ugeiniau:

Och! mor hyll yw effaith balchder,
Mawr ei ofid,
Trwy aflendid try i flinder ;
Gwnaeth i lawer dyn mewn du-frac,
Trwy gwypm mawrdrwm,
Wawd o'i gwdwm wedi 'i godiad.

Oll yn swrth myfynnau syrthiais,—
Annawseiddiol iawn y soddais ;
Y mae'r adyn fu 'n fy hudo,
Heb dosturi, gwedi 'm gado :
Nid oes neb yn fy adnabod,
Gur adwythig !
Yn oer hyllig aua' 'nhrallod :
Enw oedd i'm clust mor affan
Yn fy henfro,
Mae fe heno i mi fy hunan !

Trwm yw f' oerwae tra myfyriwyf
Ar yr adwyth ynddo 'r ydwyf :
Och! nid oes un brif-ffordd lydan
O'i dywyllwch i dd'od allan :
Am y baich o rydrwm bechod
Fu 'n fy maglu,
Gwawd wynebu hen gydnabod :
Dad a mam, mor anwyl ydych,
Ond rhy anodd,
Oernych adrodd, arnoch edrych.

Trom y galon! tra 'r wy 'n gwilied
 Rhag i neb o Gymru 'm gweled,
 Er rhoi hanes i'm rhieni,
 Wnai i'w calon dirion dorri;
 Sef i'm parch fyn'd yn ysglyfaeth
 Gan fab Suddas
 Ar fro diras oer fradwriaeth;
 Lle mae ffyrdd i dwyllo merched,
 Nad all mwyndra
 Rhywiog Walia eu rhagweled.

Cof o'r llwybrau, manau mwynion,
 Rodiais gynt mewn helynt hylon
 Yng ngwlad dêg fy ngenedigaeth,
 Bro y mêl, a bair im' alaeth!
 O mor dirion dy fwynderau
 Bêr anwyldeg
 Glydfwyn hydeg wlad fy nhadau;
 Dedwydd yno ydyw 'r enaid
 Na wêl warthus
 Drais truenus tir estroniaid.

O na chawsw'n rag-rybuddion
 O'r erchyllaf gas ddichellion
 A arferir, o wir fwriad,
 Yma i ddeifio bri 'r amddifad!
 Rhai o'm rhyw fy hun, yn henaidd,
 Gais, i'n twyllo,
 Waith i'w dwylo eitha' diawlaidd,

Gan roi moddion brad i'n meddwi,
I'n rhoi 'n 'sglyfaeth
Ammhur driniaeth—mawr drueni!

Dacw 'r ffordd sydd tua Chymru
Union wiwber yn wynebu;
Honna 'n bur a deithiais yma
Heb un brychni 'n oerni arna':
Ond fe giliodd pob siriolwres
Tra nawseiddwych,
Iach a mwynwych, och! o'm mynwes:
A dylifodd diluw afon
Galar oerfaith
Drostwyf ganwaith—dristaf gwynion!

Yma 'r ydwyf wedi 'mrwydo
Ym mhwill anfri, 'mhell o henfro
Cymru wiwdeg, mewn camrodiad;
Ddoe yn ôl ni ddaw er galwad:
Pe 'n fy mherchen, rhown, ar ennyd,
Olud India
Am ollyngfa o'm hyll ingfyd,
A chael bod yr hyn a fuais
Mewn gwlad hawddgar,
Oreu daear, a adawais.

Dduw 'r tosturi! Geli gwiwlan,
O! iawn ogwydd i un egwan
Dy glust tyner, Ner, yn wiwrwydd:
Eiddot ti yw 'r galluogrwydd:

O dyfeisia, i fy arbed,
 Imi etto,
 Er im' wyro, ryw ymwarded :
 Gelwi di i'th nawdd yn ddibaid
 O'u ffyrdd tristaf,
 Frawdol wiw-Naf, afradloniaid.

At fy ngheraint gyrr angylion
 I roi 'm hanes i'r rhai mwynion ;
 Drwy eu henaid gyrr dosturi,
 Gwyniau parod, gan eu peri
 I dd'od attaf i fy nattod
 O fy 'n'ryzni,
 A 'nhrueni sy 'n orhynod,—
 A'm dwyn etto 'n dra dymunol
 I'm bro lwyswedd,
 Iawnwiw degwedd, enedigol.

Arglwydd, nertha hwynt yn wyrthiol
 Dan eu gofid, wŷn gauafol ;
 Rho i minnau, oreu mwyniant,
 Wedi f' oerwarth, edifeiriant,—
 Cei o galon am fy ngwarded
 Fythol fawrfri
 Eurgu genni', Iôr gogoned,—
 Cei o ffyddlon union enaid
 Fawl gwresocaf,
 Dad tirionaf, Duw trueiniaid.

HUNAN-YMDDIDDAN Y BARD

Ar ben Clochdy Eglwys St. Paul, Llundain, 1814.

MÆ'r wybren laswen lwysiach,—oreuliw,
A'r haulwen yn loywach ;
Dwyn einioes mae 'r dynionach
Obry'n y byd fel brain bach !

Ai dynion a adwaenaf,—neu forgrug,
Yn fawrgron haid gasaf ?
Yr uchel a'r iselaf
'Nawr unwedd eu gwedd a gaf.

Sâl yw eu drych isel draw ;—y gwaelion !
Gwelaf hwynt yn gwibiaw ;
Rhai yn rhedeg—rhai'n rhodiaw,
Druain bach, gan droi'n y baw.

Anferth eu trafferth a'u trin,—holl lafur
A llyfed y werin—
Dall gariad y llu gerwin,
A'u blas at y cyfoeth blin !

Gwiw-Ner ! Ai dyma'r gwenyn—a hedant
Yn heidiau di-derfyn,
I'r ymladdfa, sathrfa syn,
Am olud ac aur melyn.

Y fan hon yn fwyn o hyd,—(wych urddas,
 Y chwarddwyf trwy 'mywyd,
 Heb orphen, am ben y byd
 Egwanfalch, a'i rwysg ynfyd.

MYFYRDOD

WRTH WELED ADERYN BACH YN GWNEYD EI NYTH.

ADERYN bach, mor gryno
 Dy nyth yr wyt yn gweithio!
 Nid oes un Plas o eiddo neb
 Yn gwell gyfatteb trwyddo.

A fuost ti'n ymholi
 A dyn y ffordd i'w threfnu,
 A chanddo ef y cynnil waith
 Dros amser maith yn dysgu?

Nid offer celfydd gwiwlan,
 O ddyfais dyn cywreinlan,
 Allasai roi ar blyg y blew,
 Mor lwys, mor lew, â'th hunan.

Ar ddeall pwy roes iti
 Bydd eisiau 'r gwaith a wneli?
 I ddarpar tŷ, a'r haf ar bwys,
 Pwy fu 'n dy ddwys gynghori?

Ni wnaethost erbyn gaua'
 Un annedd o'r fath yna
 Yn darian glân, aderyn glew,
 Gan ofni rhew ac eira.

Doethineb glân Rhagluniaeth
 Roes iti ragwybodaeth
 Fod ar dy gyfer deulu gwael
 Yn gofyn hael gynhaliaeth.

Mor glyd y gwnai dy wely,
 Y mwswn sych gan gasglu,
 A'r gwlan wrth ochrau llymion llwyn
 Wnai'r ddafad fwyn ei golli.

Mân bluf a rhawn ar hynna
 A rôddi 'n llen wresoca',—
 A'i gwnelo'n gynnes, pob rhyw beth
 Osodi'n bleth gywreindda.

Mewn braw pa ham y cili
 I ben y llwyn yn heini ?
 I mi 'n ddi bryder, rhoddi cred
 Na wnaft it' golled, galli.

O dychwel yn galonog
 Yn ôl i'th wely gwresog,
 A dwyn dy oll, aderyn gwan,
 Nid wyf mor annrhugarog.

Mi 'th glywaf yn oerleisio,—
 Taw, taw, 'r wyf fi'n ymado,—
 A dere 'nol i'th dŷ ar naid,
 Ni wnes ddim niwaid iddo.

Dymunaf, o fy nghalon,
 Na welo llengcyn creulon,
 Er peri iti fôr o wae,
 Y mên lle mae d' obeithion.

Holl olud maith y ddaear
 Nid cyd-bwys yw â'r galar,
 Yn ôl diddymmu 'ch baint a'ch bri,
 A deimli di a'th gymmar.

A pha'm, O pa'm mewn gwewyr
 Y'ch rhoir mewn modd di ystyr,
 Pan unrhyw elw ni cha dyn
 Yn dâl o'ch gwŷn a'ch dolor?

Bâr anwyl, mor bur union
 Y rhannwch eich gofalon,—
 Pan un ar neges draw yr â,
 Y llall a wilia 'n wiwlon.

Yn rhwydd deallwch amcan
 Eich gilydd yn oleulan,
 A phan un waith y caffo 'i weyd,
 E gaiff ei wneyd yn fuan.

Eich gilydd dewisasoch,—
 A'ch ceraint ymadawsoch ;
 Ac nid all dim o dan y lloer,
 Ond angau oer fyn'd rhyngoch.

Os cwyd ymryson diles,
 Anhardd, rhwng gŵr â'i gares,
 Iawn ddysgent gan aderyn bach
 Ddoethineb iach i'r fynwes.

ANNERCH I LYGAD-Y- DYDD.

LYSIÛYN glwys a dengar,
 Sy 'n harddu wyneb daear,
 Rhyw ddwys hyfrydwch mawr a'm medd
 Wrth wel'd dy agwedd hygar.

Ti yw y cynta', 'leni,
 A welais er ymholi,—
 Cei am dy ëon yspryd mad
 Roesawus ganiad genni'.

A deimlaist ddim amheuron
 Ac ofnau, wawr fwyn wirion,
 Wrth godi 'th ben o'r ddaear glyd,
 O flaen dy gyd-gyfeillion ?

Anturiaist yn galonog
 Fel cadben dewr galluog,
 Yn dêg a hardd, wynebu 'r hin,
 Pa un ai blin ai tesog.

O'th ol mae mil yn llechu,
 Mewn braw, yn dwys ymgelu,
 Rhag fod y gauaf oer ei naws
 Yn para 'n traws-deyrnasu.

Mynega 'n dirion iddynt
 Fod disgwyl mawr am danynt,
 A gwed nad oes, trwy 'r dyffryn glân,
 Nac eira mân, nac oerwynt.

O'u canfod mawr fydd balchedd
 Yr anifeiliaid glanwedd,
 A'r oen na phrofodd hwynt o'r bla'n,
 A deimla lân orfoledd.

E fydd yn mawr ryfeddu
 Wrth wel'd pob man o ddeutu,
 O flodau gwynion oll yn llawn,
 Yn hyfryd iawn olygu.

Prysurwch, lysiau glwysaf,—
 E ddarfu rhew a gauaf,—
 O eisiau 'ch d'od i doi ein tir
 Rhyw hiraeth gwir a deimlaf.

Mil glanach, pan b'och ddibrin,
 Eich gwawr a'ch gwên oriesin,
 Nâ 'r gemmau sydd, yn rhesi llon,
 Yn harddu coron brenin.

Prysurwch, lysiau mwyngu,
 Daw 'r awel i'ch cysanu
 Yn desog bêr; a gwyn ein byd,
 Mae hyn o bryd yn nesu.

Mor hyfryd fydd, y borau,
 Cyd-rodio hyd y caeau,
 A gwranddo cerddi llu y llwyn,
 I'r Awen fwyn a finnau.

DYN.

PAN y chwilia fy myfyrdod
 Beth yw dyn, fe 'm lleinw syndod;
 "Pridd o'r pridd," llwyr wael, ac etto
 Anadl Duw byth fywiol ynddo!

Egwan deithiwr dyffryn adfyd,
 Ac etifedd gwlad o wynfyd:
 Llwhch o'r llwch, ac etto 'n wiwlan
 Lun a delw Duw ei hunan!

Un dan fynych ddwyfol gerydd,
 Un i Nâf yn hoff garennydd,
 Un sy 'n yfed dyfroedd trallod,
 Un mae etto 'r Ne' 'n ei warchod.

Un uwch pob creadur arall
 Mewn amgyffred, cof, a deall,
 A'r holl harddwych greadigaeth,
 Hynod sôn, at ei wasanaeth.

Un â'i ben yn syth i'r nefoedd,
 Lle mae Duw a'i lân weithredoedd,
 Fel y dysgo mai i fynu
 Dylai dyn o hyd olygu.

Un i farw—un anfarwol,
 Ryfedd iaith, ond gwiredd dwyfol ;
 Un i'r graian i ddychwelyd,
 Un i fyw mewn bythol eilfyd !

Un ryw awr nad oedd mo hono,
 Un byth, byth heb ddiwedd iddo !
 Un ym mlaen a raid ymsymmud,
 Un yn ol ni all ddychwelyd !

Un â'i rodiad yn funudol
 Iddo 'n wir o bwys anfeidrol,—
 Yn dynesu tua 'r nefoedd,
 Neu uffernawl ddirangc ingoedd !

Erddo dyn y bu 'n gennadon
 Teulu nef—y glân angylion ;
 Drosto daeth, dan ingoedd chwerw,
 AER y Nef i'r byd i farw !

Duw, dy waith yw 'r faith ffurfafen,
 Haul a lloer, a ser yr wybren ;
 Beth yw dyn fel hyn am dano
 It', o Lys mawrhydi, gofio.

Ystyr, ddyn, dy ffraint ryfeddaf,
 Ystyr gariad y Goruchaf,—
 Boed dy ymgais byth i ateb
 Amcan Rhoddwr dy fodoldeb.

Dal dy lygad ar y manau
 Lle mae 'n barod iti wleddau,—
 Gochel dwyll, a gwed wrth ddiabol,
 Gormod rhodd yw dyn anfarwol.

CWYN Y CAETHWAS.

TRIST, oh ! trist yw cyflwr Caethion
 Dan y fflangell eithaf creulon ;
 Dwyn y baich o hyll orthrymder,
 Crio 'n drwm—ond crio 'n ofer.

Rhyddid sydd i bob creadur
 Anwyl iawn wrth reol natur :
 Nid yw'r carw gwyllt yn ddedwydd,
 Ond pan rodia rhwng y coedydd.

Gwell gan adar fyw 'n y llwyni, -
 Ganol nos, er maint fo 'i 'n rhewi,
 Nâ chael byw dan gronglwyd wresog,
 Mewn caethiwed, gan oludog.

Onid, ynte, gweithred aflan
 Gwerthu dyn yn gaeth am arian ?
 Dwyn ei ryddid, a roes Natur
 Iddo 'n fwynlon gyson gysur.

Er mai Caethwas yw fy enw,
 Gair a swnia 'n ddigon salw ;
 Etto mi a fedraf deimlo,
 Gwaetha 'r modd, a medraf gofio,—

Cofio beunydd, gyda hiraeth,
 Am fwyn wlad fy ngenedigaeth,
 Cofio 'r bwthyn lle fy magwyd,
 Cofio lled a hyd yr aelwyd,—

Cofio 'n fynych am gyfeillion
 Boreu oes, i'r eitha' 'n ffyddlon,
 Gyda 'r rhai y bum yn chwarau,
 Mewn llawenydd, gant o weithiau.

Cofio hefyd, och ! yn gyson,
(Hwn yw 'r cof sy 'n torri 'nghalon)
Am fy mam, fy nhad, fy mrodyr,
Ac un chwaer oedd eneth ddifyr.

Ca'dd y teulu bach eu dala
'N garcharorion, gan fawr dyrfa,
Ar un bore, gyda 'n gilydd,
Pan oedd bradwyr yn ein bröydd.

Ein rhieni oent mewn oedran,
Ac ni chaid am danynt arian,
Felly cawsant hwy arbediad ;
Gyrrwyd ninnau tua 'r farchnad.

Gwerthwyd ni, er gwewyr diball,
Un i hwn a'r llall i arall ;
Och ! i bell wahanol lennydd,—
Byth ni welwn mwy o'n gilydd.

Daeth fy mam, er maint ei hoedran,
Tua 'r llong lle 'r oedd fy nhrigfan,
I fy ngweled, cyn im' hwylio
Tua 'r wlad heb gyfaill yno.

Daeth i rod-di 'r olaf ffarwel,—
Daeth â'i bron yn ddigon isel :
Er tylawd, nid llai ei theimlad
Nag Arglwyddes uchel rodiad.

Ebe hi, "Fy mhlentyn tirion,
 Megais di yn dyner ddigon :
 Och ! erioed ni ddaeth i'm meddwl
 Am fath awr o gymmaint gwmmwl !"

Tynnai 'i gwallt, oedd wyn gan oedran,
 Ac i 'ngho'l hi dafai 'i hunan,
 A dywedai, "Duw sy 'n gwybod,
 Hyn o faich sydd imi 'n ormod."

Ni fu 'n chwaneg air o'n genau ;
 Oedd ry lawnion ein calonnau,
 Syrthiodd hon yn hollol farw ;
 Mawl am wel'd y dyrnod hwnnw.

O ! na th'rawsai Awdwr anian
 Yr un modd y teulu 'n gyfan,
 Yn yr awr y daeth y trawsion
 Ar ein gwarrau ni, rai gwirion.

Sut mae 'nhad ! ai byw yw hwnnw,
 Wrtho 'i hunan fel rhyw ddelw ?
 Am ei blant yn cwyno 'n afiach
 Heb gael byth eu gweled mwyach !

Sut mae'm chwaer o dyner galon,
 A'm cysurai dan ofidion :
 Collwn waed fy nghalon drosti,
 Am yn rhydd gael gwel'd ei rhoddi.

O! fy mrodyr, ddau anwylaf,
 B'le 'r ych chwi mewn gwewyr chwerwaf!
 Cof am danoch a bair imi
 Lawer noswaith uchel ochi.

Trom y galon, pan edrychaf
 Yn y blaen trwy fywyd blinaf,
 Heb un gobaith yn tywynnu
 Trwy un cwrr o'r ddudew fagddu!

Tost yw cofio 'r awr atgasa',
 Pan am dana' i 'r oedd bargenna,—
 Un yn dal, a'r llall yn cynnyg,
 Pris ar ddyd i Dduw sy'n debyg.

Och! nid oes i ni, rai caethion,
 Un llys barn i wrando 'n cwynion;
 Goddef darnio 'n cnawd raid ini,
 Fel rhyw foch ar daith i'r trefi.

Eiddo 'n meistrïaid ym ni 'r Caethion,
 Fel mae 'i fych yn eiddo 'r hwsmon:
 Rhaid i hwnnw odde' 'r ierthi,
 Rhaid, er dyfnd byddo 'i 'n soddi.

Nid dros flwyddyn mae'n gwasanaeth;
 Nagê 'n wir, ond etifeddiaeth
 Ydym ni a'n plant a'n hwyrion;
 Cofio hyn sy 'n dryllio 'r galon!

Yma 'r ydym, haid o honom,
 Ag un nos drag'wyddol arnom,
 Och! heb ddisgwyl gŵyl na gweled
 Terfyn byth i'n hyll gaethiwed!

O! Grist'nogion,—dyna 'r enw
 Wrth yr hwn maent yn eich galw,—
 B'le mae Crist yn rhoi gorch'mynion
 I orthrymmu neb-rhyw ddyinion!

Clywais hanes fod yr Iesu
 'N esmwythâu ar lawer teulu:
 A oes ffordd i fod yn Gristion,
 Heb dynerwch yn y galon?

Elai Crist ar ebol asyn
 Clywaf son, i wel'd cardottyn:
 Nid oes son am Grist yn prynu
 Neb yn gaethion, i'w was'naethu.

Crist a erchodd ichwi wneuthur
 A phob perchen dynol natur,
 Fel y mynnech iddo yntau,
 Yr un ffunud, wneyd i chwithau.

Yr Efengyl a anfonwch
 Dros y môr, mewn mawr dynerwch
 O anfonwch gyda honno,
 Ar gri 'r Caeth, ei ryddid iddo.

MARWNAD

Æ FAWRHYDI SIOR Y PEDWERYDD:

Bu farw, 1830.

MÆ 'n bryd dyrchafu criâu
Galarus, o'n heneidiau,
 Mewn briw annedwydd ;
Ar ol ein Brenin ffyddlon,
A'n llywodraethai 'n dirion,
 Sior y Pedwerydd :
Mae 'n Llyw, o olwg pawb o'r byw,
 Yn isel orwedd,
 Mewn egwan agwedd,
 Yn olaf annedd
Wael ryfedd dynol-ryw :
I Brydain fawr ei thrallod,
Llwyr drwm y dynnod yw :
Pob rhan, o'n hardal dêg sydd dan
 Ddoluriau tristaf,
 Am Bôr hawddgaraf ;—
 Dan alar dwysaf
Mae'r gwyhaf gyda'r gwan,—
Blinderus gur a thrallod
Gorhynod yw ein rhan.

Oedd un a garai heddwch,
A hyfryd bêr dawelwch,
Trwy 'r byd ehelaeth :

Ni thynnai ef y cleddau
 O'r wain, heb gywir eisiau,
 I gopsi bariaeth ;
 Ond llef y trais pan glywai ef,
 Rhoi 'i arch yn ffyddlon
 I'w ufudd weision,
 A aent dros eigion,
 Dan union nawdd y nef,
 I ffrwyno 'r gelyn gwallgo',
 A dryllio muriau 'i dref :
 Llaw gwŷr Britannia, fronnau dur,
 A barodd gryndod,
 Ac ing a thrallod,
 I fyrdd o'r Ffrangcod,
 Drwy gafod drom o gur,
 Gan ddwyn eu ffrost a'u balchedd
 I stad iselwedd, sur.

Pan fynnai BONA boeni
 Hen 'Spaen, gan ddwyn trueni
 Yn frwnt trwy honno,
 Anfonodd SIOR ei filwyr,
 Lu o galonnog lân-wyr,
 I'w chynnorthwyo :
 A bu, trwy 'r bröydd dywydd du,
 Gwaed mil yn ffrydio,
 A meirch yn cwympto,
 A threfi 'n fflamio,
 Yn tanio 'n wyllt, bob tŷ,—
 Gwŷr Ffraingc yn wyneb-dduo,—
 BRITANNIA 'n llorio 'u llu :
 A bydd, tra dalio haul y dydd,

Am gâd Victoria,¹
 A Salamanca,¹
 Fel am hen Droia,²
 Wir goffa rhwydda', rhydd,—
 Clod Brydain ym mhob genau
 A Ffraingc mewn briwiau 'n brudd.

Pan glau ddychwelodd Bona
 O helbul ynys Elba,
 Lle 'n gaeth e'i dodid,
 I roi dan draws-arglwyddiaeth
 Holl Ewrop fawr ehelaeth,
 A thannu gofid ;
 Ein Sior, anfonai'n fwyn dros fôr
 Lân dyrfa wiwlon
 O wŷr grymusion
 A fuont ffyddlon,
 Weis purlon, dros eu Pôr,
 Mewn gofal dwys wladgarol,
 Ystyriol am ei 'stor :

¹ Trefydd yn Spaen.

² Troia (*Troy*) yn Asia, sydd hynod am ei hir barhad i wrthsefyll y gwarchae a wnaed arni gan y Groegiaid. Parhaodd ddeng mlynedd. Mae gwarchae Troia yn destun un o'r caniadau godidocaf yn unrhyw iaith. Mae cerdd Homer, a elwir yr *ILIAD*, yn rhoddi llawn hanes am y rhyfel hwn. Yr achos o'r rhyfel oedd i Paris, mab Priam, Brenin Troia, gymmeryd trwy drais i'w feddiant ei hun, Helen, gwraig Menelaus, Brenin Lacedemon, â'r hwn yr unodd holl Beneithiaid taleithiau Groeg, i adferyd ei wraig.

Draw bu, yn Waterlŵ³ 'r dewr lu
 Yn rhoi dialedd
 Hyd at ddigonedd
 Ar blant y cabledd,
 Nes gwel'd eu diwedd du ;
 A Ffraingc yn cael gostyngiad
 A phlygiad ar ei phlu'.

³ Ar ol diangfa Buonaparte o ynys Elba, ym Mawrth, 1815, galluodd Ewrop a unasant i'w ddiorseddu. Yn glau ar ol i Bona osod ei hun, unwaith yn rhagor, yn Llywydd ar deyrngadair Ffraingc, deallodd fod yn rhaid iddo ei chynnal yn erbyn oddeutu deg can' mil o wyr arfog gwahanol wledydd. Ei barottoadau i gyfarfod y cyngtrair hwn a ddechreusant oddiar y funud y gosododd ei hun ar yr orsedd. Trwy ymdrechiaidau mawrion, ac yng ngwynneb gofalon dirif o wahanol natur, yr oedd ganddo erbyn dechreu Mehefin, (er mai ym Mawrth y dychwelodd o Elba,) 375,000 o wyr dan arfau. Ar brydnawn yr 11 o Fehefin gadawodd Paris, gan waeddi wrth fyned i mewn i'w gerbyd, "Yr wyf yn myned i fesur fy hun yn erbyn Wellington." Blucher, Pen-tywysog lluoedd Prwssia, oedd a 100,000 o wyr dan ei lywyddiaeth yn preswyllo oddeutu Charleroi, Namur, &c.: a Wellington, dan law yr hwn nid oedd ragor na 75,000, a dim rhagor na 35,000 o'r rheiny yn Seison, (y gweddill oeddynt Hanoveriaid, &c.,) oedd yn llettya yn Brussels. Yr oedd Wellington yn aros yn Brussels yn hollol anwybodus o ddynesiad Buonaparte hyd 6 o'r gloch prydawn y 15fed, ac hyd yn oed y pryd hynny, yr hysbysiaeth oedd mor ansicr, nes y darfu i Wellington, a llawer o'r swyddogion dano, gynnyrch i ddawns-gyfarfod o eiddo Duges Richmond. Yng nghanol y llawenydd hwn, swn gynnuau rhyfel a darawodd ar glust Wellington; ac ar ganol nos, y *drum* a gurodd i ryfel trwy heolydd Brussels. Yr oedd Napoleon, er boreu y 15fed, wedi bod yn curo ar Blucher, yr hwn oedd wedi cilio yn ôl, mewn trefn dda ac heb nemawr

E gafwyd yna'n gyhoedd
 Dawelwch trwy 'r ardaloedd,
 A bloedd llawenydd,—
 Y cledd i'r wain dychwelodd,
 Ac yno yr arosodd
 Hyd heddyw 'n llonydd,—
 A hon, ein hynys liwus lon,
 A ga'dd ar'fyrder
 Ei phlant o bellder
 I'w mynwes fwynber,

niwaid, i Ligny ac Amand, lle yr oedd yn barod i dderbyn ymgyrch Napoleon. Oddeutu hanner dydd yr 16, Napoleon oedd mewn petrusder pa un i ruthro ar Blucher yn Ligny, neu ynte Wellington yn Quatre Bras, lle yr oedd efe a'i fyddin yn awr wedi dyfod. Ond penderfynodd Napoleon, oddeutu 3 o'r gloch prydawn, ymosod ar Blucher, ac ar yr un amser, Ney, un o Gadfridogion Napoleon, â 45,000 o wyr, a ruthrodd ar Wellington. Y Cadfridog Prydeinaidd a ymladdodd yn wrol dan anhawsderau rhyfeddol, ac ar ol dydd gwaedlyd, nos a'i cafodd yn feddiannol ar Quatre Bras. Blucher a ymladdodd frwydr mor ddewr, ond etto lai llwyddiannus. Blucher o'r diwedd a gillodd yn ôl ar yr afon Dyle, tua Havre, ond efe a guddiodd ei symmudiadau mor fedrus a chywrain fel na wyddai Napoleon hyd hanner dydd y 17 pa ffordd oedd efe wedi ei chymmeryd. Napoleon, wedi deall i ba le yr oedd Blucher wedi ymgilio, a anfonodd Grouchy, gyda 32,000 o wyr ar ei ol, ac aeth ei hun yn bersonol i Quatre Bras i ymosod ar Wellington, mewn lle nad oedd yn debygol y cawsai un cynnorthwy gan Blucher. Ond mor gynted ag y deallodd Wellington i Blucher wynebu tua Havre, efe a roddodd orchymryn i gilio yn ol o Quatre Bras, yn ol y dealldwriaeth ag oedd rhyngddynt i gadw yn agos at eu gilydd. Yr oeddid wedi clywed Wellington yn dywedyd os byth y byddai galwad arno i ymddiffyn Brussels, yr ewyllysiai ymladd ar faes Waterlwa ac efe yn awr a ddychwelodd yno mewn llawn obaith o gael ei

Yn ol dros dyner donn :
 Ca'dd llawer mam attaliad
 I friw a brathiad bron.
 Bu gwledd, ar fad gyhoeddiad hedd,
 Mewn llawer bwthyn,—
 Yr hen-wr penwyn
 Wrth gofio 'i blentyn
 Droï 'n llengcyn, arall wedd,
 Gan obaith gwel'd ail olau
 Cyn myn'd rhwng barrau'r bedd.

gynnothwyo, yn y boreu, gan Blucher, o herwydd fod ei filwyr yn llawer llai lliosog nag eiddo Napoleon. Pob parottoadau wedi cael eu gwneuthur ar brydnawn y 17, Wellington a anfonodd at Blucher i hysbysu iddo ei fod wedi dyfod i faes Waterlw, ac y disgwyliai gynnothwyo yn y boreu. Blucher a addawodd gynnothwyo: y croes-fyrdd o Havre i Waterlw oeddynt mewn cyflwr truenus i'w trafaelu, ac yr oedd y gwlaw yn llifo fel rhaiadr; ac os na ddaeth Blucher mor amserol ag y dymunasai, nid ei fai ef oedd hynny. Y nos cyn yr ymladdfa ofnadwy hon oedd wlawiog ac ystormus neillduol; ac yr oedd y milwyr, druain! yn ddigon parod i sythio oni b'ai fod y gorfoledd o gael ennill gogoniant boreu dranoeth yn codi eu calonau i fynu. Ond nid oedd dim gofid ar Napoleon, ond yr ofn y byddai i Wellington barhau ei ymgiliad hyd at Brussels, a thrwy hynny ohirio y frwydr fawr hyd nes deuai y Prwssiaid ym mlaen; a phan with ddyfod i ben yr ucheldir, a elwir La Belle Alliance, y gwelodd efe fyddin Wellington ar yr ochr arall i'r dyffryn, ar ael y bryn, ei orfoledd oedd fawr iawn. "O'r diwedd, ynteu, o'r diwedd," meddai Napoleon, "mae'r Seison yma yn fy mhalf." Y dymhestl a arafodd yn y boreu, ond y dydd a barhaodd yn lled arw. Oddeutu 12 o'r gloch yr ymgyrch a ddechreuodd. Rhy faith fyddai ymdrechu rhoddi darluniad cywir o'r frwydr. Yr oedd Napoleon yn edrych trwy yspien-ddrych o ben yr ucheldir, a hen ffermwr wrth ei ochr. Yr oedd yn tynnu *snuff* yn gyflym, a gwaeddodd allan ragor

I dalu parch i'n Brenin,
 A feddai y fath fyddin,
 Fawr ei gogoniant,
 Brenhinoedd⁴ y Cyfaidir
 I Lundain, fwyndeg lon-dir,
 Dros fôr a ddaethant,—
 A pha, hyfrydlon hinon ha'
 Oedd 'nawr yr agwedd
 Ar Brydain geinwedd
 Yn ei gorfoledd,

nâg unwaith, "Mor ogoneddus mae'r Seison yna yn brwydro." Ymladdwyd yn waedlyd hyd hanner awr wedi chwech pryd-nawn, heb le i ddeall pwy a ennillasai y dydd. Gwelid yn awr, ar ol saith awr o ymladd, y Prwssiaid yn dynesu trwy y coed. Gwelodd Buonaparte ar un tarawiad llygad, os na allasai ef yrru Wellington o'r lle ag oedd efe wedi ei gadw trwy y dydd, fod y cyfan ar ben. Yn awr efe a barottodd i'r eithaf: hyd yn hyn yr oedd efe wedi cadw ei warchawdlu, (*Guard*,) blodau ei fyddin, allan o'r ymdrechfa. Efe yn awr a orchymmynodd iddynt ruthro yn egnïol; a dywedir fod gwedd y rhai hyn, wedi eu ffurfio yn ddwy golofn, a llawn bywiogrwydd a nwyfiant, yn ddigon i beri i oerni redeg trwy waed unrhyw filwyr ond y Seison. Eithr mor egnïol yr ymruthrodd y Seison arnynt fel y gorfu arnynt ffoi mewn eithaf annhrefn. Buonaparte a drodd yn awr mor wyned yn ei wyneb â'r eira, a dolefodd allan, "mae y cwbl ar ben," ac a farchogodd ymaith gyda 'r brys mwyaf. Dilynwyd y Ffrangcod nes difetha nifer annhraethol o honynt.

⁴ Ar ol darostyngiad Buonaparte, Ymerawdwr Rwsia ac Awstria, a Brenin Prwssia, a ymwelasant â'r ynys hon, i dalu parch i'n Brenin a'i wlad, am eu hegnïon treulfawr a chanmoladwy i ddadymchwelyd gorsedd Napoleon, yr hwn yn ddiau oedd ddyn o alluoedd meddylol ym mhell uwch cyffredin, etto y gormes-deyrn creulonaf yn yr oesoedd diweddar.

Wrth weled diwedd da
 Ar ryfel oer ei ofd,
 Sy'n gwneyd o'i blegid blâ,—
 A'i chlod, yn rhyfedd is y rhod,
 Coronog Bennau
 A diolchiadau
 Yn eu geneuau
 Ar bell iawn deithiau 'n d'od
 I hon ein hyfryd felys
 Wen ynys wych ei nôd.

Fel tad i bawb o'i deiliaid
 Oedd Sior yn gywir danbaid,
 Oreufad unben ;
 Ei fron oedd lawn haelioni,—
 Pob gradd e fynnai noddi
 A'i deyrnwialen :
 Ffr bod, yn uchel iawn ei nôd,
 Yn gwisgo 'r goron,
 Yn gwybod eigion
 Dysgeidiaeth⁵ wiwlon,
 Mewn llwyr eglurlon glod,
 Yn isel ei dymherau
 E fynnai 'n ddiau dd'od :
 A'i fryd, yn groes i foes balch fyd,
 Ei serchog eiriau,
 A'i ddifyr ddoniau,
 Ar fwrdd ei wleddau

⁵ Sior y Pedwerydd oedd ysgolhaig nodedig. Ei ddysgeidiaeth, ei ffraethineb, a'i ymddygiad gwir foneddigaidd, a berent syndod i'r Cenhadon estronol, a ymwelent â'i Lys.

A wnaent galonnau 'n glyd ;
Mor isel, etto 'n gyhoedd,
Yn ben Brenhinoedd byd.

Pob peth a f' ai 'n tueddu
At wir ddedwyddwch teulu
Ei deyrnas helaeth,
O galon fe annogai,—
Hapusrwydd pawb a hoffai
Ym mhob rhyw dalaeth :
Ei ran, a wnaeth i gaeth ddyn gwan
Draw yn yr India,—
Gan alw 'n daera'
Ar holl Ewropa
Mewn mwyndra ym mhob man,
I godi 'r Duon tenau
O'u loesau 'n wych i'r lan ;
I wlad, hen Roeg yn fendith rad,
Gwir ryddid rhoddodd,—
Ei hiau fe dorrodd,—
Hael law o'i wirfodd
Estynodd megis tad,
O galon dwym ragorol
Ystyriol dros ei stad.

Er cymmaint ei ewyllys
I rannu dâ i'r ynys,
Daeth gwŷs yr angau,—
Ein Llywydd a drywanwyd,
Yn isel iawn fe 'i dodwyd
I blith ei dadau :

Ond tra, trwy galon dynion da,
 Bo gwaed yn rhedeg,
 Y deilwng anrheg,
 O glod cywirdeg
 Yn geindêg fe a ga,
 Am wneyd ein henwlad dirion
 Yn llawn o hinon ha',—
 A'i mawl, a'i bri yn honni hawl
 I wych anrhydedd,
 A'i gael mewn gwiredd,
 Trwy 'r byd yn rhyfedd,
 Dda duedd, yn ddi dawl,
 Lle bynnag dros ein daear
 Mae'r haul yn gwasgar gwawl.

Bydd wych ein Brenin tirion
 Trugarog,⁶—boed it' goron
 Yng ngwlad Caersalem,
 Lle mae y gwaredigion,
 Ar hyfryd fynydd Sion
 Yn hwylio 'r Anthem.
 A rhad, Duw'r hedd fo'n wledd i'r wlad,—

⁶ Mae 'n wir fod ein diweddar Frenin tyner yn treulio oriau hirion, i ddadleu dros y rhai a fernid i gael eu colli, cyn y dodai ei law wrth eu dien-lythyr, (*death-warrant.*) Efe a fanwl holai yr holl amgylchiadau: byddai barod a gofalus wrth olrhain yr achos i osod yr ystyr goreu ar bob peth; ac eiriol-aeth y Brenin a lwyddodd lawer tro i achub einios wedi ei happyntio i golledigaeth.

Na chaed gelynion
Byth mo'u hamcanion
I roi'n bendithion
Yn brinion trwy eu brad ;
I ni boed rhoddwr breintiau
Hyd ddiwedd dyddiau 'n dad :
Pob un, trwy 'n hynys, liwus lun,
O! boed am rodio,
A'i fryd ar foddio
Duw ag sydd ganddo,
Y nerth o hono 'i hun
I gospi gwlad am bechod,
Uwchlaw awdurdod dyn.

BREINTIAU'N GWLAD.

Tôn—" God save the King."

MÆ 'n hynys lân fel gardd,
Mewn breintiau gwych yn hardd,
Frenines byd :
Britannia fawr ei chlod
Sy 'n uchel iawn ei nôd ;
Ni welir gwlad is rhod
Yn well ei phryd.

Mae 'i 'n ynys hael a rhydd ;
Ei dŷ i'r gwan y sydd
Yn gastell glân :

Y sawl a wnel ar hwn
 Un ymgyrch i'w roi 'n dwn,
 Daw arno gosp yn bwn
 A dŷr ei gân.

Caiff pawb addoli Cun
 Yn ol ei ffordd ei hun,
 Heb ofn na braw :
 Nid oes un Chwil-lys cas
 Trwy 'n hynys fwyndeg las ;
 Byw 'r y'm mewn porfa fras :
 Rhown glod di daw.

Os oes rhyw dybiad drwg
 Am danat,—os mewn gwg
 Mae'r ddeddf wrth raid,
 Nid un neu ddau mewn brad
 All ddwyn dy fywyd mad ;
 Mae *deuddeg* gwr o'th wlad
 Yn bur o'th blaid.

Mae nawdd ein deddfau 'r un
 I wael, iselaf ddyn,
 Ag Arglwydd mawr :
 Cyfrifa 'n Brenin fod
 Ei ddeiliaid o'r un nôd
 Er llai, er mwy eu clod,
 Y cul a'r cawr.

O'r palas uchel fry,
I'r caban isel, dŷ,
Pob un a gâ,
O dirion ofal, fraint
Yn gymmwys o'r un faint ;
Byw 'r y'm mewn gwlad ddi haint,
Dan Frenin da.

Os gelyn sydd yn bod
I ti, yn clwyfo 'th glod
Trwy gelwydd cas,
Mae cyfraith fawr y tir
Yn nodded parod, îr,
I chwilio am y gwir
A chospi 'r gwas.

Mae nawdd i ddawn a dysg
Yn hyfryd yn ein mysg ;
Annogaeth lân ;
Mae rhai ar fryniau bri
Yn hir a wel'som ni
Yn byw fel dan y lli' ;
Ein gwlad, cei 'r gân.

Mae rhyddid i bob dyn
Na fo â drwg ynglŷn,
I'r eitha' 'n llawn,—
Ac os oes neb a fyn
Ryw ryddid mwy nâ hyn,
Y mae i mi 'n beth syn
Os yw e'n iawn.

Os caethwas dros y donn
 A ddaw i'r ynys hon
 O'i ardal brudd,
 Pan sang ar hyfryd draeth
 Britannia lawn o faeth,
 Byth mwyach nid yw gaeth ;
 Mae 'n hollol rydd.

Cyfododd hon ei llais
 Yn gynta' 'n erbyn trais
 Caethfasnach dyn :
 Mae myrdd yn Affrig draw,
 Ag oeddynt dan eu braw,
 Yn seinio 'i chlod heb daw,
 Am attal gwŷn.

ENGLYNION

I BONT NEWYDD LLANBEDR.

BONT union ar heirdd bentanau—têg lân,
 Ti gei glod o'n genau ;
 Mawrwaith clyd, wyt gymmorth clau
 Tra 'r dylif hyll trwy 'r dolau.

Bob darn wyt gadarn dy gydiad ;—cywrain
 Dull cerrig dy seiliad :
 Gwiw addurn yw 'th agweddiad,
 Bur iawn glo, a bri ein gwlad.

Cam imi, wyr Cwmamman,¹—mi welaf,
 Beidio 'ch moli weithian ;
 Purddwys yw eich glwys waith glân,
 Rhag dwr yn rhywiog darian.

Pont wiw hoff mewn pant yw hi,—a'i hurddas
 Yn harddwch bro Teifi ;
 Bwa cam uwch llam y lli,'
 A ffordd lon union ini.

Bont lydan gulan ei golwg,—mwynwawr,
 O'r mynydd yn amlwg :
 I'r Dref lân diddan hi'n dwg,
 Oreu gwedd, ar ei gwddwg.

Cerddaf, er gwaethaf bygythion—llef oer
 Llifeiriant yr afon
 Aethus, heb ofnau weithion,
 Ar iach dir, goruwch y donn.

¹ Cwmamman ym mhlwyf Llandeilo, Cartref-le y Maen-seiri



ANNCERCH A BENDITH

OLAF TAD F'W BLANT.

Yr wy 'n ymado, f' anwyl blant,
 I oerllyd bant y beddrod ;
 Yn teimlo 'r wyf y babell hon
 Ymron, ymron ymddattod.

Yr unig wres a deimlaf fi,
 Sydd attoch chwi, a'm Crëwr ;
 Nid oes dim hiraeth yn fy mryd
 Am sw'n y byd a'i gynhwr'.

Yn aros arnoch y bo gwllith
 Fy hon ddwys fendith olaf ;
 Yn dawel iawn y byddoch byw
 Dan nawdd y Duw Goruchaf.

O rhodiwch yn ei lwybrau Ef,—
 Rhydd ichwi nef yn wobrwy,
 Y dawel fro, yr hyfryd fan,
 O wynfyd annhraethadwy.

A phawb o'ch amgylch byw mewn hedd
 Fo ichwi 'n wledd wastadol ;
 Dechreuwch yma hoffi gwaith
 Y nefoedd faith drug'wyddol.

Myfi sy 'n myned, teimlaf hyn,
 I wlad a glyn yr angho';
 Dan aden Duw y b'och yn iach,
 Yr Arglwydd a'ch bendithio.

HYMN

I'W CHANU AC DDYDD NADOLIG CRIST

DYMA 'r dydd y ganed Iesu,
 Dyma 'r dydd i lawenhau ;
 Arglwydd nef a ddaeth i brynu
 Dynol-ryw a'u llwyr ryddhau.

Gwelwyd Iesu dan ei loesau,
 Iddo preseb oedd yn grud ;
 Bu yn wan, fel buom ninnau,
 Seiliwr nefoedd faith a'r byd.

Daeth o wlad y pur ogoniant ;
 Gadodd wychder tŷ ei Dad ;
 Prynodd ef i bawb a'i carant
 Deyrnas nef yn rhodd, yn rhad.

Dyma gariad haeddai 'i gofio
 Mewn anfarwol gân ddi lyth ;
 Yn y cariad hwn yn nofio
 Boed fy enaid bach i byth.

HYMN

I'W CHANU AR DDYDD GWENER Y CROGLITH, SEF
DYDD MARWOLAETH CRIST.

COFIA, f' enaid, cofia'r oriau
Y bu Brenin nefoedd wen,
Crëwr moroedd, haul, a bryniau,
Yn dioddef ar y pren.

Llaw allasai 'r haul dywyllu,
Sychu môr, a llosgi tir,
Yn ymoddef cael ei thyllu!—
O! ryfeddol gariad gwir.

Llaw allasai rwymo 'i rhwymwyr
Obry 'nglyn anfarwol dân,
Yn rhwymedig gan ddirmygwyr
Wrth y pren—O! f' Arglwydd glân!

Pan ddaw adre 'r rhai prynedig
O'r anialwch maith ei wŷn,
Bydd am hyn annherfyndedig
Fawl i'r hwn fu'n Dduw a dyn.

Bydd adgofio'r clwyfau duon
A ga'dd Iesu, Oen Duw Dad,

Yn melysu fyth yn gyson
Eu caniadau peraidd mād.

HYMN

AR SUL Y PASG, SEF DYDD ADGYFODIAD CRIST.

DYMA 'r dydd y cododd Iesu,
Gan chwilfriwio barrau 'r bedd;
Dyma 'r dydd i orfoleddu,
Ac i gadw sanctaidd wledd.

B'le, O fedd, mae'th fuddugoliaeth?
Angau, b'le mae'th golyng cry'?
Daeth i wawrio ar ddynoliaeth
Hyfryd lewych oddi fry.

Crist a ddaeth yn wir oleuni,
Ac yn sicrwydd bywyd gwell;
Caf yn llawen adgyfodi,
Ar ryw ddydd, o'r gyfyng gell.

Dan y gwys os rhaid im' orwedd,
Yn y glyn dros ronyn bach;
Mi gaf ddiosg rhwymyn llygredd,
Ac yn Nuw gyfodi 'n iach.

Codi 'n iach a hwylio'r aden,
 Rhwng y sêr i wlad y saint ;
 I ddyrchafu 'r gân ddi orphen,
 Yno byth uwch poen a haint.

HYMN

I'W CHANU AR Y SULGWYN, DYDD TYWALLTIAD
 YR YSPRYD GLAN AR YR APOSTOLION.

O TYRED heddyw, Yspryd Glân,
 Ac arnom disgyn di yn dân,
 Fel bo 'n calonnau celyd ni
 Yn toddi gan dy effaith di.

O pura di 'n serchiadau oll,
 A nâd i'n meddwl fyn'd ar goll ;
 A boed yn awr (O gwrando 'n llef)
 Ein dymuniadau 'n un â'r nef.

Boed yma 'n nefoedd ar y llawr
 I'm enaid i am ennyd awr ;
 Yr Yspryd Sanctaidd, dyro 'n gry'
 Flaen-broffion o'r llawenydd fry.

Ffrwythlona 'n dêg yr anial dir,
 A dwfrhâ 'r eginyn îr ;

Rho wiwdêg rym i hadau gras,
I ddwyn eu ffrwythau pêr i ma's.

HYMN NADOLIG,¹

Ar y Dôn a elwir Trefriw.

HENFFYCH i'r dydd y daeth
Gwaredydd i ddyn caeth ;
Byth iddo Fo, a ddaeth i'n bro,
Boed cân yn ffrydio 'n ffraeth :
O'r forwyn Fair y daeth y Gair,
Y dydd goffâir o hyd :—
Rhown glod heb drai, daeth Iesu 'n chwai,
I wisgo clai, dros waelion rai,
A golchi bai y byd.

O ! gariad hoff ei gael
Dros ddyn syrthiedig gwael !
Ei fath is rhod, ni bu yn bod,
Mor hynod ac mor hael,—
Sef d'od o wlad gogoniant mâd,
O go'l ei Dad, le dwys,
I oddef gwŷn, yn wael ei lun,
A myn'd dros ddyn, nid drosto 'i hun,
Y nefol Gun, dan gwys.

¹ Nid anghymmws i'w chanu unrhyw amser arall.

Yr Iesu ar y pren
 Oddefodd boen a sen,
 Yn aberth gwiw, dros ddynol-ryw,—
 Am hyn mae 'n byw yn Ben
 Ar deulu 'r nef.—ac “Iddo Ef”
 Mae cân a llef yn llon :
 Ac yn ddiâu bydd i barhau
 Y gân fwyn g'lau, heb byth lesghau,—
 Boed im' fwynhau'r gerdd hon.

HYMN

FW CHANU AR OL Y CYMMUN.

Yn coffa angau 'r Iesu 'nawr
 Y bu dy weision, Arglwydd mawr ;
 Boed hyn o'n gwaith a'n dyled ni
 Yn gymmeradwy gennyt ti.

Heb bwysu'n haeddiant, Arglwydd mad,
 O maddeu, maddeu 'n beiau 'n rhad ;
 Anghofia oll ar gam a fu,
 Ac ini rho dy heddwch cu.

Ein haberth hwn o glod a pharch
 A gynnygasom 'nol dy arch,
 Boed wrth dy fodd ; a derbyn ni
 Yn ebyrth sanctaidd hoff i ti.

O rho dy fendith,—rho dy ras,
 Yn nerth i ffoi rhag pechod cas,
 I'n parottoi 'n y fuchedd hon
 I fyw 'n drag'wyddol ger dy fron.

HYMN

AR GARIAD CRISTIONOGOL.

O DYSGWN garu, fach a mawr,
 Ein gilydd yma ar y llawr;
 Can's caru fydd hyfrydol waith
 Plant Duw dros drag'wyddoldeb maith.

Ein ffydd a dry yn fwyniant mad,
 A gobaith gaiff ei chwblhâd;
 Ond cariad a'i weithredoedd ef
 A bery 'n wir tra'phery nef.

Mewn gorfoleddus wlad ddi boen
 Cawn garu 'n gilydd—caru 'r Oen;
 A charu 'r Tad anfeidrol fyth,
 Am roddion glân o rif y gw lith.



HYMN

AR GARIAD BRAWDOL.

HEDD, hedd,
 Rhwng pawb Crist'nogion da y gwedd,
 A chofwn mai 'r un Tad a'n medd ;
 Mai tua 'r bedd mae 'n taith, bob un ;
 Y galon gudd, O Gristion clyw,
 Fe farna Duw,—na farned dyn.

Daw, daw,
 Y ffordd yn haws i'r Gana'n draw ;
 Nid hardd gwel'd brodyr fyth mewn braw,
 I gym'ryd llaw y naill y llall :
 Anghariad a chenfigen ddu,
 'N addasach sy i fagddu 'r fall.

HYMN.

ANRHYDEDD CRIST.

CRIST, yr hwn sy 'n anwyl genni',
 Crist, yr hwn sydd imi 'n Ffrynd,—
 Crist, yr hwn sy 'n tra-rhagori
 Yn y wlad lle rwyf fi 'n myn'd,—

Crist, yr hwn sy 'n maddeu beiau,
 Crist, sy 'n achub rhag y tân,
 Crist, yr hwyr, a Christ, y borau,
 Boed yn destun pêr fy nghân.

HYMN.

CYMMYSG ALAR A GORFOLEDD PERERINION SION.

Ym mhell yr y'm o dŷ ein Tad,—
 Mewn anial dir yn byw,—
 Ym mhell o'r lawen Gana'n wlad,
 A'i ffrwythau tēg eu rhyw :

O dan y pwn, o dan y gwres,
 Yn ochain yma 'n fiin ;
 Ond daw yr awr y byddwn nes
 I'r ffynnon hoff ei rhin.

Fe dderfydd poen, mae 'n ffol tristâu,
 Fe dderfydd pob rhyw gur,—
 Ar fyr cawn weled a mwynhâu
 Y wlad o wynfyd pur.

O rhodiwn yn y golau glân,
 Y deddfau roes ein Duw ;
 A daw y dydd o fythol gân,
 Ar dir gorfoledd gwiw.

Fel gweision gwir i Grist, ein Pen,
 O ffown rhag pechod cas ;
 A chawn o fewn y nefoedd wen,
 Ar fyr glodfori 'i ras.

Cawn yno wisg mor hardd â'r wawr,
 A thelyn hoff ei llais ;
 A chanfod y Jehofa mawr,
 A therfyn ar bob trais.

HYMN

I'W CHANU AR OL PREGETH.

BENDITHIA di, O Arglwydd mawr,
 Dy air yn awr a glywsom ;
 Fel dygo ffrwythau pur i ma's
 O fuchedd addas ynom.

Yn glod i'th enw sanctaidd di
 Bo'n rhodiad ni'n wastadol ;
 Ac o dy ras, dwg ni, ein Duw,
 I'th Lys i fyw'n drag'wyddol.



HYMN.

MYFYRDOD AR Y NEFOEDD.

Yn y nefoedd mae 'n gorseddu
Y Jehofa mawr ei hun ;
Dyma 'r lle mae 'r anwyl Iesu
Roes ei einioes 'lawr dros ddyn.

Dyma 'r lle mae 'r ufuddolion,
Rai a rodient gyda Duw,
Ac a gadwent ei orch'mynion,
Tra ar ddae'ren yma 'n byw.

Dyma'r lle na enwir angau,
Gofid blin, na chwerw loes ;
Dyma 'r lle mae 'nawr filiynau,
A fu 'n hir yn cario 'r groes.

Dyma 'r lle mae 'r gân ddiddarfod,
Dyma 'r lle mae gwynfyd gwir ;—
Yma caffom gyd-gyfarfod,
Frodyr anwyl, cyn bo hir.

HYMN.

“ Mi a ymdrechais ymdrech dëg, mi a orphenais fy ngyrfa,
mi a gedwais y ffydd.” 2 Tim. iv. 7.

Yn erbyn rhwystrau lawer iawn,
A byd yn llawn o gabledd,

Fy Nuw a gadwaf yn fy mryd,
A'i gyfraith hyd y diwedd.

Ymdrechaf ymdrech hardd, gan ddwyn
Y groes yn fwyn heb fino,—
A charaf Grist yn fwy nâ neb,
Trwy 'mywyd heb ddiffygio.

Y ffydd a lân draddododd Ef
A ddaeth o'r nef i'n dysgu,
A gadwaf gyda 'i ffyddlon blant,
Er ymgais cant i'm dallu.

Yn well nâ chyfoeth daear faith
Dewisaf waith yr Arglwydd,
Ac yna 'r yrfa 'n deg o'm tu
Fydd yn terfynu 'n ddedwyddd.

HYMN.

CYFIEITHAD O "OLNEY HYMNS."

MÆ ffynnon lân, fy enaid cred,
O fron Emmanuel a red ;
Caiff pechaduriaid oll yn glau,
Yn ffrydiau hon, eu llwyr lanhau.

I'r lleidir gynt, gorfoledd mawr,
 Fu gwel'd y ffynnon hoff ei gwawr ;
 Yn hon c'es innau 'ngolchi 'n lân,
 O'm holl bechodau, fawr a mân.

Yr anwyl Oen, dy aberth rhad,
 Byth, byth ni chyll ei allu mad,
 Nes llwyr waredu 'r Eglwys wiw,
 Heb frychni 'n llon a hardd ei lliw.

Er pan, trwy ffydd, y gwelais i
 Y firwd a dardd o'th glwyfau di,
 Am waredigaeth bu fy nghân,
 Ac felly bydd hyd angau 'n lân.

HYMN.

CYFIEITHAD O "OLNEY HYMNS."

MÆ anhawsderau cyndyn cas,
 I'n rhwystro dd'od at orsedd gras ;
 Ond sawl a wel werth gweddi 'n llwyr
 A gyrch at hon ar fore a hwyr.

Mae gweddi 'n dringo 'r ysgol wen
 A welodd Jacob yn y nen,—
 Yn ennyn ffydd a chariad cu,—
 Yn dwyn pob bendith oddi fry.

Oll fel yr haul yn loyw gwna
 Arfogaeth dēg y Cristion da ;
 A chryna Satan oll yn flin,
 Pan wēl y Cristion ar ei lin.

HYMN.

DYCHWELIAD YR AFRADLON.

Pwy yw 'r blin Bererin acw
 Welaf yn ymdynnu 'n brudd,
 Trwy 'r anialwch tua 'i artref,
 Yn bistyllog wlyb ei rudd ?
 Mae ei wisg i gyd yn garpiog,
 Y mae newyn yn ei wedd ;
 Gwelaf nad oes yn trigfannu
 Yn ei fron dufewnol hedd.

Clywch e'n llefain wrtho 'i hunan,
 "Dad, nid teilwng mwy wyf fi
 'Fod yn fab, ond gwas a fyddaf,
 Os caf fod, o fewn dy dŷ !"
 Beth yw 'r hyfryd sain nefolaidd,
 Glywaf fry yn entrych nen,
 Gan fil miloedd o delynnau,
 Yn cyd-seinio uwch fy mhen ?

Beth yw 'r adlais hyn a glywaf
 Ar beiriannau aur y nef ?
 "Teithia 'mlaen, Bererin égwan,
 Groeso, groeso tua thref,—
 Mae trigolion gwlad goleuni
 Wrth dy wel'd yn llawenhau,—
 Y mae gwisg yn barod iti,—
 Daw dy Dad i'th gwrdd yn glau.

Dos ymlaen, Bererin egwan,
 Trwy 'r diffeithwch dos ymla'n ;
 Er mor athrist yw dy olwg,
 Try dy alar etto 'n gân :
 Llygaid Nef sydd ar dy gamrau,
 Teithia 'mlaen, Bererin gwan ;
 Ronyn etto ffrydiwch, ddagrau,
 Chwi a sychir yn y man."

Pwy a wela' i 'n dod â gwisgoedd
 Hardded â goleuni 'r wawr,—
 Yn cusanu 'r crwydryn eiddil,—
 Ar ei wddf yn syrthio i lawr ?
 Uwch, ac uwch yn awr dyrchafa
 Tannau 'r Nef eu sain ynghyd ;—
 O ! a ydyw'th werth di gymmaint,
 F' enaid bach, a wyt mor ddrud !

Bydd llawenydd yn y nefoedd,
 Os o'th lwybrau ffol y ffoi ;

Mae, bechadur, iti roeso,
 Os at dŷ dy Dad y doi ;
 Gâd y cibau a'r gorwagedd,
 Gâd y byd a'i ffalsedd ffol,
 Cofia lewndid ac ymgeledd
 Tŷ dy Dad, a dere 'nol.

HYMN.

ERFYNIAD AM GYNNORTIIWY YR YSPRYD GLAN.

Mawr iawn y gwaith sydd o fy mla'n,
 Sef achub f' enaid rhag y tân ;
 Mae 'r cnawd yn llesg, mae 'r yrfa 'n faith ;
 Mae eisiau cymhorth ar fy nhaith.

Mae eisiau gado 'r anial hyn,
 Mae eisiau cyrhaedd pen y bryn,—
 Ond mae ei goppa 'n uchel iawn,
 A'm traed y sydd o friwiau 'n llawn.

O! Arglwydd, estyn im' dy nerth,
 I ddringo rhwng y creigiau serth,—
 Ymdrechu raid i adyn gwan,
 Ond *ti* gei 'r clod os dof i'r lan.

Tydi ddatguddiaist imi 'n hael
 Fod gwlad sydd well nâ hon i'w chael ;

Ti biau 'r wlad,—ac os caf ddod
O fewn ei muriau *ti* gei 'r clod.

Tydi gei 'r parch yn deilwng byth,
O wresog fron mewn cân ddi lyth ;
Fy Nuw, fy Nhad, tydi gei 'r mawl,
I ti mae 'n perthyn iddo 'r hawl.

Mae 'n rhaid ymdrechu teithio 'mla'n,
O Dduw, rho nerth dy Yspryd Glân,—
Mae 'r cnawd yn llesg, mae 'r yrfa 'n faith ;
Mae eisiau cymhorth ar fy nhaith.

HYMN.

“EDRYCIIWCII AR ADAR Y NEFOEDD, &c.”

Mat. pen. vi. y rhan olaf.

GWRANDAWAF, anwyl Iesu,
Yn ufudd ar dy lais,
Sy 'n erchi im' hyderu
Ar Dduw a wŷyr fy nghais ;
Edrychaf fyth ar adar
Y nefoedd, deulu llón,
Mor beraidd maent yn trydar,
Heb ofid dan eu bron.

Nid ŷnt yn hau na medi,
 Nâ chywain adre' chwaith,—
 Ond etto cânt eu porthi
 Gan Dad holl natur faith.
 Edrychaf ar y llyisiau
 Sy 'n tyfu 'n llon o'r llawr,—
 Mil harddach yw eu lliwiau
 Nâ gwisg un t'wysog mawr.

Os Duw fel hyn sy 'n porthi
 Yr adar heb naccâu,
 Ac yn dilladu 'r lili
 Mor hardd, a hithau 'n frau;
 Pa fodd y diobeithiaf,
 I mi na rydd yn fwyn,
 Yr hyn sydd eisiau arnaf?
 Pa ham na thaw fy nghŵyn?

Yn gweled mae ei lygad
 Fy eisiau draw o bell;
 A'm lles a ŵyr yn wastad,
 Nâ mi yn llawer gwell:
 Ei air sy 'n gweyd mai ganddo
 Yn rhif mae gwallt fy mhen,—
 Rhof fyth fy ngoglud arno,
 Mae 'n Llywydd dae'r a nen.



HYMN.

ANNIOLCHGARWCH DYN AM FENDITHION DWYFOL
A GWARDIGAETHAU O GLEFYDON, &c.

“Oni lanhawyd y deg? ond pa le y mae'r naw? Ni chaed a
ddychwelasant i roi gogoniant i Dduw, ond yr estron hwn.”
Luc xvii. 18.

Bum mewn llawer o flinderau,
Yn llwyr gredu na ddoi 'r dydd,
Byth y cawn o'm cyfyngderau,
A'm caethiwed dd'od yn rhydd :
O helbulon uwch rhifedi,
E'm gwardododd llaw fy Nuw ;
Iddo 'n llon, a gofiais roddi
Cynnar fawl, yn daliad gwiw ?

Lawer gwaith ar wely galar,
Pan mewn arswyd brenin braw,
Bum am bechod yn edifar,
Ac yn wyllo 'n drist heb daw,—
I fy Nuw yn addunedu,
Os cawn eilwaith fwyn wellhad,
Cai fy nghamrau ddidwyll harddu
Beunydd ei Efengyl fad.

Wedi cael ymwarded tirion,
Trwy drugaredd hael fy Nuw ;
A gyflewnais f' addewidion,
Wrth ei fodd trwy ddoethgar fyw ?

Erchyll lwybrau plant drygioni,
 Sydd yn ffiائد iawn eu llef,
 A adewais, i gael rhoddi
 Gwir ogoniant iddo Ef?

Llawer deg sy 'n cael diangfa,
 O drwm glefyd blin ei loes,—
 Prin o ddeg mae un yn coffa
 Am y llaw yn rhydd a'i rhoes:
 Wedi unwaith ail gyrhaeddyd
 Hen arferol ffyrdd y byw,
 Bach y nifer sy 'n dychwelyd
 Yn eu hol i foli Duw.

HYMN.

“Dysg i ni felly gyfrif ein dyddiau, fel y dygom ein calon i
 ddoethineb.” Salm xc. 12.

O DDYDD i ddydd, o awr i awr,
 Mae 'n nesu gwawr y dwthwn
 In' ado 'r byd, a myn'd i'r bedd
 Yn oer ein gwedd, ystyriwn.

Olwynion amser sydd yn troi,
 Ni fedrwn ffoi rhag angau;—
 Yn ddoeth adgofw'n bawb, mewn pryd,
 Iawn gyfrif hyd ein dyddiau.

Pob gwaith a dderfydd pan y'n rhoer
 Yng ngwely oer marwolaeth ;
 Gwneyd yn y bedd i'r nefol Gun
 Nid ellir un gwasanaeth.

A oes i'w wneyd ddim, ddim yn ol,
 Cyn myn'd i'n bythol artref?
 Ein henaïd gwerthfawr, hoff, a yw
 Mewn hedd â Duw y tangnef?

Yn awr yw 'r amser, heddyw 'r dydd,
 Os rhywbeth sydd i'w wella,—
 Ni ŵyr un dyn o dan y ne'
 Nad hwn yw 'r cyfle' ola'.

HYMN.

“A'r Iesu a fu anfoddlon, ac a ddywedodd, Gadewch i blant
 bychain ddyfod attaf fi, ac na waharddwch iddynt ; canys
 eiddo y cyfryw rai yw teyrnas Dduw.” Marc x. 14.

BYCHAIN blant bu'r Arglywydd Iesu
 I'w lân freichiau yn gwahôdd,
 Ac i'r anwyl rai 'n cyfrannu
 Bendith Nef yn felus rodd ;
 E geryddai 'n llym y rhei'ny
 A fynnasai 'u cadw 'n ol,—
 Eu gwiriondeb gan orhoffi,
 E'u derbynïai yn ei go'l.

Pan bo angau yn cymmeryd
 Plant i ffwrdd o dir y byw,
 Wylo heilltion ddaerau tristryd
 Ar eu hol anghymmwys yw :
 O dywyllwch dyffryn galar
 Aethant adre' atto Ff
 A ddywedodd ar y ddaear
 Mai eu rhan yw teyrnas nef.

Plant oedd anwyl gan yr Iesu
 Tra bu 'n rhodio'r ddaear hon,—
 Yn y nefoedd cânt ei garu,
 Ar ei wyneb wenu 'n llon :
 Mantell glyd ei gariad mwynaidd
 Sy 'n eu hamgylchynu 'nawr,
 Nid oes arnynt hiraeth oeraidd
 Am wageddau daear lawr.

Ni fu enllib ar eu genau,
 Ni fu dichell yn eu bron,
 Ni rodiasant geimion lwybrau
 Twyll a brad y fuchedd hon ;
 Addas ŷnt i gymdeithasu
 A thrigolion pur y wlad
 Lle mae heddwch yn teyrnasu
 Yn ddiddiwedd ei barhâd.

HYMN.

“Oddieithr eich troi chwi, a'ch gwneuthur fel plant bychain, ni ewch chwi ddim i mewn i deyrnas nefoedd.” Mat. xviii. 3.

CYN cael cyrhaedd gwlad goleuni,
Burwyd oll â nefol dân,
Dywed Crist mai rhaid yw geni
Dyn o newydd oll yn lân ;
O hunanol ffrost a balchder
Dwyn y galon gudd yn iach,—
D'od mewn yspryd o addfwynder
Oll yn llwyr fel baban bach.

Coethi gwreiddyn dyfna' 'r teimlad,
Lladd trachwantau o bob rhyw,—
Yn y meddwl, gweyd yn wastad
“Bach wyf fi a mawr yw Duw :”
Bod fel plentyn gwan yn wirion,
Heb na dichell, twyll, na brad,—
Bod i bawb o'n cylch yn dirion,
Fel y bu ein Harglwydd mād.

Nefol Dad, yn argraphedig
Bo dy air ar f' enaid i,—
Dysg fi i gwympo 'n ostyngedig
Fyth o flaen dy fawredd di :
Lladd hunandyb sydd yn dirgel
Nythu yn y fynwes hon,—
Yn ei le rho fryd i isel
Blygu 'n wastad ger dy fron.

Felly 'n addas y derbyniaf
 Gyfraith lân dy deyrnas fwyn,
 Ei haddasrwydd ni amheuaf,
 Dan ei baich ni roddaf gŵyn,—
 Ond disgwyliaf am y borau,
 Trwy amynedd dwys a ffydd,
 Pan ddaw 'n eglur dy drefniadau
 Fel goleuni 'r canol ddydd.

HYMN.

* Cofia yn awr dy Greawdwr yn nyddiau dy ieuengŵyd, cyn
 dyfod y dyddiau blin, &c." Preg. xii. 1.

Yx mlodau 'th oes, mewn nerth yn awr,
 Iawn gofia 'th fawr Greawdydd,
 Ac i'w wasanaeth dwys a da
 Cyssegra dy foreu-ddydd.

Mae 'nawr dy deimlad oll yn frwd,
 Daw serch yn firwd o'th galon ;
 A ph'eth i hwn yn wrthddrych rhwydd
 Gei 'n well nâ 'r Arglwydd tirion ?

Pwy 'n gyfaill gwell yn hyn o fyd,
 I roi dy oglud arno ?
 A phwy yn well i fod o'th blaid,
 Pan bydd yn rhaid ymado ?

Nid addas d'od i'w winllan ef,
 Gan godi llef edifar,
 Yn ol i'r nerth a'r grym lesghâu
 Wrth foddio duwiau daear.

Mae 'r dyddiau blin yn agoshâu,
 Mae 'n fyr, mae 'n frau dy fywyd :
 At waith dy Dduw, O dere 'nawr,
 Cei brofi 'n fawr dy wynfyd.

Dos, dos, a gâd y byd ym mhell,
 Ni chei di well gwobrwywr,—
 Cei deimlo, foreu a phrydnawn,
 Yn hyfryd iawn dy gyflwr.

O dan ei ofal tirion ef
 Cei oll yn nef o'th ddeutu ;
 Yn nyffryn angau, dan ei law,
 Yn wyneb braw cei ganu.

Cei yn y nefoedd gyda'i saint
 Yn fawr dy fraint ei ganmol,—
 Ar dir y gwynfyd golau glân,
 Dyrchafu'r gân drag'wyddol.



HYMN.

“Agos yw yr Arglwydd at y rhai drylliedig o galon; ac efe a geidw y rhai briwedig o yspryd.” Psalm xxxiv. 18.

Chwi, â'ch bronnau yn friwedig,
 Dan eich beichiau'n soddi i lawr,
 A'ch calonau yn ddrylliedig
 Dan drwm wasgfa cystudd mawr,—
 Am bechodau'n athrist wylo
 Dagrau heilltion yn ddi drai,
 Dan wan-obaith blin yn gwywo
 Pan i'ch cof daw llawer bai,—

Pan y tybiwch fod yr Arglwydd
 Wedi'ch gadael oll yn llwyr;
 Etto, clywch, eich gostyngaidrwydd
 Ef a'i gwêl ac ef a'i gŵyr:
 Y mae'n agos, gwir ei eiriau,
 Attoch chwi, â'ch calon donn,—
 Yn agosach fil o weithiau
 Nâg at blant llawenydd llon.

Puro'r fron â dw'r cystuddiau
 A wna Duw dros ronyn bach;
 Ond ar fyr fe sych eich dagrau,
 Ac fe'ch dwg i'r nef yn iach:

Yna myrdd o lawen-gerddi
 Fydd am bob ochenaid drist,
 Yn hoff deyrnas y goleuni,
 Gyda'r Tad a chyda Christ.

HYMN.

“Canys ni a wyddom os ein daearol dy o'r babell hon a ddat-
 todir, fod i ni adeilad gan Dduw, sef ty nid o waith llaw,
 tragywyddol yn y nefoedd.” 2 Cor. v. 1.

Os fy naearol, waelaidd dŷ
 Yn raddol sy 'n ymddattod,
 A'r dydd o'i syrthio'n lân i lawr
 O awr i awr yn dyfod,—

Os pridd a llwch yw'r babell hon
 Ag sydd ym mron dadfeilio,
 Mae imi dŷ ar amgen sail,
 Oes, oes i ail breswyllo.

Y mae i'r rhai a garant Nêr
 Fry uwch y sêr anneddau,
 Na fena treigliad amser byth
 Ar eu tragyfyth furiau.

I eigion môr yr haul a syrth,
 Diflanna gwrth yr wybren :

Bydd yn y nef fy lletty clyd
Er hyn i gyd yn ddienn.

Cyfnewid byth un oed ni wnâ
Ar y breswylfa nefol ;
A'i sail yn ddewr, a'i gwedd yn wyn,
Ar Sion fryn trag'wyddol.

HYMN.

"Am hynny byddwch chwithau barod; canys yn yr awr ni
thybïoch y daw Mab y dyn." Mat. xxiv. 44.

Ys ddiâu Mab y dyn a ddaw,
A'r amser prysur sydd gerllaw ;
Fe'i gwelir ar gymmlau'r nef,
A llu angylaidd gydag ef.

Ef allai cyn darfyddo 'r dydd
Yn awr yn gwenu arnat sydd,
Y bydd yr amser pwysig iawn,—
Mae'n weddus gwylio forau a nawn.

Fa bryd y daw un dyn ni wŷr,—
Ai gyda'r wawr, ai yn yr hwyr,
Ai canol nos, ai canol dydd,—
Hyn yn guddiedig ollol sydd.

Ond daw,—gwirionedd cadarn yw
 Yn eglur a lefarodd Duw ;
 A phan y delo, gochel, ddyn,
 Rhag iddo'th gael â drwg ynglŷn.

Beth os ymddengys yn y nen,
 Ar wely meddwdod pan bo'th ben?—
 Neu pan bo dyfais brad a thwyll
 Yn dallu pur oleuni'r pwyll ?

Beth, os pan byddo enw'th Ri
 Yn gabledd yn dy enau di?—
 Pa fodd y codi 'th drem i'r nef,
 I edrych yn ei wyneb Ef?

GAIR DUW.

Hymn wedi ei haddasu at dôn, o eiddo D. J. Morgan, o
 Lechryd, Ceredigion, yr hon dôn a enwir Waterloo.

Y NEFOL Air sy 'n fywiol faeth,
 Derbyniwn ef yn fwyn ;
 O hudawl faglau pechod caeth
 Mae hwn yn ceisio'n dwyn ;
 Mae hwn yn gwa'dd pechadur trist
 O'i anllad ffyrdd yn ol ;
 I hwn yn ufudd dyro glust,
 Ti was afradlon ffol.

Yn denu dyn mae llawer twyll
 I rodio 'mbell o lwybrau pwyll ;
 I adael heddwch tŷ ei Dad,
 A chrwydro'n wyllt mewn anial wlad :
 Ond Gair ein Duw sy 'n addysg rydd
 I'n harwain mewn goleuni dydd ;
 Rhown ein myfyrdod arno 'n llawn,
 Ac yna gwir orfoledd cawn.

Gair yw a saif yn oll o'i nerth,
 Yn ddim pan fyddo 'r byd ;
 Saif hwn er pob chwyldroad certh
 Yn gadarn oll i gyd :
 Hudoliaeth byd a'i bleser gau
 A dderfydd cyn bo hir :
 Yr amser sydd yn agoshâu
 Na phrisir ond y gwir.
 O ! rhoddwn oll ein bryd a'n cais
 I wrando 'r dwyfol dirion lais ;
 Yn arwain mae i fryniau 'r hedd,
 Lle gyda Duw mae bythawl wledd,—
 Lle'n llifo mae gorfoledd mad,
 Heb ddim ar feth trwy gyrrau 'r wlad ;
 Lle nad oes gelyn, cur, na chlwy,'
 Na 'madael byth a'n gilydd mwy.



HYMN.

“Teilwng yw yr Oen yr hwn a laddwyd, i dderbyn gallu, a chyfoeth, a doethineb, a chadernid, ac anrhydedd, a gogoniant, a bendith.” Dat. v. 12.

Yr Oen a laddwyd teilwng yw
O wresog barch pob enaid byw ;
Fe haedda 'r gân, fe haedda 'r mawl,
A phob anrhydedd byth heb dawl.

Ei waed a gollodd drosom ni,—
Boed iddo 'r clod, boed iddo 'r bri ;
Y fendith oll yn llwyr, yn llawn,
Rhown iddo ef hyd eitha 'n dawn.

Y gallu a'r gogoniant byth
Boed iddo ef mewn cerdd ddi lyth,—
Cydseinied nef a daear faith
Ei glodydd pêr, mewn melus iaith.

Y greadigaeth helaeth fawr,
Ym mhell i fynu, 'mhell i lawr,
Cydued trwyddi oll yn lân
I'w enw ef i godi 'r gân :

A theilwng yw,—ei hunan rhoes
Dros ddyn yn aberth ar y groes :
Yr awron dyrchafedig yw,
Yn eistedd ar ddeheulaw Duw.

HYMN.

"A'r haul a dywyllwyd," &c. Luc xxiii. 45.

Nid rhyfedd oedd it,' haulwen,
 Dywyllu 'n entrych nen
 Pan oedd yr Iesu addfwyn
 Yn goddef ar y pren,—
 Yr un reolai 'r gwyntoedd
 Wrth ganfod dan ei gur,—
 Tywysog mawr tangnefedd
 Yn profi 'r bustyl sur.

Ynguddiaist gan oer g'wilydd
 O weled digllawn lu
 Yn gwawdio 'n Harglwydd tirion
 I bawb mor hawddgar fu,—
 Yr un a wylai 'r dagrau
 Yn dyner dros ei wlad,
 Yn colli gwaed ei galon
 Mewn dirmyg a sarhâd.

Ti, haulwen, ar dy yrfa,
 Yn fynych gwelaist ef
 Yn gwella briwiau 'r cleifion,
 Yn fwyn, trwy wlad a thref,—
 A llen o ddu dywyllwch
 A deflaist dros y gwaith

O'i ladd yn waradwyddus
Gan blant y cabledd maith.

HYMN.

“Yr Iesu a ddywedodd wrth y deuddeg, A fynnwch chwithau hefyd fyned ymaith. Yna Simon Pedr a'i hattebodd ef, O Arglwydd, at bwy yr awn ni?” Ioan vi. 67, 68.

Ar bwy, f' anwylyd Iesu,
Yr âf o'th wŷdd a'th dŷ?
Rhyw erchyll nos sy'n nesu,
Os colla' i'th wyneb cu:
Mae 'r byd yn llawn diffeithwch
A d'rysni oll i gyd;
Nid oes ond ti a'th heddwch
A all sirioli 'mryd.

Tydi yw llyw fy enaid,
Ar fôr o donnau 'n llawn,
Sy 'n curo arna' i'n ddibaid,
Foreuddydd a phrydnawn:
Tydi yw 'r “ffordd a'r bywyd:”
I b'le i grwydro 'r âf?
Yr wyf yn waeth nâg ynfyd,
Os gadael Crist a wnaif.

Tydi yw ffynnon hyfryd
Yr Iachawdwriaeth fawr,

I fyrdd yn rhoddi bywyd
 Pan maent ar soddi i lawr.
 Dywysog mawr tangnefedd,
 Dad trag'wyddoldeb maith,
 Os palli di 'th ymgeledd,
 At bwy cyfeiria' 'i nhaith ?

Tydi yw 'r Seren forau
 Sy 'n arwain myrdd yn lân,
 Trwy ddyffryn cysgod angau,
 I fro 'r drag'wyddol gân ;—
 Tydi a'th waed yw testun
 Caniadau 'r nefoedd wen ;
 Fy mrawd, fy Nuw, fy Mrenin,
 Boed iti 'r mawl. Amen.

HYMN.

"O hyn allan rhoddwyd coron cyfiawnder i'w chadw i mi, &c."
 2 Tim. iv. 8.

Os trwy 'r anialwch mae fy nhaith,
 Dros ddyrys faith ddiffeithwch ;
 Mi gaf orphwysfa cyn bo hir,
 Ar hyfryd dir tawelwch.

Yng nghadw mae ar fryniau 'r gân
 Im' goron lân cyfiawnder,

Yr hon a ryddd y Barnwr mawr
Pan ddelo 'r awr anwylder.

Beth fydd coronau 'r ddaear wiw
A honno i'w cydmaru?
Dim, dim,—bydd honno fel yr haul
Dros byth yn araul d'wynnu.

Hon ar fy mhen, pan ddelo 'r pryd,
A'i law fe ddyd fy Ngheidwad;
A mi a roddaf yn ddi dawl
Byth iddo fawl yn ganiad.

HYMN.

“Ni welodd llygad, ac ni chlywodd clust, ac ni ddaeth i galon
dyn, y pethau a ddarparodd Duw i'r rhai a'i carant ef.”
1 Cor. ii. 9.

Y SAWL a garo 'r Arglwydd Iôr,
Gan wneyd ei gynghor beunydd,
A gânt wobrwyon, ddydd a ddaw,
Mewn gwerth uwchlaw lleferydd.

O'u gwychder llygad nid yw 'n dyst,—
Ni chlywodd clust daearol
Erioed ddarlunio 'r pethau mad
O fewn y wlad drag'wyddol.

A'u gwnaeth yr Hollalluog yw,
 Anfeidrol Dduw 'r mawrhydi ;
 A gallwn ddeall hyn, yn ddir,
 Eu bod i'w gwir ryfeddu.

Eu bod yn deilwng llwyr yw 'n ffydd
 O'u mawr Gyfrannydd dwyfol,
 Yr hwn a wnaeth yr haulwen fry
 A'r ser ag sy mor siriol.

Ymdrechwn haeddu, trwy iawn fyw,
 Da bethau Duw 'r haelioni ;
 Ac mae 'n wirionedd eithaf llawn
 Byth, byth na chawn ein siomi.

HYMN.

"Gwya eu byd y bobl y mae'r Arglwydd yn Dduw iddynt."
 Salm cxliv. 15.

Gwyr fyd y rhai mae 'r Arglwydd Iôr
 Yn Dduw, yn drysor iddynt,—
 Gofala byth mewn cariad llawn
 Yn dyner iawn am danynt.

Yr Hollalluog ydyw ef,
 Mawr Lywydd nef a daear ;
 Nid all un grym fod iddo 'n groes,—
 Nî fu, nid oes ei gymmar.

Lle byddo 'i wên pob braw a ffy,
 A'r cyfan dry 'n dawelwch;
 Efe, mae 'n gywir wir di wad,
 Yw unig Dad dedwyddwch.

Gwyn fyd y rhai, mewn cyflwr cu,
 Mae Duw 'n teyrnasu arnynt:
 Mawr chwantu 'r wyf, y nefol Gun,
 Cael bod yn un o honynt.

Fy myd yn hyfryd yma gaf,—
 Yn angau byddaf ddiogel,—
 Caf yn y nefoedd ddedwydd dda
 Dros byth orphwysfa dawel.

HYMN.

“Pa beth yw dyn i ti i'w gofio?” Salm viii. 4.

MOR ddyrchafedig wyt, ein Duw,
 Fawryddig Lyw di-gymmar,—
 Dy ogoneddus ryfedd waith
 Yw nefoedd faith a daear.

Mae ôl dy law, anfeidrol Fod,
 Trwy ehang rod ffurfafen,
 Yn traethu 'r nos, mewn eglur iaith,
 Dy allu maith anorphen.

Marchogi ar y gwynt, ein Iôr,—
 Dy law sy 'n hwylio 'r daran,—
 Yn dyst o'th fawredd, Arglwydd mad,
 Mae holl symmudiad anian.

Addefir di drwy'r nefoedd wen
 Ar bawb yn Ben urddasol,—
 A rhydd seraphiaid iti fawl
 Yn llys y gwawl trag'wyddol.

Pa beth yw dyn, greadur gwael,
 I ti mor hael ei gofio,
 A chynnyg bod o'th ryfedd ras
 Yn Noddwr addas iddo!

O derbyn glod a pharch a bri,
 O'n genau ni, rai gweinion ;
 Rho ini fryd i wrando'th lais,
 A gwneyd dy gais yn gyson.

HYMN.

"Na chymmer enw yr Arglwydd dy Dduw yn ofer."
 Exod, xx. 7.

GORCH'MYNODD Duw un peth yn ddwys,
 Gan roddi arno ryfedd bwys ;
 Sef na chymmerem, unrhyw awr,
 Yn ofer enw 'n Crëwr mawr.

Y cablwr atgas, ddyn di foes,
 A wna i hyn yn hollol groes,
 Tra 'r gwaith heb bleser o un rhyw,
 Os nad yw 'n bleser digio Duw !

Yr hyn waharddodd Iôn, ei Dad,
 Yr hwn sy'n rhoi bendithion rhad,
 A wna fe ganwaith yn y dydd,
 Gan watwar Duw a'r farn a fydd.

Hudoliaeth bradus cnawdol flys,
 Neu'r chwant o ddwyn, er achub chwŷs,
 Ynt fwy naturiol, clywch, nâ'r bai
 Arswydus hwn,—gwae'r euog rai !

Y cablwr ffaidd, cas ei dôn,
 Sy'n eglur ddweyd yn wyneb Iôn,
 "Dy arch a brisiaf megis dim,
 A'th gais ni wna, er hawdded im'."

Y Duw sy'n cynnal gwres dy fron,
 A haeddai ef yr hylliaith hon !
 Ymbwylly, ddyn, cyn delo'r awr
 Bydd rhaid wynebu'r cyfrif mawr !



HYMN.

“Y mae gan hynny orphwysfa etto yn ol i bobl Dduw.”
 Heb. vi. 9.

Os gofid sy 'n dy wasgu 'n drwm,
 Yn gwneyd dy enaid megis plwm ;
 Dan flinder trist na wyla 'n ffol,
 Mae it' orphwysfa etto 'n ol.

Os trwy 'r anialwch niwlog, maith,
 Yn eitha' dyrys mae dy daith ;
 Dan flinder trist na wyla 'n ffol,
 Mae it' orphwysfa etto 'n ol.

Os yw dy enaid yn tristâu,
 O achos twyll cyfeillion gau ;
 Dan flinder trist na wyla 'n ffol,
 Mae it' orphwysfa etto 'n ol.

Os galar llym sy 'n gwywo 'th wedd
 Wrth roi perth'nasau yn y bedd ;
 Dan flinder trist na wyla 'n ffol,
 Mae it' orphwysfa etto 'n ol.

Os wyt yn dechreu teimlo 'th ffydd
 Yn wan, o eisiau gwel'd y dydd ;

Gwêd wrth dy enaid, (na fydd ffol,)
 Gorphwysfa yw sydd etto 'n ol.

HYMN

CLADDEDIGAETH Y MARW.

Un etto wedi'n gadael sydd
 Na rodia'n daear mwy,
 Yn myn'd i'r tawel letty cudd
 O afael poen a chlwy'.

O'r pridd y daeth ; i'r pridd yr â,—
 Awn ninnau'n glau 'r un wedd :
 O blant y llwch nid oes a gâ
 Ddiangfa rhag y bedd.

Mae rhoi cyfeillion dan y gwys
 Yn addysg i bob dyn
 I drefnu, mewn prysurdeb dwys,
 Ei gyfrif ef ei hun.

Pan roddo angau 'r olaf wÿs,
 Rhy hwyr fydd parottoi ;
 I'r fanol farn bydd raid ar frys
 I ni ein hatteb roi.

Na ddigied neb, trwy bechu'n gas,
Sylfaenydd mawr y nef,
Ag sydd mor hael yn ffyrdd ei ras,
Mor dirion yn ei lef.

At afradloniaid mwyn ei lais ;
A phwy a all yn hir
Droi byddar glust at un â'i gâis
Dros ein dedwyddwch gwir ?





ENGLISH PIECES,

BY THE SAME AUTHOR.¹

LINES

IN MEMORY OF THE LATE REV. ELIEZER WILLIAMS,

HEAD MASTER OF THE LAMPETER GRAMMAR SCHOOL.

ART thou forgot, our guardian and our friend?
Did, with thy life, thy name and mem'ry end?
And has the darkness of the tomb set free
Our hearts' affection and our love from thee?
No, gen'rous father, no—we still can trace
The beams of friendship playing in thy face,
And view those eyes whose vivid lustre glow'd
To mark that *there*, Intelligence abode.

¹ It was not originally the intention of the author to insert in this Work any of his English Compositions; and these few Pieces are introduced in consequence of some of his English friends having expressed a wish to see a portion of English in the Volume.

The tear that rolled in silence o'er the cheek,
 Thy admonitions and thy precepts meek,
 Each tale rehears'd our bosoms to inspire,
 And wake to noble deeds our young desire
 We still remember,—while affection binds
 Our souls to thee, and sorrow fills our minds.
 To thee, fair science oped her ample store,
 Yes—and to thee for kindness look'd the poor.
 That mighty mind on eagle-wings that soared,
 The darkest paths of learning that explor'd,
 Was still attentive to the orphan's cry,
 The peasant's mournful tale—the widow's sigh.
 Thine was that humor which bade sadness smile,
 And thine the Christian heart that knew no guile:
 Like God's true Shepherd, thy incessant aim
 Was, the poor wandering sinner to reclaim—
 To preach Christ crucified—disarm all strife,
 And feed the hungry with the bread of life.
 If here thou trod'st affliction's gloomy way,
 If cares and sorrows mark'd thy cloudy day—
 Now thy blest spirit rests in that domain
 Where death is nam'd not—and where pleasures
 reign.

Adieu, kind master—best of friends, adieu;
 God will again our intercourse renew,—
 When, no more sever'd from thy fond embrace,
 We'll praise th' eternal God—the God of grace.



VERSES,

Recited at the Public Dinner given at Lampeter, July 27th, 1824,
to the Rev. John Williams, Vicar, and Head Master of the
Grammar School at that place, on the occasion of his depart-
ure to fill his new, distinguished situation, as Rector of the
Edinburgh Academy.

WELCOME or not, I must impart
The feelings of an aching heart
On this eventful day,
When Cambria's doleful notes I hear,
When Father Tivy drops the tear,
And Friendship whispers in mine ear,
"I wish that he would stay."

Thy image, friend, will ever rest,
When thou art far away, impress'd
Deeply on mem'ry's page :
Thy eloquence, thy wit,—thy mind
Stored with intelligence—refin'd
By all that sages left behind
Will oft our thoughts engage.

If go thou wilt, with thee will go
The prayer of the high and low
That thou thy wishes gain :
When thou art far from Tivy's vale,
The poor will think of many a tale
Of sorrow told at Falcondale,
And never told in vain.

If richer prospects thee invite
 To distant plains where honours bright
 On genius e'er attend,
 Still foremost be to crush the hand
 That ever may attempt to brand
 With foul disgrace thy *native Land*,
 And prove old Wallia's friend.

Still bear in mind sweet Cambria's hills,
 Her verdant vales and murm'ring rills,
 That erst thy hours beguil'd :
 The partner of thy joy and care—
 Thy children, amiable and fair,
 Were nurtured by the fresh'ning air
 Of *Ceredigion* mild.

'Tis always hard to say adieu ;
 But so t' address some loved *few*
 Is still a greater pain :
 On thee and thine my Fortune pour
 The richest gifts she has in store—
Then we will ask her one thing more—
 To bring thee back again.



THE RETURN.¹

COME, ye rustics, come and tell,
Why, when all is calm around,
When the gales so sweetly smell,
Skimming o'er the daisied ground,—

Prostrate on the earth I lie,
Thus with faint, extended feet,
And the dropping tear descry
Glistening on my grassy seat.

I bewail no Cupid's dart
Plunging in a guiltless breast,—
No perfidious virgin smart,
Deigning not to make me blest.

Wife or son has never cross'd
My fond wishes or my laws,—
I no costly ship have lost,
Deep engulfed in ocean's jaws.

Blasted is no corn of mine,—
Dying o'er my field no flock,—
Milkless turn'd no faithless kine,
Not my toils the tempests mock.

¹ This Piece appeared in the Oxford Journal, 1814.

Why then heaves my bounding breast
Thus convulsive on the clod,
With such loads of sorrow press'd,
That I cannot onward plod ?

'Tis to view my father's cot
Dimly peeping through the shade,—
'Tis to see the pleasing spot
Where so oft in youth I play'd.

'Tis to view this aged tree
On whose bark my name remains,
And which still remember'd me
Distant far on foreign plains.

Present in this happy shade
I no beauty in it found,—
Dull the sweet, enchanting glade,
Dull the streams that purl'd around.

But the farther I withdrew,
Fairer then was every spray ;
Pictured on my mind anew,
E'en the mossy turf grew gay.

Ne'er again shall curious eyes,
Craving still for things unseen,
Draw me from these purer skies,
From these vales of vivid green.

Here the paths of youth I'll tread,—
And o'er old sequester'd ways,
On yon craggy mountain head
Seek the haunts of former days.

On the same unalter'd hearth,
Present objects I'll compare
With what then in youthful mirth
Pleas'd me and engross'd my care.

Nature's wonders I'll explore,
And the strengthen'd mind employ
Where with equal warmth before
Oft I watched the whirring toy.







YCHWANEGIAD

O WAITH YR UN AWDWR.

I'R HAUL.

LAMP hardd yr Hollalluog ! euraid Haul !
Bennadur oesawg yr ehangder glas,—
Dros filmyrdd o flynyddau heb un traul
Yn tramwy 'r wybren,—mi a deimlaf iâs
Rhyfeddod wrth dy weled ; teimlaf chwant
Dy annerch fel rhyw nefol hybarch sant.

Ni feiddiaf edrych yn dy wyneb glwys ;
Ysplennydd Haul, rhoi dysg yr wyt i mi
I synio gydag ofn a gwylder dwys
Am lewyrch maingc yr Hwn a'th luniodd di ;
Y Duw anfeidrol ddoeth—anfeidrol fawr
A'i fys a'th ffurfiodd di, wybrennol gawr !

Meddyliaf am fy hendaidd a thâid hwn,
A theulu 'r cynfyd yn eu lludded prudd ;
Llewyrchaist ar eu hwyneb ar awr pwn
Eu llafur ar y ddaear ; aeth eu dydd

Hwynt heibio fel hynt cwmmwl,—wyt *ti* 'r un
I'm hebrwng innau i'm trag'wyddol hun.

Meithrinaist lysiau ar y lle bu sail
Dinasoedd caerawg y boreuol fyd
Cyn llunio 'u muriau : megaist yno ddail,
Y gwanwyn, â dy dwymder tirion, clyd ;
Y lili etto yn dy wres a chwardd
Ar adfail Babylonia gynt mor hardd.

Mae llafar i'm dychymmyg gennyt ti
Yn llifo gydâ gwawd ar falchder dyn,—
Wybedyn gwael y llaid, a gyfyd Rhi
I fywyd yn y bore,—yna sy'n
Diflannu ymaith fel y rhoddo fe
I'w had o'r llygredd am funudyn le.

Ti fyddi, Haul bywydol, ar fyr ddydd,
Yn taenu dros fy meddrod fantell werdd :
O ! rhoed dy Luniwr i'm dawelwch ffydd .
Y caf, pan ddelo 'r awr, hyfrydwch cerdd
Gogoniant yn fy ngenau, pan bo 'm cnawd,
Yn faluriedig yn ei annedd dlawd.

Myfyriais ar dy fawredd, Haul y nen ;
I ddunos prudd-der gynneu 'r aeth fy mryd :
Mae ynnof lais yn gweyd am godi 'mhen,—
Mai goruwch wyf, yn Nuw, nâ Haul ein byd ;
Fod ynnof fi, sy 'n bridd a llwch y llawr,
Yng nghudd ronynyn bach o'r Duwdod Mawr.

Mae *enaïd* ynnof i drag'wyddol fyw,—
 Yr Haul, ryw ddydd, a syrth i eigion môr—
 Gwreichionen o anadliad Yspryd Duw
 A *raid* ddychwelyd i breswylfod Iôr :
 Fe gyfyd hedyn Duw, ar ryfedd awr,
 Mi gadarn gredaf, i ryw harddwch mawr !

LLINELLAU

Ar farwolaeth mab Mr. David Owen, (BRUTUS), cyfansoddedig
 ar gais y rhieni.

MAE 'th alar, Brutus, mi a wn, yn ddwys ;
 Mae llwyth o gystudd blin yn gwasgu 'th fron ;
 Gan ysawl hiraeth am dy fab mae pwys
 O ddolur ar dy enaid ; nid yw lon
 Dy wedd fel gynt, a buan o dy rudd
 Diflanna 'r wên gan drymder mynwes brudd.

Fy awen all ddychymmyg loes y fam ;
 Ni holaf yn ei chur *pa faint* ei chwyn :
 Mae blodau 'i hyspryd wedi gwywo, am
 I angau dorri gwraidd ei chysur mwyn ;
 Mae 'i meddwl drylliog—caffed gymmorth Iôr—
 Fel llong heb lywydd ar y tonnawg fôr.

Mae gwneyd gan angau ysgar rhwng y rhai
 A rwymodd Natur gref mewn cwlwm tyn
 Yn ergyd caled ar y tÿ o glai ;
 Ond trefniad Duw 'n ei ddoethder ydyw hyn ;

Eich ffydd bid gadarn yn ei gariad Ef,
Reolydd daear a Llywiawdwr Nef.

Mae olwyn cerbyd eich gobeithion chwï
Yn ddarnau wedi 'mrwygo ar un waith ;
Eich heulwen a dywyllodd, pan oedd hi
Yng ngrym ei llewyrch ar y glesni maith :
Yng nghanol corwynt mawr y siomiant syn
Mae 'r awen, Brutus, itti 'n dweyd fel hyn :—

Mae 'r meirw gwynfydedig fry yng n'gardd
Paradwys wên flodeuog gyda Duw :
Mae palmwydd yn eu dwylaw, ar fryn hardd
Bendigaid Seion : ac yn flin a yw
Dy fron mewn dolur ? O ! adgofia 'r wlad,
Lle mae y gwardedigion gyda 'u Tad.

O'u llafur wedi gorphwys, ym mro Nef,
Mae 'r rhai fu farw yn yr Arglwydd Iôr :
Un fron ni theimla eisiau lle mae Ef
Yn rhoi o bren y bywyd ; mae ystôr
O bob rhagorion yno ; nid oes un
Dymuniad yno ond mwynhad ei hun.

“Ni welodd llygad ac ni chlywodd clust,”—
Dychymmyg gwan erioed i galon dyn
Ni ddaeth o'r pethau ag mae Duw yn dyst
Eu bod yn ddarparedig i blant Cwn :
Yn heirdd, ryw ddydd, ceir meib y “cystudd
mawr”
Mewn gynau gwynion fel goleuni 'r wawr.

Bererin tristwch ! hed i noddfa 'r gwaed
 A lifodd ar Galfaria 'n aberth drud :
 Ymgrymma 'n isel yn y llwch wrth draed
 Yr Iesu, Frenin y trag'wyddol fyd :
 Bydd hyfryd canu, uwch cyrhaeddiad poen,
 Mewn gwisgoedd wedi 'u cannu 'ng ngwaed
 yr Oen.

GALAR-GERDD

Ar farwolaeth y diweddar Barchedicaf WILLIAM BRUCE
 KNIGHT, Deon Llandaf.

ER's dyddiau fy nghalon sy flin a thrymlwythog,
 Mae tristwch trwy 'm mynwes a'i ddant fel o
 ddu :

Mi geisiaf dy gymmorth, fwyn awen bêr-eiriog,
 I blethu galarnad—bydd lesiol i'm cur.

Yn faich mae distawrwydd : ymdorred lleferydd
 O'm genau, a chaffed fy mron esmwythâd :
 Fy nghân os anystwyth, maddeued y celfydd ;
 Mae 'r testun, o leiaf, yn bwysig i'm gwlad.

Os yw gyffroedig ddyfnderoedd ein teimlad
 Fy mrodyr Eglwysig, fel mynwes y môr
 Dan chwythiad y corwynt, mae achos a galwad
 Am yspryd toddedig—mae 'i wraidd yn yr Iôr.

E welir yr Eglwys yn wylo 'n bruddglwyfus,
 A gwisgoedd o alar o'i hamgylch yn llen
 Mewn tristwch gauafaidd, fel gweddw gwynfannus,
 Yn codi 'r ochenaïd—yn gostwng ei phen.

E welwyd yn syrthiaw o ganol yr wybren
 Oleuni disgleiraf a harddaf ei wawr,
 Yn taenu sirioldeb hyd faes y ffurfafen,
 Yn gweini tirionwch hyd wyneb y llawr.

Mi welaf y ffynnon o'r hon y dylifai
 Dysgeidiaeth yn afon feithrinol ei thaith
 Yn awr wedi sychu; a'r ddôl a ireiddiai
 Ni welaf fi mwyach yn werdd ac yn llaith.

Mae Dëon Llandaf yn y tywod yn gorwedd!
 Mae 'n tadol gynghorwr yn fud yn y gro!
 Mae nerth a doethineb, mae urddas a mawredd,
 Ei lafar mewn bythol ddistawrwydd yng nghlo!

Llandaf! mae y Gwanwyn a'r Haf wedi cilio
 Ar ddawn dy Esgobaeth, sy randir mor lwys:
 Ymruthrodd yr Hydref—mae 'r dail yn edwino
 Ar gangau Gwybodaeth: mae 'r olwg yn ddwys.

Mae 'r Eglwys fel llong heb ei llywydd rhwng
 tonnau
 Cynddeiriog, brawychus, chwyddedig y môr;
 Mae atti 'n annelu eu tanlyd fagnelau
 Elynyon ei llwyddiant mewn gwangc am ei 'stôr.

“Pa beth am y nos?” byth ni ddyry'r Gwyliedydd
 Un gair yn attebiad o ddunos y bedd:
 Mae llong ein gobeithion yng nghanol y 'stormydd,
 Heb Knight i'w chyfeirio i borthladd yr hedd.

O'r cedyrn e gwympodd yr arwr cadarnaf
 Yn lluoedd Duw Israel, arweinydd y gâd,
 A hedd ar ei fanniar yn arwydd egluraf
 O yspryd gwir Gristion at blant yr un Tad.

Os oedd ddyrchafedig ei urdd; a'i osodiad
 Mewn uchel anrhydedd fel Blaenor, nid blin
 Y profwyd awdurdod ei swydd i un teimlad;
 Ei gerydd mewn cariad a lifai o'i fin.

Y “gorsen wan ysig” nis torrodd trwy drawsder;
 Ymwreiddiai tynerwch yn eigion ei fryd,
 Tywynai o'i wyneb serenog hynawsder,
 Yn brawf fod y Nefoedd o'i gylch yn ein byd.

Nid *rhai* detholedig a brofent felusder
 Ei serch a'i sirioldeb: pob gradd ym mhob lle
 A welent ei fynwes yn orlawn o hoffder,
 I daenu trwy'r llawr hinoneiddrwydd y ne'.

Ei gariad a *delid yn ol* yn dwymwresog;
 Pob calon, pob tafod oedd barod i'w fawl;
 Gan ifangc fel tad, a chan hen fel tywysog
 E'i perchid: addefid i fawrglod ei hawl.

Ei enaid oedd ddidwyll : a welaist ti ffynnon
 A'i gwaelod mor loyw, mor ddisglair â'r dydd?
 Gwir ddarlun a welaist o fynwes a chalon
 Bruce Knight, o bob syniad anfrawdol yn rhydd.

Oedd fawr mewn doethineb a chynghor goleugall
 I gynnal ein Heglwys mewn urddas a bri,—
 Rheolau aneglur ei breinniau 'n llwyr ddeall ;
 Oedd *fwy* yng ngwybodaeth o air ein Duw ni.

Oedd hyddysg yn ieithoedd hen ddoethion y cynfyd,
 Mor ddrudfawr eu synwyr nes etto maent fyw :
 Mawr barchai iaith Gomer, trwy 'r hon, i'w ded-
 wyddyd,
 Mae 'r Cymry 'n cael cynnal cyfrinach â'u Duw.

Eilunod y byd—rhwysg a mawredd daearol,
 Anhyblyg elynion i lwyddiant y groes,
 Gorchfygodd, fel milwr a roddai 'n egniol
 I'r rhyfel i'w herbyn holl ymdrech ei oes.

Ei gariad haelionus, y noeth yn dilladu,
 'Newynog yn porthi, 'n ymweled â'r claf,
 Diodydd i'r genau sychedig yn rhannu,
 A helaeth wobrwyr yn nheyrnas ei Naf.

I frawd y Cyfryngwr goruchel ei hunan
 Y rhoir y drugaredd a roir i ddyn tlawd :

Fe gofia 'n Pryniawdwr bendigaid y gyfran
O'n cyfoeth a roddwn yn borthiant i'w *frawd*.

Yn achos y weddw¹ ei ymdrech fu ddibaid,
Gwarchodai dros hon dan ofalon, a'u pwys
Yn gofyn holl egni—holl ynni ei enaid ;
Dros hon fe ymbilliai yn daer ac yn ddwys,

Fel tad dros ei blentyn, am gyfran o'r golud
A rannodd Duw 'r haeledd i fawrion ein tir ;
A'r Arglwydd a hoffai gydweithio âg yspryd
Yn tarddu o burdeb teimladrwydd mor wir,

I mewn i lawenydd ei dyner frawdgarwch
Gwahoddodd ymddifaid laweroedd trwy 'r wlad ;
A "dos" fe a glywodd yn dâl i'w hawddgarwch,
"I mewn i lawenydd dy Arglwydd" a'th Dad.

Nid rhyfyg rhoi barn am y pren, pan bo'i ffrwythau
Yn amlwg ardystio ei rinwedd a'i ryw,
Nid rhyfyg yw seilio ein ffydd ar y geiriau
A'r profion a ddygodd ein Harglwydd i'n clyw.

Fe rodiodd yn uniawn yn neddfau 'i Greawdwr
Ymgeisiodd am "gampgalwedigaeth" Iôn mawr ;
Ei bwys rhodd yn dawel ar haeddiant ei Brynwr ;
Fe drechodd y "gelyn diweddaf" yn awr.

¹ Oedd Drysorydd a phrif Lywydd y Gymdeithas er budd gweddwon Offeiriaid Esgobaeth Llandaf.

Mae 'nawr wedi gorphen ei yrfa dymhestlog
 Hyd lwybrau 'r anialdir, lle 'n teithio 'r ym ni,
 O'i lafur mae 'n gorphwys ar ddolydd blodeuog
 Yr hafddydd trag'wyddol yn Nheyrnas ei Ri.

Mae gyda'i Bryniawdwr ym mro Haleluia,
 Mae palmwydd i'w ddwylaw,—mae'i hardd-
 wisg yn wen ;
 Mae 'n uchel ei ganiad am aberth Calfaria,
 A choron gogoniant am byth ar ei ben.

ENGLYNION

CYFFES AC ERFYNIAD Y BARDD.

PECHAIS, enynais yn uniawn—dy lid
 Dyledus, Iôr rhadlawn :
 Cofus wyf, Arglwydd cyfiawn,
 Clyw 'm cyffes, na wnes yn iawn.

Agored dy drugaredd,—O fau Dduw,
 Faddeuant i'm camwedd :
 Na wawried ar f' anwiredd
 Foreu barn pan ddof o'r bedd.

Dy law 'r awr hon dilëed—yn gyfan
 Holl gofiant fy nyled :

Y Rhi mawr! rho ymwared,
Gair i'm cur o gysur gwed.

Tyred â'th Yspryd tirion—yn lân iawn
Ar llynau 'nghalon :
O! ymgeisiwyf am gyson
Noddfa rad yn neddfau 'r Iôn.

Yn wir fuan daw 'm byr fywyd—i ben,
Ei boenau a'i wynfyd ;
Diwedd gwê 'm dyddiau i gyd
Yw gorwedd yn y gweryd.

Taer guro wrth ddrws trugaredd—a wnafl,
Mewn ufudd iselwedd ;
I'm hyspryd uwch byd a bedd
Duw a ranno 'i dirionedd.

ENGLYNION

I Mr. Jones, Rhydybont, (Llangollen,) ar y Gerdd gyhoeddedig
o watwar i'r Offeiriaid, dan yr enw—

“BREUDDWYD CANONAU YR EGLWYS.”

A BOENAIST fel Esboniwr¹—yn ofer,
Yn afiach dy ddwndwr ?
Dristwaith dygn! a dro'ist o'th dwrr
O Ladin yn FALDWR !

¹ Esboniwr ar y Testament Newydd.

Pa fodd ? a ballodd y byd—anufudd
 Dy nwyfau gymmeryd ?
 I'w warth, a gyndyn wrthyd
Bluf da 'th lysgota i gyd ?

Yn lle clod, a chod a chydau—llawnion,
 Llawena DIMERIAU,
 I gael bwyd o'r 'BREUDDWYD' brau,
 A blawdach o'r BALEDAU.

Yn achos llawenychu,—a welit
 Ryw wiwles yn tarddu,
 O gael canfod diwrnod du
 Ein hoff Eglwys yn fflaglu ?

Arafa ; gâd wrthryfel,—o dwymyn
 Tynn dy dymmer uchel :
 Gair garw³ 'i sain rho 'n gain dan gêl ;
 Dewis yr hyn sydd dawel.

Diwyno Crist'nogion â dannedd—llid,
 A lledu ammhuredd,
 Du fâr, nid yw glodforedd
 Yng ngwawl hoff Efengyl hedd.

Yn ffôl na enlliba ffydd—sy felys
 I filoedd trwy'r gwledydd :

³ Gair garw a gyffry ddigofaint.

Cofia'r gadarn farn *a fydd*,
A llunia yspryd llonydd.

A geisi di ryw gysur—yn oer ing
Awr angeu a'i dolur,
O gollfarnu, sennu'n sur
Gredo dy gyd-greadur ?

A gyd-dery gwatwariaith—ag euraidd
Hygaraf fwyneiddiaith
Yr Efengyl ? arf ingwaith
Ni fynn urdd ei hyfwyn iaith.

Nesa at ddôr hynawsedd ;—gâd feio ;
Gwed fwyaf mai ffaeledd
Yw dy ran,—dysg dirionedd
A lleufer hardd llafar hedd.

LLINELLAU

r Briodas y Parch. ROBERT M. P. WILLIAMS, M.A., diwedd-
ar Gymmrawd (Fellow) o Goleg Iesu, Rhydychain, â HELEN,
merch henaf y Parch. William Herbert, Rhiwbren, Cered-
igion.

GWENED y Nef yn gynnar—yn addwyn
Gan noddi 'n gyfeillgar
A gwilio rhag un galar
Helen gu a'i hylon gâr.

Dwy chwaer ddien
 Ydyw Helen
 Fwyn a'r Awen, fin yr oes :
 Hir boed itti
 A'th ddawn gwisgi
 Dy gâr lonni, degwawr linos.

Dy brydferthwch
 A dy harddwch
 Ceir o degwch Ceredigion :
 Cofia deccaf
 Ddolydd mwynaf
 Glann dŵr araf glyndir Aeron.

Diddanwch dedwydd einioes—a brofoch,
 Bâr hyfwyn, ac eiloes
 O buredd wedi 'ch berr-oes,
 Mewn mad fwyndda wlad ddi loes.

LLINELLAU

I WILLIAM GRIFFITHS, Tyhen, Llandyssiliogogo, ar ei waith yn casglu Prydyddiaeth yr hen Evan Thomas Rees, o Lanarth, i'w Argraffu, yng nghyd â chlod i'r Llyfr.

WILLIAM GRIFFITHS fwynlym graffwr,—gwelodd
 Yn galed ein cyflwr ;
 I'n gwlad crynhôdd yn glydwr
 Guaf waith hen hygof wr.

'DILLAU'R AWEN' wen ddi warth,—goeth, hafaidd,
 Gwaith EVAN o Lanarth,
 Hebot na foed Deheubarth,
 Y mwyn win pêr, mewn un parth.

Os nad ydoedd yn wr dwys nodedig
 Mewn dwfn addysg,—os mewn du fynyddig
 Le ei annedd; a'i ddwy law ei unig
 Wan gynnalïaeth, gwÿs nad un ganolig
 Ei ruadwy ferwedig—ffraeth AWEN
 O wychaf aden, glau, ddyrchafedig.

A'r mor i'w olwg, ei ŵg o eigion
 Ei gerwyn rychïawg yn gyrru'n wreïchïon,
 Dysgïai 'i Awen ar gywir ddybenïon
 Gynddeiriogi, gan godi ergydïon;
 Cornïai a baeddaï gybyddïon—di ffydd;
 Ffrwynai â ch'wilydd y ffroenuchelïon.

Etto'i dirïon fron i'w fri—arweinïd
 I roi hanes culni
 Y rhai yn llwngc chwyrn y lli
 A'i nawï addoer f'ai'n soddi.

Darlunïai'n olau fradau difrodus
 Y môr yn dygyfor yn ddigofus;
 Dynïon rhwng tonnau, wanafau nwyfus,
 Yn dolefain mewn arswyd wylofus
 Yn sŵn y 'storm resynus—âg angau
 Yn tannu'i freïchiau i'w toi'n frawychus.!

I gethin fyd yn gaethwas—e gwynodd :—

Daeth gogoned deyrnas
O ryddid, yn awr addas
Yr lôn gwych, i ran y gwas.

O'n byd aeth ymaith ein Bardd,
Uwch dolur a'i gur, a gordd
Gofidiau,—mae'n gwau y gerdd,
Dadol wr, mewn didawl urdd.

AMYNEDD.

“Rhaid i chwi wrth amynedd.” Heb. x. 36.

I ddi ffydd gybydd gwibiog
Er lles boed yr aur a'r llôg;
Eu hymyrraeth i'r mawrion,
Eu gwinoedd a'u llysoedd llon;
I minnau boed AMYNEDD
Wiwlan gu, lawen ei gwedd,
I dramwyo drwy 'mywyd
Dan gysuron hon o hyd.
Amynedd! mawr ei mwyniant
A'i grym hoff a'i gwawr ym mhant
Du adfyd,—hyfryd hoywfraint
Yw nawdd hon yn nyddiau haint.
DOETHINEB odiaeth union
O wawr lwys, yw ei chwaer lôn :

Hwylus y ddiddanus ddwy
 Rhodiant er llif rhuadwy
 Y gofid, gan iawn gyfarch
 Duw 'r nefoedd wen, perchen parch.
 Tawel yn wyneb tywydd
 Tymhestlog, gynddeiriog ddydd,
 Iawn ddodant fydd yn ddidwyll
 Yn Iôr pur, yn wâr eu pwyll ;
 Gwelant nad yw ffyrdd gwaywloes,
 A chyni, a chri a chroes,
 Ond o drefniad difrad da
 Yr hyfwyn fawr JEHŌFA,
 A gâr ei blant dan gur blin,
 A gwarrawg donnau gerwin
 Tralod caeth ; tra helaeth hynt
 Trawsder yn fawrserch trostynt.

Os, â'i enaid heb synwyr,
 Y gwael faban gwan nis gŵyr
 Er mor llym yw grym ei gri
 Y gwiw reswm o groesi
 Ei 'wyllys,—ac os ollol
 Wêl y da mewn sylwad ôl,—
 Onid doeth rhoi ar ein Tad,
 Wiwdda Ben, ymddibyniad,—
 Rhoi 'n isel dawel, bob dydd,
 Ein gwarrau dan ei gerydd,—
 Yn y llaid dyrchafu 'n llef
 I dirionwch Duw 'r wiwnef,—

Addef heb fraw yn llawen
 Dan warth byd, Duw 'n eorth Ben,—
 Aml leisio clod melyswych
 O bydew gwae i'r Bod gwych,—
 Groesawi heb si na sen
 Eli ei fad wialen,—
 O wely claf eilio clod
 Diachwyn i'r Duw uchod.
 Gwell ydyw dan golledion
 A gawn ni yn gosp gan Iôn,
 Holi 'n bai,—hwylio 'n bywyd
 I'n llai friw, yn well i'w fryd,—
 Ceisio deall pa wallau,
 Pa feddylion gweigion, gau,
 Fu 'n achos anfon ochain
 Erchyll drist ac archoll drain.

Duw a wŷyr yn llwyr ein lles,—
 Gwae oerllym er ein gwirllles
 O'i rad yn arbenig rodd
 A enfyn, fel o'i anfodd.
 Os einioes sydd dros ennyd,
 Os brau yw holl bethau 'r byd,
 Ac oes arall gysurol
 I ni yn nef wen yn ol,
 A fyth barhâ 'n feithber wŷyl
 Yn Seion union anwyl.
 Beth yw cur a dolur dig
 A dery braidd ond orig?

Yn lew os goddefid loes
 Unawr, i brynu einioes,
 O gyfoeth na ddoi gofid
 I roi arnaw law o lid,
 Pwy ar daith i'r lwysfaith wlad,
 A'i llewyrch fry uwch lleuad—
 Salem, na welwys wylo
 Nac un brath na gwayw 'n ei bro,—
 Pwy heb fai gwynai is gwŷn
 Niweidiol *un* munudyn ?

Iôr a ràn yr orau rodd
 Burfwyn, i bawb o'i wirfodd :
 Rhwyddwch mae ef yn rhoddi,
 Duw y nef, bob da i ni :
 Teganau yn toi gwenwyn
 Yw a ball a chall ni chwyn :
 Deallus yw ef,—deillion
 Ym ninnau,—dan iau ein Iôn,
 Ufuddwch oll a fyddom,
 A balch o'n Llywydd y b'om.
 Yn athrofa o dda ddysg
 Hygarddoeth Ben y gwirddysg
 Yr ydym,—call in' rodio,
 Lles iach, i'w ewyllys o.
 Os gwel dyn fraint ysgol Duw,
 Gerwineb gwg yr annuw,
 Anufuddion i feddwl
 Ac iau Ner, a'u digter dwl,
 Fe gashâ,—ac fe gais hedd
 Ym monwes hoff Amynedd.

BEDD FY MHLENTYN.

Y MAE llangiau a llangesi
 Yn llon godi llawen gân ;
 Y mae 'r byd o hyd yn dilyn
 Ei helyntion mawr a mân,—
 Minnau sydd yn trist gwynfannu,
 Och! yn waelaidd iawn fy 'stad,
 Ac yn meddwl gyda hiraeth
 Byth am *fedd fy mhlentyn mad.*

Pan ofynir beth yw 'm syniad
 Am y newydd hwn neu 'r llall,
 Mae fy synwyr a'm hamgyffred
 Yn fy 'meaydd braidd ar ball :
 Yn yr unlle mae fy meddwl
 Lle mae 'n unig im' fwynhâd,—
 Yn y fynwent brudd a distaw
 Lle mae *bedd fy mhlentyn mad.*

Wrth ymdeithio, mynych syllaf
 Dros y coed a'r caeau pell,
 Ar yr eglwys a'r lân fynwent,
 Gerllaw 'r rhai mewn cyfyng gell
 Y mae 'r un ddangosai immi
 Yn ei wedd wir wedd ei dad,—
 Un fu 'n gwenu arnaf ganwaith ;
 Cofiaf *fedd fy mhlentyn mad.*

Ganol nos, mae golau 'r lleuad
 Yn fy nghaffael ar ddihûn,
 Pan trwy gwsge mae daearolion
 Yn anghofio cur a gwŷn :
 Mi nid allaf gauad amrant ;
 Hed fy meddwl heb nacâd
 Tua 'r dawel fangre bruddaidd,
 Lle mae *bedd fy mhlentyn* mad.

Chwi, awelon, sy'n cusanu
 Llysiau 'i feddrod ar eich taith,
 Ac yn dwyn ar eich adenydd
 Wlith yn fwyn gafodydd llaith,
 D'wedwch wrtho fod fy meddwl
 Yn ymweled heb lesgâd,
 Cyn fynyched ag ych chwithau
 A chul *fedd fy mhlentyn* mad.

Tithau, heulwen, pan yn twymo,
 Ganol dydd, ei drigfan ef,
 Gan belydru 'n llon a disglaer,
 Heb un cwmwl ar y nef,
 Dywed wrtho nad yw 'th fawrwres
 (D'wedi wir nad oes a'i gwâd,)
 Gymmaint ag yw gwres fy nwyfron
 I at *fedd fy mhlentyn* mad.



RHYFEL.

Yn fwyn wych cân, f' Awen wâr—i Ryfel,
 Oer ofid ein daear ;
 Dangos i fyd ingus fâr
 Yr haint hwn trwy 'i hynt anwar.

Ei druenuswaith a wna deyrnasoedd
 O'u ffaeth lewyrch yn ddiffeith-leoedd,
 Dwg euraid olau gnydiawg ardaloedd
 O olud eres yn anialdiroedd :
 Hoff eirianwych ddyffrynoedd—toreithiog,
 Llydain welltog, ddyd yn llwydion wylltoedd.

Cur rhygroes a gwaywloes i'r trigolion ;
 Yn lle blagur gwel'd dur ar gefn taerion
 Yn erchyll biccellau, saethau sythion—
 Lle bu 'r gwiw lanwelt llwybrau gelynion—
 Lle bu 'r gân, oer gwynion,—criau,
 Llef achwyniadau—llif o och'neidion.

Oernadau gwagedd galarus gweddwon
 Dan gafodydd o donnawg ofidion ;
 Rhieni a dufraw 'n rhan i'w dwyfron,—
 Plant am eu tadau 'n rhoi criau croywon,—
 Culwae i lawer calon—friwedig
 A drylliedig gan chwerwaf thrallodion.

Ow ! gur i astud feddylgar Gristion—
 Gwel'd cludo arfau 'n donnau—lladd dynion,
 Erwin iawn alar, i *rai* 'n anwylion :
 Gwayw addoer gweled troi yn gigyddion
 I'w gilydd fel dig alon—wyr mwynfad,
 Na b'ai un dufrad yn boen i'w dwyfron !

Cyddaredd rhwng cain ddewrwyr,—eu gilydd
 Nas gwelent yn fradwyr
Hyd hyn, nac anghytunwyr,
 Ond di'mryson, wirion wyr,—

Gwyr a enwid am fyg rinwedd—(gwiwnaws
 Lle 'u ganed,)—a haeledd ;
 A gwiwlan wych ymgeledd
 I gleifion gweinion eu gwedd.

F' Awen dawel, gwel faes y gwaed ;—meirwon
 Mewn môr hagr o ruddwaed,—
 Gwychweis mewn llif o gochwaed,
 A'u drych yn isel dan draed !

Mwg a niwl yn amgylchu magnelau,—
 Hyll swm anniddan—tân yn felltenau,—
 Plwm-beli chwyrnddig—arbennig boenau,—
 Culwedd ofid, hylldrwt cleddyfau,—
 Gweryriad trwy 'r gororau—meirch rhestrawg
 A'u ffrîw ewynawg â than o'u ffroenau,—

Meginau annwn â swm gresynawl,—
 Hyll blâ 'n chwythu yn wŷn du andwyawl,—
 Dewrion freichiau, ysgeiriau gweis gwrawl
 Yn frau wywon ddarnau anaddurnawl,—
 Llorio llu yn hyll arwawl—â min cledd
 Nes troi eu gwedd i ddunos tragwyddawl!

Hygar fael a gorfoledd—i'r angau
 Oer ingus yw 'r hyllwedd,—
 Cael dan y sarn yn garnedd
 Lu o'r byd i wael lawr bedd.

Yn ysig dyd yr hanesion—celyd
 Lawer culwys ddwyfron,—
 Gweli yn llethu 'r galon,
 Gwyniau a brath i gàn bron!

ER DY FWYN.

GODDEFWN i'r curwlaw ergydio fy iâd,
 Goddefwn galedwaith yn isel fy 'stad,
 Goddefwn alltudiaeth ym mhell dros y dôn,
 A chael 'nol dychwelyd dy wenau di 'n llon;
 Ferch, ferch, lawn swyn,
 Goddefwn ryw lawer o faich er dy fwyn.

Goddefwn drwm drallod â'i gafod o gur,
 Goddefwn hyll drawsedd â'i ddannedd o ddu,

Goddefwn yn ddifyr rhag niwaid i ti
 Fod beunydd mewn perygl fy mywyd i mi,—
 Ferch, ferch, lawn swyn,
 Goddefwn ryw lawer o faich er dy fwyn.

Dy siarad mor siriol, dy olwg mor hardd,
 (Ni welwyd un rhosyn cyn laned mewn gardd,)
 Dy irwallt plethedig, dy landeg ddwy rudd,
 Sy'n gwneuthyr fy mynwes gan hiraeth yn brudd ;
 Ferch, ferch, lawn swyn,
 Goddefwn ryw lawer o faich er dy fwyn.

Dy agwedd ddiniwaid, dy lygaid, dy lais,
 Sy'n gyrru piccellau o fawrserch trwy f' ais,—
 Fel golau 'r hardd wenlloer i deithiwr mewn nos
 Yw 'th wên a'th serchogrwydd i mi, feinir dlos :
 Ferch, ferch, lawn swyn,
 Goddefwn ryw lawer o faich er dy fwyn.

BORE 'R BRIODAS.

Fx wawriodd y Bore arbennig ei bwys,—
 Mae 'r amser yn brysur, nid difyr, ond dwys :
 Bydd allwedd f'ewyllys gan arall ar fyr ;
 Ymbwyllwch, feddyliau, neu 'm calon a dyr.

Mi gofïaf yr orïau nad oedd gennyf well
 Un bachgen nag arall trwy 'r ardal ym mhell :
 Eu cael neu eu colli un argraff ni wnaï ;
 Mi ganwn mor llawen â'r gôg ym mis Mai.

Fy nghalon, fy nghalon, pa fodd aïst fel hyn ?
 Pa beth sy'n dy rwymo di heddyw mor dÿn ?
 Ni ddaw un llawenydd yn agos i'th gëll ;
 Y gân a'r gorfoledd, cïliasant ym mhell.

Y bechgyn a'r merched llon llawen a ddaw
 Yn fuan i weled cael clymmu fy llaw :
 Pan rwymïd rhai eraïll bum lawen fy hun ;
 Yr awr'on fy mynwes o'r gwaelod a grÿn.

Rhed trwyddwyf ryw deïmlad na theïmlais o'i fath
 A bair immi wynïau a brïwïau a brath :
 Serchogrwydd twymwresog a draïdd trwy fy iâd
 At fangre fy mebyd—hen annedd fy nhad.

Gad immi 'th gofleïdio, fy chwaer dyner wych,—
 Mae 'r dagrau 'n fy nadael i 'mdrwsïo 'n y drych :
 Mae cof am gyfeïllach boreuddydd ein hoes
 Yn dwyn i'm meddyliau drwm lwythau o loes.

Fy mam addfwyn dirion, cofleïdia dy ferch,—
 Rhed attat trwy 'm mynwes afonydd o serch :
 O boed fy myd newydd mor ddedwydd i mi
 A'r dyddïau a dreulïais, fy mam, gyda thi.

Fy nhad anwyl dirion, cofleidia fi, 'nhad,—
 Mae hiraeth yn brathu 'i biccellau trwy'm iâd ;
 O ! rheded fy mywyd mor esmwyth i mi
 A'r oriau a dreuliais, fy nhad, gyda thi.

Ond gwreiddiau fy nghalon sy'n rhwym gan yr un
 A swynodd fy enaid â harddwch ei lun ;
 Beth bynnag fy rhan mi ymunaf ag ef,
 A 'ngobaith beunyddiol ar Lywydd y nef.

BORE HAF.

Mor llawen yw fy mywyd
 Ar hyfryd foreu Haf,—
 Y ddaear oll yn firain
 Mewn agwedd gain a gâf :
 I sylw pawb yn amlwg
 Mor hardd ei golwg wiw
 Mewn clog o harddwych urddas,
 A hwnnw 'n las ei liw.

Yr adar mân â'u cerddi
 Ar ben y llwyni 'n llon,
 Cyfrannant lân ddifyrwch,
 Hyfrydwch mwyn i'r fron ;
 Y gwisgi geiliog mwyalch,
 Aderyn balch ei big,
 A'r lanwedd fronfraith dirion
 Drwy'r burlan wiwlon wig.

Mor siriol yw y coedydd
 A'r glennydd dan y gw lith,—
 Y blodau 'n harddwych wisgo
 Pob rhan o'r fro yn frith ;
 Ymdorriad haul o'r dwyrain
 A'i wedd yn gain a gwy ch,
 Yn rhoddi teg arwyddion
 O ddydd nawseiddlon sych,—

Holl Anian yn ymlonni,—
 Y wennol heini 'i hynt
 Trwy 'r iachus awyr denau
 Yn bywiog wau 'n y gwynt,—
 Uchedydd ar iach aden
 Fry yn y nen i Naf
 Yn offrwm clod yn wresog
 Ar foreu heuliog Haf.

Yr awel gan gusanu
 Per flodau lu dros lawr,
 A sychu 'r gw lith boreuol,
 A rydd iach swynol sawr,—
 Yn gweini meddyginiaeth
 Yn helaeth a mwynhâd,
 Na w'yr ond dynion dedwydd
 Sy'n byw mewn glennydd gwlad

I odro 'r defaid mwyngu
 Dan ganu'n bêr â Gwen,
 A cherdd am gariad cywir,
 Hoff feinir, ddaw o'i phen :

Y mae hi 'n lân galonog,
 Y wisgi fywiog ferch,—
 I'w rhan na ddeued dolur,
 Na thaliad sur i'w serch.

Mor llon y geilw 'r bugail
 Draw at y gail ei gŵn,—
 Daw rhywbeth yn ddiddanus,
 Gysurus im' o'r swn :
 Efe ni ŵyr am dristedd,
 Na chwerwedd, croes, na chur,
 Sy 'n gwywo canol-einioes,
 Neu ddyrys henoës sur.

Y gweithiwr wyneb-druan
 Sy 'n myn'd o'i gaban gwiw,
 A'i ben i lawr dan dristyd
 Yn llesg ar hyd y rhiw,—
 Myfyrio mae ar wychedd
 A gwynfyd bonedd byd,
 Tra 'r rhei'ny 'n waeth nâg yntau
 Dan hyllig waeau'i gyd.

D.S.—Y Gerdd uchod, er nad yw ar un o Bedwar Mesur ar hugain Barddoniaeth, sydd wedi ei chyfansoddi drwyddi yn ol cynnilrwydd rheolau y gelfyddyd, ar y Gynghanedd Sain, i ddynewared hen ddull cywrain Cadair Morganwg. Gwel *Cyfrinach y Beirdd*, gan Iolo Morganwg, tudalen 164.

DŴY CHWAER DDEDWYDDAF OEDDYNT.

Dŵt chwaer ddedwyddaf oeddynt,
 Mewn diball hynt mor llon
 A'r wŷn sy 'n chwareu 'n fywiog,
 Ar ael y frigog fron,
 Gwawr iechyd ar eu gruddiau,
 O'u genau llais y gân
 A geid yn geinwŷch gynnes,
 Ddwy ddifyr lodes lân.

Hwy ddygent fywyd mwynrydd,
 Da beunydd a di boen,
 A'u hagwedd fel ewigod,
 Yn llawn o hynod hoen,
 Dwy chwaer ddedwyddaf oeddynt ;
 Ond helynt *hore* 'u hoes
 Oedd hwn,—yr hanes heno
 Ti gei ond gwrando 'n groes.

Priododd un yn gynnar—
 (Edifar yw o'r dydd)
 Ryw adyn caled-galon,
 A'i eiriau'n surion sydd,—
 Ei dwyrudd sydd yn rhychiog
 Gan donnog lif a dardd
 O'i llygad, feinwen hyglood,
 A fu mor hynod hardd.

Edwino mae'i 'n rhy gynnâr ;
 Mae galar yn ei gwedd
 Yn dyst ei bod hi, druan !
 Ar fuan daith i fedd,
 Ail ydyw i flodeuyn
 Neu hardd lysieuyn syw,
 A dorrodd y pladurwr.
 I egwan gyflwr gwyw.

Y llall ga'dd gymmar gwiwlan ;
 Ond buan troes y byd
 Yn bwn o dlodi arnynt,
 A'i helynt sydd o hyd
 Yn llwytho 'i thirion yspryd,
 Dan lymfyd blin i lawr ;
 Rhyfeddaf wrth fyfyrion
 Y gwywo wnaeth ei gwawr !

Mae galar yn ei bwthyn
 A newyn tost a nych,—
 Wrth ganfod mil a gwynfan,
 Mor druan yw ei drych :
 A'i phlantos mân o'i deutu
 Heb feddu iddynt fwyd,
 Mewn cyflwr eithaf gorthrwm,
 A'u gwedd yn llwm a llwyd.

Dwy chwaer ddedwyddaf oeddynt ;—
 Wrth gofio gynt eu gwedd,
 Rhyw ddwys fyfyrdod dirfawr
 A phrudd-der mawr a'm medd ;

Ryfeddawl newidiadau
 A gwaeau tost a gwŷn
 A ddaw mewn byr flynyddau,
 Sy'n gwneuthur dyddiau dyn !

GORFOLEDD

AM GAEL Y CYNHAUAF ADREF.

Ar y Dôn "Clod i'r Haf."

Yn yr ydlan y mae 'r yd
 Heb fawr ball na gwall i gyd ;
 Mynnu 'n burlon, heb drafferthion,
 Hoen i'n bron mae heno 'n bryd,—
 Pryd i ni ymdorri 'n dân,
 Pryd i wisgi godi 'r gân,
 Wrth wel'd hyfryd ffon y bywyd
 Oll yng nghyd yn glyd a glân.

'Nol rhoi'r had is torriad tir
 Ofnwyd gwaeau heintiau 'n hîr :
 Cadd dan ddiran hin anniddan
 Gwŷn yn wan, eginyn îr :
 Ofnwyd llwydrew, caeth-rew cas,—
 Heulwen gref yn poethi 'n gras,
 A'i belydrau 'n llosgi 'r llyisiau
 Ar y bryniau a'r doldir bras.

Y gwenithyn gwael a gwàn,
 Gula' drych, ga'dd galed ran,—
 Eira drosto—rhew 'n ei wywo,
 'N nadael iddo dd'od i'r làn ;
 Y gogleddwynt, surwynt sych,
 Awel Chwefror oer ei nych,
 Roent i'r hwsmon wan-obeithion,
 Dorrai 'r galon fwyaf gwych.

Cnwd y maesydd glanrydd, glwys,
 Wedi hodi, llenwi 'n llwys ;
 Ofnwyd drosto 'r gwyntoedd gwallgo'
 Rhag ei gornio i lawr i'r gŵys :
 Lawer noswaith, wirfaith wŷn,
 Buwyd heb adnabod hŷn,
 Rhag ofn iddo gael ei rwygo
 A'i draws-lorio—dyrys lun.

Eilwaith wedi 'i fedi e fu
 Ofni beunydd dywydd du,—
 Troi golygon dan drafferthion
 (Braw 'n y fron) i'r wybren fry :
 Heno 'n gain er hyn i gyd,
 Dymmor iach, dan dô mae'r ŷd,—
 Canwn garol heno 'n siriol
 O gynnesol, frawdol fryd.

Daeth dan lwys a glanddwys glo
 Gnwd y maesydd dedwydd, do ;
 Teimler gwynfyd heb gintachlyd
 Ofnau drygfyd blin am dro :

Cân o galon rwyddlon, rydd,
 Rhown fel adar gwâr o'r gwÿdd ;
 Hyn yn fuddiol a naturiol
 A rhesymol inni sydd.

Gauaf dig ar fyr y daw—
 Oerion gesair, gwlybder, gwlaw,
 Diffryth faesydd—llwydion ddolydd,
 Byd yn llonydd ar bob llaw ;
 Caib a rhaw cânt heibio 'u rhoi,
 Dae'r a'i chlawr fydd wedi 'i chloi,
 Eira, oerfel, 'stormydd uchel,
 Dyn yn ffel at dân yn ffoi.

B'le bydd trysor didor, da,
 Dyn yn awr rhag blinfawr bla ?
 Yn ei ydlan ddiddos, ddiddan,
 Cyfoeth cyfan hoywlan ha' :
 Heb yr ydlan fwynlan, fad,
 Caled f'ai heb lai ar wlad,
 Gwaeau newyn a wnai 'n sydyn
 Einioes dyn yn wan ei 'stâd.



ANNERCH

Mr. J. M. JONES, (Ioan Cunllo,) Rhyd-Lewis, Ceredigion,
Medi 26ain, 1834.

LLAWN archwaeth yw llon orchwyl
D' awen hardd mewn dien hwyl :
Medri wau myg olau gân
Gadwynol—gwead anian.
Nid sothach ydyw saethau
Hylew teg y meddwl tau :
Poen y tir yw pentyrwyr
Geiriau gweigion, waelion wŷr.
Naturiol mewn hynt eirian,
A di gŵl yw y dau gân ;
Ymarfer mwy â mawrfaith
Ddysg Awen gymmen ei gwaith.
Trueni,—dattroi anian
Yw i ti a oesi tân
Gwmmwl, ag itti gymmaint
O frwd awenyddol fraint.
Gafael ar fyd a'i gyfoeth
Gwyw, un awr, a'th gân yn noeth :
O weini trwy 'r Awenydd
Hardd les yn dês yn ein dydd,
Daw gobaith am deg wiwber
Iachus wobr mwyn wlad uwch ser.

Y Deau yn Fardd diwyd,
Goleua, hardda o hyd :
Rhagorwaith, ceinwaith, caniad,
I fyrdd arddangos yn fad :

Hyn a fedri,—gwyddi gerth,
 Hoywbur redfa iaith brydferth ;
 Iaith amlwg, bur, & theimlad
 Ynddi, a feddi yn fad :
 Ym mlaen & thi ;—ymlyna
 Yn goeth deg wrth y gwaith da ;
 Mewn bri a byddi 'n ben Bardd,
 Llawn o degwch—llon digardd.

ENGLYNION

O Goffadwriaeth am MR. THOMAS GREEN, Aberaeron.

TOMAS GREEN, twym was i groes—yr Iesu,
 Arosodd yn eirioes ;
 Anwyl trwy gylch ei einioes
 I Dduw 'n rhydd ei ddoniau rhoes.

O'i febyd llwyr fryd ei fron,—wedd irnaws,
 Oedd addurnaw'n gyson
 Cristionogaeth, laeth hoff llon
 A da eli duwiolion.

Galwodd yn wresog wiwlan,—yn dirion,
 Bechaduriaid aflan,
 O'u trueni trwy anian
 I ddifai lwys noddfa lân.

Yn glau pob rhanau rhinwedd—yn lanwych,
 Dilynodd mewn gwiredd ;
 Carai a mawr hoffai hedd,
 A nofiai fôr tangnefedd.

Teilwng gan bawb trwy'n talaeth—'ei parchwyd
 Fel perchen gwybodaeth ;
 A thrwy ei lân athrawiaeth
 Llad i ddyn yn llaw Duw ddaeth.

Yn gyfiawn hwn a gofir,—ei foliant
 Gan filoedd a daenir ;
 Wr nôd, ei glod a gludir
 Trwy gan oes yn trigo'n îr.

Canu y mae uwch cwynion,—uwch gofid,
 Uwch gafael trafferthion,
 Is awyr iachus Seion,
 Fab rhinwedd, yn annedd Iôn.

Boed taw i wylaw ar ol—y rhai da ;
 Yn nhre' deg ragorol
 Y trigant, uwch hynt rwygol,
 Ar feillionawg ddeiliawg ddôl.

Hwynt-hwy am byth mwy'n llu mad—a yfant
 O afon gwin cariad ;
 Goreu lles a gwir wellhad
 Dios, eu hymadawiad.

Ymadawiad yw am deiau—euraidd,
 Heirdd araul drigfanau,
 Lle mae i'r lôr gôr yn gwau
 Cân anwyl mewn cain ynau.

ENGLYNION

O ddiolchgarwch i Feirdd Gwynedd: a draddodwyd ar gyhoedd
 Eisteddfod Caerfyrddin, 1819.

I geinion Brif-feirdd Gwynedd—yn wych glau,
 Rhowch glod yn gyfrodedd ;
 Yng Nghaerfyrddin iesin wedd,
 Rhodiant mewn mawr anrhydedd.

Gan deithio gwiw iawn y daethant,—gwir Feirdd,
 I Gaerfyrddin wen-gant ;
 Diolwch boed yn daliant
 Yn wir fwyn i'r rhai'n ar fant.

ATEB GWALLTER MECHAIN I'R UNRIIYW.

“CALON wrth galon” heb gelu—'wyllys
 Cyfeillach trwy Gymru,
 A Gwynedd wna gyd-ganu
 Da anwyl ddawn Daniel Ddu.

CYWYDD Y CYMMOD.

peth anghydfod, ac oerfelgarwch o'r herwydd, rhwng
niel Ddu a Ioan Tegid, o barth Llythraeth y Gymraeg ;
wedi cryn ddistawrwydd o'r ddau du, anfonodd Tegid
Englyn canlynol at ei gyfaill ;

AR ol ymladd, lladd, a llid,—a phob croes ;
Rhyw oerloes ; hir erlid ;
Tagu, lindsayu Tegid ;
Er da ! dattoder y did.

3u hyn yn achlysur o ysgrifenu y Cywydd canlynol :]

RHYW ingus ddadl fu rhyngom,
A ffrwd lleferydd rhy ffrom ;
Llefwaith yng nghylch sillafu
Yn iawn, ein hiaith geinlawn gu :
Os anwyl a glwys ini
Ein, mwyn iaith, a'i haraith hi,
Na fydded hynny'n foddion
I faeddu na llaesu llon
Gyfeillach fwyniach a fu
Rhyngom yn hir ehangu.

Boreu 'n hoes fu'n burion hedd ;
Diau nyni ein deuwedd
Gwelwyd yn llonni 'n gilydd
Dan fad wên yr Awen rydd,
Ym mhell o wlad ein tadau,
Yn Rhydychen, burwen bau :

O fewn y beraidd fwyn-ardd,
 Du fodd, ni chaid ond *dau* fardd ;
 Dim ond dau gorau 'n cael gwên
 Y rywiog lwysber Awen :
 Ni adwaenai o'r dynion
Un ond *mi*, y lili lon,
 Tegid diflin a minnau
 Dan y gwŷdd cerdd fad yn gwau.

Dau oeddym o dueddiad
 Eirian glwys i garu'n gwlad ;
 A siarad am gysurol
 Hen Gymru lân, ddiddan ddôl,
 A gynnwysai'n gain iesin
 Oll in' oedd ail llonaidd win.

Hyn cofiwn ; rhoddwn yn rhydd
 O galon law i'n gilydd.

DANIEL DDU.

Maesmynach, Mehefin 16, 1834.

Ar ol hyn derbyniodd y Bardd Du y Cywydd canlynol :

Dŷ gywydd, gwaith celfydd coeth,
 Cefais ; nid rhaid gwell cyfoeth ;
 Cywydd o dda ddefnydd yw,
 A chadarn iaith serch ydyw ;
 Cywydd newydd, iawn wead,
 O ddawn glos¹ pen bardd ein gwlad ;

¹ *Clus*, rhyw wr.; *clos*, rhyw fen., yn cyfateb *tlus*, *tlôs*.—TEGID.

Da genyf dy deg annerch,
 A thrwy oes y'th eiriau serch ;
 Dy' law yn fy llaw yn llon
 (Gwel, Daniel, friwiau 'r galon,)

Derbyniaf ; gwelaf, wr gwych !
 Dy ddagrau ; dy wedd ogrych ;
 Bellach, ië, bellach byth,
 Er gwae a fu, 'n dragyfyth,
 Calon wrth galon*gwelir ;
 A chwai hwynt a iachëir.
 Ar ol nos oer, wele 'n awr²
 Oleu eurwedd, dysglaerwawr ;
 Buom â chalon drom dro,
 Drwy gamrwysg, hydr Gymro ;
 Gwae o'r dydd caed geiriau du,
 Neu an fwyn ysgrifenu ;
 Bellach, canu'n iach gwnawn ni,
 Drwy genad, i'r drygioni ;
 A'i adael i gael amgeledd
Bruce Knight, gwr barus o Nedd.³

TEGID.

tychain, Mehefin 27, 1834.

Felly yn y *Cylchgrawn* ; ond yng *Ngwaith Barddonawl*
 ! fel hyn y saif y llinell :

“ Ar ol nos rhy wela 'n awr.”

Nid yw y ddwy linell olaf yn argraffedig yn y *Cylchgrawn*,
 æir hwynt yng *Ngwaith Tegid*. Gadwyd hwynt allan,
 ædid, o'r *Cylchgrawn*, gan fod y Parch. W. Bruce Knight,
 arwynebydd Tegid ar Llythraeth yr Iaith Gymraeg, y
 hwnw (1834) yn fyw.

CYWYDD

I GYWYDDAU Y CYMMOD.

Ni wedd i Awenyddion
 Ymgecru, sathru, a son
 Y naill am y llall, mewn llid,
 "Rhyw oerloes a hir erlid ;"
 Geiriau mwynder, grym undeb,
 Beirdd ein gwlad, yn anad neb,
 A ddylent gywir ddilyn,—
 Heddwch yw dedwyddwch dyn ;
 Brawdgarwch sydd brid goron,
 I bawb baich yw byw heb hon,
 Draig annwn, llawn drygioni,
 Ydyw cnul a'i helbul hi ;
 Nwyd anwar, llawn dewiniaeth
 Uffern, yw hen gynhen gaeth :
 Dinystr a gais ei dannedd,
 A maith glwyf yw moethau 'i gwledd ;
 Afradu pob hyfrydwaith
 Ydyw swm ei dewis waith :
 Gochelyd rhag ei choledd
 A'i dwyn y b'om hyd ein bedd.


Er digio 'n frau o Degid,
 Rhoi lle i chwerwder a llid,
 Ni fynai (rhyglyddai glod,)
 Ymgomio wna'i am gymmod ;

Gan estyn llaw, feinlaw fwyn,
 I'w hen gyfaill yn gufwyn ;
 A Daniel, yn dawel deg,
 Goffeidiar 'r cyfle hoewdeg,
 I dda iach ymheddychu
 A hen gâr, oedd fyth yn gu ;
 Yn llon fwyn, mewn llawen fodd
 Hapus, llaw Tegid gipiodd ;
 Yna 'n hoenus, foddus, fad,
 Gwiriai 'r naill i'r llall gariad.
 "Y did dattodwyd er da,"
 Hyfrydfwyn a fu 'r oedfa :
 Hen gyfeillach rwyddiach, rydd,
 Galwent i gof eu gilydd ;
 Iawn deimlent ryw hen dwymlon
 Wŷth serch yn cynneu, wrth son
 Am yr amser pêr fu, pan
 Ydd oeddynt yn mro ddiddan
 Rhydychen, dan gangen gwŷdd
 Yn gwynias fwynhau 'u gilydd,
 A gwynias hyfryd gwenau
 Awen bêr yr hen lon bau.

Heb ail gweryl, blaguro
 Mwyach eu cyfeillach fo.

IOAN CUNLLO.





ENGLYNION

Mewn dull o ddiolchgarwch am anrheg o Saith o FFYN, a
ddanfonwyd i'r Awdwr, gan Mr. David Lewis, o Aberystwyth.

SAITH o FFYN syth, hoff anwyl—a gefais,
Mae 'n gyfiawn y gorchwyl
O roi clod, mewn hynod hwyl,
O'r puraf ar y perwyl.

Un o honynt sydd yn hynod—ei maint,
I mi mewn llaw 'n barod,
I falu pen gwylltiflod,
A diau byth da ei bod.

Gelyn i'm dilyn os daw—â'i fwriad
Oferwag i'm 'speiliaw,
Ffol wr ! e gaiff ei loriaw
Yn isel—yn bêl mewn baw.

Digon yw'r gollen degwedd—o gymmorth
I rwydd gammu 'n rhyfedd ;
Cnwppa gwynwawr llyfn mawr medd ;
Cwymp darw mewn camp dewredd.

Cynddeiriog gŵn hi a ddyry—'n fân-ûs
Tyr fwnwgl arth dewrgry' ;
Nâd ladron taerion i'r tŷ ;
Haint yw hon—gwyddant hynny.

Rhodd Lewis, wr rhwydd lawen,—yw'r union,
 Eirianwych ffyn dien;
 Derbyn wna, 'n llon, gyda gwên,
 Ddiolch fy afrwydd Awen.

Ewyllys fy nghyfeillion—anwylaidd,
 Iawn welaf yr awrhon
 Yn degwedd yw rhoi digon
 I'r Du Fardd o'r hardd oes hon.

ENGLYNION

I LEWIS HERBERT, Rhyd y Fuddai, Llanarth, Ceredigion,
 Adgyweirydd Simneiau myglyd.¹

GYRU y mwg drwg i'w dre'—'n wiw lawen
 Wna Lewis ym mhob-llle;
 Syflyn gaiff wneyd o'i safe
 Ar hynt gyda'r gwynt ag e.

Tewfwg oedd yma 'n tyfu—yn fintai,
 Yn fantell o fagddu;
 Gwnaeth y gwr i'r hen dŵr du,
 Iach helynt, i ymchwalu.

¹ Lewis Herbert ydoedd Saer Maen, cywreiniach nâ'r cyffredin yn ei ddydd. Dyn bychan gwargrwrth ydoedd, â phwtyn o bibell yn mygu yn wastad yn ei geg. Bu farw yn y flwyddyn 1839. Ymddengys iddo fod ryw dro, yn gosod hwy! a threfn ar y Simneiau ym Maes y Mynach, neu ym Maes Newydd, ac mai ar yr achlysur hwnw y cyfansoddwyd yr Englynion.

Lle bo'r gwr, clydwr mwyn clau,—yn gweithio,
 Gwiw ethawl ei ddoniau,
 Mewn awydd y simneiau
 Fydd i hwn yn ufuddhau.

TAITH NICK;

Neu yr Yspryd drwg yn ymweled â'r Ddaear.

Ryw fore, *Nick* a drodd
 O'i nyth, mewn dillad cochion,
 I edrych sut yr o'dd
 Y ddaear a'i thrigolion:
 Yn gorwedd yn y clawdd,
 Fe welai ryw ddyn meddw;
 A *Nick* a wedai'n hawdd,—
 "Peth goreu wnes yw cwrw."

Pan 'r oedd eu gwŷr o dre',
 Fe ganfu bedair menyw,
 Yng nghyd yn yfed tê,
 Gan adrodd clec yn salw;
 "Yn union" ebe fe,—
 "Er bod fy nhŷ o'r mwya',
 Nis gwn oes genyf le
 I gyd i'r genel yma."

Yn nesaf yn y cwrdd,
 Yn glau fe ganfu eneth
 Yn edrych am ei hwrdd,
 Heb feddwl am y bregeth ;
 Ac arall wrth ei chap,
 'N ei *bino* mewn lle dirgel ;
 A *Nick* a wedai'n chwap,—
 “ Mae 'nheyrnas etto'n ddiogel.”

Yn rhifo arian hen,
 Fe ganfu ryw hen gybydd ;
 Dywedai *Nick* ar wên,—
 “ Mi fynaf ffwrnais newydd ;
 Ni welaf yn y byd
 Mwy 'u hawydd nâ'r cybyddion ;
 Pe caffent hwn i gyd,
 Ni welent byth mo'u digon.”

Fe welai Ustus tew
 Yn derbyn pedair hwyad,
 Gan *Sion* o *Bant-y-Rhew*,
 A gur'sai *Dwm Bant-Dafad* ;
 A dwedai *Nick* ar hyn,
 Yn glau a llawen ddigon,—
 “ Rwy'n hoffi yn y llyn,
 Gwmpeini gwyr bon'ddigion.”

Yn gorwedd ar y llawr,
 Yn agos i gyfreithiwr,
 Fe ganfu neidr fawr,
 A honno yn y parlwr ;

O chwerthin aeth yn llawn,
 Gan gofio am y 'Sgrythyr,
 Sy'n dweud, mai "hyfryd iawn,
 Yw trigo 'nghŷd o frodyr."

Fe glywai garwr bŵr
 O'r *pulpŷd* yn ei wawdio ;
Nick wedai,—“Cyn pen hir,
 Yn *ffryns* ni fyddwn etto ;”
 A chlywai *Sion Bant-teg*
 O'r cwrdd 'nol dyfod adre',
 I'w wraig yn rhoddi rhêg,
 Am borthi hen wr gwine'.

Fe glywai *Wil Parc-me*
 'N gweddio'n faith aflawen,
 Ac yn ei boced e
 Swllt drwg ym mherfedd *talen* ;
 A *Nick* a wedai'n awr,—
 “Mi rof i'r rhai'n fy mendith,
 'Does dim ar ddaear fawr,
 'Wy'i 'n hoffi'n fwy nâ rhagrith.”

Yn nesaf ar ei daith,
 Mewn caban llawn o dyllau,
 Cadd fenyw wrth ei gwaith,
 A'i phlant yn canu hymnau ;
 Yn salw 'drychai *Nick*,
 Ac aeth i ffwrdd yn union,
 Gan ddweyd—“Wel dyma dric,
 Na wnelsai boneddigion.”

Yn nesaf i'r *Plas-Mawr*,
 Yr aeth at 'Sgweier Biglol ;
 Fe glywai'i enw'n awr
 Yn barchus a chyfrifol ;
 Y *cynydd* wrth y cŵn,
 A'r 'Sgweier wrth ei ddeiliaid,
 Oedd am y mwya'u sŵn,
 I alw'r diawl yn danbaid.

'Rol hyny yn *Lan-dwr*,
 Fe glywai bregeth ffyrnig,
 Gan un ag oedd yn siwr,
 Ei fod yn etholedig ;
 A *Nick* a safai draw,
 Gan chwerthin wrtho'i hunan,
 Ac aeth i siglo llaw
 A'r gwr pan ddaeth ef allan.

Yn nesaf, clybu ddau
 Grefyddwr yn ymgomio,
 Y 'Sgrythyr yn coffhau,
 A'u gilydd yn difrïo :
 A dwedai *Nick*—"Hei ho !
 Mae 'nghalon yn gwresogi ;
 Nid af i adref dro,
 Mae'r byd mor hyfryd imi."



ENGLYNION

Ar Farwolaeth REUBEN DAVIES, (Reuben Brydydd y Coed,) o Danyrallt, ger Cribin, Ceredigion; yr hwn a fu farw Ionawr 8, 1833, yn 25 mlwydd oed.

REUBEN â'i awen a wywodd;—angeu
Oer ingus a'i cwmpodd;
Gwŷn awchus a'i gwanychodd,
Culwae trist i'r clai a'i trôdd.

Oedd Brydydd celfydd mewn cân,—a'i ddoniau
Yn ddiddanwch purlan;
Cerdd ddifai a luniai'n lân,
Fel eurgainc o fol organ.

Dystawodd,—mud is tywod,—yr awrhon,
Yw'r irwas uchelglod;
Galar trwy'r fron o'r gwaelod
I ni, Feirdd, yno ei fod.

E gaewyd yn dragywydd—ar awen
O rywiog leferydd:
Haf a ddaw, a hwyaf ddydd,
A daw dail i doi dolydd:

Ond o enau Reuben doniol—a gwych
Ni ddaw gair byth bythol!
Cawn oer waedd cŵyn ar ei ol,
Gulon Brydydd glân brawdol.

Dan awyr un mwy diniwaid—ni fu,
 Hynny'n faith oedd danbaid ;
 Uwch gwely a lletty'r llaid,
 Nef anwyl, Naf, i'w enaid.

LLINELLAU

Ar ymadawiad ELIZABETH, merch y diweddar Daniel Williams,
 Capel Sant Silin, i America, 1844.

Nid ydyw croesi moroedd
 Yn newid calon dyn ;
 Mae cof am fangre 'i febyd
 A gwreiddiau 'i serch yng nglŷn :
 Nid all na meithder ymdaith,
 Na gwres, na rhew, na gwynt,
 Droï 'n ango' 'r aelwyd gynnes
 Lle ces fagwraeth gynt.

Mae 'r cof yn fil cyflymach
 Nâ gwennol heini 'r gwŷdd ;
 Os rhwym fydd traed a dwylo
 Mae 'r meddwl etto 'n rhydd :
 Ar war y lasdon dyner
 Heb wel'd ond dwr a nen,
 Mae cof am fwynder Cymru
 Yn mynych boeni 'r pen.

Hiraethaf am yr afon
 Y rhodiais ar ei min ;
 Hiraethaf am y ffynnon
 Rodd imi ddwr fel gwin ;
 Hiraethaf am y llwybrau
 O amgylch tŷ fy nhad,
 A llawer man a rodiais
 O fewn fy anwyl wlad.

Mae hiraeth mwy nâ 'r cyfan
 Ar ol cyfeillion cu,
 Sy'n ol ym mysg hyfrydwch,
 Y wlad adewais i :
 Mae hiraeth am fwynderau
 Fy ngwlad y fynydd hon,
 Yn toddi gwraidd fy mynwes,
 Wrth gofio'm ceraint llon.

Ffarwel i Gymru dirion
 A'm holl gyfeillion gwych ;
 Pob bendith fyddo 'ch cyfran
 Heb ofid, poen, na nych ;
 Dymunwch chwithau lwyddiant
 I mi'n Amerig draw ;
 Ffarwel, gyfeillion tyner,
 Yr olaf dro rhowch law.



ENGLYNION

AT GYFAILL WRTH YMADAEL A CHYMRU.

Ti ar lan Teifi tyfaist,—a diwyd
Y Deau goleuaist ;
Prydyddu 'n anwylgu wnaist,
Dwysgan réolaidd dysgaist.

Wrth ddwndwr y dwr dan y dail,—iaith bur,
A'th ben ar y manddail,
Gwna i'th Ner gerdd bêr heb ail
Gu lwysddyn, dan y glasddail.

Cymhar ac adar y goedwig—una
Dy enaid mewn miwsig ;
Fe 'th gair yn ddiwair heb ddig
Yn *tîwmio* wrth nant unig.

Minnau yn o glau o'm gwlad—raid fyned,
'Rhyd fannau digariad :
Oernych ! nis gellir dirnad
Was teg, pa beth fydd fy 'stâd.

Dros y môr i draws Amerig—f' allai,
Af allan yn chwithig,
Hyll y tro ! i fan lle trig.
Diflas hen Indiaid diefflig.

Tra dwrlli 'n pesgi pysgod,—a'n coedydd
 Yn cadw 'sgyfarnogod,
 I Dafydd bydd yn dyfod
 Deilyngaf a glanaf glod.

LLINELLAU

A gyfansoddodd yr Awdwr, yr hwn oedd yn un o Feirniaid y Cyfansoddiadau a anfenwyd i Eisteddfod Caerdyf, yn y flwyddyn 1834, wedi darllen Cyfansoddiad tra rhagorol a anfonasid o'r Americ i'r Eisteddfod, gan *Galaethfardd Guawdrydd*, (*Gwenffrwd*, sef Mr. Thomas Lloyd Jones, gynt o Dreffynnon.) Y Cyfansoddiad hwn a gollodd y Tlws yn unig o herwydd ei fod ychydig o linellau yn ychwaneg na'r nifer a roddasid allan yn flaenorol.

BYDD falch, EISTEDDFOD GWENT ! mae achos mawr
 I ymhyfrydu, am mai ti fu'r modd,
 Trwy'th haelder canmoladwy, i grynhoi
 Heirdd emmau gwerthfawr o bell gonglau'r byd !

Nid bryniau Cymru lwys a'i dolydd hoff
 Yw'r unig fannau lle mae enaid cerdd
 Gymraeg yn nerthol ; draw tu hwnt i'r môr
 A'i donnau rhuawg y mae'r AWEN fad
 Yn swynaw mynwes Cymro ! Wele daeth
 O wlad Amerig dros y weilgi groch
 Fawryddig waith a'n llonna yng NGAERDYDD.

Goronwy, gawr Awenydd, haul ei fro,
 A aeth yn alltud llesg dros donnau dig
 O wlad ei enedigaeth, ac nid oes
 Gan Gymru hanes am ei helynt ef,
 Ym mhlith estroniaid mewn annifyr wlad,
 Lle na chai *Fardd* diddanus iddo'n *frawd* !

Mae 'nawr gan Gymru enaid,—hi a fedd
 Allu i ganfod ac iawn brisio nwyf
 A thelediwrwydd gwaith y Prydydd mawr.
 Mae'n alar ganddi nad yw llwch y Bardd
 Yn orphwysedig yn y wlad ag oedd
 Mor anwyl iddo ! Y mae dagrau rhai
 Yn mynych lifo dros eu grudd i lawr
 Pan ddaw i'w meddwl y galarus bryd
 Y tafiai ef at fryniau hoff ei wlad
 Ei olwg olaf ! hyfryd gan y rhai'n
 F' ai gwybod helynt yr ardderchog wr
 Mor fawr a hoffent : gwybod ym mha fodd
 Bu llaw Rhagluniaeth yn ymdrin ag ef
 Tu draw i'r cefnfor—ym mha ddull y daeth
 Y ddyrnod olaf ar ei barchus ben !
 Mae gobaith genym am gael gwybod *hyn*
 Cyn myned dan y gŵys : EISTEDDFOD GWENT
 A daenodd dros y *byd* ei hesgyll heirdd !
Hon o bellderau daear eang faith
 A gyrchodd olud goruwch cyfrif gwerth !
 Aeth allan LAIS MORGANWG ! awel nef
 A'i cludodd ar ei haden lwyswawr hoff
 I wledydd tramor,—ac yn ateb mae,
 Glân blant yr *Awen* dros y lasdon draw !

Mae 'nawr gan Gymru enaid ! ac mae hwn
 Yn teimlo dolur fod ar hyn o bryd
 O feibion Gwalia *un* ym mhell o'i wlad
 Yn plethu'r gerdd ym mhlith estronol lu.
 GALAETHFARDD GWAWDRYDD ! mae dy eiriau mêl,
 Dy addysg ddofn, dy feddwl treiddiol, cryf
 Yn gofyn molawd,—tristwch yw dy fod
 O'th hoffaidd fro yn alltud blin dy daith !

ENGLYN

I'r Bardd Cadeiriol, yn Eisteddfod Caerdyf, pan gyhoeddwyd
 ef yn fuddugoliaethus.

I GADAI'R GWENT e'th gododd—d'awenwaith,
 Llawn dawnus ymadrodd ;
 Dy boen yn awr dibenodd,
 Wele glyd fyd—*wrth dy fodd !*

ENGLYNION.

GAIR O GYNGHOR.

Y GWIR yn gywir i gyd—a'i lanwaith,
 Dilynwch yn hyfryd ;
 Holl ffyrdd gau, beiau bywyd,
 Eu gwarth dangoswch i gyd.

Cyfiawnder yn bêr eich bwriad,—a'i lwyddiant,
 Coleddwch yn wastad,
 A dilys y cewch daliad
 Ar law eich Ner, dyner Dad.

Yn llwyr dwys synwyr, da son,—a bwnoch
 I bennau Esgobion,
 Mewn hawddgar a dengar dôn,
 A rheswm heb ymryson.

Na chaed sais, a'i lais aflesiol,—anwar,
 A'i wyneb rhagrithiol,
 Fyth gyfarth o'i faith geufol
 Ein hiaith lân mewn ffwdan ffôl.

ENGLYNION

O Glod i Hwsmonaeth y Parch. REES DAVIES, Penybryn,
 Dihewyd, Ceredigion.

EITHINAWG dir diffrwyth anial—dygodd
 I degwch anhafal:
 Fe wnaeth, a daeth iddo 'n dâl,
 Fryn hirdwf yn fri'n hardal.

Gwaun bwill, oedd ddu dwll, ddyd allan—laswellt
 Melyswych hoffeidlan:
 Henaint ni chred ei hunan
 O wir fodd mai'r *un yw'r fan!*

CYWYDD

A ANFONODD YR AWDWR AT GYFAILL.

DAFYDD, bydd yn dy ofal
 Beunydd, tra bo 'r dydd yn dâl ;
 Cashâ 'r byd gwaedlyd a gau,
 A'i lidiog gâs ymbleidiau,
 Ei sŵn a'i rôch heb synwyr
 Sy 'n lladd pob ymgais yn llwyr ;
Diana fawr y dynion
 Y gwr teg, nis gwared hon :
 Dod dy bwys yn ddwys ar Dduw,
 Ac arddel Iôn, y gwir-Dduw :
 Duw 'r Tâd a fo 'n dŵr i ti,
 I d' enaid da 'r adwaeni ;
 O'i rât maddeugar ydyw,
 Diysgog, trugarog yw ;
 Rhoed it' siriol orfoledd
 A chymmorth wrth borth y bedd,
 A Chana'n i'th iach enaid
 Mewn hedd fry uwch lletty'r llaid.

 ANNERCH I'R PARCH. D. SILVAN EVANS.

DANIEL LAS, nid bâs yw'th ben—at winiaith
 Mad hynaws yr Awen :
 Gemwaith a luni 'n gymmen ;
 Cei wirglod pur heb sur sen.

I DELŶN DEWI.

O BOB mân, Gymry anwyl,—O neswch
I'r hynawsaf bur-ŵyl;
TELYN DAFYDD rydd rwyddwyl,—
Dewch yn llon—mae hon mewn hwyl.

Ei llais, ei hadlais sy' 'n dihidlo—mêl,
Ei sain mwyn sy' 'n tanio
Y galon ;—dân ymgilio
Aiff¹ diawl uffernawl ar ffo.

TELYN DAFYDD i bob teulu—deued
Trwy 'n daear o ddeutu,—
Yna cŵr a dolur dŵ
Ni bydd, un awr, i'n baeddu.

I'r ddôr os daw GOFAL, ryw ddydd,—(oerterch
Gas farfog aflonydd,)
Wyr hoff, dangoswch yn rhydd
I'w difa DELYN DAFYDD.

I FLODAU DYFED.

BLODAU o ardd hoff harddwych—yr Awen
Fwyn rywiog oleuwych,
Didawl ogoniant ydych,
Hynotta' i WALIA wych.

¹ 1 Samuel xvi. 23.

Blodau Eden wèn nid oe'nt ail—i'r rhai'n,
 Mor hynod yw'r glwysddail!
 Diamhur gysur gwiwsail
 A ddyd yr amryliw ddail.

Pur iesin y parhasant,—a diau
 Heb un diwedd byddant;
 Eu sudd a'u gwawr oesoedd gânt
 Yn ddilwgr hwy a ddaliant.

Llaw GLANDYFRO'DD
 I'n a'u casglodd,
 Caiff o wirfodd, coffa hwyrfaith;
 Fod yn NYFED
 Awen addfed,
 Ni gawn weled o'i gynnwlwaith.

Per aroglau
 Y cain FLODAU,
 Hwyr a borau 'r awyr burant;
 Ac ymenydd
 Pob rhyw Brydydd
 A llawenydd diball lonnant.



ENGLYNION

O glod i gofiant y Parch. DAVID DAVIS, o Gastell-Hywel,
y'ng hyd â'r Awdwr, sef y Parch. THOMAS GRIFFITHS, (*Tau
Gimel.*)

GRIFFITHS yn lew a graffodd—ar hanes,
Gwr hynod a barchodd ;
Medrus yw ei ymadrodd,
Yn iawn bur i weini'n bodd.

Os Dewi a ddistawodd,—was diwyd,
Os daear a'i llyncodd,
Ei lafar a bêr lifodd
Sydd ar glawr, oreufawr rodd.

Hanes y mawr Brydydd hynod,—dilai,
Sydd deilwng o wirglod ;
Tau Gimel, mewn teg ammod,
Wnaeth waith o eglurwaith glod.

TOSTURI.

MELUS gan rai yw moli—glan adail
A gwyrdd-ddail y gerddi ;
Da, ystyriol dosturi
Tra fyddaf a folaf fi.

'Sawl bortho (gwyno) y gwan—yn landeg
O'i lewndid ei hunan,

Trysorau heirdd tra seiriàn,
Duw Ddofydd a rydd i'w ran.

I'R GWANWYN.

PA mor hyfryd, Wanwyn tirion,
Ydyw cael dy wenau di!
Mor ddymunol dy ymweliad
A'n daearen siriol ni!
Darfu 'r Gauaf, darfu 'r gwyntoedd,
Darfu 'r oerfel llym a blin;
Daeth y Gwanwyn nawsaidd meiriol,
A thawelwch ar ei fin.¹

E M Y N .

Salm xviii. 2.

YR ARLWYDD yw fy nghraig o hyd,
A chraig a saif yw hon;
Efe am ceidw byth yn glyd
Rhag cur a chwerw dôn,
Nid ofnaf byth tra bo fy nhad
O'r nef i mi 'n Waredwr mad.

¹ Cyfansoddodd yr Awdwr ychwaneg nâg un pennill, ond methwyd a dyfod o hyd iddynt.

Fy nharian gref yw 'm Harglwydd Iôr,
 A chorn goruchel iawn ;
 Ei iachawdwriaeth sydd fel môr,
 I mi o gysur llawn ;
 Fy 'm huchel-dŵr, byth yn fy Nuw
 Yr ymddiriedaf tra bwy' byw.

Efe yw 'm glân gadernid i
 Yng nghanol pydiau fyrdd ;
 A phwy yn well nâ 'm nefol Ri
 A'm tywys yn fy ffyrdd ?
 Ar goll erioed nid aeth y dyn
 A ga'dd yn dwr ei ddwyfol Gun.

Fel hyn yn dawel âf ym mla'n
 Dan darian Brenin nef,
 Rhof iddo fawl ar felus gân
 Am ei ddaioni ef ;
 O fewn ei dŷ, ar ben fy nhaith,
 Rhof iddo glod mewn newydd iaith.

BEDD-ARGRAFFIADAU.

I RIENI YR AWDWR.

RHOI tad a mam fâd i fedd,—rhoi wyneb
 Rhai anwyl i'r ceufedd :
 Trwy fôn y galon gulwedd
 E dery glwyf fal dur gledd.

AR GOFADAIL Y PARCH. ARCHDDIACON
BEYNON.

I'r Eglwys bu 'n lwys iawn lād,—ei chynnydd
Gan chwennych yn wastad :
Gwrol ei serch a'i gariad,
I'w fawl teg, at hon fel tad.

Noddodd yn hael awenyddion—ei wlad,
Drwy lydain wobrwyon :
Dien saif am danaw sôn
Tra Gwalia 'n dâl trigolion.

AR GORONWY OWEN.

WYLA, Fôn, na weli fedd—y prif-far-dd,
Nas profodd ymgeledd
Yn ei wlad, lle carai wledd—
Dewr gân a daear Gwynedd.

I'r Parch. J. DAVIES JONES, Plas-bach, Ciliau Aeron.

GWYBODUS, ddawnus dduwinydd—ydoedd ;
Nodedig athronydd ;
Ei gân sy 'nawr ar gynnydd
I'w Dad, Ion, yng ngwlad y dydd.

I JOHN THOMAS, Penlôn, gerllaw y Cribin.

OEDD e'i fryd ym mhob gwybodaeth ;
Ond yn bennaf mewn cerddoriaeth ;
Gobaith sydd y cân yr awr'on
Gerdd ei Dduw yng ngwlad angylion.

I EVAN JONES, Nantygwynfan, y'ng hyd â dau o'i
blant.

YR oedd y rhai'n yn glodfawr iawn
Mewn dysg a dawn peroriaeth ;
A thrwy'r eglwysi gwagle sydd
O'u hol, a chystudd helaeth.

I SAMSON a MARY THOMAS, Beili-cadarn.

YR un dydd ddau wirion, da,—yn boenus
Dibenodd eu gyrfa :
I'w plant, rhag min un blin blâ,
Ion addfwyn, bydd di 'n noddfa.

Ar fedd hen Glochydd Llanybyther.

LLUNIODD fedd glwyswedd a glân—i luoedd
Lawer o bob oedran :
Heddyw hwn sydd ei hunan
Yn wr mud dan y gro mân.

ERAILL AR AMRYWIOL ACHOSION.

Dwy chwaer a roes yr Angeu 'nghlo
 A phridd y gro sydd arnynt ;
 Ond hir bydd cof mewn cariad llawn
 Yn dyner iawn am danynt.

BRAWD bach a chwaer ym mlodau 'u hoes
 Llaw Angeu roes i'r beddrod :
 Yr ifaingc glân, eich lle yw 'r llwch,
 Bob amser byddwch barod.

I'r un rhieni tri o blant
 A gydorweddant yma ;
 Bu rhoi eu gwedd o dan y gŵys
 Yn alar dwys a gwasgfa.

Yr oedd y ddau yn serchog iawn,
 I bawb yn llawn addfwynder ;
 O'u torri 'lawr ym more'u dydd
 Mae tristwch prudd a thrymder.

PLENTYN ydoedd mwynaid hawddgar,
 Call a thawel, ffraeth a dengar ;
 Yn y llwch mae 'nawr yn gorwedd ;
 Cwyd o'r pridd i wlad gorfoledd.

Ym more'i oes, tra gwawr y byd
Yn hawddgar hyfryd iddo,
Daeth poenus nych i friwio'i fron,
A'i roi fan hon i huno.

EDRYCH yn fynych fy annedd—gyfyng,
Gan gofio dy ddiwedd,
Drwy guro am drugaredd
Cyn dyfod is bargod bedd.

Ow! rhanwyd i'w rhieni—hir alar,
Hwyr wylant am dani ;
Bydd cof per o'i hoffder hi
A'i da synwyr dwys heini.

Yn glyd goruwch byd a bedd,—ryw ennyd,
Ca'r uniawn eu buchedd
Wir fwynhau diderfyn hedd,
Yn felus ei gorfoledd.

ACHOS sydd it' mewn iechyd—ystyried
Na's dewrwych dy nerthyd :
Duw biau edau bywyd
A'r hawl i fesur ei hyd.

Y BEDD yw diwedd y daith—i ddewraf
 Ddaearol gydymaith,
 Ond duwiolion gânt eilwaith
 Gwrdd uwch ser mewn mwynder maith.

Bu bennaf y babanod—yn rhai cu
 Gan Iesu gwyn isod ;
 A châ y rhaih uwch y rhod
 Iawn wenu arno 'n hynod.

NA wylwch, rieni haelion,—ond teg
 Barotowch heb gwynion :
 Fry yn y ne', lle mwyn llon,
 Da wyl fydd i'r duwiolion.

Dwys gadarn ben dysgeidiaeth,—goludog
 O lydan ddyrchafiaeth,
 Dewr a gwan, mewn daear gaeth
 Hunant heb un gwahaniaeth.

NID yw'r bedd ond nôd i'r byd—o ingus
 Nerth Angeu dychrynlyd :
 Gweision Iôr sy 'n gôr i gyd,
 Heb waeau, mewn gwell bywyd.

GWEL y fan fechan gaf fi,—a 'ngwely
Yng ngwaelod pridd-lenni ;
Ddyn hoenus, heddyw 'n heini,
Yr unwedd fydd d' annedd di.

CA'DD hau mewn dagrau, ond Iôn—a'i dygodd
I degwch nef dirion :
Heddyw 'n lân cân uwch cwynion
Yn bêr a thyner ei thôn.

WELE fi mewn gwaelaf fan,—a'm hannedd
Ym mynwes y graian ;
Trwy Dduw a'm medd, ryfedd ran,
I fywyd dof yn fuan.

FARWOLION gwaelion i gyd,—tŷ oerfedd
Yw terfyn eich bywyd :
Sylfaen yn nheyrnas eilfyd
Yn awr barn fydd well nâ'r byd.

A MI yn llwch rhwng pryfed bedd,
A thithau, ddyn, yn iach dy wedd,
Wyf gymmaint yma y'ngofal Duw
A thi sy 'n heinif gydâ'r byw.



ENGLISH & LATIN PIECES.

TRANSLATIONS FROM THE WELSH.

THE winter's angry blast is o'er,
The roaring winds contend no more ;
The spring is come with moistening dews,
And clothes the meads with verdant hues.

To bed to-night I'll not repair,
The one I love reclines not there :
I'll lay me on the stone apart ;
If break thou wilt, then break, my heart.

IN WELSH.

Darfu'r gauaf, darfu'r oerfel,
Darfu'r gwlaw, a'r gwyntoedd uchel ;
Daeth y gwanwyn glas eginog,
Dail i'r llwyn, a dól feillionog.

Nid af ddim i'r gwely heno,
Nid yw 'r un wy 'n garu ynddo ;
Mi orweddaf ar y garreg :
Tor, os torri, 'nghalon fwyndeg.

Sweet is the bird's melodious lay,
 In summer morn, upon the spray;
 But from Amelia sweeter far
 The notes of friendship after war.

Another dress will Nature wear
 Before again I see my fair;
 The smiling fields will daisies bring,
 And on the trees the birds will sing;
 But one thing changed will never be,
 That is, my heart, sweet girl, for thee.

Melus iawn yw llais aderyn
 Foreu haf ar ben y brigyn;
 Ond melusach cael gan Gwenno
 Eiriau heddwch wedi digio.

Gwedd holl anian a gyfnewid
 Cyn y gwelwyf fy anwylyd;
 Bydd y meillion ar y meusydd,
 Cân yr adar yn y coedydd:
 Ond un peth ni all gyfnewid,
 Sef fy nghalon i, f' anwylyd.



TO——

If thy soul to nuptial pleasures
Can without reluctance turn,
Let not care for earthly treasures
Make thee these ideas spurn.

Cast thy looks through God's creation,
See the tenants of the sky,
Do they ever dread starvation,
Do they lack their due supply?

Sweet the days when deeply buried
Gold in earth's recesses stood,
And when hungry mortals hurried
To the oak for daily food.

Then did human inclination
With its proper freedom move ;
Thoughts of lucre or privation
Did not damp the paths of love.

Now we measure all perfection
By the weight of sordid gold,
And reciprocal affection,
When it lacks, grows dull and cold.

But a bosom that despises,
All such vanities is mine ;
And to me a hope arises
That the same is truly thine.

MITTERE, amice, tibi semper mihi dulce salutem,
Dulcius at nunquam quam nunc tibi dicere, salve,
Cum faciles prolem Dî donavêre virilem.

Salve, digne pater, sera atque optata voluptas
Te tandem visit, senii solamên amicum ;
Filius aucturus nomen patrisque tuumque,
Atque domûs famam longum laturus in ævum.

Salve, mater amans, salve, quam dulce dedisti
Quamque viro carum jam semper pignus amoris,
Usque tibi similis placidis sit moribus ille,
Ut tibi sunt Charites, illi sint semper amicæ.

Tu quoque, parve puer, salve, dulcissime rerum,
Nec tibi sint curæ, felix, nec turpis egestas,
Nec quos fert aliis tristis fortuna tumultus,
Sed tibi quocunque aspicias En lilia crescunt,
Atque ipsi assurgunt circum cunabula flores.
Non tibi divitias solum fortuna paravit,
Te majora manent. Tibi sunt imitanda parentum
Et nomen clarum et recti sibi conscia virtus.
O sequere, alme puer, sancti vestigia patris,
Sic pietatis amans sic servantissimus æqui,
Sic promptus punire malos, succurrere justis.

Te nascente, puer, latè pax arva tenebat,
Otia tu quæras pacis nec fœdera rumpas,
Et si concutiant patriam dum vita manebit
Tristia bella tuam, leges tu protege sacras,
Consilio dextrâ gentem defende Britannam,
Et sis nostrarum constans fiducia rerum.

Nov. 9th, 1817.

D. EVANS.

CYWYDD Y FESEN.

LATINE REDDITUM.

In tenui nitor, faciles adstate Camœnæ,
 Auspicius vobis parvæ miracula Glandis
 Enumerare volo, & varios quos proferat usus.
 Hanc agiles mundam transverso limite nacti
 Agricolaë condunt terrâ, mandantque sepulchro.
 Haud mora, findit humum, nunc alto Phœbus Olympo
 Miratur, subitò quam terret sidera vultu !
 Lata super valles montesque En brachia tollit !
 Bella gerens ventis & nubes visere tendens.
 Hæc nudata comâ, magno crescente tumultu,
 Frigore non tentata, manet sine crinibus audax.
 Intonet Auster agris, Boreas immurmuret irâ,
 Convocet Eurus atrox rauco clamore procellas,
 Hujus & in pectus luctantia cornua jungant,
 Usque locum servat sedique immobilis hæret.
 Hæc volucres tutos, ventis ululantibus, umbrat,
 Sedibus hîc lætis omnes per membra quietem
 Inveniunt placidam, puerorum & retia temnunt.
 Hic corvi faciunt nidos nec tutior ulla
 Esse potest turris dulces educere natos.
 Ingruat huic unquam tecto si barbarus hostis,
 Sese armis cingunt horrendaque jungere tendunt
 Prœlia, commoti furibundis aëra pennis
 Pulsant & Martem invitant clamore superbo,
 Pro sese atque suis bello certare parati.
 Ecce instar montis celsi nunc æquora circum
 Glans vultu incedens alto, mirabile visu,
 Per mare cœruleum turbam transducit ovantem,
 Et sistit lætam distantibus impigra terris.

Ex utero flammæ et multa latentia tela
Pro patriâ tollens hostes devincit iniquos.
Auditur subitò longè de corpore vasto
Horrificans sonitus, tellus ut dura tremescat,
Territus ipse procul Neptunus diffugit alto.

Extremam ecce Asiam visens Glans inde reportat
Gemmas atque aurum & quæ discolor India mittit,
Non venti rabies cæci tumidumve profundum
Vorticibus rapidis celerantis sistere cursum
Fulmineum pollet; non unquam gurgite vasto
Sorbetur fluctus inter, sed more sagittæ
Emicat ad superas auras lucemque revisit.
Pro quæstu agricolæ persolvit munera grata,
Nam comitatur eum linquat cum carus amicus,
Et terrâ gelidum corpus complectitur udâ.
Quam turpe ignavis glandes dare pabula porcis,
Nominis & famæ cum sint tutamina nostræ,
Non ego sub pedibus glandem dum vita manebit
Prosternam, posthac hanc et violare dolebo.
Dum duræ quercus glandesque per arva manebunt,
Insula nostra mari late dominabitur alto.



EGLURHAD,

A wnaed ar gais rhai o'r Tanygrifwyr anlythyrenog, o rai geiriau yn y Llyfr hwn, a ddichen fod yn annealladwy. Gall rhai o'r geiriau fod yn arferedig mewn un parth, ond yn anarferedig mewn parth arall o'r Dywysogaeth.

Adeg, cyfe	Ffrow, digofus
Adwyth, archoll, niweid	Ffulto, brysto
Addien, dien	Ffur, gwâr
Addoer, oer	Ffun, anadl
Aeth, cur, alaeth	Gâlon, gelynlion
Aerfa, ymladdfa	Giwys, glan, hardd
Anaeth, ofnadwy, erchyll	Goddau, amcan, bwriad
Anelwig, anffurfiedig	Gogoddig, prydweddol
Anwn, uffern	Gwawl, golouni
Annel, magl	Gwammal, anwadal
Arwr, un a wna orchestron uwchlaw	Gweryd, y pridd, y bedd
arter dyn	Gwedgi, y môr
Arwedd, arwain	Gwâr, llarisidd
Argyllaeth, cur	Gwyllon, bwclod
Ban, uchel	Gwell, ciwyl
Bâr, lliâ	Gwrdd, crif
Berth, (rhyw fenywadd, ferth) teg	Gwyrth, gwyrtiaen
Boda, bencud	Gwyrrenig, bywiog
Blwng, (rhyw fen. flog) digofus	Haddef, cartref
Broch, cynddetrigrwydd	Iesin, hardd, mwy : wawr
Brog, rhwygiad	Ioli, deisyfu, gweddio
Bun, morch	Llâd, lles
Cannald, gloyw, diaglaer	Llên, dysgeidiaeth
Cain, teg, hardd-deg	Lleufer, golouni
Call, praidd	Llumman, baner
Callestrawg, fuffiedig o gerrig tân	Madien, mad, anwyl
Celnach, ysgyfarnog	Magnel, gwnn rhyfel
Coledd, amgeleddu	Mirain, hardd-deg
Côr, maintal o gantorion	Miwall, tyner
Croch, uchel-leisiaiwg	Mil (rhif nosog, mlod) anifail
Cyni, cur	Myr (rhif nosog o môr) moroedd
Cywethas, hynaws	Myg, anrhydeddus
Chwal, clau, buan	Nad (rhif nosog, nadau) gwaedd
Digwl, difal	Nend, dian
Diw, diwrnod	Nwyllant anlladrwydd; bywiogrwydd
Dreidi, drygloni	O, os
Dietsor, digyffelyb	Od, eira man
Dledryw, trwyadi	Pau, gwlad, bro
Dlymogawr, diletty	Porth, cymmorth
Dwyre, cyfodi	Prid, drud, gwerthfawr
Edwino, gwywo	Puchiant, chwennychiad
Eirioes, hardd	Rhus, nag, naccad
Eirian, teg	Seirian, hardd
Eirias, crasboeth	byweddyd, astronomydd
Kres, hynod	Ter, neu terydd, pur
Eilio, gwau; eilio cerdd, gwau cerdd	Telediwrydd, harddwch
Esgud, heiniſ, bywiog	Tirf, hoywdeg
Eurbryd, o bryd neu liw'r aur	Toil, lleihan
Ewyn, berem y llif	Tragyfith, tragywydd
Ffawd, hapusrydd	Tud, tir, bro, gwlad
Ffaoth, mwyn	Tywyllwg, tywyllwch
Ffawch, diaglaer	Ymwrio, brwydro, ymladd



